



# Drych y prif oesoedd

<https://hdl.handle.net/1874/379597>

PRIE  
DEDD  
S.





MEL  
2  
1850

1/6 nett

VAN HAMEL  
472

E DONATIONE  
**A. G. van HAMEL**  
PROFESSORIS  
ORDINARIJ IN  
ACADEMIA  
RHENO-TRAIECTINA  
1923—1946







THE present volume is an annotated edition of the 1st part of "Drych y Prif Oesoedd," which forms No. 2 of a series of *Reprints of Welsh Prose Works* of the sixteenth, seventeenth, and eighteenth centuries, for the issue of which arrangements have been made by the Guild of Graduates of the University of Wales. The importance of such works as those of Maurice Kyffin, Morgan Llwyd, and Theophilus Evans for students of the Welsh language and literature is generally recognised; but copies of the original editions in which alone it is possible to study the grammatical and orthographical peculiarities of each author, are in most cases difficult to obtain. It is hoped that the publication of these reprints, which are literal reproductions in each case of the best of the early editions, may to some extent supply this want and extend the limited facilities now enjoyed by students of Welsh prose.

The Guild desire it to be understood that, while they are responsible for the general lines on which the series is issued, and also for the choice of books and of editors, the sole responsibility for the contents of each volume lies with its editor.

June, 1902.

DRYCH Y PRIF OESOEDD

*Reprinted from the Revised Second Edition of 1740*





Je

Ms. Harvel 472

# Drych y Prif Besoedd

(Second or 1740 Edition.)

EDITED BY  
**SAMUEL J. EVANS, M.A.**  
HEADMASTER, COUNTY SCHOOL, LLANGFNI,  
AUTHOR OF  
'THE ELEMENTS OF WELSH GRAMMAR,'  
AND JOINT EDITOR OF  
'CHAUCER'S PROLOGUE AND KNIGHT'S TALK.'

RHAN I.

BANGOR : JARVIS &  
FOSTER. LONDON :  
J. M. DENT & CO. MCMII.



THE  
LIBRARY

OF THE  
MUSEUM OF  
COMPARATIVE ZOOLOGY

AT  
HARVARD UNIVERSITY

12 DIVISION ST.  
CAMBRIDGE, MASS.



## PREFACE.

THIS edition covers only Part i. of the "Drych," and moreover, all the introductory matter of the 1740 edition, with the exception of the author's Welsh Preface, has been omitted.

This course was the more readily decided upon as the complete text of the 1740 edition is now accessible in this series.

As in that edition the text here also is a faithful reprint of that of 1740. We have at last come to realise that the pupil and the general public should be introduced to the actual language and orthography of the makers of Welsh literature, for even their inconsistencies are more educative than any uniformity that may be introduced into their writings by an editor, a uniformity which is only too likely to be falsified by subsequent investigations and riper scholarship.

The notes are probably fuller than may seem desirable, but I have been compelled to go into some detail and write at length because so little has hitherto been done by way of annotating Welsh classics, and my experience as a teacher has convinced me that it is dangerous to take too much for granted in teaching even a somewhat advanced class of students.

I shall be grateful for suggestions that may render the book more useful to the student.

*June, 1902.*

PLATE

THESE PLATES CONTAIN THE  
RESULTS OF THE RESEARCH  
CONDUCTED BY THE AUTHOR  
DURING THE YEAR 1900

THEY ARE PRINTED BY  
THE UNIVERSITY PRESS  
AT THE UNIVERSITY OF  
CAMBRIDGE

THE AUTHOR HAS TO  
ACKNOWLEDGE THE  
VALUABLE ASSISTANCE  
OF MR. J. H. B. IN  
THE PREPARATION OF  
THESE PLATES

THE AUTHOR HAS TO  
ACKNOWLEDGE THE  
VALUABLE ASSISTANCE  
OF MR. J. H. B. IN  
THE PREPARATION OF  
THESE PLATES

THE AUTHOR HAS TO  
ACKNOWLEDGE THE  
VALUABLE ASSISTANCE  
OF MR. J. H. B. IN  
THE PREPARATION OF  
THESE PLATES

## THEOPHILUS EVANS.

THE author of "Drych y Prif Oesoedd" was born in February, 1693, at Penywenallt, a farmhouse on the right bank of the Teifi, about two miles below Newcastle Emlyn.

His grandfather, Evan Griffith Evans, or "Captain Tory," as he was better known in his time, was an ardent royalist, and was at one time imprisoned by Cromwell's command in Cardigan gaol.

Theophilus was educated probably at the Grammar School, Carmarthen, but it does not appear that he proceeded to the University.

In addition to translations of two English books he published in 1715 his first edition of "Drych y Prif Oesoedd," the second edition revised and enlarged appearing in 1740.

In 1717, he was ordained curate of Defynog, Brecknock, and was priested on the same title in 1718. In 1722, he accepted the living of Llandyfriog, not far from his native home, and remained there until 1728, when he was instituted to the living of Llanynys, in Brecknock. This same year, it would seem, he married Alice, daughter of Morgan Bevan of Gelligaled, in Glamorgan. He had five children, three sons and two daughters, one of the latter being married to the Rev. Hugh Jones, incumbent of Llywel. From 1733, and maybe from 1728, he held the chapelry of Ty'r Abad, Llanddulas, jointly with Llanynys. In 1738, he was promoted to the living of Llangamarch, and he resigned Llanynys. The following year, whilst still holding Llangamarch, he was instituted to the living of St. David's, Llanfaes (Brecon), which he held till his death. He did not, however, resign Llangamarch

until 1763, his successor there being his own son-in-law, Rev. Hugh Jones, father of the better known Theophilus Jones, the historian of Brecknock.

He died on September 11th, 1767, and was buried in a corner of Llangamarch churchyard, where afterwards his grandson, Theophilus Jones, at his own request, was also interred.

In addition to his "Drych y Prif Oesoedd," Theophilus Evans published several books and pamphlets, most of which, however, are translations from English. The following is a list of the most important :

1715. "Cydwbybod y Cyfaill gorau ar y Ddaear" (*translation*).

? 1715. "Galwedigaeth Ddifrifol i'r Crynwyr" (*translation*).

1719. "Cydyddiddan rhwng Dau Wr yn ammau ynghylch Bedydd Plant" (*translation*).

1722. "Prydfferthwch Sancteiddrwydd yn y Weddi Gyffredin" (*translation*).

1733. "Pwyll y Pader" (*translation*).

Undated. "Gwth i Iuddew."

"Y Gwir Ddoethineb."

1740. "Llythyr Addysg Esgob Llundain" (*translation*).

1747. "Drych y Dyn Maleisus."

1752. "History of Modern Enthusiasm."

1758. "Llwybr Hyffordd y Plentyn Bach" (*translation*).

1760. "Pregeth yn dangos beth yw Natur ac Anian y Pechod yn erbyn yr Yspryd Glân."

The reader will notice the strictly religious character of his writings. We are told that he was an eminent and eloquent preacher, and we know from his writings that he was an ardent

advocate of purity in morals and orthodoxy in religious views. The only book that does not on the face of it seem of a religious character is "Drych y Prif Oesoedd," and yet I believe that a careful perusal of the text will show that the "Drych" is primarily meant to be a powerful though sober appeal to the people to reflect upon the evils of neglecting the true worship of God, and, to a less extent, the unwisdom of dissensions and paralysing divisions among Christians. The Welsh are to him God's chosen race under the New Dispensation, just as the Jews were under the Old. The histories of the two nations are therefore parallel. In the first part of the text we are repeatedly reminded that the Cymry, however small their numbers, were invincible as long as they were united and believed in God. The moment dissension appeared and they neglected true Christian worship, the Lord gave them over to their enemies; but even then, a return to the true faith was followed by prosperity and the routing of the foe. For this reason alone, if for no other, the book cannot be looked upon as a valuable contribution to historical research. Not that I think the author wilfully perverted the true story, but no writer can approach the history of any nation with the object of establishing a preconceived theory without modifying the interpretation of events in the direction of his own ideas.

From the standpoint of grammar the book is not perhaps without its blemishes; in this or that particular, more especially perhaps in the structure of the sentence, we find superior craftsmen like Elis Wyn and others; but in his felicity of word, phrase, and quotation he seems to rank with the best, while in his wonderful



similes and his skill in telling his story well he appears to me the consummate artist whom generations of his fellow-countrymen have proclaimed to be without a peer among Welsh writers.

# DRYCH

Y

## PRIF OESOEDD

Yn ddwy Ran.

*Rhan I.* Sy'n traethu am hen Ach y *Cymru*, o ba le y daethant allan: Y Rhyfeloedd a fu rhyngddynt a'r *Rbuseiniaid*, y *Brithwyr*, ac a'r *Sacson*. Eu Moefau gynt, cyn troi yn Griftianogion.

*Rhan. II.* Sy'n traethu am Bregethiad a Chynnydd yr Efengyl ym *Mrydain*: Atlawiaeth y Brif Eglwys. Moefau 'r Prif Griftnogion,

---

Gan *Theophilus Evans*, Vicar *Llangamarch* yngwlad *Fuellt*, a *Dewi* ym *Mrycheiniog*

---

*Ystyriais y Dyddiau gynt*, *Blynyddoedd yr hen Oesoedd*. Pfal. LXXVII. 5.

---

Yr Ail Argraphiad yn llawnach o lawer na'r cyntaf.

---

Argraphwyd yn y *Mwythig* tros yr Awdur ar ac werth yno gan *Tho. Durston*.

---

DRYCH

PRIF OESSODD

Yn ddywy Rm

Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm

Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm

Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm

Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm

Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm

Yn ddywy Rm  
Yn ddywy Rm

# At y Darllenydd.

**Y** MAE ynawr o gylch pedair Blynedd ar hugain, er pan brintuwyd y Llyfr hwn y waith gyntaf, pryd nad oeddwn ond cryn iefangc; ac er darllen o honof, ie y pryd hwnnw (yn lled anystyriol ar frys) y Rhan fwyaf o Hanesion printiedig ynghylch hen Fatterion Brydain mewn Llys a Llann, etto wedi'n (ar ol cael Odfa a Chysle i chwilio o amgylch) y cefais i y Rhan fwyaf o Yspsyrwydd mewn hen Groniclau Cymraeg o waith Llaw. Ac felly y Drefn a gymmerais yr ail drô hwn yn adgyweirio ac yn Llyfnhau'r Gwaith, oedd (1) Darllen yr holl hen Hanesion Lladin a Sgrifennodd y Gwyr y tu draw i'r Môr o gylch Brydain yn yr hen amseroedd. (2) I ddarllen hefyd Groniclau'r hen Saeson. 3. Ddarllen Gwaith rhagorol y Saeson dyscedig diweddar. Ac yno, 4, eu cymharu a'i cystadlu oll, un ac arall, a hen Hanesion y Brutaniaid.

Am yr hen Hanesion Lladin, neu Hanesion Gwyr Rhufain (er mai Dynion dyscedig, medrus a deallgar oeddent, etto) prin y gellir eu coelio ar bob Achosion, a hynny am y ddau Reswm a ganlyn. (1) Am mai Gwyr o Rufain na fuont erioed yn y Deyrnas hon, ond ar Chwedl eu Pen-capteniaid, yw y Rhan fwyaf o wyr tu draw i'r Môr, sy yn Sgrifennu yr Hanesion. (2) Am eu bod yn rhy dueddol i Seinio allan eu Clod eu hunain, megis y tyflia Hanes Julius Cæsar, yr hwn a orfu arno droi ei Gefn a diangc, er dywedyd o hono bethau mawr yn ei Lyfr. Dyna yn wir yw anian ac hefyd anffawd pob Cenedl, sef dywedyd yn wych am eu Gwroldeb a'i medr ei hun, a dywedyd yn grâs ac yn chwerw ac yn ddiystyr am eu Gwrthwynebwyr.---Am hen Groniclau'r Saeson, nid oes yn ddilys ond ychydig o Goel ei roddi iddynt,

opportunity

order, method

believe

fortune

certain

iddynt, a hynny am y Rhefwm eglur yma, Am eu  
 bod yn anllythyrennog yn yr amser y bu'r Ymladd-  
 au creulonaf rhwng yr hen Frutaniaid a hwy; Ac  
 am hynny os digwydd i neb feio nad yw'r Hanes a  
 roddir yma am y Rhyfel rhwng y ddwy Genedl ddim  
 yn gwbl gyttun a'r Croniclau Seisnig, gwybydded  
 y cyfryw un, nad oedd bosibl i'r hen Saeson Sgri-  
 fennu Hanes yr Ymladdau cyntaf dros gant a han-  
 ner o Flynnyddoedd; ac am na fedrent air ar lyfr, na  
 darllen na Sgrifennu: Ac felly nid all fod yr Hanes  
 a roddant hwy ond o ben i ben, a chwedl gwlad.--  
 Am waith rhagorol y Saeson dyscedig diweddar, y  
 maent hwy yn wir yn chwilio pethau allan yn ddi-  
 dueddol ac yn deg dros ben, megis Mr. Leland,  
 Arch-efgob Uther, Sr. Henri Spelman, Esgob Still-  
 ingfleet, &c. Ond nid allent hwy ddim farnu am  
 Sgrifennadau Cymraeg.--Ynawr am y Brutaniaid,  
 yr oeddent hwy yn ddilys ddigon yn medru darllen a  
 Sgrifennu [ni a wyddom] yn hir cyn amser Crêd,  
 os nid er amser Brutus y Groegwr o Gaer droea:  
 A phe bai eu Sgrifennadau heb fyned lawer ar goll,  
 diammu y gallai Cymro hyddysc gael amryw ac  
 amryw o hen Hanesion nad yw bosibl iw cael nac  
 yn y Lladin nac yn y Saesonaeg: Ond y mae bagad  
 etto i'w gwelod o Sgrifennadau'r hen Frutaniaid; a  
 fy ngwaith i oedd eu cymharu a'i cystadlu hwy a hen  
 Hanesion y Rhyfeiniaid a'r Saeson; ac hyd byth oedd  
 yn fy ngallu, i bigo allan y Gwirionedd dihwgr. Y  
 mae yma lawer o bethau a adroddir yn y Llyfr hwn,  
 na buont erioed brintiedig o'r blaen mewn un  
 jaith pa un bynnag. Y Pigion hyn [megis trysorau  
 cuddiedig] a ddichlynwyd gyda chryn Lafur a phoen  
 allan o hen Sgrifennadau wedi llwydo gan Oedran.  
 Ac os dim, hwy ynt Harddwch y Gwaith.

Lle mae'r Hanes yn y Bennod gyntaf oll, i Fadoc  
 ap Owen Gwynedd a'i wyr ymgyfathrachu a my-  
 ned yn un Bobl o'r diwedd ag hen Drigolion America  
 4a A 4 ynawr

impartially

searchable

multitude

to choose, to pick

affinity

ynawr er ys chwaneg na phum cant o Flynnyddo edda aethant heibio; ond y mae'n debygol, eu bod yn ymgadw yn Bobl wahan, ac yn cadw eu hiaith hyd y dydd heddyw. Canys y mae'r parchedig Mr. Morgan Jones [Gwr Eglwysig a aned gerllaw Tredeger yn Sir Fynwy] yn dywedyd iddo yn y Flwyddyn 1660 dramwy drwy'r Anialwch nes dyfod o'r dirwedd i wlad gyfanneddol: Yno efe a ddaliwyd yn Garcharor, am fod y Trigolion yn drwg-dybied mai Bradwr a Spiwr oedd efe a ddaethai i edrych noethder y wlad. Yno ar eu gwaith yn myned i'w ddihenyddu ef, fe ddigwyddodd iddo (ac achos da pa ham) drawm-orcheneidio a dywedyd yn Gymraeg, "O Dduw, a ddiengais i allan o gymmaint a chym-maint o Beryglon ar For ac ar dir, ac ynawr gael "fy nharo yn fy nhalcen megis Ci?" Ar hynny fe ddaeth y Cad-pen atto, ac a'i cofleidiodd, ac a ddywedodd wrtho yn Gymraeg, na chai efe ddim farw; ac a fu yn wir yn gystal a'i air; canys efe a'i derbyniodd ef yn garedig, ac a'i dug ef ganddo i'r rhan honno o'r wlad a elwir Dyffryn Pant-teg, lle yr oedd ei Gyd-wladwyr yn byw. Yno y bu Mr. Jones dros bedwar mis cyfan yn fawr ei Barch a'i Roefaw yn eu mysc yn siarad Cymraeg a hwy beunydd, ac yn pregethu'r Efengyl dair gwaith yn yr Wythnos yn y Jaith Gymraeg, megis y mae'r Hanes [weai ei phrintio yn Saesonaeg] yn dangos, ynghyd ag ychydig o Eglurhad a chwanegais i atti.\*

Lle y dywedir yn y Llyfr hwn i'r Rhufeiniaid fen-thyccio amryw Eiriau cymraeg oddiar y Gwylliaid, megis y geiriau Lladin Terra, aer, mare, amnis, mel, mutus, &c. Oddiwrth y geiriau a ganlyn yn ein Hiaith ni, Tir, awyr, môr, afon, mel, mud; fe ddichyn fod rhai yn min-gammu ac yn dywedyd, nad

embrace

to borrow

be able  
(dichyn)

to make a guess

*nad yw hyn ond chwedl-gwneuthur heb Awdurdod: Ond gwybydded y cyfryw un, fod y geiriau hynny erioed ac hyd heddyw yn Faith y Gwyddelod, lle ni chyrhaeddodd oll Arfau y Rhufeiniaid; ac am hynny yn amhossibl iddynt hwy eubenthycio ganddynt; a phrin y trofoddai un oddiwrth y Gwirionedd pe dywedai, fod y Geiriau yma yn y Faith Gymraeg cyn gosod Sylfeini Dinas Rufain erioed. †*

*Nid oes neb yn gwadu, oni fenthyciodd yr hen Frutaniaid amryw eiriau Lladin tra fu y Rhufeiniaid yn rheoli yma, ac etto heb gollu yn llwyr yr hen eiriau priodol i'r Faith. Ac yn wir yr oeddid yn cymmyfcu y ddwy Faith ynghyd yn rhy arw yn yr hen amser hwnnw, megis y tystia y Sgriften-fedd a gafwyd yn ddiweddar yn Eglwys Bryn-biga yng ngwlad Fynwy, yr hon a ofodwyd yno gyntaf ym mhell cyn Dyfodiad y Saeson i'r Deyrnas hon—Y Sgriften yw hon, cymmysc o Gymraeg a Lladin.—Noli cloddi yr Ellrhod Caerlleon, Advocad Llawnhædd Llundain, a Barnwr Bedd Breint apud Ty'n ei Aro, Ty Avale; Selif synwybr Sumæ sedum usk, val kylche deg kymmyde; Doctör kymmen, lleua Loer in i llawn oleuni.—A hyn yw'r ystyr [yn ol Barn y dyscedig] yn Lladin llawn.—Noli effodere Professore[m] Caerlegionensem, Advocatum dignissimum Londinensem, & Judicem sacri Privilegii apud Fanum Aaronis & Fanum Avaloniæ; Solomonem Astrologum summæ Civitatis usk, tenentis circiter decem Comotos; Doctorem Eloquentem, Lunam lucidam ni pleniluno lucentem.*

*Nid oes gennyf ddim i ddywedyd chwaneg na bod yma amryw ac amryw a bethau newydd nad oedd ddim yn yr Argraphiad cyntaf; yr wyf yn tybied fod*

fod y *Faith ynawr yn rhwydd ac yn ddeallgar drwy Wynedd a Deheu-dir; a chweddi ei thrwsio (os harddwch yw hynny) ag amryw Gyffelybiaethau cynnefin, ac hawdd eu hystyried. Yr wyf yn gobeithio fod yr Hanes oll mor gywir ac mor llawn hefyd ar a ellir ei ddisgwyl dros yr amser yr wyf i yn myned drosto; canys er nad yw maintioli y Llyfr ond bychan, etto pe buasai wedi ei brintio a Llythyrennau breision, ê fua-sai (o leiaf) o ddau cymmaint ei Faintioli nag yw ynawr. Y fath ag ydyw, derbynniwch, es, attolwg, megis yr Anrheg oreu a chywiraf o Hanes yr hen Frutaniaid a feidr yr Awdwr anheilwng.*

*Size  
-braisg? (large)*

THEOPHILUS EVANS.

*Dydd Calan-Mai*

1740.





## Beiau yn y Printiad.

P. 10. l. 9. yn lle; dar. *i.* l. 10 yn lle *a'r* dar. *a'n*.  
p. 22. l. 17 ar ol *Gwyddelad.* dod : p. 27. l. 6. yn  
lle *canoig*, dar. *canolig*. p. 29 l. 9 yn lle *talagrwydd*,  
dar *taogrwydd*. p. 31. l. 13. yn lle Hfaid dar. *Haid*.  
p. 24. l. 10 yn lle *Deftadawg*, dar, dreftadawg.  
p. 37. l. 17. yn lle *chwibl-Sar*, dar. *chwibl-fur*. p.  
38. l. 23. yn lle *caesodd* dar. *laesodd*. p. 64 yn lle ;  
dar. *i.* 66. l. 16. bwrw ymaith &c. p. 69 yn lle  
*rhedant*, dar. *ehedant*. p. 76. l. 19 yn lle *o* dar. a. p.  
87 L. 4. dar. *Maes-garmon*. p. 90. l. 27. dar. *Mac*  
*Dermot*, *mac brian*, mac mahon. p. 98 dar. *mac*  
*Flan*. p. 128. l. 12. yn lle *hen* dar. *hon* p. 128. l. 17  
yn lle *lanog*, dar. *watllog*. p. 130. yn lle *yr hen enw*  
*cyffredin yw*, dar. *yr hen enw yw*.

# Drych y Prif Oesoedd.

## R H A N I.

### P E N I.

*Cyff-genedl y Cymru a'i Dyfodiad cyntaf i'r  
Ynys hon.*



**G**WAITH mawr, ond Gwaith *Sakw* achwith, yw adrodd Helynt y Cymru; eu Hafwydd a'i Trafferthion Byd, ym mhob Oes a Gwlad y buont yn preswyllo ynddi, er pan gymmyscwyd yr Iaith yn *Nhwr Babel*. Canys onid peth *galarus* a blin, yw adrodd mor anniolchar oeddent i Dduw, mor chwannog i wrthryfela yn ei erbyn, ac mor barod i Syrthio i Brofedigaeth y *Byd*, y *Cnawd*, a'r *Cythraul*, yr hyn a *barodd* eu bod mor *anffodiog*, ac *astwyddiannus*? Ac o herwydd i'n Hên deidau ninnau yfed *Anwiredd fel dwfr*, bu gwir y Ddi-hareb, *Dinistr fydd i weithwyr anwiredd*. Dihar. 21. 16. Ac felly nynt (fel amryw Genhedloedd eraill o'r diwedd) wedi ein Pechodau addfedu, *a adawyd yn ychydig bobl, lle yr oeddem fel Sêr y nefoedd o luosogrwydd, o herwydd ni wrandawfom ar lais yr Arglwydd ein Duw*. Deut. 28. 62.

NID oes yn wir un Genedl dan Haul wedi cadw ei *Gwlad* a'i *Hiaith* o'r hen amser gynt yn *gyfan a dilwgr*; nac oes un wedi cadw ei Braint yn ddigoll ac yn ddigymmysc --- Y mae'r *Juddewon* er ystalm yn achwyn, *Wele ni heddyw*  
B yn

*vile sinister  
misfortune*

*flesh*

*damage  
Complain*

yn weifson, ac am y wlad a roddaiſt i'n Tadau ni, i fwytta ei ffrwyth a'i daioni, wele ni yn weifson ynddi. Nehem. 9. 36. Canys y mae'r Tyrciaid wedi goresgyn gwlad *Judea*, ac nid oes gan yr *Juddewon* gymmaint a lled troed o feddiant ynddi. --- Y mae'r *Groegiaid* hwythau ( y rhai a fuont yn yr hen amferoedd yn *Ben* ar y *Byd*) wedi gwaſgaru (megis yr *Juddewon* hwythau) hyd wyneb y *Gwledydd*; a'i *Tiroedd* a'i *Teyrnasoedd* ehang ym meddiant y *Twrc*.---Y mae'r *Rhufeiniaid* hefyd ( y rhai o gylch amfer ein *Harglwydd Jefu*, oeddent *Feistraid* ar y rhan fwyaf o'r *Byd* ag oedd adnabyddus y pryd hwnnw) y maent ynawr, meddaf, er ys llawer cant o *Flynnydoedd* maith wedi darfod am danynt, *hwythwy* a'i *Haith* hefyd, (ond a geffir mewn *Llyfrau*), a'i *Hawdurdod* fawr gynt wedi ei *llarpio*, megis *Burgyn* gan *Adar Ysglyfaeth*. --- Ond yr ym ni etto (*Gweddillion* yr hen *Frutaniaid*) yn trigo mewn *Cwrr* o'r *Ynys fawr hon*, y buom gynt yn *Feistraid* o'r *naill gwrr* i'r *llall* o honi; ac yn cadw ein *Hiaith* gyntaf; os nid yn berffaith gwbl, etto yn *burach* nag un *genedl arall* yn y *Byd*. *Eu Hiaith* a *gadwant*, *eu tir* a *gollant*, ebe *Myrddin*.

YR oedd yr *Hen Bobl* yn yr Oesoedd gynt mor *anyfys* am *Ddechreuad Trigolion* cyntaf y *Wlad hon*, fel nad oedd ganddynt na *Medr* nac *amcan* tuag at hynny.---Yr wyf yn cofio am un *Awdur Seisnig* (a eilw'r *Cymru Gwilym Bach*) yr hwn a ddywed "gael mewn *Ogof* yn *Lloegr* " yn amfer y *Brenin Stephan*, *Fachgen* ac *Her-* " *lodes* o *Liw* gwyrdd dieithr anferthol, anhebyg " i un *Dyn* arall a welwyd erioed yn y *Byd* " hwn; ac mai'r *Opiniwn* cyffredin oedd, iddynt " *dreiddio* i *fynu* drwy *Dwll* o *Eigion* neu *Berfedd* " y

To read  
carrion  
prey

ignorant  
guess

girl

penetrate

"y

“y ddaear, fel y mae 'r Awdur yn bur ddoeth yn adrodd yn helaeth. (a)

ER ynfytted yw y fath hen Chwedlau gwallgof a'r rhai hyn, etto nid oedd *Rhai* (ac yn cymmeryd arnynt yn wyr dyscedig hefyd) ym myf y *Groegiaid* a'r *Rhufeiniaid* un tippyn gallach yn eu traws amcan anniben ynghylch *Trigolion cyntaf* yr Ynys hon; canys Barn Rhai o honynt yw, iddynt *dyfu* allan o'r Ddaear, megis *Bwydlyffant*.

*Shepid*  
*mushroom*

Y mae e'n wir yn orchwyl *dyrus* ddigon i chwilio allan Ddechreuad ein Cenedl ni yn gywir ac yn ddiwyrgam, a'i holrhain o'i *Haberoedd* i lygad y *Ffynnon*. Ond mi a amcanaf i fymmud ymaith y *Niwloddiar* y ffordd, fel y bo ein *Taith* at y *Gwirionedd* yn eglur.

*labour intricate*

WEDI i *Adda* droffeddu Gorchymmyn Duw, a myned tua'i *Eppil* yn ddarostyngedig i Bechod, amlhaodd *Drygioni* dynol ryw gymmaint, ac y bu *edifar gan yr Arglwydd wneuthur o honaw ddyn*. Ac yn y flwyddyn, er pan greawdd Duw y Byd 1655, y danfonodd yr Hollalluog *Ddiluw* cyffredinol i fodd Dyn ac anifail.----Ond *Noah* gyfiawn (ac er ei fwyn ef ei Deulu) a gafas ffafr yn ei olwg, ac a achubwyd rhac Gormes y *Dwfr-diluw* mewn Llong a alwn ni yr *Arch*.

*offspring*

WEDI achub *Noah* fel hyn, a dyfod ag ef i genhedlaethu *Tô* megis mewn *Bydarall*, cydfwriad-

*generation*

B 2

odd

(a) *Gul. Niubrig. Rer. Anglio Lib. 1. Cap. 27.*

odd ei Eppil, ym mhen Talm o amfer (sef ynghylch *can mlynedd* ar ôl y Diluw) i adeiladu *Twr a'i nen byd y Nefoedd*. Gen. 11. 4. (b) Mae rhai yn tybied mai'r achos a'i cymbhellodd i ymosod at y fath *Waith aruthrol* a hwn, ydoedd, rhac i Ddiluw eu goddiwes eilwaith, a'i llwyr ddinystrio oddiar wyneb y Ddaear; a rhac ofn hynny iddynt adeiladu y *Twr a'r ddinas* i'w cadw yn ddiogel rhac Lliferiant y Dyfroedd. *Gwnawn i ni enw*, ebe hwy, *rhac ein gwascaru rhyd wyneb yr holl Ddaear*. Er mai Barn eraill yw hyn, eu bod hwy ynawr ar eu Taith tua *Gardd Baradwys*; ac oblegid fod y wlad o angylch mor hyfryd, yn llawn o Beraroglau a Llyliau a ffrwythau a phob peth arall dymunol, chwennychasant i aros yno, hwy a'i Eppil dros fyth, ac ar hynny iddynt adeiladu y *Twr* ar ddinas rhac eu *gwascaru* oddiyno. (c).—Ond pa fodd bynnag yw hynny, ni adawodd yr Arglwydd iddynt ddwyn eu Gwaith i ben, oblegid fe a gymmyscodd eu Hiaith, fel na ddeallai'r naill beth a ddywedai y llall. Os dywedai un wrth ei Gyfaill, *Moes i mi Garreg*, fe estynnid iddo ond odid *Gaib* yn lle carreg. Os dywedai un arall, *cadw y Rhaff yn dynn*, y llall a'i *gollyngai* hi yn rhydd. Fel hyn, yr Jaith yn gymmysc, ac megis yn *Estron* y naill i'r llall, nid allasent fyth fyned a'i Gwaith yn y Blaen.

NID oedd ond un Dafod-leferydd o'r blaen drwy yr Byd mawr, (sef yr *Hebraeg* yn ddilys ddigon,) Eithr y Ddaear, ag oedd cyn hynny o un *jaith* ac o un *Ymadrodd*, a glywai ei Thrigolion ynawr

---

(b) *Vid. Shuckford. vol. I. p. 106.* (c) *Robins. Annal. Mundi. Lib. 2. p. 86.*

*to come up with*

*cord*

ynawr yn fiarad *deuddeg* *Faith a thri-ugain*; (*d*) canys i gynnifer a hynny y mae hên Hanefion yn mynegi ddarfod cymmyscu y *fam-jaith* yr *Hebraeg*. --- Ac yn y Terfysc mawr hwnnw, llawen jawn a fyddai gan un gyfarfod a'r Sawl a fai'n deall eu gilydd; A hwy a *dramwyent* yma ac accw, nes cael un arall; ac felly *bob un ac un*, i ddyfod ynghyd oll, ac aros gyda'i gilydd yn gynnifer *Pentwrr* ar wahan, y sawl ag oeddent o'r *un Dafodiaith*: A phwy oedd yn liarad *Cymraeg* a dybiwch chwi y pryd hwnnw, ond *Gomer* mab hynaf *Japhet*, ap *Noah*, ap *Lamech*, ap *Methusala*, ap *Enoch*, ap *Jared*, ap *Malaleel*, ap *Cainan*, ap *Enos*, ap *Seth*, ap *Adda*, ap *Duw*.

*to go about*

*heap*

DYMA i chwi *Waedolaeth* ac Ach yr hên *Cymru*, cuwch ar a all un *Bonedd daearol* fyth bosibl i gyrrhaedd atto, pe bai ni eu Heppil yn well o hynny. Ac y mae'n ddilys ddiammedu gennyf nad yw hyn ond y Gwir pur loyw; (*e*) canys 1. y mae Hanefion yr hen Oesoedd yn mynegi hynny; a pha Awdurdod chwaneg am unrhyw beth a ddigwyddodd yn y dyddiau gynt na bod *Cof-lyfrau*, neu *Groniclau*'r Oesoedd yn tyftio hynny. 2. Y mae holl *Ddyscedigion Crêd* (gan mwyaf ynawr) megis o un genau yn maentumio hynny. 3. Y mae'r *Enw* y gelwir ni yn gyffredin arno, Sef yw hynny, *Cymro*, megis *Lifrai* yn dangos i bwy y perthyn *Gwas*, yn yspysu yn eglur o ba le y daethom allan; canys nid oes ond y *Dim* lleiaf rhwng *Cymro* a *Gomero*, fel y gall un dyn, ie a *hanner llygad* ganfod ar yr olwg gyntaf.

*consanguinity*

HEBLAW

(*d*) *Orig. Saer. L. 3. C. 5.*

(*e*) *vid Pezron Antiq. of Nations Lib. 1. Cap. 3.*

HEBLAW hyn, yr ym yn darllen *Gen. 10. 5.* Ynghylch Eppil *Japhet*, O'r rhai hyn y rhannwyd *Ynysoedd y Cenhedloedd*; lle wrth *Ynysoedd y Cenhedloedd*, y meddylir yn ddiau *Brydain fawr* ac *Fwerddon*, os nid y rhan fwyaf o *Ardaloedd Eurôp.* Ond am *Sem* a *Cham* y dywedir yn unig, *Dyma feibion Sem a Cham, yn ol eu Teuluoedd wrth eu Hieithoedd, yn eu gwledydd, ac yn eu cenhedloedd.*— Oddiyma, y mae'n hawdd i gafglu, fod cynnifer o *Fam-jeithoedd* yn nhwr *Babel*, a *Cenhedlaeth* hyd wyneb yr holl ddaear. O *Fam-jeithoedd*, meddaf, y rhai fy hên a rhywiog a bonheddig: Nid oes oddieithr daudddeg Gwlad o holl *Ardaloedd Europ (f)* yn fiarad mam-jaith ddilwgr. Nid yw y lleill eu gyd ond *cymmysc*; megis y *Saes'neg*, *Ffrangeg*, *Hispaneg* &c.

AR ol i *Gomer* a'i *Gyd-tafodogion* ddyfod o *Asia* i *Eurôp*, y mae'r hen Sgrifennyddion yr helaeth rhagorol yn Sôn am eu *Gwroldeb* a'i *Medr* i drin *Arfau Rhyfel*; canys dyna agos yr unig *Gelfyddyd* ag oedd yn gofod *Synwyr* yr hen *Bobloedd* ar waith; ag yn enwedig ar ol eu dyfod i wladychu yn nheyrnas *Ffraingc*; Canys ein *Hynafiaid* ni, yr *Hen Gymru*, oeddent yn ddilys ddiammedu y *Trigolion* cyntaf yn *Ffraingc* yn yr amferoedd gynt, sef ynghylch amfer *Christ Jêsu* ar y ddaear, a chyn hynny, fel y dangosaf iflod.—Digon gwir, yr oedd y *Rhufeiniaid* hwythau o gylch amfer ein *Hiachawdwr* yn *Wyr mawrion*, wedi gorefgyn amryw *Wledydd* wrth *Rym* y *Cleddyf*, ac yn wir a *Llywodraeth fawr* jawn ganddynt ar *Fôr* ac ar *Dir*. Ond nid oeddent ond cynnifer o *Grwydredigion*

---

(f) *Vid S. Purch. Pilgr. Vol. 1, L. 1, Ch. 12,*

Grwydredigion Ladronach ar y cyntaf, ac yngwafanaeth y *Cymru*, y rhai oedd Feiftraid arnynt. Ie, ar ol eu myned yn gadarn yn y byd, ac yn dechreu *hyrddu* eu Cymmydogion gweinion, etto gorfu iddynt ymoftwng i Gleddyf dau *Gymro*, a dau Frawd hefyd, *Beli* a *Brân* meibion *Dynwal moel-mud*. (g) Nid oedd Galon yngwyr *Rhufain* Sefyll yn wyneb y Brodyr enwog hyn, eithr yn cilio idd eu *Llochesau*, fel y gwelwch chwi Lû o *Fechgynnos* yn *ffoi* oddiwrth *Darw* gwyllt a fai'n *cornio*.

O hyn y mae fod cymmaint o Eiriau *cymraeg* yn y Iaith *Ladin*, o herwydd fod y *Lladinwyr* gymmaint o amfer o dan jau y *Cymru*; ac y mae'n naturiol i dybied, y bydd y *Gwanna'* yn benthycio gan y *Trecha'*; a bod y *Gweifson* yn dynwared Jaith y *Meiftraid*.----- Cam Synnied erchyll yw tybied i ni fenthycio y fath Liaws o Eiriau oddiwrth y *Rhufeiniaid*, (h) fel y mae *Pezron* ddyfcedig wedi profi y tu hwnt i ammeu neb a fydd ymoftwng i *Reifwm*. (i).—Nid ydys yn gwadu, na fenthyciodd ein Henafiaid amryw Eiriau *Lladin* tra fu y *Rhufeiniaid* yn rheoli yma ym *Mhrydain*, a hynny oedd agos i bum cant o flynyddoedd, sef o amfer *Ful-Caisar* hyd y Flwyddyn o Oed Christ 410. Ond nid yw hynny ond ambell air, ac etto heb lwyr golli yr *hen air priodol* i'i Jaith; megis i enwi mewn un neu ddau; *Yspeilio* sydd air *Lladin*, ond y mae'r hen air fyth ynghadw, Sef yw hwnnw, *Anrheithio*: Gair *Lladin*

---

(g) *Galf Monem. L. 3. C. 8, 9.* (h) *Vid Camd. Britan. Ed. Gibs. & Llwyd p. 658, 659.* (i) *Antiq. of Nations.*



in yw *Rhâd*, ond y mae'r hen air heb fyned ar goll, fef yw hwnnw, *Olowyn*. (k)

*Belians*

*Made-up tales*

*rumour, report*

*affirm*

Onid yma yr wyf yn barod eufys i goelio, y bydd rhai yn dywedyd, nad yw y rhai hyn ond *Chwedleu gwneuthur*, fod y Cymru unwaith gynt yn byw yn *Ffrainge*, ac mor enwog yn y Byd am eu *Gwroldeb*. Ond er anhebycced y tybir hynny ynawr, nid oes er hynny un peth wirach mewn *Histori*. Canys, nid; Son fod ym myfyr y ddwy Genedl (Sef, Trigolion *Ffrainge*, a'r *Hynafiaid* ninnau o'r *Ynys hon*) yr unrhyw Ddefodau ac Arferion, yr unrhyw Grefydd ac adnabyddiaeth o'r Duwdod; yr unrhyw fath o offeiriaid a *Derwyddon*; I adael hyn heibio, meddaf (ac etto yr ydys yn haeru llawer peth ar waeth *Rhesymmau*) y mae *Jul-Caisar*, yr hwn a sgrifennodd agos er ys dau-naw Cant o Flynyddoedd a aethent heibio, a'r hwn a fu dros ddeng Mlynedd yn rhyfela yn *Ffrainge*, ac a fu ryw ychydig ym *Mrydain*;) y mae *Jul-Caisar*, meddaf yn dywedyd ar ei air yn oleu, Fod *Tafodjaith* y ddwy *Deyrnas yn bur debyg i'w gilydd*, hyd ddim a allasai efe farnu wrth glywed *Trigolion y naill Deyrnas a'r llall yn siarad*. (l) Y mae Awdwr arall a sgrifennodd o gylch hanner cant o Flynyddoedd ar ol *Jul-Caisar*, (m) ac un arall o gylch deugain mlynedd ar ôl hynny (n) yn tyftio ill dau yr un peth, *nad oedd ond y dim lleiaf o wahaniaeth rhwng Jaith y naill Deyrnas a'r llall*, fef rhwng Jaith Trigolion *Ffrainge*, a'n *Hynafiaid* ninnau y rhai oeddent yn byw y pryd hynny yn

(k) *Vid Dav. Praef ad Lexic.* (l) *Cæs. Com. L. 5. p. 80.* (m) *Strabo. Geogr. p. 405.* (n) *Tacitus. Vit. Agricob. p. 637.*

yn *Lloegr*. — Fe allasai fod ond odid gymmait o wahaniaeth, a rhwng *Gwynedd* a *Deheudir*, neu fe allai ryw ychydig chwaneg. Ond beth er hynny? Diammeu, mai'r un Bobl oeddent o'r Dechreuad.

HEFYD, heblaw *Cyffondeb yr Jaith*, ystyried un dyn nessed yw *Teyrnas Ffrainge* i *Loegr*; nid oes ond *Cainge o Fôr* rhyngddynt, lle y gall Dyn a llygad craffus ganfod o'r naill *Lan* i'r *Lan* arall ar ddiwrnod disclair. — Ynys *Brydain* gan hynny yn ddiammeu a *boblwyd* ar y cyntaf allan o'r wlad nesaſatti, megis y *poblwyd yr Fwerddon* allan o'r wlad hon.

OND yma, y mae i ni ddal fulw, mai nid *Ffrainge* oedd *Enw* y wlad a elwir felly yn gyffredin ynawr; Nage, fe a'i galwyd hi *ffrainge* gan y *Trigolion* sy ynawr yn aros ynddi; y rhai a hwy yn *Barbariaid ysgymmun* ar y cyntaf, a orefgynnasont y wlad (drwy ladd a llosgi yr hen *Drigolion*) o gylch yr un amser, ac y darfu i'r *Saesſon* (*Barbariaid* eraill) orefgyn drwy *frâd* yr *Ynys hon* oddiar yr hen *Frutaniaid*. Eithr *Enw* y wlad ar y cyntaf oedd y *Gelli*; oblegid ei bod hi yn wlad hyfryd, a rhagorol, a ffrwythlawn a choediog; megis y gwelwn ni amryw *Lesedd* etto *Yng-hymru* o'r un *Enw*. Yr hen *Drigolion* cyntaf a alwent eu hunain y *Gwyddelod*; \* weithiau y *Gwylliaid*; \* ond yr enw cyffredin yn *Llyfrau Hanefion* yw y *Cymru*. †

Y mae *Traddodiad* hyd y dydd heddyw ym-  
C mysc

\* *Celtae*. \* *Galli*. † *Cimbri*.

myfc y werin bobl (er nad ydys yn edrych ar hynny ond megis *hen Chwedl*) fod y *Gwyddelod* ryw bryd yn yr amferoedd gynt yn *Frodorion* Cymru a *Lloegr*: Ond y mae'n ddilys ddigon eu bod hwy, megis nad oeddem ni a hwythau ar y cyn-taf ond un Genedl. Ac yn wir, prin y gall un dybied amgen ond o'r un *Dorllwyth* y daeth y ddwy Gendl allan, (sef y *Cymru* a'r *Gwyddelod*) yr hwn a ystyrio y *Lliaws* geiriau fydd o'r un ystyr gyda ni a hwythau. A phwy bynnag a ddarlleno y *Gramadeg Gwyddelaeg*, a wèl fod Tueddiad a natur eu Hiaith hwy yn gofyn *newid Llythrennau* yn nechreu'r Geiriau, yn gwbl gyffon a'r *Gymraeg*.

PWY bynnag a ddeil Sulw ar lawer o hên Enwau Afonydd a Mynyddoedd drwy y Deyrnas hon, ni chaiff efe le i ammeu nad y *Gwyddelod* oedd y *Trigolion*, pan roddwyd yr *Enwau* hynny arnynt. — Fe wyr pawb mai Enw Afon fawr Ynghymru yw *wyfc*; ac nid yw *Con-wy*, *Tywi*, *Wy*, ond gwahan Enwau at yr un ystyr. Ie Enw yr Afon bennaf yn y Deyrnas, yw, *Tafwys*, ¶ hynny yw, Cydiad *Tâf* ac *wyfc* ynghyd. Ni wyr neb gyda ni beth yw ystyr y gair; Ond nid oes gan *Wyddelod* yr *Fwerddon* un gair arall am *Ddwfr* ond *Vife*. Ac megis y mae'r Geiriau, *Coom*, *Dôr*, *Stour*, *Tam*, *Dove*, *Avon*, yn *Lloegr*, yn cyfaddef nad ynt amgen na'r geiriau Cymraeg, *Kwmm*, *Dwr*, *ys-dwr*, *Tâf*, *Dyfi*, ac *Afon*, a thrwy hynny yn dangos mai y *Cymru* oedd yr hen *Frodorion*: Felly y mae'r geiriau *Wyfc*, *Llough*, *Cinwy*,

¶ *Thamesis* nid yw Ask, Esk, Ax. Ex (*Enwau* bagad o Afonydd *Lloegr*) ond yr un peth.

*Cinwy, Ban, Drym, Llechlia*, ac amryw eraill yn dangos fod y *Gwyddelod* yn preswyllo gynt hyd wyneb y wlad hon; canys ystyr y Geiriau yn ein Hiaith ni, ydyw, *Dwfr, Llyn, Prif afon, Mynydd uchel, Kefn, Maenllwyd*.—Pwy fyth a wyr achos am alw *Kyt defaid* yn *Gorlan*, oni wyr hefyd fod y *Gwyddelod* yn galw *Dafad* yn eu hiaith hwy *Kaor*? Neu pa ham yr ydys yn galw *Gwartheg-godro* yn wartheg *Blithion*, oni wyr hefyd, mai *Blithuin* yw *godro* yn y Jaith honno? (o)

*Nid all neb ddeall y Gymraeg yn jawn heb, wyddelaeg. Pwy a ddeallai ystyr Traeth-Saith yn Sir Aberteifi, oni ddeall wyddelaeg hefyd? Canys ystyr y gair yw Traeth Bâs. Eithon yw enw afon yn Sir Faesyfed, y gair Gwyddelaeg yw Aith-afon, h. y. Afon redegog wyllt.*

*Nid llai Gwaith na gwneuthur Geir-Lyfr bychan a fyddai ofod i lawr yr holl Eiriau o'r un Sain ac ystyr yn y Faith Gymraeg a'r Wyddelaeg. Bydded yr ychydig a ganlyn yn lle Esampl.*

Cymraeg	Gwyddelaeg.	Cymraeg	Gwyddelaeg.
Afu	<i>Aef</i>	Cenedl	<i>Cinel</i>
Aithin	<i>Atin</i>	Cidwm	<i>Cidwm.ie Cadnaw.</i>
Afal	<i>Aful</i>	Cil-drws	<i>Cul dorus</i>
Anadl	<i>Anal</i>	Clâf	<i>Clâf</i>
Amfer	<i>Aimfir</i>	Cleddyf	<i>Clôiddef</i>
Ardderchog	<i>Oirddeirch</i>	Cogel	<i>Cuigel</i>
Afen	<i>Afna</i>	Cnau	<i>Cnu</i>
Aur	<i>Or.</i>	Crybach	<i>Crabach</i>
Bara	<i>Aran</i>	Croen	<i>Croian</i>
Bastard	<i>Bastardd</i>	Crib	<i>Criban</i>
Blwyddyn	<i>Bliawyn</i>	Crogi	<i>Crochu</i>
Bloneg	<i>Blonig</i>	Crwth	<i>Crwith</i>
Byddar	<i>Boddar</i>	Cwyr	<i>Coir</i>
Bord	<i>Bordh.</i>	Cwyno	<i>Cwynif</i>
Brû	<i>Brû</i>	Cyffion	<i>Cleiffion</i>
Bôn Coes	<i>Bôn Côsb</i>	Dall	<i>Dall</i>
Benyw hên	<i>Bun hean</i>	Dalen	<i>Dailen</i>
Brân	<i>Brân</i>	Deri	<i>Dair</i>
Brammu	<i>Brimmo</i>	Dlyed	<i>Dlia</i>
Byw	<i>Beo</i>	Dof	<i>Tâf</i>
Bywyd	<i>Biad</i>	Dyn	<i>Duin</i>
Bwa	<i>Boha</i>	Drwg	<i>Drach</i>
Bwth	<i>Both</i>	Dû	<i>Dû</i>
Cach	<i>Cac</i>	Draenog	<i>Graenog</i>
Cerrig	<i>Carrig</i>	Dwrn	<i>Dorn</i>
Ceraint	<i>Caraid</i>	Dwfn	<i>Dofuin</i>
Celyn	<i>Culin</i>	Edn	<i>Ean</i>
Cerbyd	<i>Carbod</i>	Eiddiorwg	<i>Eiddeau</i>
Cî-hir	<i>Cû hêr</i>	Eog	<i>Eo</i>

Eingion

Cymraeg	<i>Gwyddelaeg.</i>	Cymraeg	<i>Gwyddelaeg.</i>
Eingion	<i>Inneon</i>	Mab glân	<i>Mac glann</i>
Esgud	<i>Esgaid</i>	Mantach	<i>Mantoch</i>
Ffroen	<i>Fffron</i>	Madyn	<i>Madah</i>
Gardd	<i>Garda</i>	Mall	<i>Mall</i>
Gafael-dân	<i>Gafal tein</i>	Marw my	<i>marf moddia</i>
Garfan	<i>Gairman</i>	ddau mab	} <i>Macfa</i> }
Gafar	<i>Gafar</i>	Marwnad	
Glas	<i>Glas</i>	Marchog	<i>Marcach</i>
Glyn	<i>Glen</i>	Maidd	<i>Meadd</i>
Glin doft	<i>Gluin dos</i>	Mân	<i>Mên</i>
Glynu	<i>Glenu</i>	Mêl	<i>Mil</i>
Gloyn	<i>Gloin</i>	Més	<i>Mês</i>
Gwallt glân	<i>Folt glann</i>	Memrwn	<i>Memruin</i>
Gogles	<i>Giglif</i>	Melin	<i>Muilen</i>
Gwêr	<i>Geir</i>	Mollt	<i>Mollt</i>
Gwydd	<i>Gedd</i>	Moch	<i>Moc</i>
Gweddi	<i>Gwyddif</i>	Môr	<i>Muir</i>
Gwyddelaeg	<i>Goiddelg</i>	Mysc	<i>Mesc</i>
Ifel	<i>Ifeal</i>	Mud	<i>Muit</i>
Law-deheu	<i>Law-deha</i>	Mynydd	<i>Monydd</i>
Leder	<i>Leathir</i>	Nain	<i>Nain</i>
Llefaru	<i>Llafairt</i>	Nef	<i>Nef</i>
Lliain	<i>Llian</i>	Nerth	<i>Nert</i>
Llô	<i>Llô</i>	Niwl	<i>Neul</i>
Llofci	<i>Lloifci</i>	Neidr	<i>Nathair</i>
Llys	<i>Llis</i>	Dynan ne-	} <i>Denau nao-</i> }
Llydan	<i>Llethan</i>	wydd eni	
Lludw	<i>Lluoth</i>	O buan	<i>O ban</i>
Llyfiau	<i>Llyffan</i>	Pwll	<i>Poll</i>
Llong	<i>Llong</i>	Pobl	<i>Poibliach</i>
Llygod	<i>Llychod</i>	Rhannu	<i>Rannan</i>
Llyfr	<i>Leafir</i>	Rhawn	<i>Roin</i>
Mawr	<i>Môr</i>	Rhin	<i>Run</i>
Maer	<i>Maor</i>	Rhi	<i>Ri</i>

Cymraeg	Gwyddelaeg	Cymraeg	Gwyddelaeg.
Rhef	<i>Reif</i>	Tarw	<i>Tarw</i>
Rhudd	<i>Ruaidd</i>	Tid	<i>Têd</i>
Sâl	<i>Sal</i>	Tês	<i>Tês</i>
Saer	<i>Saor</i>	Tew	<i>Tiw</i>
Sgybor	<i>Sgibol</i>	Toes	<i>Taos</i>
Scubo	<i>Scuabo</i>	Torrog	<i>Torroch</i>
Sgefain	<i>Sgeafain</i>	Tonn	<i>Tonn</i>
Sgian	<i>Sgian</i>	Trais	<i>Treis</i>
Sgubell	<i>Sguab</i>	Trwm	<i>Trom</i>
Sibwl	<i>Siobal</i>	Truan	<i>Truhan</i>
Sopen	<i>Soipin</i>	Troed	<i>Troid</i>
Spleddach	<i>Spleddach</i>	Tri gwr	<i>Tri wr</i>
Sgolpen	<i>Sgolb</i>	Ty	<i>Tê</i>
Swch	<i>Soc</i>	Tylau	<i>Tylah</i>
Stôl	<i>Sdôl</i>	Twlc	<i>Tolch</i>
Sudd	<i>Suf</i>	Twrch	<i>Torc</i>
Taradr	<i>Tarar</i>	Wayn	<i>Wain</i>
Tafg	<i>Tafga</i>	Wy	<i>Hwi.</i>

*business*

OND er hyn oll ni ddeall *Cymro* un tippyn mo *Wyddel* yn fiarad, na *Gwyddel* chwaith un *Cymro*. Y mae amryw Achosion am hyn, megis (1) yr *Hir amfer maith* y maent yn *ddwy Genedl* wahanol, heb ddim *Cyfeillach* neu *Fafnach* teuluaidd rhyngddynt. Y mae *Amfer* o fesur *cam* a *cham* yn gosod wyneb newydd ar bob peth, ond yn enwedig ar *Jeithoedd*. Nid i *Son* am *Bobloedd* pellennig, dyna'r *Cymru* y rhai a aethont i'r rhan honno o *Deyrnas Ffraince* a elwir *Llydaw* gyda *Chonan* *Arglwydd Meiriadoc* yn y flwyddyn o oedran *Christ* 383; Er mai *Cymraeg* y maent yn

yn fiarad hyd y dydd heddyw, etto prin jawn y gall un *Cymro* o ynys *Brydain* eu deall hwy yn Siarad nes bod encyd fawr o amser yn eu myf (2) Y mae gan y *Gwýddelod* amryw eiriau priodol y rhai fy wedi colli gyda ni; megis y mae gyda ninnau amryw eiriau y rhai fy wedi colli gyda hwy. Ni a welwn gymmaint o wahan Eiriau fy rhwng *Gwynedd* a *Deheudir*; ac etto a feiddia neb ddwywedyd mai nid *Cymraeg* a Siaredir er hynny yn y ddwy Dalaith? Ie, ac yn *Neheubarth*, nid oes odid *Gwmmwd* na *Chantref*, onid oes ryw ychydig o wahaniaeth yn yr Jaith; nid yn unig wrth fod y werin yn rhoddi amryw *Sain* i'r un geiriau, ond hefyd wrth *alw* ac *enwi* llawer o bethau yn *wahan* (3) Achos arall (ie Achos mawr ac hynod) yw hyn. Rai cantoedd o fynyddoedd cyn geni *Christ*, yn amfer *Gwrgwnt Farf-drwch* Brenin *Brydain* fawr, y cododd Llu anferthol o Bobl yr *Hyspaen* (wedi eu gyrru gan Eifiau a newyn allan o'i Gwlad) gan hwylio ar hyd y *Weilgi* os ar antur y caffent ryw Le i breswyllo ynddo i dorri chwant Bwyd.

AR ôl goddef gryn *Drallodion* ar y Môr yn eu Taith beryglus, y tiriadfont o'r diwedd ym *Mhrydain*, lle y gwnaethont eu Cwyn a Llygaid yn llawn o Ddagrau, ac a Chalon llawn utuddod, o byddai gwiw gan fawrhydi y Brenin ddangos iddynt ryw gwrr gwlad, a chael rhydd-did i achub Einioes, hwynt-hwy, a'i Gwragedd a'i Plant; Dywedafont mai Pobl heddychol oeddent, mai y *Newyn* a'i gyrodd allan o'i Gwlad, ac os byddai wiw gan y Brenin i'w cymmeryd dan ei Ymgeledd, nid oedd ganddynt hwy ond gadael *Bendith Dduw am dano*, a bod yn *Ddeu iaidd* cywir i Goron *Loegr*. Ar hynny y tofuriodd y Brenin wrth eu Chwedl, a rhoddes gennad iddynt fyned

*white*

*monstrous*

*affliction*

*Subject*



i'r *Fwerddon*, oblegid fod y wlad yn chang ddigon, ac yn lled deneu o Drigolion y pryd hwnnw. (*p*)

DROS hir amser y bu'r *Gwyddelod* a hwythau yn cadw yn *Bobl wahanol*; y naill Genedl a'r llall yn dilyn ei Harferion a'i Hiaith ei hun; Ond yno ym mhen talm o Amser, ymgyfrathachodd y naill Bobl a'r Bobl arall, fef y *Gwyddelod* a'r *Skuidiaid* (canys felly y gelwid *Gwyr-dyfod* yr *Hispaen*) ac a aethont megis un *pobl*, fel y gwelwch chwi *ddwy Haid* o Wenyn yn taro ynghyd yn yr un *Cwch*. O hynny allan y cymmyscwyd y Jaith, a lluniwyd un Jaith gymmysc o'r ddwy, yr hon a fieredir yn yr *Fwerddon* hyd y dydd heddyw --- O hyn y mae fod llawer o Eiriau dieithr wedi eu benthyccio oddi gan y *Skuidiaid* yn Jaith y *Gwyddelod*. Lle y maent yn cyttuno a nynt, yno dilys yw, mai hên Gymraeg ddiledryw yw y geiriau hynny; a lle y maent yn anghyttuno, naill a'i Geiriau *Cymraeg* yw y rheiny y rhai a *gollasom* ni; neu Eiriau *Estronaidd* y rhai a fenthycciodd y *Gwyddelod* oddigan y *Skuidiaid*.

DYMA ni wedi gweled *Estron-genedl* yn gynnar jawn wedi ymgymmyscu ag un *Llwyth* o'r hên *Gymru*, fef a *Gwyddelod* yr *Fwerddon*: Digwyddodd yr un peth i'n Hynafiaid ninnau ym *Mrydain*, fel yr wyf ynawr i ddangos.

AR ôl bod yr ynys hon (o ben bwy-gilydd o honi) ym meddiant yr *Hên Gymru*, ni wyddys yn dda pa gymmaint o Amser, y tiriodd yma  
wr

---

(*p*) *Mae'r Stori hon yn wir ddigon ebe* Mr. Edward Llwyd. *Vid. Gaif Lib. 3. C. 12.*

wr o *Gaer-droa* a elwid *Brutus*; yr hwn, ac efe yn medru darllen a Sgrifennu, ac yn gynnill ei wybodaeth mewn llawer o bethau cywraïn a chelfyddgar, a gās o un-fryd ei dderchafu yn *Ben* ar yr hen *Drigolion*, y rhai (a hwy y pryd hwnnw yn anfedrus agos mewn pob peth ond i ryfela) a ddyf-godd *Brutus* mewn *Moefau dinasol*, ac i blannu, i adeiladu, ac i lafurio y ddaear; ond yn enwedig, efe a'i haddysgodd mewn dau beth nad oedd ond ambell Genedl yn yr hen Amferoedd hynny yn gydnabyddus a hwy, fef yw hynny, i *ddarllen* a *Sgrifennu*, yr hyn ni chollafont fyth wedi 'n. Dywedir i *Frutus* a'i Wyr dirio ym *Mrydain* ynghylch Mil o Flynyddoedd cyn geni Chrïst.

= *cafodd*

to plant

JAITH *Brutus* a'i wyr oedd y *Groeg*, ac y mac 'n ddilys mai oddiwrtho ef y cawfom yr amryw Eiriau *Groeg* y rhai fydd hyd heddyw yn gymmyf a'r *Faith Gymraeg*. Canys *Brutus* a'i Bobl a ymgymmyscodd a'r hen *Drigolion* yr un ffynyd ac y darfu *Madoc* ap *Owen Gwynedd* ymgymmyscu a Phobl *America*. Canys y *Madoc* hwnnw yn y Flwyddyn o Oedran *Chrïst* 1170. (Pan oedd ei Frodyr yn mwrddro eu gilydd fel *Bleiddiau* ffyrnig ynghylch eu Treftadaeth yng *Hymru*) a gymmerth Long (q) ac a hwyliodd tua'r *Gorllewin*, heibio i'r *Iwerddon*, nes dyfod o'r diwedd i'r *Deyrnas fawr* ac ehang honno a elwir ynawr *America*. Yna y gadawodd efe rai oi Wyr i gadw Gorescyn a meddiant o'r wlad, ac a fordwyodd adref i *Gymru* drachefn, lle y traethodd efe wrth ei

*patrimony*


---

(q) *Powell's Chronicle* p. 227 &c. *Herb. Travails*. p. 218.

ei Gyd-wladwyr, "Ba wlad ffrwythlawn a  
 "rhagorol a gafodd efe allan wrth hwylio gyda'r  
 "Haul i Bellder y Gorllewin; dymunodd arnynt  
 "i ystyried am ba Graigle, a Mynydd-dir ac  
 "Anialwch yr oeddent hwy Ynghymru, megis cyn-  
 "nifer Cigydd gwaedlyd yn llofruddio ac yn darnio  
 "eu gilydd: Deuent gydag ef, a hwy a gant drigo  
 "mewn Brafder gwlad, yn yr hon y bwyttaent fara  
 "heb prinder, ac ni byddai eisiau dim arnynt.

butcher mutton

fatness

to haunt

generation

FE fenodd hyn gymmaint ar ei Gyd-wladwyr, fel y cododd Llu mawr o wyr a Gwragedd gydag ef, yn enwedig o'r rhei'ny ag oedd yn caru byw yn llonydd, ac a diriafont ym mhen 8 mis a deng niwrnod yn y Porthladd y bu'fei efe o'r blaen ynddo. Tra y parhaodd y Tô hwnnw, hwy a gadwasant gyda'i gilydd, or un Faith, o'r un Grefydd a'r un Gyfraith. Ond ym mhen talm o Amser (ar ôl dwy Genhedlaeth neu dair) fe ymgylfathrachodd y Tô nesaaf a Thrigolion y wlad, ac a aethont yn un Genedl a hwy; fel y gwelwch chwi Ddwfr a Llaeth yn ymgymmyscu.

YNAWR, y mae gennym y Siccrwydd mwya' fydd bosibl i fod, mai y Cymru oeddent y cyntaf o holl Drigolion Europ, a gawfant y ffordd allan i America; oblegid (1) fod Chroniclau yr Oesoedd yn tyftio hynny. (2) Fod amryw Eiriau Cymraeg gan Bobl y Parthau hynny hyd y dydd heddiw, lle y gwladychodd y Cymru gyntaf: megis, pan y byddont yn siarad dywedant, Gwrando. Pengwyn yw Enw Aderyn a Phen gwyn iddo. Coch y-dwr yw Enw Aderyn arall. Corraeso yw Enw y Lan gyntaf y tiriafont arni. A Gwenddwr y gelwir un o'i Hafonydd. --- Ac heblaw hyn oll fe gafwyd Beddrod Madoc ap Owen yn y  
 wlad

wlad honno, a'r ysgrifen a ganlyn ar garreg ei fedd ef. (r)

*Madoc wyf mawdic \* ei wedd \* wedi hir forio  
Fawn Genau † Owen Gwynedd ; † Eppil.  
Ni fynwn Dir ! fy awydd oedd  
Na Da mawr, ond y Moroedd.*

*offspring*

**O**Nd i ddychwelyd at *Frutus*. Fel y gwelwch chwi ddwy Gangen wrth *ymgydio* yn tyfu ynghyd, a myned yn *un Pren* ; Felly yr ymgymyscodd *Brutus* a'i wyr yntef a'r hen *Gymru*, ac a aethont o hynny allan dan Enw *Britaniaid*, er parchus goffadwriaeth i'r *Gwr* yr hwn a'i haddyscodd mewn amryw Gelfyddydau perthynafol i fywyd Dyn. Ac o herwydd mai *Groegwr* oedd *Brutus*, (fel y dywedais o'r blaen) o hyn y mae, fod yr *Hen Frutaniaid* yn arferu *Llythyrennau Groeg* yn eu Sgrifennadon, a hynny, (ni a wyddom) ym mhell cyn *amser Cred*, os nid er Dyfodiad cyntaf *Brutus* i'r ynys hon. Canys y mae *Ful-Caisar* yn adrodd am y *Derwyddon* \* "Eu bod hwy yn dyscu ar dafod-leferydd Rifedi arifed o Bennillion a Chywyddau ; a bod rhai yn Treulio ugain o flnyddoedd yn dyscu y Pennillion hynny cyn bod yn ddigon o Athrawon : Yr oeddid yn cyfrif y Pennillion hyn (eb efe) mor Sanctaidd fel na feiddiai neb eu Sgrifennu ar Bapir, ond pob matterion eraill, eb efe, y maent yn Sgrifennu a *Llythyrennau Groeg*. (s)

*remembrance*

YNAWR

(r) *Hoel. Ep. vol. iv. Ep. 29. p. 474. Ed. 7. \* Felly y gelwid Gweinidogion Crefydd yn Mrydain cyn geni Christ. (s) Cæs. ae Bell Gall Lib. 6. p. 106.*

YNAWR y mae'n eglur oddiyma (1) fod yr hen *Frutaniad* yn medru darllen a *Sgrifennu*, cyn dyfod na *Rhufeinwr* na *Sais* i *Frydain*; canys yr oedd yr Awdur dyscedig, yr hwn fydd yn yn rhoddi yr hanes yma i ni, yn byw ynghylch hanner cant o flynyddoedd cyn geni *Christ*. (2) Mai *Llythyrennau Groeg* oedd ganddynt, sef y cyfryw ag a ddyfsgodd *Brutus* iddynt. Yr un *Llythyrennau* a welir hyd heddyw ar fagad o Gerrig mewn amryw fannau *Ynghymru*. (t)

*multitudo*

HEBLAW fod yr hên *Frutaniad* yn arferu *Llythyrennau Groeg* yn eu *Sgrifennadau*, y mae ein *Hiaith* ni hyd y dydd heddyw yn cydnabod amryw ac amryw *Eiriau* o *Dysfiant Groeg*; Sef yw hynny, amryw *Eiriau* y rhai o blannodd *Brutus* yn ein mysc; yr hên *Eiriau Fymraeg* wedi eu colli gennym ni, ond a gedwir etto ym mysc y *Gwyddelod* ynawr *Visc* y gelwai yr hên *Gymru Ddwfr*; y mae'r gair wedi golli gyda ni, ond a gynhelir o hyd gan y *Gwyddelod*; canys nid yw *Dwr* ond *gair Groeg* a gafwyd oddiwrth *Frutus*: Ac nid i Son am ychwaneg, *Grian* y gelwai yr hen *Gymru* yr *Haul*; y mae'r gair wedi ei goll gyda ni, ond a gynhelir o hyd gan y *Gwyddelod*; canys nid yw *Haul* ond *gair Groeg* a gafwyd oddiwrth *Frutus*.

YR Achos cyntaf a gatwyd i wadu *Dyfodiad Brutus* i'r ynys hon o *Frydain* oedd hyn. Pan fu farw *Ieffrey ap Arthur* Arglwydd Esgob *Llan-elwy*, y daeth *Sais* a eilw'r *Cymru Gwilym bach* (am yr hwn y soniais i or blaen) a deifyfu ar *Dafydd*

*fo crana*

(t) *De Antiq. Græc. Lit. Vid. Shuckford. Vol. 1: p. 265. &c.*

*Dafydd* ap *Owen Tywyfog Gwynedd*, gael bod yn Esgol yn ei le ogyrch y flwyddyn o Oed *Christ* 1169. Ond gan na fu gwiw gan *Dafydd* ap *Owen* ganiattau iddo ei Ddymuniad, aeth y Gwr adref yn llawn digofaint, a gosod ei fynwyr ar waith i ddirmygu a rhedeg i lawr nid yn unig goffadwriaeth yr Esgob ag oedd yn gorwedd yn ei fedd, ond holl Genedl y *Cymru* hefyd. A'r *Gwilym bach* hwnnw, o'i falais o waith gael pall am Esgobaeth *Llanekwy*, oedd y cyntaf a feiddiodd wadu Dyfodiad *Brutus* yma (u) Nid yw ei holl Lyfr ddim amgen agos na *Sothach* o *Gelwyddau* haerllug yn erbyn y *Cymru*.

anger  
to content

refuse to

Saucy

DYWED *Gwilym bach* yn ddigywilydd, na foniodd neb erioed am Ddyfodiad *Brutus* a'i wyr o *Gaer-droea* i'r ynys hon, nes i *Jeffrey* ap *Arthur* ddychymmyg hyny o'i ben ei hun : ond y mae hyn yn achwyniad ry nocth a safurhwth heb ddim Awdurdod, ac yn erbyn pob Awdurdod. Canys ni wnaeth *Jeffrey* ap *Arthur* ond cyfieithu y *Cronicle* cymraeg i'r *Lladin*, fel y gallei y *Dyscedig* o bob gwlad ei ddarllen. Ac ym mhell bell cyn amfer *Jeffrey*, y mae un o bennillion *Taliesyn* yn dangos Barn ei Gydwladyr yn ei amfer ef ; ac efe a Sgrifennodd o gylch Blwyddyn yr Arglwydd 556. Ei Eiriau ynt.

shame

complaining  
of the  
jaded

*MI* gefais inneu yn fy mryd *Lyfreu*,  
Holl gelfydddydeu gwlad *Europa* ;  
Och Dduw mor druan drwy ddirfawr gwynfan,  
Y daw'r *Ddarogan* i *Lin Droea*.

*Sarphes*

prediction

(u) *Vid. Præf ad Galf. p. XXXI.*

wings

*Sarphe* gadwynog falch anrhugarog,  
 A'i hefyll yn arfog o Sermama  
 Honno a oresgyn holl Loegr a Phrydyn,  
 O Lan môr Llychlyn hyd Sabrina.\* \*Hafren.

privilege, right

Yna bydd Brithon fel Carcharorion,  
 Ym mhraint Alltudion o Saxonia ;  
 Eu nêr a folant, eu Haith o gadwant,  
 Eu Tir a gollant ond gwyllt walia.\* \*Cymru

Talifyn ben-beirdd a'i cant.

habituated  
hillock

Ac heblaw hyn, y mae rhyw beth hefyd i ddyfscu oddiwrth *Draddodiad* a *hen chwedlau* : Ac fe wyr pawb nad oes un peth mor gyffredin ym mysc y Cymru na Chred o'i dyfod gyntaf i'r ynys hon o *Gaer-droea*. (Ond pa fodd y bu hynny mi a ddangofais eufys :) Je, y mae hyn wedi greddfu mor ddwfn, fel y cewch chwi weled hyd yn oed y *Bugeiliaid* ar Benn pob *Twyn* a *Bryn* yn torri llun *Gaer-droea* ar wyneb y *Glâs*. Fe all Dyn o ystyriaeth gafglu rhyw beth oddiwrth hyn ; ond pa fodd bynnag, dyma fel y maent yn ei darllunio hi, yn llawn o *Droion* yn wir yn ôl ei henw. [*Yr oeddwn i yn cwbl furiadu, pan Sgrifennaiis hyn ar y cyntaf, i ofod yma Lun Caer-Droea. Ond nid oedd Dyn o fewn fy nghydnabod, ag oedd o Fedr i wneuthur hynny, nac mewn Pren, nac mewn Efydd.* ]

copper

NID oes ynawr, (hyd y gwn i) ond un peth yn ôl, sef pa ham y galwyd yr ynys hon *Brydain* ar y cyntaf. Tybia Mr. *Camden* (yr hwn yn ddiau oedd wr dyfcedig ond opiniwnus) i wyr o wledydd eraill ei galw felly gyntaf ; o waith

waith bod yr hên *Frutaniaid* yn *Britho* eu *Crw-*  
 yn. Ond nid oes odid gymmaint *ac un* yn ei gan-  
 lyn ef ynawr yn ei Ddychymmyg *wan annilys*.---  
 Y mae Mr. *Humffrey Llwyd* (gwr dyfcedig arall  
 o Gymro a sgrifennodd o flaen *Camden*) yn tybied  
 mai Yfstyr y gair *Brydain* yw *Pryd-cain*; sef yw  
 hynny ei galw hi felly gan yr hen Drigolion, oble-  
 gid *Tegwch* ei *phryd*. Y mae hyn hefyd yn feinio  
 yn lled annaturiol, os nid yn dynn ac yn drwsl.  
 Ond dyma'r *anffawd*, pe bai un mor ffodiog a  
 tharo wrth y *gwir Ddeongliad*, etto nid all neb  
 fod yn siccr mai hwnnw fydd ar y jawm. Mi a  
 dybiwn, os nid *Brutus* a alwodd y wlad ar ei *Enw*  
 ei hun, mai yr hên *Enw* yw *Pryd-wen*; ac mi a  
 wn fod y gair *Prydwen* yn ateb yr ystyr cyftal,  
 ac yn fwy rhwydd a naturiol na *Phryd-cain*, am  
 frô *deg brydweddol hyfryd*. Dyna fel y galwai  
 yr hen *Frutaniaid* gynt *Darian Arthur*.

*uncertain*

*stubborn clumsy  
misfortune*

Y mae *Dadl* nid bychan ym mysc amryw wyr  
 dyfcedig ynghylch pa wlad a feddylir wrth yr hon  
 a eilw hên *Awdwr Pellenig* wrth y gair *Thule*.  
 Ond pe buafent hwy yn deall *Cymraeg*, ni fuafei  
 dim *Dadl* nac *Ymryflon* yn y peth. Canys wrth  
 ddarllen ryw hen *Sgriflen* o waith *Llaw* y cefais  
 yno, *Tyleu Iscoed*, sef yw hynny, *Tyleu'r Iwerddon*;  
 canys *Scotia* yn *Lladin* y geilw yr holl wyr *Pell-*  
*enig* ynys yr *Iwerddon* (*w*) oddiwrth y gair *Cym-*  
*raeg Iscoed*. A chan fod pawb yn cyttuno mai  
 rhyw ynys gerllaw ynys *Brydain* yw *Thule*, a'r ei-  
 thaf tua'r *Gorllewin* (*x*) pa wlad amgen a all hi  
 fod ond *Tyleu Iscoed*, neu ynys yr *Iwerddon*. Nid  
 oes ond y dim lleiaf rhwng y gair *Cymraeg*, *Tyleu*  
 a'r gair *lladin Thule* YR

*utmost*

(*w Uff. Primord 725—734*) *Ultima Thule*.



YR oedd yr hen Bobl yn siarad pethau rhagorol ynghylch y wlad hon, yn ei galw hi yn *Baradwys*, yn *Degwch Brê*, y *Wlad fendigaid*, ac *Hyfrydwch Pobl*. Ac ond odid un achos am ei bod mor anwyl yw hyn, *am nad all un Creadur gwenwynig* fyw yno; na llyffant na Sarpth na gwiber, nac un creadur arall a dim naws gwenwyn ynddo: Ac os dygir un creadur gwenwynig i'r wlad hon, fe a dry ai dorr i fynu yn y man ac a drenga ar ei waith yn anadlu awyr bur ynys y *Iwerddon*.

frog  
nature  
belly  
to end

## P E N. II.

*Y Rhyfel a'r Rhufeiniaid. Hwylt-hwy yn anghyfaawn y treisio y Brutaniaid o'i gwir Eiddo.*

**F**E fu Ynys *Brydain* yn yr hen amfer gynt yn talu Teyrnged i *Rhufain*, a hynny dros ychwaneg na *phedwar cant* o flynyddoedd; a'r pryd hwnnw yr oedd *Bonedd y Cymru* yn Siarad *Lladin* mor gyffredin ac y maent yn Siarad *Saesonaeg* ynawr. --- Nid wyf i ddim yn meddwl gwaith *Pâb Rufain* yn danfon ei Swyddogion yma i *geiniocca* bob Blwyddyn, megis y byddai yr arfer yn amfer *Pabyddiaeth*: ond yr wyf yn meddwl *Ymherodron* neu *Emprwyr Rufain*, y rhai (ym mhell cyn dyfodiad y *Saesfon* i'r Ynys yma) oeddent wedi gorefcyn drwy nerth arfau amryw wledydd yn *Asia* ac *Affrica*, ond yn enwedigol yn *Europ*, ac ym myfyr eraill yr ynys hon o *Frydain*.

to collect money

OND beth oedd gan nac *Emprwr* na *Phâb Rhufain* wneuthur a'r *Deyrnas* hon o *Frydain*? Pa *Hawl* oedd gan y naill na'r llall i awdurdodi yma?

yma? Cewch glywed. --- Titl y naill oedd *min* y *cleddyf*; canys pa wlad bynnag a allai yr *Emprwr* a'i wyr-rhyfel ei ennill drwy nerth arfau, tybid fod hynny yn ddigon o Hawl i gymmeryd meddiant ynddi: Ond pa fodd bynnag yw hynny, pe bai *Wr canolig* a phump neu chwech o *Ddihirwyr* wrth ei gynffon yn beiddio mwrddro a lledratta, fe a estynnid eu *Cêg* wrth grogpren am hynny.--- Ac am Ditr y *Pâb*, y mae hwnnw cynddrwg a'r llall, os nid gwaeth; canys nid yw e ddim angen na'i *Drais* yn ymhyrddu ar Anwybodaith dynion, ac yn rhyfygu Awdurdod i fod yn *Ben* ar yr Eglwys na roddes *Jesu Ghrifft* erioed iddo: A phan oedd *Eglwys Rhufain* yn ei Phurdeb, (heb ei diw-*yno* ag *ofer-goelon* megis y mae hi *ynawr*) nid oedd wahaniaeth yn y byd rhwng *Esgob Rhufain*, ond yn gyd-radd ag *Esgobion* eraill.

*Impell*  
*to presume*  
*to soil*

Y Cyntaf o'r *Rhufeinaid* a adnabu ynys *Brydain* oedd *Ful Caifar*, a hynny oedd o gylch hanner cant o flynyddoedd cyn geni *Christ*. Gwr oedd hwn o yspryd ehang, yn Rhyfelwr o'i febyd, ac yn chwennych fel *Alexander fawr* oresgyn yr holl Fyd a myned yn glodfawr. *Blaenrhed* wrth fyned oedd fo, *Ac olaf pan fai gilio*. Ond cyn iddo ddyfod ar antur i *Frydain*, efe a anfonodd *Lythyr* at y Brenin a elwid *Caswallon* yn y geiriau hyn nid amgen (a)

*infancy*

*Yn gymmaint a bod cwbl o'r Gorllewin wedi ymroi i mi fal i Frenin goruchaf arnynt, ac i Senedd\**  
*Rufain, naill a'i drwy Gariad a'i drwy ryfel; o*  
D *herwydd*

(a) MS. vet. \* Senedd Rufain oedd megis Parliament yn Lloegr.

herwydd hynny, yr wyf yn yspysu i ti Caswallen a'th Frutaniaid sy'n teyrnasu, a'r môr yn eich hamgylchynu, ac etto fod dan Reolaeth Rhufain, y bydd raid i chwi ufuddhau i mi ac i Senedd Rufain, canys dyledus a chyfiawn yw hynny. Er eich rhybuddio yr ydym ni Senedd Rufain yn danfon attoch y Llythyr hwn, er traethu ac yspysu i chwi, yr ymddialwn ni a chwi drwy Ryfel o nerth Arfau, os chwychwi nid ymroddwch i ni am dri pheth; sef (1) Talu o honoch i Rufain Deyrnged bob blwyddyn. (2) Bod bob amser yn barod a chwbl o'ch nerth i ymladd wrth fy ngorchymmyn am gelynon o amser bwygilydd (3) Danfon Gwyfflon i Rufain ar gyflawni hynny: Yr hyn os chwychwi a'i gwna, eich perigl a fydd lai, a'ch Rhyfel ar ddiben; ac onid e', edrychwch am ryfel ar frys.

PAN ddarllenodd Caswallen Brenin y Brutaniaid y Llythyr hwn, danfonodd i geisio ei Gyngoriaid a'i Arglwyddi goruchel atto, fel y gwelent pa ryw Dymhefl a Dinifroedd yn crogi uwch eu pennau. Ac er gwaetha' Bygythion Cæsar, hwy a gydfarnasant megis o un genau anfon llythyr-ateb iddo yn y wedd hon, nid amgen.

Yn y modd yr ysgrifennaiſt ti, Cæsar, attaf i mai ti biau Frenhinaethau'r Gorllewin, yr un modd boed yspys iti, mai myfi a'r Brutaniaid a biau ynys Brydain. Ac er i'r Duwiau roddi i ti gwbl o'r Gwledydd wrth dy Ewyllys dy hun, ni chei di daim o'n heiddo ni, canys Cenhedlaeth rydd ydym ni, ac nid oes arnom Deyrnged nerth na Gwyfflon i ti nac i Senedd Rufain. Ac o'r achos hwnnw dewis di a'i cilio yn dy eiriau, a'i rhyfela; ac yr ydym ni yn barottach i ymladd a thydi nag i ddymuno Tangneddyf: Ac yn fodlon gennym i sentro ein Hoedlau er  
cadw

to revenge

hostage

lit

lif

*cadw ein Gwlad rhac Efron-genedl heb ofni mōth  
fawr eiriau. Gwna y fynnych dan dy berygl.*

WEDI i *Jul-Caisar* ddarllen y Llythyr hwn, a gweled Bwriad di-yscog y *Brutaniaid* i ymladd ag ef, dirfawr Lid a gymmerth ynddo ei hun, ac a ddywedodd wrth ei uchel-swyddogion, *Chwi a welwch mor anfoesol a Sarrug i'm hattebasant, ond odid ni o wnawn iddynt laesu peth o'r Dewrder a'r Talogrwydd hyn.* A hwy a attebasant, *A gymmeri di, O Cæsar, dy lwfrhau gan wâg ymffrost Barbariaid? Ni a wyddom amgen. Wele ni yn barod i ymladd wrth dy Ewyllys tra fo Defnyn Gwaed yn ein Cyrph.*—Ac ar hynny Cæsar a ymwrolodd ac a gynhullodd ei *Sawdiwyr* ynghyd, sef oedd eu Rhifedi *pum mil ar hugain* o wyr traed, a *phedair Mil a phum Cant* o wyr meirch, ac mewn *pedwar ugain* o *Ysgraffau* a fordwyodd efe a'i wyr tuag at ynys *Brydain.*

*sten*

*timid*

*soldier*

*ferryboat*

YR oedd y *Brytaniaid* hwythau yn gwybod eu bod ar fedr ymweled a hwy (canys nid amfer i fod Segur ac yn *yfmala* oedd hwn) ac am hynny yr oedd *Spwyr* yn disgwyl yn y *Prif-aberoedd* rhac ir Gelynion i dirio yn ddiarwybod, a'i llad yn eu *Cwsc.* A chyn gynted ac y daeth y Llongau i olwg y Tîr, y swyddogion a anfonasant yn ddiaros i fynegi i'r Brenin fod y Gelynion wedi dyfod.—Ac ar hynny y Brenin a archodd i'r *Penrhingyll* i ganu'r *Cyrrn-cychwyn* i gynnull ei Wyr-Rhyfel ynghyd: A bryffio a wnaethant yn Llu mawr arfogiat y Porthladd ar fin môr *Kent*, ac erbyn hynny yr oedd y Gelynion o fewn ergyd Saeth. — Nid oedd gan y *Brutaniaid* y pryd hwnnw na *Lluryg*, nac *Astalch* na *Tharian* na *Phenffestin*, nac un *Trecc* na *Pheirian* i amddi-

*fiche*

*sergeant*

*shield*

D 2  
*implement necessary* ffyn

ffyn rhac y Saethau a'r Gwayw-ffyn; lle yr oedd gan wyr *Rhufain* Helm o Bres ar eu Pennau, Tarian yn eu dwylo, a Lluryg ddur o gylch eu dwyfron. Ond er hyn o Anfontais, Pobl *noeth* yn erbyn Gwyr *arfog*, (b) etto, bernwch chwi, a fu achos gan *Wyr Rhufain* foffio mai hwy a gawfant y trecha' yn y diwedd? Canys am y glewion *Frutaniaid*, rhai a safafont ar bennau; y Creigydd, rhai a ddefcynnafant i'r Traeth, Eraill a aethont hyd eu *Tin-beisfau* i'r môr, a phawb yn ergydio eu Saethau cyn amled at y Gelynion, nes oedd *Gwaed* y Lladdedigion yn *ffrydio* megis *Pistyll* yma ac accw dros Yftlysau'r Llongau i'r môr.

*neticoat*

*Managing*

*to curse*

*heap of carcases*

*contemning*

*reproach*

Yr oedd *Jul-Caisar* yn bwrw cael Hawddgarach *Triniad*; Ac er *gawyched* *Rhyfelwr* oedd efe, efe a edrycbodd ynawr yn lled ddiflas ar y matter, wrth weled ei Wyr wedi digalonni: Rhai yn ei *regu* ef am eu tynnu i'r fath *Ddinifer*; Rhai yn *hanner-marw* yn *ochain* ac yn *griddfan* ynghrafangau Angau, Eraill yn gorwedd yn *Gelaneddau* meirw yn ymdrabaeddu yn eu *Gwaed*. Unwaith yn wir y meddyliodd i godi Hwylau a myned adref; ond yno efe a ystyriodd, y byddei hynny yn *Ddifenwad* ac yn *Gywilydd* byth iddo ym myf ei Gyd-wladwyr; ac o achos hynny efe a ymwrolodd drachefn ac a ddywedodd rhwng bodd ac anfodd, *Gwradwydd, ie Gwradwydd tu hwynt i ddim i ni ddychwelyd adref wedi dyfod cyn belled a hyn: Nage ni a fynnwon dirio, pe bai'r Diawl ei hun ynddynt.* Ac yno, fel

(b) *Apud quos [Britannos] nulla loricarum galearumve tegmina. Tacit. Annal. L. 12. p. 142.*

fel y gwelwch chwi *Darw* yn taflu ac yn gwylltio ar ôl bod *dau* neu *dri* o *Waed-gwn* wrtho un hanner-awr: Felly *Gwyr Rufain* hwythau a chwerwasant oddimewn, gan ergydio eu Saethau cyn amled a *chenllysc* at y *Brutaniaid*: A lladdwyd y fath nifer o bob ochr, nes oedd y môr *agos* yn *wridog* gan waed y *Lladdedigion*, a chyrph y meirw a'r clwyfus cyn dewed yn gorwedd ar fin y môr, a *Defaid* mewn *Corlan*. A phe buafai *Elw* i *Ful-Caisar* ofod ei *Draed* ar dir *Brydain*, hynny a gas efe; etto pe ni buafai efe ei wyr redeg yn gyflym gael *Diogelwch* yn eu *Llongau* (fel y gwelwch chwi *Haid o Wenyn* yn taro i'r *Cwch* o flaen *Tymhestl*) hwy a *larpiaid* yn *Dammeidiau* a *Chledddyf* y *Brutaniaid* dewrion. O *bobtu dauddeg* a *deugain* o *Flynnydoedd* cyn geni *Christ* y bu hyn.

*hail*

*profit*

*forend harsel*

Mi a wn or goreu, fod *Ful-Caisar* yn dywedyd ei hun, iddo wneuthur gryn *Hafog* ym *Mhrydain*. Ond pa le y mae ei *Gymmydogion* i roddi gair o'i blaid? Prin y gellir coelio neb yn feinio allan ei *Glod* ei hun; ond yn enwedig yma, pan yw ei *Gyd-wladwyr* (y rhai a *Sgrifennasant Hanes* ei fywyd) yn tyftio yn eglur na wnaeth efe ond *gofod ychydig Fraw* ar y *Trigolion*, (c) ond nid dim o'r fath peth a'i meistroli, a dyfod a hwy dan ei *Lywodraeth*. Ac y mae un o *Brydyddion* yr oes honno yn canu am ei *Weithred* ym *Mhrydain* fel hyn,

*havoc*

*Territa quaesitis ostendit terga Britannis* *Lucan.*

D 3

*Cæsar,*

(c) *Quanquam prosperâ pugnâ terruerit Incolas, ac littore potitus sit, potest videri ostendisse posteris, non tradidisse. vit. Agr. p. 638.*

to chirp

supreme lord  
vigorous  
triumph

Cæsar, er trydar tramor, a giliodd,  
O'r gohwg i'r Dyfnfor,  
Rhac Saethau picellau por  
Llû dien Fryden Frodor.

to invite

MAWR a fu llawenydd a Gorfoledd y Brutaniaid wedi gyrru ffo fel hyn ar wyr mor enwog, y rhai oeddent yn galw eu hunain yn *Feistri y Byd*. A *Chafwallon* y Brenin a barodd i'r Penrhingyll gyhoeddi *Diaspad* \* i orchymmyn pawb i aberthu i'r Tadolion Dduwiau. Ac yno fe anfonodd Lythyrau at Bendefigion, Uchel-swyddogion a Gwyr, da y Wlad i'w gwahawdd hwy i *Lundain* i wledda a bod yn llawen. Ac fe ddywedir i ladd at y Wledd fawr honno *ugain mil* o wartheg, *dengmil a deugain* o Ddefaid, *dau can mil* o wyddau a Chapryned; ac o adar mân, gwylltion a dofion, y dau cymmaint a'r a allai neb eu cyfrif neu 'i traethu. (d) A'r wledd hon a fu un o'r tair *Gwledd* anrhydeddus Ynys *Brydain*.

*Ugain mil o Fwystfiledd*  
*Yn feirw a lās pan fu'r wledd.*

Dafyd Nanmor a'i cant.

roughness  
unsteady  
dangerous

OND ni pharhaodd Tegwch y Llwyddiant hwn yn hîr, nes i'r Haul drachefn fachludo dan Gwmwl *Gerwindeb*. *Nid y bore y mae canmol diwrnod teg*. Mor anwadal ac anafadwy yw Parhâd Anrhydedd a Golud bydol! — Ac ni a welwn yn fynych Rwygiadau enbyd yn digwydd, ie *Hafog* a *Distryw*

\* Proclamation. (d) *Hanes Brenin* 23. Ms.

*Distryw* Gwledydd oddiwrth bethau bychain a di-  
stadl ar yr olwg gyntaf: Ond pan unwaith y  
brydia o Lid, Galon ddyn fileinig a chwerw,  
pw y wyr pa le y diwedda? Gwr digllon (ebe  
Selyf ddoeth) a ennyn gynnen, a'r lliidiag fydd aml  
ei gamwedd; megis y tyffia yr Hanes a ganlyn.

to inflame  
skufe

to waste  
shaft

Ryw ychydig ar ol y *Wledd fawr uchod*, y  
digwyddodd i ddau Bendefig iefaingc o waed *Bren-  
hinol* fyned allan i'r *Gamp* i ddifyrru; meg-  
is i *ymaflyd Cwdwm*, *Neidiaw*, *taflu Coetan*,  
*chwarae Palet*, *chwaraeu Cleddu deuddwrn &c.*  
Enw y naill oedd *Hirglas* ac efe oedd *Nai* i  
*Caswallon* y Brenin, ac Enw y llall oedd *Cyhelyn*,  
a nai oedd yntef i *Afarwy Tywyflog Llundain*,  
Ewythr y Brenin Frawd ei Dad. Ond yn ni-  
wedd y *Chwarae*, yn lle difyrru a bod yn llawen,  
y tyfodd Anghydfod ac ymrafael rhyngddynt, a  
dechreu ymgecu; ac o rod-di Geiriau crâs, myn-  
ed a wnaethant frig-frig ac ymdynnu; ar hynny  
i dynnu eu Cleddyfau, lle y lladdodd *Cyhelyn* nai  
*Afarwy*, *Hirglas* nai y Brenin. [Er bod *Afarwy*  
yn honni mai Syrthio ar ei Gleddeu ei hun a  
wnaeth *Hirglas*.] A rhac y gelwid ei nai i gyf-  
rif am y Mwrdd-dra, a dioddef Cosp Cyfraith,  
(am fod *Caswallon* yn bygwth hynny) *Afarwy*  
a anfonodd *Lythyr* i wahawdd *Ful-Caisar* i ddyfod  
etto i *Frydain*, yn y geiriau hyn. (e)

quoit

to wrangle

to proclaim

“*Afarwy* ap *Lludd Tywyflog Llundain* yn an-  
“fon Annerch i *Ful-Caisar* ymherawdr *Rhufain*;  
“a gwedi dymuno gynt ei Angeu, weithian yn  
D 4 “dymuno

(e) *Geiriau y Chronicl yw y rhai hyn, air-yn-air.*  
*Ms.*



"dymuno Jechyd iddo. — Edifar yw gennyf i  
 "ddal ith erbyn di, pan fu'r ymladd fhrhyngot ti  
 "a *Chafwallon* ein Brenin ninneu. Canys pe  
 "peidiafwn heb dy ammheu, ti a fuafit yn sudd-  
 "ygod. A chymmaint o fyberwyd a gymmerth  
 "yntef wedi caffael y Fuddygoliaeth honno drwy  
 "fy nerth i, ac y mae yntef weithian yn fy ni-  
 "gyfoethu inneu, ac felly y mae efe yn talu  
 "Drwg dros dda i mi. Mi a'i gwneuthym ef  
 "yn *Drestadawg*, ac y mae yntef yn fy nitre-  
 "stadu inneu. A minneu a alwaf Dyftoliaeth  
 "nêf a daear hyd na haeddais i ei Fâr ef o jawn,  
 "ond o herwydd na roddwn fy *Nai* iddo i'w  
 "ddi henyddu yn wiriawn. Ac edryched dy  
 "Ddoethineb di ddefnydd ei Lid ef. Chwareu  
 "Palet a orug \*dau neiaint i ni, a *gorfod o'm*  
 "*Nai i ar ei Nai ef*: Ac yno lldio a orug\*  
 "nai y Brenin, a chyrcu fy Nai i a chleddyf,  
 "ond ete a Syrthiodd ar ei Gledddyf ei hun oni  
 "aeth trwyddo. Ac wrth na's rhoddais, y mae  
 "efe yn anrheithio fy ngyfoeth innu. Ac wrth  
 "hynny yr wyf yn gweddio dy Drugaredd, ac  
 "yn erchi nerth gennyf i gynnal fy ngyfoeth,  
 "hyd pan fo, drwy fy nerth inneu, y cestych di  
 "*Ynys Brydain*. Ac nac amheued dy Bryder di  
 "am yr ymadrodd hwn, canys llawer wedi ffoi  
 "unwaith a ymchwelant yn fuddygol.

Ac o ran ei fod efe yn gwybod mai *hen Gadnaw*  
 oedd *Jul-Caisar*, ac nad oedd ond ofer iddo dy-  
 bied y rhoifid Coel idd ei Eiriau heb ryw *Fech-*  
*niaeth*, y Bradwr *Afarwy* a anfonodd ei Fab yng-  
 hyd a *dauddeg ar hugain* o Farchogion i ddwyn y  
 Llythyr

\*\* *Ystyr y gair orug, yw, a wnaeth.*

heir  
 fo marib corath

fo plunder

fox-  
rain

Seintgship

Llythyr at *Jul-Caisar*, a chefyd i fod yn *Wyflon* o fod ei Amcan ef yn gywir.—Bywiogodd hyn *Galon Cæsar*, ac nid allasai un peth yn y byd ddigwydd yn fwy dymunol ganddo: Ond etto o herwydd na chafas efe ond *Groefaw* cyn haccred a gorfod arno ftoi a throi ei Gefn y waith gyntaf, fe a ddaeth ynawr yn *llidiog* ac yn *hyderus* yr ail-waith; Canys lle nid oedd ganddo ond pedwar ugain *Ysgraff* (neu o *Longau*) y tro cyntaf i fordwyo ei *Wyr* trofodd i *Frydain*, yr oedd ganddo ynawr *wyth Gant*, a nifer ei *Sawdwyr* y tro hwn oedd *tair mil ar ddeg ar hugain*, a thri chant a *deg ar hugain* o wyr traed; a'r un *Nifer* hefyd o wyr meirch; sef oedd eu *Rhifedi* gyda'i gilydd *Chwech mil a thrugain*, a *chwech cant a thriugain*. (f)

credibility  
breaking

AGOS i *Gan Mil* o wyr arfog, a'r rhei'ny gan mwyaf yn *Rhyfelwyr* o'i mebyd, beth a allai sefyll yn erbyn y fath *Lû mawr* a hwnnw! Ac ni wyddys pa nifer o filoedd oedd gan y *Bradwr Afarwy* i fod yn *Blaid* a hwy! Ac y mae un *Bradwr* gartrefol (a *Melldith ei fam* a gaffo pob cyfryw un byth) yn waeth na chant o *Elynon* pellenig; canys y mae *Braawr gartref* yn gyd-nabyddus a phob *Amddiffynfa* a *Lloches* a *Lle dirgel* lle y mae dim *Mantais* i'w gael. --- Ond er hyn oll ni fu i *Jul-Caisar* ddim achos mawr i orfoleddu o'i *Daith*, na chlod chwaith gan ei *Gydwladwyr* yn *Rhufain*. Canys yr oedd y *Brutaniaid* wedi pwyo yngwaelod *Tems Farrau*, heirn erchyll a *Phigau llymmion*, y rhai nid allai  
neb

heut

so heat

(f) *Cum Legionibus V & pari numero Equitam.*  
*Cæs. Lib 5. p. 77.*

neb eu canfod o yma draw, am eu bod Droedfedd neu ddwy dan y Dwfr : a phan ddaeth Llongau *Cæsar* yn ddiarwybod ar draws y rhei'ny Gwae fi, pa waeddi *Wbw* a therfysc oedd ar hynny ym mysc *Sawdwyr Rufain* ; y *Pigau dur* yn rhwygo yr *Ysgraffau*, a hwythau yn foddi ar fin y Lan ; a'r *Brutaniaid* hwytheu ar Dir fych yn llawen am weled eu Dyfais yn llwyddo cyfal. [Y mae'n hawdd i farnu (pe bai hynny ond oddiyma yn unig) nad oedd yr hên *Frutaniaid* ddim cyn anfedrused Pobl, ac y mae rhai yn weled bod yn dda i daeru ; *Câs yw'r Gwirionedd lle ni charer.*]

OND gan na pa un, *Jul-Caisar* a diriodd yn ddilys ddigon y waith hon ym *Mrydain* ; ac od oes coel ar y peth a ddywed y Pendefig ei hun, efe a diriodd yn ddi-rwyftr, ond a gafodd ei Longau gan y *Picellau dur* yngwaelod *Tems*. Yr oedd y *Trigolion*, eb efe, wedi cilio i'r Coedydd ac idd eu Llochesfau ; wedi brawychu wrth weled cynnifer o Longau (wyth cant o Rifedi.) Ond ym mhen ychydig amfer yr ymwelfont ag ef, *nid idd ei gappio* a phlygu Glin ger ei fron, ond i ergydio *Picellau dur* at ei Galon. Canys ar eu gwaith yn bloeddio i'r Frwydr, y *Brutaniaid* a gymmerafont arnynt i ffoi (ond nid oedd hynny ond *Rhith*) ac ar waith y *Rhufeiniaid* yn eu herlid yn fyrrbwyll, yr Ymchwelodd y *Brutaniaid* ac ail-ruthro, a gwneuthur Glanaidra nid bychan ym mysc y Gelynion, er bod *Jul-Caisar* yn bostio mai efe a'i Wyr a gawfant y trecha' yn y diwedd.

OND boed hynny fel y mynno, un peth yn anad dim oedd hynod dros ben ym mysc yr hen *Frutan-*

to cringe  
to cast

rach

especial

*hook* Frutaniaid, sef eu gwaith yn ymladd o Gerbydau a Bachau heirn oddi tanynt; ac yr oedd gan Gaf-wallon y Brenin 5 mil o honynt yn yr Ymladd-fa uchod, Dyfais waedlyd oedd hon, canys wrth yrru ar bedwar-carn gwyllt, hwy a dorrent Rest-rau y Gelynion, ac a'i llarpient yn echrydus wrth fod y Bachau-dur yn rhwygo eu Cnawd ac yn eu draggio 'n erchyll fel nad allai dim fod yn fwy ofnadwy na ffyrnig. Ni welodd y Rhufeiniaid erioed y fath beth or blaen; a diammeu mai Dychymmyg aruthrol greulon oedd hynny; ond wrth Ryfela nid ydys yn astudio ar ddim ond Dinistr a Distryw: Ac er gwyched Rhyfelwyr oedd Gwyr Rufain, fe ddywedir eu bod yn wyneb lassu ac yn delwi ar eu gwaith yn clywed Trwst Cerbyd, fel y gwelwch chwi Gywion yr Fâr yn crynu rhac Barcut chwibl-sar, egr, yn gwibi o oddifry arnynt.

*fourhoops*

*to grow pale  
noise  
chick hen*

*note*

*Sour rough sharp to row*

Ni arhofodd Ful-Caisar ond amfer byrr chw-aith y tro hwn ym Mrydain; ac achos da, pa ham yr oedd y wlad yn rhy dwym iddo: Canys y mae efe ei hun yn addef, nad oedd dim Esmwythdra na Llonyddwch iddo ef na'i Wyr. Canys pan elai ei Wyr allan i barottoi Llundiaeth (neu, mewn geiriau eraill, pan elent i ledratta Da a Defaid, ac yspeilio Tai Gwirioniaid) yno y Brutaniaid a ruthrent arnynt, a'i taro yn eu talcen; a dedwydd a fyddai hwnnw, yr hwn o nerth ei Draed a ddygai y chwedl yn ddiangol i Glustiau Cæsar. Ac attolwg a oedd Bai mawr ar yr Hên Frutaniaid yn trin Lladron a Mwrddwyr felly? Eu holl Hymgais hwy oedd ceisio amddiffyn eu gwir Feddiant a'i heiddo eu hun. Ac oddiyno y tyfodd y Ddihareb, Gwell gwegil Câr nag Wyneb Eſtron.

*capacious  
pithee*

*nope of the neck*

A *Cæsar* ar hynny a fwriadodd o ddifrif fyned adref i Dir ei wlad : A'r *Brutaniaid* hwytheu a feddiannafont eu Gwlad yn heddychol ac yn ddi-daro dros agos i gant o Flynyddoedd wedi hynny ; (a pheth mawr na chai Dynion fyw yn llonydd ar eu gwir Eiddo eu hunain ?) --- Fe amcanodd *Augustus Cæsar*, (yn amfer yr hwn y ganed *Christ Fesu*) ymdreiglo i'r ynys hon ; ac y mae un o *Ben-prydyddion* yr oes honno yn dymuno Llwyddiant iddo ef a'i Wyr, yn y fath Bennill a hon.

*Cadwed y Dwriau Cæsar fawr*  
*A'i Lù ynawr yn treiddio*  
*Ym mhell i Frydain dros y Môr :*  
*A boed Hawdd ammor iddo.*

*Horat. Lib. i. Od. 35.*

OND ni wnaeth efe ddim ond amcanu, a bygwth ar flaen tafod. --- O gylch deg mlynedd ar hugain ar ei ol ef, y bwriadodd *Caio Cæsar* (yr hwn oedd Ddyn pen-dreigl yfgeles) ymweled a'r ynys hon; efe a gynhullodd ynghyd ei Wyr, efe a dactlodd ei Arfau, ac a wnaeth bob peth yn barod at y Daith : Ac yno ar ol codi hwyleu, a morio ryw gymmaint o olwg Tir *Ffrainge*, fe Caefodd Calondid y Gwr ; ac yn lle myned yn y blaen i Dir *Brydain* i ennill Clod wrth nerth Arfau, fe roes Orchymmyn idd ei Wyr ddychwelyd yn eu hol i Dir *Ffrainge*, a myned a chafelu *Cregin* yno ar lan y Môr. (g) Ac yr oedd hyny, ond odid, yn well *Difyrrwch* na chael *briwio eu hesgyrn* wrth ymladd a'r *Brutaniaid*.

HYD

HVD yn hyn y cadwodd y *Brutaniaid* eu Hawl a'i Rhydd-did yn gyfan rhac Trais a Gormes y *Rhufeiniaid*; A hwy a allasent wneuthur hynny o hyd, pe buafent yn *unfryd* ac *heddychol* a'i gilydd. Ond rhaid addef, mai Dynion *diffaith cynhennus* drwg oeddent, na fedrent gydfod fel Brodyr yng-hyd: Arglwydd un Cwmmwd yn ymgeccru a'i Gymmydog, ac yn myned *ben-ben*, fel y gwelwch chwi *ddau Waed-gi* gwangcus yn ymgiprys *frig-frig* am *afgwrn*.—Odid fyth y byddai Heddwch parhaus drwy y Deyrnas; y Trechaf yn treisio'r gwannaf; ac yspryd o ymddial yn brydio yn ddi-orphwys ym Monwesau y Gwyr mawr. Ac y mae y *Rhufeiniaid* (er eu bod yn *Elynion*) yn addef yn digon eglur, nad allasent hwy fyth *orthtrechu* y *Brutaniaid*, oni buasai eu *Hanghydfod*, a'r *Ymranciaid* ym mysc eu Pendefigion eu hun: (h) Er mai un *Brenin* oedd *Ben* ar yr holl Deyrnas (yr hwn a alwai yr hen Gymru *Un-ben Coronog*) etto yr oedd amryw Dywyfogion ac Arglwyddi a Llywodraeth oruchel yn eu dwylo: Ac odid fyth fod y rhai hyn heb Ryfel a ffyrnigrwydd rhyngddynt.

YR oedd yr *Yspryd ymddial* hwn yn fwy anef-gusodol etto, o herwydd fod eu Doethion a'i Gweidogion Crefydd (y rhai a enwid y pryd hwnnw y *Derwyddon*) yn pregethu o hyd ym mhob Cymansa, ar iddynt ystyried enbytted iddynt eu hunain, ac i Lés cyffredin y wlad oedd eu gwaith yn ymrafaelio ac yn ymdynnu. Ac ym mysc eraill, *Cyntwrch* (Gwr dyfcedig o radd y *Derwyddon*) a araihiodd yn y wedd hon; "Chwychwi " Bendeigion urddafol o Genedl y *Brutaniaid* cluft-

(h) *Tacit. Annal. Lib. xii. p. 243.*

intractable

knot

burden  
to loosen

I spoil

to waste

Lamentful

" cluft-ymwarndewch a'm Chwedl : Rhyw Hen-  
 " afgwr gynt, ac iddo ddauddeg Mab anhydyn,  
 " ac heb wrando ar ei Gyngor i fod yn unfryd ac  
 " yn heddychol a'i gilydd, a ddygodd *Gwlwm o*  
 " *Ffynn* ger eu bron, sef dauddeg o nifer ; ac a  
 " archodd os gallai neb un o honynt o *Rymm*  
 " *Braich* dorri y cwlwm yn ddau : yr hyn pan  
 " brofodd un ac arall *ol-yn-ol*, a atebasant, nad  
 " oedd agos Rym ddigon yn *neb un* i dorri y *Baich*  
 " *Ffynn ynghyd* : Ac yno yr Henafgwr a ddattod-  
 " odd y *Cwlwm* ; ac yn hawdd ddigon y torrodd  
 " y *Llangiau* y *Ffonn* a roddafid i bob un ar  
 " *neilldu*. Ac ar hynny y dywad eu *Tâd* wrthynt,  
 " *Cydnebyddwch* fy meibion tra fo chwithau yn  
 " cyttal ynghyd mewn cwlwm *tagneddyf* a *char-*  
 " *iad brawdol*, nad all neb eich gwradwyddo ; eithr  
 " os ymrannu a wnewch, gwybyddwch o fod yn  
 " *Yfglyfaeth* i'ch *Gelynion*.----- O *Gydwlad-*  
 " *wyr*, a *chwi Bendefigion* y *Bobl*, dyna *Anfawdd*  
 " ein cyflyrau ninnau ; os nynt a ymgeidw yn  
 " *un a chyttûn*, nid all holl ymgyrch y *Rhufein-*  
 " *iaid* wneuthur dim niweid i ni ; nynt a welfom  
 " hynny eufys wrth yrru *Ful-Caisar* ar ffo ; Ei-  
 " thr os anrheithio a difrodi *Cyfoeth* y naill y llall,  
 " a rhyfela a'ch gilydd, yw eich *Dewis*, byddwch  
 " *Siccr* o fod yn *Gaethweision* i'r *Rhufeiniaid*. (i)

OND yr un peth a fuafai canu *Pibell* ynghluff-  
 iau'r *Byddar*, a cheisio eu perfwadio hwy fod yn  
 heddychol ; canys dilyn eu *hen Gamp* ysgeler a  
 wnaethant hwy fyth, i ymryffon a mwrddro eu  
 gilydd ; fel y gwelwch *chwi Adar* y *Tô* yn ym-  
 gipprys am *Ddyrneid o yd*, heb wybod fod hyn-  
 ny

ny yn eu Harwain at y *Groglath*. Ar air, cym-maint oedd eu *Cynddeiriogrwydd* a'i malais fel prin y byddai *Cydfod* parhaus rhwng y naill *Gantref* a'r llall drwy y *Deyrnas*. (k)

*springe  
fury*

YNAWR yn y *Terfysc* a'r *Cythrwl* yma, fe ddigwyddodd i ryw wr mawr a elwid *Meuric* gael ei yspeilio o'i Gyfoeth a'i Awdurdod: Llosgi ei Dai, anrheithio ei Diroedd, mwrddro ei Ddeiliaid, a'i yrru yntef ar draws gwlad i gael noddfa lle y gallai! Ac yn y wyn danbaid hon, efe a aeth dros y mor i wahawdd *Gloyw* \* *Cæsar*, i oresgyn ynys *Brydain*, yr hyn a ddigwyddodd o gylch *Blwydd-yn yr Arghwydd* 44, a hynny oedd agos i gan mlynedd ar ol i *Jul-Caisar* dirio yma gyntaf.

*rage*

Ac yno *Gloyw Cæsar* ymherawdr *Rufain* a alwodd ei Ben-cynghoriaid ynghyd i wybod eu Barn, pa un a wnai efe a'i rhyfela a'r Brutaniaid, a'i peidio a fyddai oreu. A hwy a atebasant, "Digon gwir fe gadd *Jul-Caisar* ei drin yn hagr "a'i faeddu ganddynt; etto ystyried dy Fawr-  
"hydi di, pa fodd y mae gwlad *Brydain* wedi  
"ymrannu ynawr: Nid oes dim ond y Gynnen  
"a'r Anras yn eu mysc: Ac y mae gyda ni un  
"o'i *Goreuon* yn gyfaill calonnog i ni, *Meuric*  
"dan ei Enw. Ac y mae efe yn gwirio eufys,  
"na fydd ond ychydig ac anaml Daro, hyd onid  
"allwn oresgyn gan mwyaf eu gwlad oll. Felly  
"yr ym ni yn barnu y dylid yn anad dim ryfela  
"yno, pe amgen ni a'n cyfrifir fel *Clêr* y *Dom*, ac  
"fel

*so beat*

*gastlyc manure*

(k) *Rarus duabus tribusve Civitatibus conventas. Tacit. Annal.* \* *Claudius Cæsar yw ei Enw yn Lladin.*



wasps

“fel *Caccwn*: Ac y mae hynny yn anweddus i  
 “Barch y *Rhufeiniaid*. Gwir ddigon, ebe *Gloyw*  
 “*Cæsar*, dymma'r Odfa i ni ymddial arnynt, ac  
 “ennill y *Sarhâd* a'r Golled a gadd *Jul-Caisar*  
 “fy hen Ewythr oddiganddynt.

Ac ar hynny *Gloyw-Cæsar* a ymwrolodd yn ei  
 yspryd, ac a gymmerth *galon Gwr*; ond er hyn-  
 ny yr oedd efe yn gallach na mentro ei fywyd ei  
 hun yn fyrr-bwyll ar *chwedl Meuric*; ac a archodd  
 i'r Pen-capten a elwid *Ploccyn*, † os byddai hi yn  
 galed arno, ar ddanfôn *Ysphyfrydd* o hynny atto  
 ef i *Rufain*, ac y deuai efe ac ychwaneg o wyr yn  
 gymmorth iddo.

wise

intelligence

suffering

to become summer

dispersion

method

YNO wedi i *Ploccyn* a'i wyr drwy fawr Ludded  
 deithio cyn belled a Mor *Ffraingc*, a hwy yno  
 megis yngolwg *Brydain*, etto efe a gafas ei wala  
 o waith eu perfuadio hwy i hwylio drosodd i *Fryd-  
 ain*: Yr oedd Dewrder yr hên *Frutaniaid* megis  
 yn *ddraen pigog* ar eu Hafu fyth: Ond *rhwng Bodd*  
 ac *anfodd* morio a wnaethant; ac a hwy ynawr  
 yngolwg y *Tir*, y chwythodd *Tymhefl* o wynt  
 gwrthwyneb, a'i gyrru drachefn i ardal *Ffraingc*.  
 Tybiodd y *Brutaniaid* i'r Llongau ddryllio a *foddi*  
 gan y *Dymhefl*, ac a aethont ar hynny bawb ar  
*wafgar*: Ond yn y cyfamfer y tiriodd *Ploccyn* a'i  
 wyr agos yn *ddiarwybod* i *Lû* y *Brutaniaid*, canys  
 y Llongau a achubafant rhac *foddi*, er maint oedd  
 y *Dymhefl*. (1)

PAN oedd *Llû* y *Brutaniaid* yn y fath *Drefn*  
*annosparthus* a hyn wedi gwafgaru yma ac accw  
 ar

† *Plaucius*. (1) *Dio. Cass.* p. 506.

ar draws y wlad, y mae'n ddilys i'r *Rhufeiniaid* wneuthur Glanafdra nid bychan wrth ddyfod a rhuthro arnynt a hwy yn amharodol; ond yn anad dim o ran yr *Anghydfod* a'r *Ymrasael* yn eu mysc eu hunain. Eithr ym mhen ychydig, wrth weled *Cleddyf* eu Gelynion yn difrodi mor ddiarbed, hwy a ddaethont i well Pwyll o fod yn un a *chyttún* a'i gilydd: Ac o mor *ddaionus* ac mor *hyfryd* yw *trigo* o *Frodyr ynghyd*. Canys, tra y parhaodd yr Undeb hwn, y cynnullafont eu Byddinoedd ynghyd dan eu Pen-capten a'i Brenin a elwid *Cynfelyn*; ac a phawb ynawr yn wrefog i ymladd dros eu Gwlad, buan y dialleddwyd ar y *Rhufeiniaid* am y Gwaed a dywalltafont: Ac er cyn gyfrwyfed Rhyfelwr oedd *Plocyn*, a ffyrnicced i orefgyn y wlad hon er cael Clód a Goruchafiaeth gan ei Feiftr gartref, etto gorfu arno (o anfodd ei *ên*) i ddanfon i *Rufain* am ychwaneg o Gymmorth: (m) Ac yno y daeth *Gloyw Cæsar* ei hun, yr *Ymherawdr* a'i holl *Gadernid* i *Frydain*.

*to waste  
to spare*

*Soul*

Yr oed y Cennadon a ddanfonodd *Plocyn* i *Rufain* i gynnull ychwaneg o Sawdwyr, wedi adrodd y fath Chwedl garw am Ddewrder y *Brutaniaid*, fel na wyddai *Gloyw Cæsar* beth i wneuthur; ac arno chwant i ymddial, ac chwant i aros gartref; "megis *Anner dwym-galon* yn brefu " wrth weled y *Cigydd* yn mwrddro ei *chyntaf* " *anedig*, \* ac etto *heb Galon* i *gornio* y *Mwrddwr*. " Ond yno, ar ôl bod yn hir yn go bendrifft, y daeth yn ei gôf, i'r *Rhufeiniaid* unwaith neu ddwy ennill y maes ar eu Gelynion wrth ymladd oddiar Gefn yr *Elephant*, yr hwn

*heifer hot*

E

fydd

(m) *Dio. Cass. Loc. cit. \*Vid. Levit. 27. 26.*

fydd Fwytffil hagr o faint, ac yn llwyr anghyd-  
nabyddus yn y Gwledydd hyn. Ac yn wir nid  
oedd bosibl iddo daro ar well Dychymyg; canys  
ar ôl iddo dirio ym *Mrydain*, a gosod ei Sawdwyr,  
o fefur *ugain* neu *ddeg ar hugain* ar gefn pob *Elephant*  
(canys cynnifer a hynny a all efe ddwyn  
yn hawdd) fe darfodd hynny y *Meirch-rhyfel*  
ynghyd a'i *Marchogion*, fel y bu Anrhefn erchyll  
drwy holl Lû y *Brutaniaid*: A'i Gelynion yn  
hawdd a gawfant y trecha' arnynt.

*Cynfelyn* Brenin y *Brutaniaid* ar hynny a ymoft-  
yngodd i dalu Teyrnged i *Rufain*; sef *Tasc* o aur  
ac arian bob blwyddyn; ac y mae'r Arian a *fa-*  
*thwyd* y pryd hwnnw heb fyned ar goll etto, a'r  
Sgrifen hon fyth i'w darllen, *Tasc Cynfelyn*. Ac  
yno ym mhen un diwrnod ar bymtheg yr aeth  
*Gloyw Caesar* i Dir ei wlad tuag adref; (a choel-  
iwch fi) nid ychydig oedd ei Foft yn *Rufain*, o'i  
waith yn darostwng y *Brutaniaid* wrth y fath  
*ystreng ddechellgar*: Ac er Coffadwriaeth o hyn-  
ny y bathwyd Arian, a Llun *Gloyw Caesar* ar y  
naill wyneb, ac *Elephant* ar y wyneb arall.

OND nid oedd agos i *ddegfed Ran* o'r ynys wedi  
ymoftwng etto i dalu Teyrnged i *Rufain*; nid dim  
ond y wlad o gylch *Llundain*, lle yr oedd *Cyn-*  
*felyn* yn teyrnasu: Canys pan amcanodd y *Rhu-*  
*femiaid* i changu eu Llywodraeth tua'r *Gorllewin*,  
y safodd gwr *pybur* a nerthol a elwir *Caradoc fre-*  
*ich-fras* yn eu herbyn; Ac yn ôl yr Hanes y mae'r  
*Rhufeiniaid* (er eu bod yn Elynion) yn ei adrodd  
am dano, Gwr oedd hwnnw heb ei fath, nid yn  
unig am ei Fedr a'i Galonid mewn Rhyfel, ond  
hefyd am ei Syberwyd a'i Arafwech; na chwyddo  
mewn *Hawddfyd*, na llwfrhau mewn *Adfyd*. Efe a  
ymgyrchodd

disorder

both to coin

brick crafty

Strenuous

swell  
distress

ymgyrchodd naw mlynedd a holl Gadernid *Rhufain*, ac a allafai ymdoppi naw eraill, oni bu'fei ei fradychu ef gan Langces ysgeler o'i wlad ei hun a elwir *Curtis fin-ddu*. \* Ac yn yr yspaid hwnnw efe a ymladdodd *ddeg Brwydr* ar *hugain* a'i Elynion; ac, er nid o hyd a *chroen cyfan*, etto fe a ddaeth bob amfer yn ddiangol o'i Fywyd, ac yn *llawn Anrhydedd*. Ei araith tuag at *annog* ei *oration* *to incite*  
 "hyn; "Byddwch bybur a nerthol, o *Frutaniaid*, yr ydym yn ymladd ym mhlaid yr achos "goreu yn y byd; i amddiffyn ein Gwlad a'n "Heiddo a'n Rhydd-did rhac *Carn-Ladron* a *arrows, thieves*  
 "Chwiriw-gwn. Atgofiwch wroldeb eich Teidau yn *Skulking dog*  
 "gyrru *Ful-Caisar* ar flo; *Caswallon Tudur ben-*  
 "goch, *Gronw-gethin*, *Rhydderch wynebglawr*, a  
 "Madoc benfras. (n)

Ar ôl ei fradychu i ddwylo ei Elynion, fe a ddycpwyd yn rhwym i *Rufain*, lle bu cymaint o Orfoledd a Llawenydd, a Dawnfio a Difyrwrch, o ddal *Caradoc* yn Garcharor, a phe buafid yn gorth-trechu Gwlad a *Gowri*.

NI bu *Dinas Rufain* ond prin erioed lawnach o Bobl na'r pryd *hwynnw*; Nid yn unig y cyffredin Bobl, ond y *Pendefigion*, yr uchel *Gapteniaid*, y *Marchogion* a'r *Arglwyddi* o bell ac agos oeddent yn cyrchu yn Finteioedd i gael golwg ar y Gwr a ymladdodd gyhyd o amfer a holl Gadernid *Rhufain*. Ac yno, ar ddiwrnod gofodedig, mewn Eisteddfod lawn o holl *Oreuon Itali* (a'r Ymherawdr  
 E 2 ei *great number*

\* *Cartismandua*. (n) *Vocabatque nomina Majorum*.  
*Tac. p. 242.*

ei hun yn bresennol) efe a wyneb di-yfcog, ac a chalon ddfisgl, a wnaeth Araith yn gofod allan Helbulon Byd, a *Chyfnewidiadau Bywyd dyn* mor deimladwy, fel y menodd hynny gymmaint ar bawb, fel prin oedd un yn gallu ymattal rhac wylo, a dywedyd, *Wele ym mhob gwlad y megir glew.* [Ynghylch Bl. yr Argl. 53 y bu hynny].

OND er hyn oll ni lafodd calon y *Brutaniaid* i sefyll allan yn erbyn Gormes y *Rhufeiniaid*; ond yr oeddent ynawr yn mwy llidiog nag o'r blaen i ddial arnynt am y Sarhâd o ddwyn *Caradoc* yn Garcharor i *Rufain*. Eu Pen-captan ar ei ôl ef a elwid *Arifog*, ac efe a ymladdodd a hwy lawer Brwydr waedlyd, ambellwaith yn cael y *trecha*, ac ambellwaith yn *colli*. Ond beth a allai un Genedl wneuther chwaneg tuag at gynnal ei Gwlad a'i gwir Eiddo rhac Treiswyr gormesol nag a wnaeth y *Brutaniaid* yma? *Calondid* a *Gwroldeb* a *Medr* i drin Arfau Rhyfel oedd ganddynt cyftal ag un Genedl arall dan Haul. Ond pan oedd *Gwyr o newydd* yn ymruthro o hyd arnynt ' megis yr oedd y *Rhufeiniaid* yn codi *Gwyr* o bob Gwlad, a'i danfon i *Frydain*) pa le yr oedd boffibl iddynt ymgadw? Y mae gennym Achos yn hyttrach i ryfeddu, pa fodd y gallafont sefyll allan *gyhyd*.

Ac yma daliwn Sulw ar Gyfrwysdra y *Rhufeiniaid* i gadw *Craffar* y wlad a orefgynnent drwy nerth Arfau; canys yr oeddent yn arferol o arllwys y wlad honno cyn llwyred ac oedd boffibl o'i *Rhyfelwyr*, fel y gallent drwy nerth eu Harfau hwy, ennill Gwledydd eraill, ac er cadw y wlad a orefcynnid *dan llaw*. — Nid llai nag ugain mil o *Frutaniaid* oedd gyda *Thitus* ap *Fespasian* yn ymladd

trouble  
to impress

rather

to surge

swarm  
herd  
ymladd yn erbyn *Jerusalem* : (o) Ac yn eu lle y danfonwyd trofodd *Filoedd* a *miloedd* o Bobl yr *Ital*, y rhai a ymwthiafont i bob man hyfryd, megis *to push oneself*  
*Haid* o *Gilion* gwangus yn dyrru i *Badell* o *Ddwfr* a *Mél*, ac yn foddï ynddo : Neu, megis *herd*  
*Cenfaint* o *Fôch* gwylltion yn torri i *Gae* o *wenith* ; ac ar hynny yr *Hwfmôn* yn galw ei *Gwn* ac yn eu llarpïo. [*A thyna fel y digwyddodd hi i'r Rhufeiniaid* disperod yma yn y *diwedd*, *fel y dangosaf* *issod*. ]

CANYS yr oedd y Rhai hyn yn gwneuthur Castiau hagr a'r hen *Drigolion* ; yn eu gwatwor, ac *to mock*  
yn eu galw wrth bob *Enw crâs* ar a allasai *Digwylydd*-dra noeth ei ddychymnyg : Os byddai *Tiroedd* neu *Dai* wrth fodd y *Rhufeiniaid*, fe orfyddai ar y *Perchennogion* ymadael a hwy ; a'r cyffredin Bobl hwytheu yn gorfod gweithio'n galwed o foreu hyd hwyr, ac *Estroniaid* yn cael yr *Elw*. Ac os beiddiai neb achwyn fod hynny yn *doſt*, fod *Estroniaid* yn meistrolï drwy *Drais*, ac *profit*  
yn gwneuthur y *Trigolion* yn *Gaeth-weision* yn eu *Gwlad en hun*, hwy gaent aml *Ffynnodiau* am eu *Cwyn*, ac yn fynych eu trywanu a'r *Cleddyf*. Je'r oedd y *Rhufeiniaid* ynawr wedi myned mor ysgeler megis nad oeddent yn edrych ar *Oreuon* y *Deyrnas* ond megis *Gwn* a *Barbariaid*, fel (ym myfç eraill) y mae gennym *Hanes* iddynt wneuthur ag *Arghwydd mawr* a elwid *Brasfudoc* \* ; canys hwy a yspciliafant ei *Balas* o bob peth gwerthfawr ag oedd ganddo ; ac a'i *Arghwyddes* † yn ymrefymmu'n *llariaidd* a hwy am eu *Trais* ai *muck*  
E 3 *Cribddail*,

(o) *Jos. Antiq. abridg'd by J. Howel Esqr. p. 255.*

\* *Prasutagus*. † *Boadicea*, neu *Buddug*.

*extortion*

*Cribddail*, hi a gurwyd a Gwail nes ei bod yn hanner marw; a threifywyd ei Merch o flaen ei llygaid. Ac i gwplhau ar y cwbl, Ducpwyd *Delw* a wnaed ar lûn yr *Ymherawdr*, a phwy bynnag nid ymgrymmai o'i blaen a'i haddoli, a ofodid i farwolaeth.

*hietto Bramblas**Ludeous*

Yr oedd hyn yn ddilys yn fyd toft, ac annio-ddefol ac ar hynny y cyd-fwriadodd Arglwyddi a Phendefigion y Deyrnas i ruthro arnynt a'i torri ymmaith yn gwbl, Hên ac Jefaingc oddiar wyneb y wlad, *megis y gwelwch chwi Lafurwr yn sôn am ddiwreiddio Drain ac ysgall a Miêri rhac eu bod yn anffrwythloni y Tir*: Yr oedd hyn yn ddiau yn Gyd-fwriad *gethin* ac yfgeler; ond dyna oedd eu Barn hwy y pryd hwnnw.

*Course oak*

YN y cyfamfer yr oedd holl Lû y *Rhufeiniaid* gan mwyaf ( sef eu holl Ryfelwyr a'igwyr Arfog) gwedi myned i oresgyn *Ynys Fôn*: Nid oedd yr ynys honno y pryd hwnnw ond Trigfa o *Wyr crefyddol*, a elwid y *Druidion*, y rhai megis cenhedloedd eraill (*p*) oeddent yn anad un lle arall yn dewis *Rhodfeydd* tywyll dan *Dderi* caead-frig i aberthu a galw ar y *Durwiau*, megis yr oedd *Ynys Fôn* y pryd hwnnw yn llawn o *Lanneirch* a *Llwynau pen-deuon*; a hyn yw meddwl y Bardd.

*Nos da i'r ynys dywell**Ni wn oes un Ynys well*

Llywelyn Goch ap Meuryg.

NID oedd *Gwyr Môn*, fel y dywedais, ddim Rhyfelwyr

*circle*  
 Rhyfelwyr mawr y pryd hwnnw, ond *Cymanfa*  
*o wyr crefyddol*, a hwy a dygafont y dangofai y  
*Rhufeiniaid* Barch iddynt ar y *cyfrif* hwnnw : y  
*Druidion* (heb ddim arfau Rhyfel) a gadwent y  
 blaen gwedi eu gwifgo mewn *Gynau Symmud-liw*,  
*Cappan côr taleithiog* am eu pennau, a *Ffyn hirion*  
*parwyn yn eu Dwylo* ; a'r *Gwryfyon* yn dwyn  
*Lampau cwyr* wedi ennyn, yn dawnfio draw ac  
 yma drwy eu canol, yn edrych yn anferthol ac  
 yn Synn o hirbell : fe wnaeth yr olwg o hyn yn  
 wir ryw ychydig Fraw ar y cyntaf yn *Llu y Rhufe-*  
*iniaid*, ond ar ôl ergydio *cafod* o Saethau tuag  
 attynt, buan jawn y gwaifgarwyd hwy, a'r Gelyn-  
 ion a wnaethant Laddfa echrydus yn eu mysc. —  
 Y Lle y tiriodd y *Rhufeiniaid* ym *Môn* a elwir hyd  
 heddyw *Maes hir-gâd* ; a'r ymladdfa uchod a fu  
 gerllaw *Porthamel*, rhwng *Pwll y Fywch* a *Llanid-*  
*an* ; ac y mae man gerllaw a elwir etto *Pant yr*  
*Ysgraffau*. (q)

account

gown  
diadem  
bachelor

monitions

hollow

*ferry*  
 YR oedd y fath Lanafdra a hwn ar eu *Difnydd-*  
*ion* yn chwerwi 'r hên *Frutaniaid* fwy-fwy fyth :  
 Canys ymresymmu a wnaethant "Dyma'r *Rhu-*  
*feiniaid* (Mwrddwyr a Dihirwyr ag ydynt)  
 "wedi rhuthro ar ein Hoffeiriaid, a Thrigolion  
 "Ynys môn, y rhai ni wnaethant erioed y Niweid  
 "lleiaf iddynt : Ac wele ninnau ar ol pob Am-  
 "harch a Thrais yn y byd, etto yn ymoftwng  
 "iddynt fel *Diaddell o Ddefaid* wedi eu tarfu gan  
 "ddau neu dri o *Gorgwn*. Megis y gwnaethant  
 "hwy a nyni, felly y gwnawn ninnau a hwynt-  
 "hwy. *Gwell erlid Arglwydd na'i ragod*. — Ac  
 ar hynny, megis *Cnúd* o *Lewod* wedi torri allan o

to expel  
curdy

E 4

Ffau,

(q) *Vid. Rol. Mon. Antiq. Restor. p. 98.*



*den, cave**shrill laugh**unwise**suckle*

Ffau, codi a wnaethant dros yr holl wlad, a dangos cyn lleied Trugaredd i'r *Rhufeiniaid* ynawr, ac a ddangofasant hwythau i wyr *Ynys Fôn*. Nid oedd ynawr dros wyneb yr holl wlad ond *crechwenydd* y *Brutaniaid* yn tywallt gwaed, ac *Ocheidiau* a *Griddfan* y *Rhufeiniaid*. Llofcwyd *Teml* a *Delw'r* ymherawdr, a lladdwyd ei holl *Offeiriaid*. *Llundain* ynghyd a'r *Trefydd* o amgylch (lle'r oedd *Pobl Rufain* yn byw) a lofgwyd yn ulw mân, ynghyd a'i *Trigolion*: Ac er nad oedd y *Rhufeiniaid* ddim mor anghall *Dynion* a gadael eu *Trefydd* heb *Lû digonol* o *Sawduwyr* i amddiffyn y *Trigolion* (heblaw y rhai a aethai i ynys *Fôn*) etto eu *Gwyr arfog* hwythau a dorwyd ymaith, megis un a *Chrymman* yn torri *pennau Cawn*. *ceeds*

Mor llidiog ac mor wrol-wych oeddent! Ar air, ychydig lai na *phedwar ugain mil* o bob *Gradd* ac oedran a gwmpafont yn y *Lladdfa* echrydus hon. (r)

Ar hyn, welc *Ben-captan* y *Rhufeiniaid* a eilw'r *Cymru*, *Sywidw Paulin* \* ynghyd a'i wyr arfog yn dychwelyd o *Fon*. Ac er eu dyfod, erioed ni bu eu *Calon*, un ac arall gyda'i gilydd, mor *farwaidd* a *diddim* a'r pryd hwn. Canys prin y gallasant ddal eu *Harfau* yn eu dwylo; y fath oedd eu *Dychryn*. Gweled *Celaneddau* meirw eu *Cyd-wladwyr* yn gorwedd yma ac accw cyn dewed ar *wyneb* y *Meusydd*, a *hên Ddefaid* yn trigo o'r *Pwd* mewn *Gaiaf* dyfrllyd! Gweled eu *Dinafoedd* a'i *Caerau* yn *mygu* dros wyneb yr holl wlad! Ac yn anad dim, gweled y *Brutaniaid* a *Llû* cadarn ganddynt, o leiaf *bedwar cymmaint* na'i *Llû* hwy! Ar

*rot in sheep*

(r) Tac. Annal. p. 311. \* *Suetonius Paulinus*.

Ar air, ni fu dim rhyngddynt a *diffodd* yn barod, canys *toddodd calonnau y bobl* wrth weled y fath ddifftryw, ac yr *aethant fel dwfr* : † a dilys yw, na tharawfent Érgyd, oni buasai fod eu Pen-capten yn wr call a glew hefyd : Canys ar ei waith ef yn eu gweled yn delwi ac yn ymollwng, efe a wyneb Siriol a'i galwodd ynghyd, ac yno efe a araithiodd yn y wedd hon " Ha wyr, eb efe, a digalonni a " wnewch rhac *Dadwrdd* a *Bloeddian* y *Barbar-*  
 " *iaid* accw? Beth yw eu Llu gan mwyaf ond  
 " *Mynywettach* ffôl, y rhai a fuasai yn well Syber-  
 " wyd iddynt aros gartref wrth eu *Rhòd* a'i *Cri-*  
 " *bau*. Ac am eu *Gwrywiaid*, beth ynt ond cyn-  
 " nifer Lleban difedr i drin arfau Rhyfel. Ym-  
 " wrolwch gan hynny, Chwi *Rufeiniaid* Dychryn  
 " gwledydd, a byddwch nerthol y waith hon, a  
 " chwi a welwch y *Barbariaid* hyn yn Gelanedd-  
 " au meirwon dan cich Traed yn ebrwydd.

*to extinguish*  
*noise*  
*woman.*  
*comb.*  
*link form*

Ac ar hynny *Buddug* gwraig *Brasfydoc* Cåd-pen-wraig Llu y *Brutaniaid* (canys Benyw oedd Ben y Gåd y trô hwn) a araithiodd hitheu gan ddywed-  
 yd (s) " Adnabyddwch, o *Frutaniaid*, er fy mod  
 " i ol-yn-ol o waed brenhinol, etto nid yw edifar  
 " gennyf, (er nad wyf ond Benyw) i gyd-filwrio  
 " a chwi dros yr Achos cyffredin, sef i amddiffyn  
 " ein Gwlad, ein Hawl a'n Heiddo rhac Trais  
 " Anrheithwyr ysgymmun, y *Rhufeiniaid* ysgeler  
 " accw : Dialed Duw arnynt am y cam a'r Sar-  
 " hâd a wnaethant hwy (ni ddywedaf i myfi fy  
 " hun a'm Teulu yn unig) ond i holl Genedl y  
 " *Brutaniaid* ! Am danaf fy hun y dywedaf, ni  
 " fyddaf i fyth yn *Gaethwraig* dan eu Llywod-  
 " racth,

† *Jos. 7. 5 (s) Tacit. ubi Supra.*

“raeth, dewised y sawl a fynno : Ac od oes yn och  
 “*Galonau Gwir*, Ymddygwch fel *Gwyr* ynawr ;  
 “Myfi a wnaethum, ac a wnaſ fy rhan i.” Ac  
 ar hynny ergydio a wnaethant eu Saethau cyn am-  
 led a Chafod o Genllyfc at y Gelynion ; ac mor  
 hyderus oeddent i ennill y maes (a hwy y fath Lú  
 mawr anferthol o bob Rhyw ac Oedran ) yn gym-  
 maint a bod Miloedd a miloedd yn gynnifer pent-  
 wrr yma ac accw ar bennau ’r Bencydd, ac craill <sup>hill</sup>  
 mew’n Menni a Cherbydau wedi dyfod ynghyd yn  
 unig i weled difetha ’r *Rhufeiniaid*. Mor fyrbwyll  
 a nawfwyllt oeddent.

Y *Rhufeiniaid* hwy, a dderbynniafant y Gafod  
 gyntaf o Saethau yn ddigyffro, heb fyned allan o’i  
*Rhestr* : Ond ar ol i’r *Brutaniaid* oeri ychydig o’i  
*Brwd Ymgyrch*, cydio a wnaethant eu *Tariannau* <sup>join</sup>  
 ynghyd ( i ymachub rhac y Saethau ) a rhuthro  
 arnynt i ymladd law-law a’i Cleddyfau llym dau-  
 finiog. Nid oedd y *Brutaniaid* hwy yn gydnabydd-  
 us a’r fath Ymgyrch a hwn law-law frig-frig,  
 ac nid oedd ganddynt hwy ond Cleddyfau un-finiog,  
 a Blaen pul a’i blyg tuag i fynu : Ac o achos hyn  
 o Anfontais (ond yn anad dim o herwydd eu bod  
*blith-dra-phlith* heb eu byddino yn drefnus) hwy a  
 fathrwyd gan y Gelynion, megis *Crin-goed yn*  
*cwympo mew’n Tymheftl*. Ychydig lai na *phed-*  
*war* ugain mil a gwymppodd y *Dydd dú* hwnnw  
 o bob gradd ac oedran ; er nid cymmaint a hynny  
 o wyr arfog, ond rhwng Gwragedd a Gwryfon  
 a Phlant, a’r werin wirion o gylch ; canys mor  
 ffyrnig oedd y *Rhufeiniaid* y tro hwn, fel nad ar-  
 bedafant nac Hen nac Jefaingc, nac hyd yn  
 oed y *Benywaiaid* yn eu Griddfan (t) ond trywanu  
 pawb

(t) *Tacit. ubi Supra.*

pawb yn ddiwahan, cynnifer ag a ddaethant o fewn eu Cyrhaedd. A *Buddug* hitheu (meddant hwy) o Chwerwder a Gofid calon a wenwynodd ei hun. [O gylch *Bl. yr Argl.* 62 y bu hynny.]

Ar olhyn (digongwir) yr ehangodd Llywodraeth y *Rhufeiniaid*, ond nid heb golli llawer o waed, ac ymladd megis am bob troedfedd, a gorescyn drwy Rym y Cleddyf. Bu ymladdfa waedlyd drachefn ym *Môn*; un arall a Gwyr *Deheubarth*, y rhai, fel y tyftia y *Rhufeinwyr*, oeddent y Dynion dewraf a'r grymmufaf y pryd hwnnw o holl Wyr *Brydain*. Ac o gylch dwy flynedd ar bymtheg ar ol hynny, sef *Bl. yr Argl.* 84 y bu Ymladdfa fawr a chreulon etto drachefn yn y *Gogledd* yn agos i gyffiniau *Is-coed Celyddon*, \*lle y cwmpodd o'r *Brutaniaid* (os gwir a ddywed *Hanesion Rufain*) ddeng mil o wyr, dan eu Pen-cad-pen a elwid *Aneurin Gilgoch*; ond nid ychwaneg, meddant hwy) nag ynghylch pedwar cant o *Bobl Rufain*, ond bod amryw Bendefigion a gwyr mawr o'r nifer hwnnw.

DYWEDED y neb a fydd ei ddewis Chwedl, ni bu gymmaint o *Daraw* ar y *Rhufeiniaid* erioed ag y gawfant yma ym *Mrydain*: Canys am Wledydd eraill, ar ol ymladd ac enill y Maes ddwy-waith neu dair, y Trigolion yno a ymostyngent i geisio ammodau *Heddwch*. Ond am yr hên *Fechgyn* y *Brutaniaid*, hwy a ddewisent golli *can' Bywyd* (pe bai hynny bosibl) cyn ymostwng i fod yn *Gaethweision*. Ac i ddywedyd y gwir goleu, yr oedd y *Rhufeiniaid* wedi dygn-flino, ac yn edifar ganddynt

*Severa*

---

\* *Scotland.*

ynt, ddarfod iddynt droedio *Tir Brydain* erioed, gan mor beryglus ac anefmwyth oedd eu Bywyd. Ac yno, wrth adnabod natur a Thymmer y Trigolion yn well, eu bod yn Ddynion nad ellid fyth eu *lufco* drwy *Foddion hagr*, y Cynnyg neffaf a wnaethant, oedd eu *harwain* i Gaethiwed drwy ddywedyd yn *dêg*, a'i *colwyno* drwy weniath a Danteithion a moethau da; megis Heliwr yn *eliô* <sup>as-owt</sup> *Abwyd* i ddal *Cadnaw* mewn Magl, yr hwn a fu drech na'i holl *Fil-gwn*. A choeliwch fi, mai Dyfais enbyd a dichellgar oedd hon o eiddo'r *Rhufeiniaid*: Canys y Pendefigion yno a ddechreuafant adeiladu Tai gwychion, gwisgo dillad o Lawnt a Sidan, cadw Gwleddoedd a dilyn pob Difyrwch a mafwedd. Dysgafant hefyd y *Faith Ladin*, a phrin y cydnabyddid neb yn wr bonheddig ond yr hwn a fedrai fiarad *Lladin*.—Nid oedd hyn ddim oll ond gwisgo *Lifrai* Gweision, er hardded y tybid hynny gan y werin anghall.

OND etto, er y cawfai y *Rhufeiniaid* yn ddiammeu eu Gwynfyd, pe buafai pawb o'r Deyrnas yn dirywio i'r fath Fywyd mafweddol, etto yr oedd rhai a *golwg Sâr* yn edrych ar y fath *Feddalwch* llygredig. Ac ym myfyreraill Gwr a elwid *Gwrgan Farfdrwch* \* a araithiodd yn y wedd hon. "Chwi Ddyledogion a Goreugwyr y wlad, rho-  
" wch gluff i Ddychymmyg.—*Y Llew* ar foreu  
" teg o Hâf a ganfu *Afr* yn porfâu ar ben Craig  
" uchel yn *Arfon*: O fy Nghares, eb efe, beth  
" a wnewch chwi yn *dihoeni* ar *Dusfw* o wellt <sup>lobiap</sup>  
" mor arw ag y fydd yna rhwng y Creigydd?  
" Pa

\* *Fe fu Brenin 375 o Flyn. cyn geni Christ o'r Enw.*

to drag  
to fondle  
fodder

wantonness

to assimilate  
acid Softness  
corrupt

to grow languid

"Pa ham fy Anwylyd, na ddeuwch i wared  
 "yma i'r Dyffryn i bigo *Meillion* a *Blodeu Gwin-*  
 "*wydd?* Diolch i chwi, Meistr, *eb'r Afr*, am  
 "eich cynnyg da; ond ar hyn o Dro, mi a dde-  
 "wifaf i aros lle yr ydwyf.---Gwybyddwch chwi-  
 "thau, o Bendefigion, nad yw y *Teganau* y mae  
 "y *Rhufeiniaid* yn eich harddu a hwynt, ddim  
 "amgen na'r *Meillion* y mae'r *Llew* gwangcus  
 "yn gwahawdd yr *Afr* attynt. Hy-hi yn y  
 "Ddammeg a atebodd yn gall; mynnwn pettai  
 "chwithewu yn adnabod nad yw y *Coeg-bethau*  
 "ffiloreg yr ydych yn ymdeccau a hwynt, ddim  
 "amgen na *Gwenwyn* wedi elio droffo a mêl.  
 "Hon ydyw'r *Ymgais* olaf a'r enbyttaf hefyd o  
 "eiddo'r *Rhufeiniaid* i'ch dwyn i *Gaethiwed*:  
 "A dywedaf yn hy wrthych, y fath Fywyd maf-  
 "weddol a'ch dŷg yn ddilys i ddiftryw, oddie-  
 "thr i chwi adnabod eich hunain mewn pryd,  
 "megis y gwnaeth yr *Afr* yn y *Ddammeg*." (u)

*parable  
vain*

Ond dilyn eu *Rhodres* a fynnent hwy, ac ni  
 chafas *Gwrgan Farf-drwch* ond chwerthin am ei  
 ben, am ei *Ewyllys* da i'w hachub rhac myned ben-  
 dramwnwgl i *Gaethiwed*. Ac o hynny allan dros  
 amryw *Flynnyddoedd*, y *Boneddigion* a ymroifant  
 i *Ddifyrwrch* a maethau; y *Gwyr* iefaingc yn  
*dwyn arfau*, a gippiwyd ymaith i *Wledydd* pell-  
 enig; a'r *Cyffredin* bobl hwythau a ofodwyd ar  
 waith i *ddiyspyddu Llynnoedd*, gwneuthur *Sarnau*  
 newyddion ar draws y wlad; neu wneuthur *Pridd-*  
*feini* i adeiladu *Tai* gwychion idd eu Meistrfaid y  
*Rhufeiniaid*. --- O gylch 40 mlynedd y buont yn  
 lled dangneddyfus, heb ddim *Terfysc* nac ymyr-  
 raeth,

*paring  
bruch*

*Contempt  
Common people*

raeth, ond yn talu Teyrnged yn lled ddidig. Ond o gylch y Flwyddyn 124, pan oedd Gwr a elwid *Sefer* yn rheoli yma dan yr Emprwr *Adrian*, cyd fwriadu a wnaethant dros yr holl Deyrnas i ylgwyd ymaith Awdurdod y *Rhufeiniaid*, ac i gleimio eu Rhydd-did a'i Braint unwaith etto. Eu *Dirmyg* ar Fonheddig a *Gwrêng* a gyffroawdd y Trigolion i fwrw ymaith *Fau* eu *Caethiwed*. A dywedir oni fuasai fod *Adrian* yr Ymherawdr a'i holl Lû gerllaw, a hwylio trofodd yn ebrwydd yn Gynnorthwy cyfamferol, y *Rhufeiniaid* ar hyn o Bryd, a dorrafid ymaith yn gyfan-gwbl: Ac etto, hi a fu gyfyng iawn arnynt, er mai hwynt-hwy (digon gwir) a gawfant y trecha' yn y diwedd. (w)

*Junction*

Ac ar hyn o Bryd, wele Ddychymmyg arall ac Yftryw o eiddo'r *Rhufeiniaid* i gadw tan llaw yr hên Drigolion. Canys gwnaethant *Glawdd* mawr o Dyweirch a Pholion 80 milldir o Hyd, draws yr Ynys o *Fôr* i *Fôr*, sef o *Aber-cwnrig* y naill Ran o'r ynys tua'r *Dwyrain*, hyd yn *Ystrad Clwyd* tua'r *Gorllewin*; Sef, yn agos i gydiad *Lloegr* ac *Is-coed Celyddon*, neu *Scotland*, lle mae'r Ynys yn gulaf drofti. \* Pwy bynnag ni roddai Ufudd-dod i Lywodraeth y *Rhufeiniaid* a yrrid allan o Gyffiniau *Lloegr* y tu arall i'r *Clawdd*; a Sawdwyr yn gynnifer Pentwrr yma ac accw ar bwys y *Clawdd* yn gwilied i gadw pawb allan o'r tu draw.

DROS dalm ar ol hyn y bu amser lled heddychol, (megis *Heddwch* rhwng *Boneddigion*) oddieithr ambell

---

(w) *Spartian. ap. C. p. LXVII.* \* *Edrych y Mapp.*

ambell wth a Bonclust yn awr a phryd arall yma ac accw. Ond, megis wrth *gronni Afon redegog*, hi a erys ond odid yn *lloydd* ac yn *darwel* dros encyd; etto, pan ddel *Llifeiriant*, hi a frydia yn *Rhaiadr* gwyllt dros yr *Ystange*, ac a dreigla ac a *chwilfriwa* pa beth bynnag a Saif ar ei ffordd: Felly y *Brutaniaid* hwythau, er eu bod dros amser yn lled esinwyth, etto wrth weled eu trin mor hagr, ac fel estroniaid yn eu Gwlad eu hun, a gymmerasant Galon o newydd etto: Er bod eu Gwyr dewifol, *Pigion* a *Blodeu Jeungctid* y wlad wedi eu *cippio* o *Drais* y tu draw i'r Mor, (megis yr oedd y *Rhufeiniaid* yn arferol o wneuthur) etto yr oedd digon o yspred chwerw o Ymddial yn brydio calonnau y Gwyr oedd gartref; Canys y Gwyr y tu draw, ni wnaethant fwy cyfrif o'r *Clawdd*, nac a wna *March-rhyfel*, i neidio dros *Gor-nant*: A Phreswylwyr *Lloegr* a *Chymru* hwythau y tu yma i'r *Clawdd*, a godasant yn un a *chyttun* dros wyneb yr holl wlad, nes ei bod hi yn amser gwaedlyd y pryd hwnnw ym *Mhrydain*. Cynllwyn am waed; lladd a difetha eu gilydd drwy Boenau a Chreulonder; llosgi Tai a Gwyr a Gwragedd a Phlant o'i mewn; ar air, *Ymffyrnigo* mewn *Dialedd*, oedd agos yr unig beth ag oedd y *Rhufeiniaid* a'r *Brutaniaid* yn astudio arno dros amryw ac amryw Flynnyddoedd. — Digon gwir, hwy a lonyddent dros ychydig amser, i gymmeryd eu *Hanadl*; megis *Dau Darw* gwyllt yn *ymgornio*, ac yn *gadael heibio* dros ychydig; ond yno eu *Llid* a frydia o newydd, a myned i ymdoppi yn ffyrnicach nag o'r blaen.

FE Syrthiodd peth ancirif o bob Gradd ac oedran (yn gyftal o'r *Rhufeiniaid* ac o'r *Brutaniaid*) yn y Terfysc yma yr hwn a barhaodd dros gym-

maint

to dam

while  
holdfast  
to smash

to inflame

ambush

to appease



*Sufficiency*

maint o Flynyddoedd. Dywedir i ddeng mil a deugain o Sawdwyr a Swyddogion *Rufain* (heblaw Eraill hyd wyneb y Deyrnas) gael eu trywanu a chleddyf y *Brutaniaid*. Y Gwirionedd yw hyn, yr oedd y ddwy Genedl yn bengam ei gwala: Ni fynnai'r naill ddim i *blygu* ac *ymostwng*; na'r llall ddim i *adael heibio* wedi dechreu.

FELLY y newyddion neffaf fy gennym ni am danynt, yw o gylch y Flwyddyn *O oedran Christ* 197, pryd y daeth yr Ymherawdr a elwid *Sefer* a Llu mawr jawn ganddo trofodd i *Frydain*, sef agos i Gan mil rhwng Meirch Rhyfel a Gwyrtraed, gan lwyr fwriadu gwbl ddifetha Cenedl y *Brutaniaid* oddiar wyneby ddaear. Canys nid hwyrach ac y tiriodd, efe a roddes Orchymmyn idd ei Sawdwyr mewn Pennill allan o hen *Brif Fardd*. \*

*Na edwch Fritwn yn y wlad, ond lleddwch oll i gyd; Gwr-ryw a Benyw, mawr a bach, difrodwch oll ynghyd.*

*worthlessness*

OND er gwaetha' hyn o Fygwth i daro Braw a'i digalonni, fe gafas ei wala o waith i ddarostwng pob man dan ei Lywodraeth: Am y Rhan fwyaf, digon gwir, a hwy wedi cael ond gormod Prawf eufys o Ddihirwch Rhyfel, ac yn enwedig wrth ystyried na' oedd e' ddim Sarhâd na Chywilydd i'r *Brutaniaid* ymostwng, i dalu Teyrnged, pan oedd yr *holl Fyd* (h. y. Y rhan fwyaf o'r Byd adnabyddus y pryd hwnnw) dan Awdurdod y *Rhufeiniaid*, ac yn eu cydnabod yn *Feistrad*; am hynny,

---

\* *Ex Homer. Il. 3*

hynny, meddaf, y danfonasant Gennadwri at yr *Ymherawdr*, "ar fod yn wiw ganddo alw yn ôl " a diddymmu y Gorchymyn gwaedlyd a roddes " efe o'r blaen idd ei Filwyr, ac y byddent hwy- " thau wedi 'n yn *Ddeiliaid ffyddlon iddo*. " A'r ymherawdr yno, ar ôl cael dauddeg o Ben-goreuon y Deyrnas yn wyftlon ar iddynt gyflawni eu gair, a'i derbyniodd idd ei Ffafr, ac ar hynny y gwnaethpwyd Ammōdau o Heddwch rhwng y ddwy Genedl.

OND er i'r Rhan fwyaf o'r Deyrnas gymmeryd Llŵ o Ufudd-dod, etto yr oedd Miloedd o rai cyn-dyn (a *Merfyn Frych wyneb-glawr* yn Ben-captan arnynt) nad ymostyngent ar un cyfrif i Lywod-raeth *Bobl pellenig*, er gwaetha' eu holl Gadernid a'i Bygythion: Oblegid hwy a gilient i'r Anial-wch a'r Corfydd, lle nid allai y *Rhufeiniaid* ddim eu canlyn heb Berygl Bywyd: A phrin y gellid eu newynu chwaith, oblegid fod ganddynt ryw Dammaid gymmaint a *Ffaen* a gadwent yn eu Geneuau, a fwriai ymaith chwant Bwyd (x) Ond o fefur ychydig ac ychydig hwy a ddofwyd; (ond nid heb golli llawer o waed o bob ochr:) Ond nid ymddiriedodd yr Ymherawdr fyth iddynt; canys efe a'i danfonodd hwy y tu arall i'r *Clawdd*, yr hwn a adgyweiriodd efe o Fôr i Fôr, ac a'i gwnaeth yn gadarnach o lawer na'r *hen Clawdd* (er nad oedd è etto ond o Dyweirch a pholion) ac a enwir hyd heddyw, *Gwal Sefer*; am ba un y can rhyw hen Fardd fel hyn.

F

Gorug

---

(x) *Dio. Cass. ap. C. p. 45.*

*Gorug Seferus waith cain yn draws dros ynys Frydain, Rhag Gwerin gythrawl, Gwawl fain.*

DYN dewr calonnog oedd *Sefer*, ac a gadwodd, tra fu efe yn teyrnafu, bob peth yn waftad ac yn heddychlon. Efe a fu farw *Bl. yr Argl. 213 yng Haer Efrog*; a'r geiriau diweddaf a ddywad efe ar ei wely-angau, oeddent, "Mi a gefais yr "Ymherodraeth yn llawn Terfyc a Helbul, ond "wele bob peth ynawr yn dangneddyfus, ie hyd "yn oed ym myf y *Brutaniaid* eu hun.

*frontle*

NI bu dros amryw *Flynnydoedd* wedi'n ddim Rhyfel, oddieithr ambell *Ergyd chwyryn*, ac ambell *Senn* chwimmwth draw ac yma: y *Rhufeiniaid* oedd ynawr yn *Feistraid*, ac odid fod *Gwas-Lifrai* drwy gydol y Deyrnas, onid oedd yn deall ac yn Siarad *Lladin* yn ddifai ddigon. — Yn y flwyddyn 228 y gwelwyd yn y Misoedd *Tachwedd a Rhagfyr, Seren-y-Gynffon* yn estyn ei Phelydr megis *Tân llachar*, yn ofnadwy ac yn aruthrol ei ganfod: *A'r Haf* dros dair Blynedd ar ôl hynny oedd mor wlyburog, fel nad addfedodd nac Yd na ffrwythau *Coed*, yr hyn a barodd *Ddrudaniaeth*, a *Haint* a newyn: *Y Bara* oedd afiach, ac hyd y mae *Histori* yn mynegi, hon oedd y waith gyntaf (er digwydd yr un *Farnedigaeth* amryw brydieu wedi hynny) o'i alw y *Bara chwydog*; oblegid nad oedd ê ddim yn dygymmod a *Chorph dyn*, ond ei *chwydu* allan drachefn, er fod y *Werin druain* yn eu gwangc a'i newyn yn gorfod ei fwytta, er ei *Saled*. Ond y *Gauaf* y drydedd *Flwyddyn* y bu *Dur-reu* parhaus o ganol *Tachwedd* i ddechreu *Chwefror*, a *Haf rhadlon* tymherus ar ôl hynny, yr hyn (drwy *Fendith Duw*) a ddygodd *Lawn-did* a *Digonolrwydd* o bob dim i'r *Trigolion* drachefn. (y)

*swift*

*hans, quick*

*bright*

*rainy*

*disease*

*to vomit*

*Serene*

Y Pryd neffaf y mae dim crybwyll am Helynt y *Brutaniaid*, fydd o gylch y Flwyddyn 286, ym mha amfer, Gwr a elwid *Caron* (yr hwn oedd o Dylwyth gwael \* etto yn Sawdiwr gwych a dewr) a anfonwyd o *Rufain* yn Ben ar ddeugain o Longau, i gadw ymaith y *Ffrangcod* † a'r Saeson, y rhai oeddent yn diffaithio y wlad a elwir ynawr *Ffraingc*, ond y pryd hwnnw y *Gelli*; canys Pigladronach a *Gwibiaid* oedd y ddwy *Genedl* honno ar y cyntaf, megis *Haid* o *Gaccwn* neu *Wenyn* ormes yn ymwithio i Gwch yn *llawn* o *Fêl*: Yna *Caron* a ymddygodd yn wrol-wych gan ddarostwng hyd lawr y Crwydredigion Ladronach hynny, ac ennil Anrhaith fawr jawn oddiarnynt: Ond yn y cyfamfer efe a drodd yn *Ben-lleidr* ei hun, ac yn *Fradwr* idd ei Feiftr, Ymherawdr Rhufain; canys yr holl Gyfoeth yma a gadwodd efe yn ei Feddiant ei hun: A rhac y gelwid ef i gyfrif am hynny, efe a lanwodd ei Longau a'r Yspail ac a hwyliodd i *Frydain*, a thrwy ei Weniaith hudol efe a enillodd Galonnau'r *Brutaniaid*, gan wneuthur Araith a dywedyd "Y caent hwy esmwythach Byd "dan ei Lywodraeth ef na chan y *Rhufeiniaid*; ac "y byddei efe yn Gyfaill cywir iddynt rhag ymgyrch un Gelyn pa un bynnag" Er, pan gafas efe y Llywodraeth yn ei Law, efe a ymddygodd yn *Ormeswr* creulon yn hytrach nag *Ymgoleddw*, megis y gwelwn ni lawer Boreu teg o Haul-wen Hâf yn diweddu mewn Dryg-hin. Ond etto, o ran ei fod efe yn cadw llaw dynn ar warr y *Brutaniaid*, ei hen Feiftr (*Dioclesian* oedd ei Enw) a heddychodd ag ef, ac a gadarnhaodd ei

F 2

Frenhin-

mention

wasps

prey

nape of the neck

(y) MS. \**Vilissime* natus. *Eutrop. Inst.* p. 607.  
 † *Nid* y *Ffrangcod* presennol oedd yn byw yn y wlad y pryd hwnnw.

*to shake*  
Frenhiniaeth ym *Mrydain* : Am ba ham, y mae ar naill wyneb yr Arian a fathwyd dan ei Lywodraeth ef, ddwy Fraich estynnedig yn Siglo dwylaw. Ac y mae y *Fath* hon heb fyned ar goll etto. (z)

*claim*  
*hewn stone*  
LLE nid oes dim *Hawl* dda, y mae yno yn wastad Ofn. Ac felly *Caron*, i ddiogelu ei hunan yn y Frenhiniaeth, a adeiladodd faith *Castell* wrth *Wal Sefer*, yn gynnifer Amddiffynfa i gadw allan y rhai oedd yn edrych arno ddim amgen na *Charn-leidr* mewn Awdurdod; ac efe a wnaeth hefyd Dy mawr *crwnn* o gerrig-nâdd ar lan *Caron* i gynnal Llys ynddo pan y byddei efe yn y parthau hynny. (a) Ond ar ol *Saith* mlynedd o Deyrnafiad gerwin a llym, efe a laddwyd \* yn fradychus gan ei Swyddog ei hun, yn yr hwn yr ymddiriedodd, a elwid *Alectus*. A hwn hefyd a draws-feddiannodd y Wlad *dair* Blynedd, ac yno a laddwyd \* gan *Frân ap Llyr*, yr hwn a deyrnasodd *chwe'* Mlynedd, ac yno a laddwyd \* yntef gan *Coel-Cad-ebog* Iarll *Caerloyw*; a'i Fab *Caradoc* aeth i wynedd, lle y cloddwyd *Bronwen* chwaer ei Dad mewn Bedd petrual ar lan *Alw* yn ynys *Fôn*; a chwedi marw *Caradoc* gwnaethpwyd ei fab *Eyddaf* yn Rhaglaw *Brydain* gan *Gustenyfawr* ei Gefnder, fel y dangosaf ifod.

DYDDIAU

---

(z) *Camd. p. LXXIII. (a) Vid. Ufs. Primord. p. 586. \*\*\* Ad generum Cereris sine cœde & sanguine, pauci Descendunt Reges & siccâ morte Tyranni.*

DYDDIAU blin oedd y rhai hyn; pan, pe lyma' y byddei Cleddyf gwr, mwya' gyd fyddai ei Awdurdod a'i Feistrolaeth. Ond ar hynny y daeth trosodd i *Frydai n Dduwc anrhydeddus* a elwid *Custeint*, yr hwn a fu yn *Emprwr* yr holl fyd ei hun wedi'n. Efe a ddaeth trosodd mewn amser da, canys efe a achubodd y Brif-ddinas *Llundain* rhac ei llosgi a'i hanrheithio gan y *Ffrangcod*, y rhai yn yr Anrhefn a'r Afreolaeth uchod (y Gwyr mawr yn ymrannu ben-ben) oeddent yn chwilenna draw ac yma am Ysglyfaeth; megis pan fyddo dau *Waed-gi* yn tynnu Llygaid eu gilydd am *Olwyth o Gig*, heb fod well oddiwrtho; y mae *Corgi taeog* yn dyfod heibio, yn myned ymaith a'r *Golwyth*, ac yn *gadael* y ddau *Golwyn* wneuthur *Heddwch* gan eu Pwyll.

MAWR oedd *Gorfoledd y Brutaniaid*, a'i Diolchgarwch i *Gusteint*, am eu hachub o Grafangau Plant Annwn y *Ffrangcod*. Bathwyd Arian yn *Llundain* er Anrhydedd iddo, a gosodwyd ar y naill wyneb ei Ddelw ef, ac ar y wyneb arall, *Teml rhwng dwy Eryr*, gan arwyddocau wrth hynny (mae'n debygol) fod eu Braint Eglwyfig yn ddiogel dan ei nawdd ef; Canys, ei fod ef yn ffafrio y *Christnogion*, ac yn gwneuthur mwy Cyfrif o honynt nag o neb eraill, fydd eglur ddigon oddiwrth yr Hanes nodedig hon o'i Fywyd. (b)  
 "Meddyliond ynddo ei hun i gael profiad hollol,  
 "pa un a'i *Christnogion* cywir a'i *Rhagrithiwyr*  
 "oedd Swyddogion ei Lys; canys *Christnogion* gan  
 "mwyaf oeddent oll. Felly efe a'i galwodd  
 "hwy oll ynghyd, ac a ddywad wrthynt, mai ei

F 3

"Ewyllys

(b) *Sozom. Hist. Eccl. Lib. 1. Cap. 6.*

“ Ewyllys oedd y cai y sawl a *aberthai i'r Duwiau* “  
 “ gadw ei Fraint ac aros yn y Llys ; ond y cai y  
 “ sawl nad ymostyngent i hynny, ymadaw o'i  
 “ wasanaeth ef. Ar hynny y *Crisnogion cywir*,  
 “ gan oblygu eu Pennau, a aethant allan; ond y  
 “ *Rhagrithiwyr* a arhofasant gyda'r *Ymherawdr*,  
 “ ac a ddywedasant eu bod hwy yn fodlon i aber-  
 “ thu. Ac yno yr *Ymherawdr* a barodd alw i  
 “ mewn y rhai aethant allan, ac a'i gwnaeth hwy  
 “ yn Ben-cynghoriaid ; ond efe a ymlidiodd ym-  
 “ aith y *Rhagrithiwyr*, gan farnu yn uniawn, *na*  
 “ *fyddai y cyfryw rai ag oedd Fradychus i Dduw fyth*  
 “ yn *Ddeiliaid ffyddlon iddo ef.* “

ERIOED ni bu Gwr o *Rufain* mor anwyl gan  
 y *Brutaniaid* a *Chusteint*, ac yntef a'i hoffodd  
 hwytheu o flaen un Genedl arall ; a phrin y gellir  
 gwybod pwy oedd yn caru y naill y llall oreu, a'i  
 Hwylt-hwy yn eu Parch a'i Hufudd-dod iddo ef,  
 a'i yntef yn ei Foefau da a'i Diriondeb tuag attynt  
 hwytheu. Ac fel y sefydlid Heddwch parhaus  
 rhwng y ddwy Genedl, ac i symmud ymaith o  
 hynny allan bob Llid a Chwerwder a Digofaint  
 efe a briododd *Elen* (y Bendefiges lanaf, ac oreu  
 ei Rhinwedd dan Haul) merch *Coel Codebog* yn-  
 awr yn Frenin *Brydain*, a'i *Wraig Stradwen* merch  
*Cadfan* ap *Conan Tywysog Gwynedd*: Ac o'r  
*Elen* hon y ganwyd ; *Gusteint* Fab a elwir *Cust-*  
*enyn fawr*, y Gwr enwocaf o'r Byd *Chrifnogol*.  
 a'r *Ymherawdr cyntaf* a fedyddiwyd i Ffydd *Jesu*  
*Ghrifst*.

*Elen* oedd *Grif'noges* wrefog yn y Ffydd, a  
 chymmaint yn ragori ar Eraill yn ei Dyledswydd  
 at Dduw a Dyn, ag oedd hi mewn Anrhydedd a  
 Goruchafiaeth fydol. Hi aeth i *Gaersalem* i weled y  
 lle

lle y dioddefodd *Christ Jefu* dros Bechod y Byd, yn ol yr hyn a ddywad yr Angel wrth y Gwra-gedd, *Deuwch gwelwch y fan lle y gorweddodd yr Arglwydd*. Math. 28. 6. Ac yno, drwy fawr Ludded ac Anhawfdra, hi a gadd y Groes y dioddefodd Christ; canys y *Paganiaid* a ddaflant yno *Grug* aruthrol o Gerrig (o'i cafineb i'r *Crisnogion*) ac yn y gwaelod y cafwyd tair Croes; ond oblegid fod yr *Astell* yn cynnwys y *Sgrifen* wedi torri ac yn gorwedd ar neilldu, *Croes Christ* (medd yr hen Hanefion) a adnabuwyd wrth fod a Rhinwedd ynddi i jachau *Clefydon* (c) Am ba weithred y mae un o'n Beirdd ni yn canu, ac yn ei galw hi, *Diboen*.

burden

heap

plank

disease

Diboen ferch Coel Codebog  
I Gred a gafas y Grog.

Hi a fu farw yn llawn o ddyddiau yn bedwar-ugain oed, ac a gladdwyd yn *Constantinopl*. Ond *Custeint* yr Ymherawdr, a fu farw ym mhell o'i blaen hi sef yn y Flwyddyn 313, ac a gladdwyd yng *Nghaer Efrog* yn Lloegr. Dywedir i gael yn ei Feddrod ef yn amser *Forwerth* y chweched, Lamp a gynneuodd yno yn wastadol er yr amfer y claddwyd, hyd y pryd hwnnw; sef dros ychwaneg na *dauddeg cant o Flynyddoedd* (d) Cafwyd yr un *fath Lamp* ym Meddrod *Tul-lia* merch *Cicero* yr *Araithydd*, yr hon a gynneuodd ynghylch 1550 o Flynyddoedd; (e) ond hi a ddiffoddoddes yn y man cyn gynted ac y daeth Goleu'r Dydd i mewn.

be light

F 4

Dychym-

(c) *Sozom. Hist Eccles. Lib. 2. Cap. 1. Edit Lovan. 1569.* (d) *Camd. in Yorkshire.* (e) *Salmuth in Pancir. P. I. Tit. 35. p. 124.*



*he feed*  
 Dychymmyg odiaeth ryfeddol oedd hon o eiddo'r hen Bobl i wneuthur *Lamp* fel hyn i gynneu yn waftadol yn y Tywyllwch : Tybia rhai mai Aur wedi gyfnewid i *Rith Arian-byw*, oedd yn pefci 'r Lamp; ond pa fodd bynnag yw hynny, mae'r Gelfyddyd wedi ei cholli y nawr.

*end*  
 Er cyn gynted ac y clybu *Custenyn fawr* yn *Rhufain* fod ei Dad yn glâf, er maithed oedd y ffordd, etto prin y rhoddes efe Hûn i'w Amrantaau, nes ei ddyfod i Dîr *Brydain*; ond yno yr hên wr oedd ar drangc marwolaeth. Yr oedd y pryd hwnnw Derfyc a Gwrthryfel yn yr *Ital*, am ba ham nid allodd *Custenyn* aros ond ychydig amfer ym *Mrydain* ar ol claddu ei Dâd; ond cyn ymadael efe a drefnodd bob peth yma er cadw Llonyddwch yn y Deyrnas. *Euddaf* ei Gefnder a wnaeth efe yn Ben ar *Loegr* gan mwyaf oll : *Cenau* ap *Coel* ei Ewythr frawd ei fam a appwyntiodd efe yn Rhaglaw i lywodraethu *Cerniw* : *Cynedda* wledig ei Gefnder, sef mab *Gwawol* ei Fodryb chwaer ei fam a ofodes efe &c. Yn Dywysog ac yn Rheolwr Cymru; ac *Einion Urddd* Câr arall iddo a Sefydlodd efe a llawn Awdurdod yn y Gogledd tua Chydiad *Lloegr* a *Scotland*. Ac ar hynny efe a ymadawodd, a chododd Llû mawr o *Frydain* gydag ef i ymladd yn erbyn y rhai oeddent yn ymgeisio a'r Goron; Eithr ar ol darostwng y Gelynion, ni ddychwelodd ond ychydig o'r rhai hynny adref, eithr arhosodd rhai yn *Rufain*, ac eraill a arhofasant yn y Rhan honno o Deyrnas *Ffrainc* a elwir *Llydaw*, a hon oedd y waith gyntaf i'r *Brutaniaid* fyned i brefwyllo yn *Llydaw*, sef yn y Flwyddyn 313.

*Cyd-tylwyth* oedd ynawr gan hynny yn eistedd ar Orfedd-

Orfedd-feingciau *Rhufain* a *Brydain*: Am ba ham ni cheisiodd *Custenyn fawr* ddim Arian Teyrnged o *Frydain*, ond rhyw Gydnabyddiaeth yn unig mai efe oedd *Ben*, Yr oedd ganddo ei wala, oedd ei *Wala wen* y tu hwnt i'r môr, yn Ymherawdr *Ffrainge*, ac *Hispaen* a *Germania*, a'r *Ital* yr *Aipht*, a *Mesopotamia* a *Judea*, a *Chappadocia*, *Phrygia*, *Pontus* ac *Asia*. Ac onid oedd hyn ddigon?

OND i ddych welyd i *Frydain*. *Eyddaf*, wedi heneiddio, ac iddo ond un Ferch yn unig a'i henw *Elen*, a chwennychai (megis gwr call) sefydlu y Goron yn ei Fywyd, rhac bod Ymgais am dani, a therfysc ar ôl ei ddyddiau ef. A chyngor ei Arglwyddi oedd, ei rhoddi hi yn Briod i Gwrwr iddi a elwid *Macfen wledig*, yr hwn oedd o ran ei Dâd yn Gymro, fab *Llywelyn Brawd Coel Codebog*; ond o ran ei fam yn *Rhufeiniaid* (canys *Llywelyn* a acthai gyda'i nai *Custenyn fawr* i *Rufain*, ac a briodafei yno) ac a anwyd ac a fagwyd yn y Llys yn *Rhufain*; ac o ran Tad a Mam o waed Brenhinol, ac am hynny a farnwyd yn Briod gweddus i *Elen* Etifeddes y Goron yr oedd *Macfen wledig* y pryd hwinnw yn *Rufain* ac (fel yr oedd gwaetha'r bod) wedi newydd fyrthio allan a'r ddau Ymherawdr, *Falentinian* a *Grasian*, am na chai yntef fod yn *Drydyddd*. Ac erioed ni bu lawenach ei galon, na phan ddaeth y Gennadwri atto o *Frydain* i gynnyg *Elen* merch *Eyddaf* yn Wraig iddo, ynghyd a *Choron Loegr* yn waddol gyda hi.

OND wedi priodi *Elen*, ni bu efe ddim bodlon i wisco *Coron Loegr* yn unig (a phe gwnaethai efe hynny, ê fuasai o goffadwriaeth ddedwydd) ond efe a fynnai fod yn *Ben ymherawdr* y *Byd*: etto i ddyweddyd

*partion*

presumption

ddywedyd y gwir, nid ei *Ryffyg ei hun*, ond Cariad y Milwyr atto a'i cymhellodd ef o'i anfodd i wneuthur yr hyn a wnaeth; ac y mae pawb yn tyftio, nad oedd wr dan Haul yn weddufach i fod yn Ymherawdr, pe buasai ei Dirl yn dda; ac er hynny, yr oedd efe yn Gâr agos i *Elen Lueddawg Mam Custenyn fawr*. (f)

OND bynnag pa fodd, cymmaint oedd ei Barch gyda *Goreuon y Llu*, fel y dewiswyd ef yn ymherawdr, a'i gyhoeddi nid yn unig ym *Mrydain*, ond gan y Llŷ y tu hwnt i'r Môr hefyd; ac yntef ar hynny o'i led anfodd a gymmerth ei berfuadio; A rhac bod dim yn Rhwystr ar ei ffordd, y fath oedd ei Gariad ym mhob gwlad, fel y declariodd Llŷ aneirif o ddewis Filwyr y *Brutaniaid*, "eu bod yn llwyr fwriadu i sefyll gydag ef, ac na "chai dim ond Angau fyth eu gwahanu oddi- "wrtho: "Ac yno hwylio a wnaethant i *Deyrnas Ffraingc*.

centra

Y ddau Ymherawdr gyfreithlon ar hynny (sef *Falentinian* a *Graſian*) oeddent agos a gorphwyllo, a pheth i wneuthur ni wyddent. Ond tuag at attal eu *Cyrch* ym mhellach tua'r *Ital*, gwnaethant Gyngrair a Barbariad gwylltion o *Sythia* (y rhai a fuafent o'r blaen yn anrheithio Gwlad *Brydain*) ac a'i danfonasant trosodd ag *Arian* ac *Arfau*, a'i hannog i wneuthur pa ddrygau oedd bosibl, sef i ladd a llosgi a dinistrio hyd ddim y gallent; gan hyderu y dychwelai *Macfen* ar hynny i *Frydain*, i achub

---

(f) *Maximus, vir strenuus & probus, atque Augusto dignus, nisi contra Sacramenti fidem &c. Paul Diac p. 628.*

achub ei Deyrnas ei hun : A phwy a allai ddisgwyl  
 llai ; megis *Haid o Frain* yn myned allan o'i ny-  
 thod i *Chwilenna* ac i gippio'r *Had* oddiar wyneb  
 y *Maes* ; os digwydd *Cafod ddisymmwth* o *Gesser*  
*digafog*, yno hwy a rhedant ar frys i achub eu *Cy-  
 wion gartref* : --- Ond *Macfen* ynawr wedi ym-  
 galedu yn ei ddrwg, oedd ei *Lygad* ar bethau uwch  
 nag achub ei wlad ei hun rhac y *Fsichtiaid gormesol*  
 ( canys dyna oedd *Enw* y *Bobl* a ddaethant  
 o *Sythia* : ) Felly efe a'i *Wyr*, ym mlaen yr aethant  
 tua'r *Ftal* ; a phan oedd *Grafian*, *Gwr* jevange  
 grafol o gylch 25 Oed, yn bryffio adref i ymweled  
 a'i *Briod newydd-weddawg*, ac efe yn rhydio *Afon*  
 yn ei gerbyd, efe a Syrthiodd i *Gynllwyn Ana-  
 rawd Gethin* \* un o uchel *Capteniaid Macfen*, ac  
 a laddwyd ; a *Falentinian* ei *Frawd*, rhac y trinid  
 yntef yn yr un modd, a giliodd ar encil ym mhell i  
*Asia* tua'r *Dwyrain*. (g)

expect

interrupted hailstone  
check

ambush

WEDI bod cyhyd mor llwyddiannus yn eu  
 Gwrthryfel, y *Newydd* nessler, fe all dyn dybied,  
 a fyddai coroni *Macfen wledig* yn *Ymherawdr*,  
 oblegid ynawr fod y ffordd yn rhydd : Ond yma  
 y gwiriwyd yr hen *Ddihareb*, *mai drwg y ceidw y*  
*Diawl ei was* : Canys, pa un a'i ofni y dychwelai  
*Falentinian* a *Llú* cadarn o *Asia* ; a'i bod eu *Cyd-  
 wybod* yn eu *brathu oddimewn* ; a'i hynny, a'i beth  
 bynnag oedd yr achos, efe a laddwyd gan ei wyr  
 ei hun, ynghyd ag *Owen Fin-ddu* ei fab. Ac  
*Anarawd gethin* ar hynny a syrthiodd i *Bwll* ar ei  
 ben, yn yr un man ac y gosodes efe *Gynllwyn*  
 am waed gwirion y *gwr* da hwnnw *Grafian*. Ac  
 yno

to stab

\* *Andragathius*, (g) *Paul Diac. Loc cit. Sozom L.*  
 7. C. 13.

yno holl Lu *Macfen* a wafgarwyd draw ac yma hyd wyneb y Gwledydd ; ond y rhan fwyaf, yng-hyd a'i Pen-cadpen *Conan* Arglwydd *Meiriadoc*, a arhofasant gyda'i Cydwladwyr yn *Llydaw* : A hon oedd yn ail waith i'r Brutaniaid wladychu yno, sef o gylch y Flwyddyn 383.

*to join in matrimony*

*Conan*, ni fynnei ymgyfathrachu a neb, ond a'i Genedl ei hun ; am hynny efe a anfonodd i *Frydain* am *Wragedd* ; a danfonwyd iddo *un fil ar ddeg*, rhwng *Merched Gwyr* cyfrifol, ac eraill o isfel radd. Ac fel yr oeddent yn hwylio tua *Llydaw*, y cyfododd *Tymheftl* ddirfawr fel y foddde tair o'r *Llongau* ; ond y dauddeg *Diangol* a yrrwyd gan *Gynddeiriogrwydd* y *Gwynt* i *Barthau Llychlyn*, ac a ddaliwyd gan y *Ffichtiaid*. Ac yno (ebe'r *Cronicl*) *Gwedi canfod o'r ysgymmun Bobl* y *Morwynion*, a gweled eu tecced, ceisfaw a wnaethant i lenwi eu *Godineb* a hwy ; a chan na fynnodd y *Morwynion gydsyniaw* ag hwynt, sef a orug y *Bradwyr* eu lladd, Yr ydys yn cadw *Dydd Gwyl* er coffadwriaeth i'r *Gwryfson* hynny *Hydref* 21. ac a elwir *Gwyl Santesfau*. Ac y mae *Eglwys yng Heredigion* \* a elwir *Llan-Gwryfson*, a gyfenwyd felly ar ei *Chyfflegriad* er Cof am danynt. -- *Dywedir* i *Frutaniaid Llydaw* ar ôl hynny gymeryd *Merched* y wlad honno yn *Wragedd* iddynt ; a phan enid *Plentyn*, (os gwir yw'r *Chwedl*) pob un yno a dorrai *Dafod ei Wraig*, rhac y buafei hi yn difwyno'r *Jaith*, ac yn dyscu i'r *Plant* ffarad *Llediaith*. (h)

*furt*

*fornication*  
*equivocance*

*to surname*

*corrupt speech*

NID oedd o gylch yr amfer yma yn nhir *Byrdain*

\* *Rhandir Aber-teifi* (h) *MS. Vet.*

*Brydain* ddim ond *Anrhefn* a'r *Anras* gwyllt. Cyhoeddidd gwr yn *Ymherawdr* heddyw, ac y dorrid ei *Ben* ef drannoeth i roddi lle i ryw un arall; a hwnnw o fewn ychydig ddyddiau a gai yntef yr un *Dihenydd*. Nid yw wiw ofod i lawr eu *Henwau*, (i) etto un o honynt yr hwn oedd yn ddilys o waed *Brenhinol* y *Brutaniaid*, a haeddai ei goffau, ac a elwir *Custeny*n. Heblaw ei *Ditl* i'r *Goron*, efe a ddewifwyd hefyd er mwyn ei *Enw*, gan obeithio y byddei efe cyn enwoced *Gwr*, a *Chusteny*n *fawr* ei *Gâr*. Rhyfelwr enwog oedd y *Gwr*, ac a fu mor llwyddiannus, fel y bu *Ffrainge* ac *Hyspaen* a *Brydain* dan ei *Lywodraeth* ef dros amryw flynyddoedd; ac ni fu ond lled troed rhyngddo a bod yn *Ben-Ymherawdr* *Byd*, a'i goroni yn yr *Ital*. Ond yna, ynghanol ei *Rodres*, efe a laddwyd drwy *Frâd* a *Chynllwyn*; a'i *Wyr* a wasgarwyd, ond y *Rhan* fwyaf a arhosafant gyda'i *Cydwladwyr* yn *Llydaw*; A hon oedd y drydydd waith i'r *Brutaniaid* adael *Llwyth* o'i *Pobl* yno, sef o *gylch* y *Flwyddyn* 409.

**BUAN** y parodd y fath *Afreolaeth* a hyn (a hynny yn ddibaid dros amryw *Flynyddoedd*) i holl *Ymerodraeth* *Rufain* *Siglo* ac ymollwng; megis *Llong* *fawr* yn ymddattod, pan fo'r *Tonnau* a *Gwyn*t gwrthwyneb yn ei *chippio*. — Neu, megis *Maes* *llydan* o *Wenith* yn cael ei *Sathru* a'i *rwygo* gan *Genfaint* o *Fôch*, oni bydd *Cae* *diogel* o'i *gylch*: Felly *Rufain* a'i holl *Gadernid* a aeth o sefur ychydig ac ychydig yn *chwil-friw* mân, o ran yr aml *Ymbleidiau* o'i mewn, a digafog *Ymgyrch*

(i) *Soz. Hist. Eccles. Lib. 9. Cap. 11, 12, 13, 14, 15.*

*To decay*

gyrch y Barbariaid o amgylch. -- Ac megis nad all *Neuadd fawr ehang* o amryw stafelloedd *amgen nac adfeilio*, pan y bo Deiliad gwan yn byw ynddi : Felly yr un modd, pan oedd y Milwyr mor afreolus, ac yn newid eu Meistr mor fynych, *h. y.* yn gofod y fawl a welent hwy fod yn dda yn ymherawdr, ac ar y cweryl lleiaf yn ei ddiswyddo alwaith, nid yw Ryfedd nad allai un Pen-rheolwr yn y fath achos a hwn gadw cynnifer o wledydd mewn Ufuddd-dod. A thyna a barodd i'r Ymherawdr a elwid *Honorius* o gylch y Fwyddyn 410 ymwrthod a'r Deyrnas hon, a danfon am ei fyddinoedd oddiyma Adref i'r *Ital*, lle'r oedd mwy Rhaid wrthynt.

*case opportunity*

DYMA Ddechreuad yr *Aur* a'r *Arian* yr ydys mewn amryw fannau yn ei gloddio o'r ddaear : Canys ar waith yr ymherawdr yn galw am dan-ynt Adref ar frys, y *Rhufeiniaid* yno a guddiafant eu Tryfflorau mewn Tyllau ac *Ogfeydd* yn y ddaear, gan obeithio y caffent hwy *Odfa* i'w meddiannu ryw bryd arall, ond hynny nis cawfant fyth. (*k*)

*to empty vacant*

YR oedd *Brydain fawr* ar hyn o Bryd gan hynny, wedi ei harllwys yn gwbl o'i Gwyr arfog, a hynny a barodd i'r *Gwibiaid* treigl hynny *revolution* *Ffichtiaid* fod mor llwyddiannus yn eu Lledrad a'i gwaith yn anrheithio'r wlad hon wedi'n. Ond etto fe arhofodd yma Filoedd a miloedd o Bobl *Rufain*, y rhai oeddent wedi ymgyfathrachu a'r hen Drigolion ; ac felly wedi myned yn un *Genedl* a hwy. Ac erbyn hynny y mae'n amlwg, ein bod

bod ni, Gweddillion yr hen *Frutaniaid* yn Bobl gymmyf o *Wyddelod*,\* *Groegiaid*\* a *Rhufeiniaid*.

## P E N. III.

*Y Rhyfel a fu rhwng y Brutaniaid a'r Bobl a elwid y Ffichtiaid, neu, y Brithwyr.*

**N**ID yw'r Dyfgedig ddim wedi cwbl gyttuno arno, oblegid Cyff-genedl neu Ach Pobl y *Ffichtiaid*, y rhai a alwid felly, o'r gair Lladin *Picti*; am eu bod yn *britho* eu Crwyn ag amryw Luniau, yn enwedig a math o *Liw glâs*: Ond eu Henw yn Gymraeg yn ddilys ddigon yw y *Brithwyr*; ac felly y galwaf i hwy yn yr Ymadrodd a ganlyn.

**TYBIA** rhai Gwyr diweddar mai *Brutaniaid* *gwylltion* anfoesol oeddent; neu yn hytrach y cyfryw rai Dewrion [ y tu hwnt i *Wal Sefer* yn y Gogledd ] nad ymostyngent ar un Cyfrif dan Jau y *Rhufeiniaid*, a bod y *Gaethweision* dan eu Llywodraeth: [1]-- Ond yn ôl yr hen Hanesion, Pobl grwydredig bellenig oeddent o *Sythia*, y rhai a diriafant o gylch y Flwyddyn 75 ym *Mrydain* dan *Rodri* eu Pen-capten, wedi eu gyrru gan y *Newyn* o'i Gwlad eu hun. Ac am y mynnai *Rodri* a'i Wyr aros yma heb ofyn Cennad, heb ddangos dim *Cydnabyddiaeth*, na *Thâl* na *Diolch*; yno *Meuric* un o Frenhinoedd y *Brutaniaid* a alwodd ynghyd

\* *Oblegid* mai hwynt hwy oedd yr hen *Drigolion*.

\* *Oblegid* mai Gwyr o *Asia* a *Groegiaid* oedd *Brutus* a'i Bobl. [1] *Camd. sub Picti. Baxt. Glos. Antiq. Brit. p. 195.*



ynghyd ei Lû i wybod beth a allai nerth Arfau  
 wneuthur. Ac ar yr Ymgyrch cyntaf, pan oedd  
 y *Fyddin flaen* yn dwys ergydio eu Saethau, *Rodri*  
 a laddwyd ynghyd a hanner ei Lû : Ac er Cof-  
 adwriaeth o hynny o Oes bwygilydd, y parodd  
*Meuric Brenin* y *Brutaniaid* argraphu ar Lech  
 y ddau air hyn *Buddugoliaeth Meuric*. Ar hynny  
 y deifyfodd hanner arall y Llu *Ammodau Hedd-  
 wch* gan y *Brutaniaid* ; ac ar eu gwaith yn tafu  
 lawr eu Harfau ac yn ymostwng, y caniattoedd y  
 Brenin eu Hoedl iddynt, ac a adawodd iddynt gy-  
 fanneddu mewn cwrr o *Scotland*, neu *Ifoed Celydd-  
 on*, ym mhell tua'r Gogledd. Ac yn gymmair  
 nad oedd deilwng gan y *Brutaniaid* roddi eu Mer-  
 ched hwy yn *Wragedd* i'r fath ddynion *Dreigl* a'r  
 rhai hynny, yr aeth y *Brithwyr* hyd yn *Iwerddon*,  
 ac a gymmerafont y *Gwyddelesau* yn wragedd idd-  
 ynt ; ac o'r *Cyfathrach* hwnnw y tyfodd y fath  
 gyfeillgarwch rhwng y *Brithwyr* a'r *Gwyddelod*  
 fel y buont yn wastadol megis *Elin ac Arddwrn*  
 fyth wedi'n. Ac y mae eu Heppil [ hyd y dydd  
 heddyw yn fiarad *Gwyddelaeg* ] yn byw etto o fewn  
*Brydain fawr* tuag eithaf Gwrr y Gogledd.

Y Bobl hyn oeddent fyth yn cynnal yr hen  
 Ddefod o *Fritho* eu Crwyn ag amryw Luniau o  
*Adar*, *Seirph* a *Bwystfilod* ; [dyna oedd eu Gwych-  
 der hwy] ac o achos hynny a gyfenwyd y *Picti*,  
 neu y *Brithwyr*; megis y mae llaweroedd o Bobl yr  
*India* fyth yn ymdeccau. [m] -- Heblaw fod yr  
*hen Hanefion* [n] ac amryw hefyd o'r *Penddysgedigion*  
*diweddar*

---

[ m ] *Dampier Vol. 1. C. 18. p. 514* [ n ] *Bed.  
 Hist. Eccles. Lib. 1. Cap. 1. Galf. Lib. 4. C. 17.  
 Pont. Virumn. L. 5. p. 30.*

*diweddar* (o) yn maentumio mai Pobl dreigl o bell oedd y *Brithwyr*, mi a feddyliais o hyd, mai *Pobl bell-enig* oeddent wrth y *Ddefod* nodedig hon yn eu *Chw-areyddiaeth* fydd ganddynt mewn amryw fannau o *Gymru*, yn enwedigar lan *Teifi* yn *Neheubarth*. Canys yn y *Gamp*, y maent yn ymrannu yn ddwy-blaid, dan Enw *Brithwyr*, ac *Hen-wyr*, y naill yn erbyn y llall. Yr *Hen-wyr* yw yr holl Rai o'r pedwar Enw cynnesin, *Efan*, *Dafydd*, *Sion* a *Siencyn* : a'r *Brithwyr* yw pawb yn ddiwahan o un Enw arall pa un bynnag : Ac fynychaf y mae'r *Hen-wyr* (er ond o bedwar Enw) yn ennill y maes : Yn-awr wrth *Hen-wyr*, y meddylir yn ddilys yr *hen Drigolion cyntaf*; ac felly y *Brithwyr*, ynt Efroniaid a *Phobl ddyfod*.

GAN hynny o gylch y Flwyddyn 75 y tiriodd y *Brithwyr* gyntaf ym *Mrydain*, y rhai, er iddynt gyfathrachu a'r *Gwyddelod*, a gadwasant er hynny yn *Bobl-wahan* dros rai cantoedd o flynyddoedd; ac ni wyddys etto yn ddilys ddigon, pa un a'i lladd a gawfant mewn Rhyfel, neu fyned yn un *Bobl* a'r *Gwyddelod* a wnaethant yn y diwedd; canys nid oes sôn am danynt mewn Hanesion er ys wyth cant a hanner o flynyddoedd a aethant heibio.

HYD y gwyddom ni amgen, fe allasai y rhai hyn fod yn *Bobl* led brydferth a llonydd ar y cyntaf; canys nid oes dim Hanes am ddim Afreolaeth a Therfysc a wnaethant dros agos i dri Chant o Flynyddoedd ar ôl iddynt gael Cennad i wladychu yma. Megis *Aderyn gwyllt* pan dorrer ei

G Efgyll,

---

(o) *Ufs. Primord. p. 302 Stillingfleet. Orig. Brit. C. 5. p. 246 &c.*

leflutter

tame

Esgyll, a fydd yn dychlammu ac yn Selgyngian o gylch Ty gydag un Dôf; ond pan dyfant drachefn, efe a ddengys o ba Anian y mac: Felly y Brithwyr hwythau, ar ol iddynt ymgryfhau, ond yn enwedigol, ar ol iddynt gyfeillachu a'r Saesn a'r Ffrangod (Pobl ag oedd yn byw ar Lledrad ac Anrhaith y pryd hwnnw) rhuthro a wnaethant ar eu hên Feiftraid y Brutaniaid, a' illarpio mor ddirugaredd ac y llarpia Haid o Eryrod Ddiadell o wyn. Ond nid oedd hyn ond ar ucha' damwain, pan y byddei Cyfle; a Llu y Brutaniaid ar wafcar, neu yn bell oddiwrthynt: ond er cynted y clywent Drwst y Saethyddion, hwy a gilient o nerth traed i'r Mynydd-dir a'r Diffaithwch y tu hwnt i Wal Sefer; megis Corgi yn ymddantu a March rhyngog, os digwydd iddo cael Cernod, yna efe a brysjura yn laes ei gynffon tuag adref.

to show the teeth  
amblyg

slow

CHWI a glywfoch yn y Bennod o'r blaen, modd y cododd gan mwyaf holl Lù o Jeuengctid y Brutaniaid gyda Macfen wledig tuag at ei wneuthur yn Ben-Ymherawdr Byd; ac hefyd fel y darfu i Falentinian a Graſian roddi Llongau ac Arfau ac Arian i Bobl Sythia, a'i danfon i Frydain, a'i hannog i wneuthur pa ddrygau oedd bosibl, gan hyderu y dychwelai Macfen wledig ar hynny adref, i achub ei Wlad ei hun: Ac er eu bod yn Llu cadarn o honynt eu hunain, etto, (rhac na buasei hynny ddigon) gwahoddasant y Saesn, a'r Ffrangod i fod yn Gynnorthwy iddynt, fel y gallent, o byddai bosibl lwyr ddifetha Cenedl y Brutaniaid, a rhannu'r wlad rhyngddynt. Ynawr, dyma'r Amfer, sef o gylch y Flwyddyn 386, ac o hynnyallan, y teimloddein Hynafiaid hyd adref Bwys Digofaint y Goruchaf em eu Hanniolchgarwch yn ei erbyn. Canys, dyma bedair Cenedl  
Ysgymmun

to trust

Ysgymmun a ffyrnig, y Saeson, y Ffrangod, y Brithwyr, y Gwyddelod, wedi cyfrinachu i dywallt Gwaed a difrodi; Digrifwch y rhai oedd poenydio, rhwygo a llosgi dynion; a chyn belled o ddim Tofturi a Theimlad, fel mai'r Gerdd felusa' ganddynt a fyddai clywed Ocheneidiau a Griddfan y Lladeddig. *Eu bwau a ddrylliodd ein Gwyr iefaingc, wrth ffrwyth brú ni thofsturiasant, eu Llygaid nid eiriachasant y rhai bach.* --- Pan oedd pedair Cenedl anrhugarog (wedi eu meithrin i dywallt gwaed o'i mebyd) yn ymryffon pwy fyddai gieiddiaf i boenydio dynion, megis pedair Arthes *wangcus* yn ymgyfrangu wrth ddiſa Carw, pa Dafod a all fynegi y Glanasdra a wnaethant! Ond yn anad dim, pan nad oedd yn y wlad, ond prin wr wedi ei adael, i daro Ergyd yn eu herbyn! Y Dinafoedd *caerog* yn wir a ymgadwasant heb nemmawr o Daraw, ond y *Mân drefydd* oeddent megis cynnifer *Goddaiith* yn flammio hyd *Entrych* awyr, a'r Trigolion druain yn rhoftio 'n fyw yn eu canol; tra'r oedd y *Brithwyr* hwytheu a'i cyfeillion (*Plant Annwn*) yn agor eu *Safnau* cythreulig o Grechwen.

YN y cyfamsfer, nid oedd *Macfen wledig* ddim yn anyfpys o gyflwr grefynol ei wlad, ac er cynddrwg Dyn y bernir ef gan rai, etto ar hyn o bryd, efe a ddanfonodd trofodd *ddwy Leng*, hynny yw, o gylch pedair mil ar ddeg: (p) *Ac* fe allasai *hepcor* hynny yn hawdd ar hyn o Drô; canys yr oedd efe etto yn *Ffraingc*, a'r holl Deyrnas honno a'i chyffiniau wedi ymddarostwng dan ei Lywodraeth (q) Eriod ni bu Llû o wyr arfog mor gymmeradwy,

G 2

cruel  
to waste  
to torment

womb  
to spare  
nursing  
dog-like

burning firement

jaw

legion  
to dispense with

(p) *Galf. Hist. Brit. Lib. 5. Cap. 16.* (q) *Brower in Venut. Fortun. Lib. 3. p. 59.*

na phan diriodd y Llú hwn yn Gymmorth cyf-  
amferol i'r *Brutaniaid*. Y Gelynyon oeddent o  
leiaf dri chymmaint o nifer, ac ar hyn o bryd wedi  
gwafcaru yn *finteioedd* o fefur 4 neu 5 cant ynghyd  
dros wyneb y Deyrnas: A chyn cael odfa na chy-  
fle i ddyfod ynghyd yn *gryno*, y *Rhai* o gylch  
*Kent*, a *Llundain* a chanol *Lloegr* a gwympwyd bob  
yn fintai agos i gyd; ond y *Rhai* o gylch *Cymru*  
ac agos i lan y mor a ddiangafant yn eu *Coryglau*  
\*i'r *Fwerddon*.

EISIAU rhac weled pethau mewn amfer a fu'n  
*Dramgwydd* i filoedd: Ac yn *Nyddiau disclair* i  
*esceuluso barotoi rhag dryg-hin* yw Rhan yr ynfyd.  
Ac felly ar hyn o bryd, ar ol cael y trecha' ar eu  
Gelynyon, nid oedd yr hen *Frutaniaid* yfmala hwy  
yn pryderu rhag un Ymgyrch arall, ond difwyddo  
eu Milwyr a wnaethant, megis pe ni buafei dim  
Rhaid wrthynt mwyach. Nid oes yn wir ddim  
Hanes neillduol oblegid pa Ddrygau a wnaeth y  
*Brithwyr* a'i Cyfeillion dros rai Blynnyddoedd ar ol  
eu *Herlid* y waith hon, oddieithr eu bod yn lled-  
ratta *Gyrr o Dda a Defaid*, a llosgi ambell Ben-  
tref ynawr a phryd arall, ac yno *chwippyn* ar ger-  
dded; "megis *Barcut* ar gip yn dwyn *Cyw*,  
"ac yno ymaith gynted ac y gallo." Ond pan  
gydnabu y *Brithwyr* fod y *Brutaniaid* wedi gadael  
eu *Cleddyfau rydu*, a bod math o *Hurtrwydd* wedi  
eu perchennogi, megis *rhai yn dyllyfu gen* rhwng  
cyfcu a pheidio; yno danfon a wnaethant at eu  
hen Gyfeillion, y *Ffrangcod* a'r *Saeson* a'i gwa-  
hawdd trofodd i wneuthur pen ar Bobl ddi-doreth  
eu *musgrell* nad oeddent dda i ddim ond i *dwymno*  
eu *Crimpau* wrth *Bentan* ac ymlenwi. Y

\**Carruca. Gild. p. 15.*

*crimog - shin*

*compact*

*downfall  
to neglect*

*hate quickly  
chuck*

*to check shipidit*

*unprofitable  
slow to warm*

Y *Brutaniaid* yn ddilys ddiammeu ar hyn o Amfer oeddent wedi *diriwio* yn hagr oddiwrth eu *Gwroldeb* gynt. Canys yna, ar waith y *Brithwyr* a'i *Cyfeillion* yn rhuthro arnynt, nid oedd Galon yn neb sefyll yn eu herbyn, mwy nag a all *Crug o ddail* ar ben *Twyn* sefyll yn erbyn *Gwth* o wynt. Er lleied o wyr arfog oedd y pryd hwnnw ym *Mrydain*, etto pe buafent yn galw ar *Dduw* am ei *Gymmorth* ac yn ymwroli, byth ni fuafai y fath *dreigl Ladronach* ag oedd eu *Gelynion* ynawr yn eu fathru mor *ddi-daro*, ac heb godi llaw yn eu herbyn. -- Ond hwynt hwy digalonni a wnaethant, ac yn lle arfogi eu *Hieungctid*, a'i hannog i *hogi* eu *Glededyfau*, a anfonasant *Lythyr* cwynfanus at eu hen *Feistrad* y *Rhufeiniaid* yn taer ymbil am *Gymmorth* i yrru y *Barbariaid* allan o'i *Gwlad*. -- Prin y gallasant ddisgwyl y fath *Ffagr* y pryd hwnnw, am fod mwy na gwaith gan y *Rhufeiniaid* gartref, ac hefyd yn eu *Côf* yn ddigon da *Wrthryfel Macsen wledig*, etto yr *Ymherawdr* a dofturiodd wrthynt, ac a ddanfonodd *Leng* o wyr dewifol, *h. y.* o gylch saith mil, neu medd eraill 6666. Hwyn-gynted ac y tiriafont, y *Chwedl* a aeth allan (a *Chwedl* a gynnydda fel *Casseg-eira*) fod yma 5 *Lleng* wedi dyfod (*r*) ac ar hynny y *Brithwyr*, y rhai oeddent yn anrheithio canol y wlad a ffoefant ymaith y tu hwnt i *Wal Sefer* i'r *Anialwch* ac i'r *Iwerddon*; Ond y rhai o gylch *Llundain* a glan *Tafwysc* \* a wanwyd a *Chleddyf* y *Rhufeiniaid*. O gylch oedran *Christ* 418 y bu hynny.

*hilloch*

*to sharpen  
eager  
to crave*

G 3

Ac

(r) ita MSS. *Gildas vero' et Beda nonnihil secus.*

\* *Thamis.*

profitable

breach

advantage

yawning  
fasting

hairy

Ac yno y *Rhufeiniaid* ( fel Cynghorwyr da yn spyfu pethau buddiol er Diogelwch y Deyrnas ) a annogasant y *Brutaniaid* i adgyweirio Bylchau ac Adwyau *Gwal Sefer* ) gan hyderu y byddai hynny yn beth rhwyftr ar ffordd eu Gelynyon ciaidd rhac eu merthyru ; Ac yn ddiammeu hi fuafai yn Amddiffynfa gadarn, pe ei gwnaethid fel *Gwal Caer* o Galch a cherrig : Ond nid oedd hon ddim ond *Gwal-Bridd* (s) o for i for, ac ambell Dwr neu Gastell yma ac acw, ac felly ond ychydig Lefad i'r hen *Frutaniaid* rhag rhuthrau eu Gelynyon. Canys prin oedd y *Rhufeiniaid* wedi dychwelyd adref i'r *Ital*, ond wele y *Brithwyr* ynghyd a'r *Gwyddelod* yn tirio drachefn o'i Coryglau yn Aber-oedd y *Gogledd* o'r *Iwerddon* ; ac yn difrodi y waith hon ( pe byddai bosibl ) yn fwy llidus nag o'r blaen. Torrasant fylchau yn y clawdd, lladdasant y Ceidwaid, lloscasant y Trefydd, bwyttasant yr Anifeiliaid, ond odid yn amrwd yn eu Gwange a'i Cythlwng. Megis pan fo Cnùd o fleiddiaid ( wedi eu gyrru 'n gynddeiriog gan newyn ) yn rhuthro i ddiadell o *Ddefaid*, yno pa Lanafdra a fydd ym mysc y *Werin wirion* honno ! A'r hon a fo mor ddedwydd a diange fydd a'i Chalon o hyd yn ysbongcio, ac yn tybied fod *Blaidd* ar ei gwarr, os bydd ond Dalen yn cyffro mewn perth : Felly y *Brithwyr* hwytheu ( y rhai, ebe *Gildas*, oeddent Ddynion blewog, cethin ac ofnadwy, a go debyg i *Nebuchadnezar* ar ol ei droi ar lun Anifail ) oeddent Genhedlaeth anhugarog a chreulon ; Digrifwch y rhai oedd lladd a difetha, megis y teimlodd y *Brutaniaid* y waith hon ac amryw brydiau

(s) *Murus inter duo maria non tam lapidibus quam cespitibus factus. Gild. p. 13.*

brydiau eraill hyd adref ; A'r rhai a ddiangafant i Ôgfeydd a'r Anialwch oeddent o hyd yneu Hofn, rhac i'r *Brithwyr* ddyfod am eu pennau, a'i taro bob mab gwraig yn ei dalcen, yn ddisymmwth.-- Nid oes dim Crybwyll fod y *Ffraingcod* a'r *Saesfon* y waith hon gyda'i hen Gyfeillion ; mae'n debygol mai arnynt hwy y disgynnodd Dyrnod y *Rhufeiniaid* drymmaf, gan eu bod hwy yn cadw tua'r Dwyrein y lle y tiriafant gyntaf, o gylch *Kent* a glan *Tafwysc*.

*interrupted  
here*

Y fath oedd *Llaithder* a *Meddakwch* y *Brutaniaid* o hyd, fel y goddefasont eu herlid i Dyllau a newynu yn hytrach na chymmyrd calon ac ymwroli. Ond ar hynny y *Pennaethiaid* a ymgyfarfuont ; ac er dewis-chwedl neb, nid oedd dim i wneuthur ond danfon Cennadwri etto at eu Hên Feiftraid i *Rufain* i ddeisyf Cymmorth, a chynnyg y Wlad dan eu Llywodraeth ; sef oedd Enwau y Gwyr a ddanfonwyd, *Peryf ap Cadifor*, a *Gronw ddû ap Einion Lyglîw*. Prin jawn yn wir y gallafent ddisgwyl gael eu Neges y tro hwn yn anad un pryd arall, gan fod y *Rhufeiniaid* a'i dwylo yn llawn gartref ; a'r ffordd yn faith i ynys *Brydain* ; etto trwy fawr Ymbil tyccio a wnaethant, a chawsant *Leng* o Wyr arfog fyned gyda hwy drachefn i dir eu Gwlad ; a chwedi cael y *fath Gefn*, y *Brutaniaid* yno a ymchwelfant ar eu *Gelynion*, a thrwy Borth y *Rhufeiniaid*, a wnaethant Laddfa gethin yn eu mytc ; ond *Dyfodoc* Pen y Gâd a ddiangodd, ynghyd a dwy fil a phum cant o wyr gydag ef i'r *Iwerddon*.--(O gylch y flwyddyn o Oedran Christ 420 y bu hyn.)

Y mae'n ddilys fod y *Brutaniaid* ar hyn o amfer yn *weinion* eu gwala, pan y gallasai un *Leng* fod



er cymmaint o wafanaeth iddynt. A'r achosion o hynny, ynt (1) Am fod y *Rhufeiniaid* (o amfer bwygilydd, tra fuont hwy yn rheoli yma) yn *arllwys* y Deyrnas o'i *Gwyr iefainge*, ac yn eu cippio y tu draw i'r Mor i ymladd troftynt mewn Gwledydd pellenig. (2) Am i'r Rhan fwyaf o'r Jeungctid a Gwyr arfog, y rhai a adawyd yn y wlad, fyned ar ol *Macfen wledig* i *Ffrainge* a'r *Ital*, y rhai ni ddychwelasant fyth i *Frydain*; megis yr aeth Llû mawr hefyd gyda *Chustenyn* gan fwriadu ei wneuthur yntef yn *Ymherawdr*, fel y darllenafoch eufys. (3) Am fod y Jeungctid ag oedd y pryd hwn ym *Mrydain* heb ei haddyscu i ryfela: *Ac ni wnâ Gwr dewr, heb fedr, ond Sawdiwr trwsogl.*—Dyma ba ham yr oedd y *Brutaniaid* mor llefc ar hyn o Bryd; y rhai, oddieithr hynny, oeddent mor fedrus i drin Arfau Rhyfel, ac hefyd mor galonnog ag (ond odid) un Genedl arall dan wyneb yr Haul.—A hynod yw'r *Enw* y mae *Harri* yr ail Brenin *Lloegr* yn adrodd am danynt mewn Llythyr a ddanfonodd efe at *Emanuel* *Ymherawdr Constantinopl*; “y mae, eb efe, o fewn “Cwrr o ynys *Frydain*, Bobl a elwir y *Cymru*, y “rhai fy mor galonnog i amddiffyn eu Hawl a “Braint eu Gwlad, megis ac y beiddiant yn hyderus ddigon ymladd law-law, heb *ddim ond* y “*Dwrn moel* a Gwyr arfog a Gwayw-ffon a “*Tharian* a Chleddyf (*t*)—Ond i ddychwelyd.

NID oedd bosibl i'r *Rhufeiniaid* gymmeryd y fath Ymdeithiau peryglus hir-faith cyn fynyched ag y byddei eu Rhaid wrthynt ym *Mrydain*: Felly hwy

---

(*t*) *ut nudi cum armatis congregi non vereantur.*  
*Girald. Des. Camb. p. 256.*

hwy a gynghorafant Bennaethiaid a Chyffredin i fod yn wrol a chalonnog i amddiffyn eu Gwlad rhac *Gwibiaid disperod* nad oeddent mewn un modd yn drech na hwy, pe *bworient ymaith eu Musgrellni a'i meddalwch*: Ac yno, heblaw addyfgu er Hieungctid y ffordd i ryfela a *byddino Llū* yndrefnus, yn lle yr hen *wal-bridd*, rhoifant *fenthyg* eu Dwylo yn gariadus i'r Trigolion tuag at wneuthur *Gwal-Gerrig* (u) dauddeg troedfedd o uwchder ac wyth o Léd, ac a adeiladasant amryw Gestyll, ychwaneg nag oedd o'r blaen. Yr oedd cymmaint o Dir rhwng un Gastell a'r llall ac y clywid *Cloch* o un bwy-gilydd: (w) Eu hamcan yn hynny o beth oedd, os y Gelynion a diriai, i ganu *Cloch* y Castell a fyddai nessaf at y Porthladd fal y clywai yr un nessaf atto yntef; ac i hwnnw ddeffroi un arall; ac felly o'r naill i'r llall fyned y Newydd ar unwaith drwy'r holl wlad, i'w rhybuddio i barottoi yn erbyn y Gelynion. ---Ac ar ol gorphen pob peth, y danfonwyd *Gwys* i holl Randiroedd *Cymru* a *Lloegr* i erchi y Pendefigion i *Lundain* rai dyddiau cyn Ymadawiad y *Rhufeiniaid* adref; a gwedi eu dyfod, *Cyhelyn* yr Arch-Esgob a bregethodd yn y wedd hon; "Arglwyddi (eb efe) archwyd i mi pregethu i chwi; "yf mwy i'm cymbellir i wylaw nac i bregethu "rhac truanet yr ymddifeidi a ddamwaeniodd i "chwi, gwedi yspēiliaw o *Faxen wledig* ynys "Brydain o'i Marchogion a'i Hymlladdwyr. Ac "a ddiengys o honoch chwi, pobl *anghyfrwys* "ydych ar ymladd, namyn ych bod yn arferedig i "ddiwyllaw daear yn fwy nac yn dyscu ym-  
"ladd.

*loan*

*calamities*

*Cunning*

*to culture*

(u) *Gild. p. 15. Bed. L. 1. C. 12. (w) Ford. Scotichron. Lib. 3. C. 4.*

" ladd. A phan ddoethant ych Gelynyon am eich  
 " pennau, ych cymhellafant ar ffô, megis Defaid  
 " heb figail arnynt, can ni mynnafloch ddyfscu  
 " ymladd. Ac wrth hynny pa hyd y ceiffiwch  
 " bod *Gwyr Rufain* yn *un* a chwi, ac ydd ym-  
 " ddiriedwch ynddynt rhac yr estrawn-genedl ni  
 " bo dewrach na chwi, pei ni attech i *lesgedd i' ch*  
 " *gorfad?* Etnabyddwch bod *Gwyr Rhufain* yn  
 " blino rhagoch, a bod yn edifar ganthynt y *gyf-*  
 " *nifer Hynt* a gymerafant ar Fôr ac ar Dir dro-  
 " floch yn waftad yn ymladd: Ac y maent yn  
 " dewis maddeu eu Teyrnged i'wch weithian,  
 " rhac dioddef Llafur cyfryw a hwnnw drofloch  
 " bellach. Pei byddech chwi yr amfer y bu y  
 " Marchogion yn *Ynys Brydain*, beth a tebygech  
 " chwi, ac ffo dynol anian o wrthych? ---Ni  
 " thebygaf i colli o honynt eu dynawl anian er  
 " hynny. Ac wrth hynny gwnewch megys y  
 " dyly dynion wneuthur; Gelwch ar *Ghrist*, hyd  
 " pan roddo efe Glewder iwch a Rhydd-did." (y)  
 Ac yno bryffio a wnaeth y *Rhufeiniaid* tuag adref  
 i'r *Ital*; a dywedafont wrth y *Brutaniaid* i ym-  
 wroli os mynnent; ac onid ê, arnynt hwy y disgyn-  
 nai Pwys y Gofid; canys ni wrandewid eu Cwyn  
 mwyach yn *Rhufain*.

DROS o gylch tair Blynedd y bu Tawelwch yn  
 y Deyrnas ar ôl hyn: Canys rhwng bod y *Bru-*  
*taniaid* ryw ychydig ynawr ar eu Disgwylfa, a'i  
 Llygaid yn neffro; a rhac ofn fod *Gwyr Rufain*  
 wedi cymmeryd y wlad dan eu Hymgeledd, y  
*Gwyddyl gastlachawg*, a'r *Brithwr blewog* yntef, a  
 arhofasant yn llonydd yn yr *Iwerddon* a'r yny-  
 foedd

(y) *Dyma Eiriau'r Chronicl air yn air.*

foedd o amgylch. Ond ym mhen ychydig amfer, sef o bobtu'r flwyddyn 425 y tiriafant drachefn yn *Ynys Fôn*; a'r *Saesfon* hwytheu\* (megis cynnifer *Barcuttan* yn gwibio am *Ysglyfaeth*) a heidiafant o gylch yr un Pryd o ddeutu *Kent* a'r wlad oddiamgylch; a rhwng y naill a'r llall y mae'n hawdd i un dyn farnu pa Gyflafan a thywallt gwaed oedd agos dros wyneb y Deyrnas, ond yn anad un lle tua *Llundain* a *Gwynedd*. -- Yr oedd gwaith y *Barbariaid* hyn yn difrodi, yn ddilys yn farnedigaeth drom; ond drwy fuchedd yr hen *Frutaniaid* a haeddai chwaneg etto: Canys, o gylch yr amfer hwn y tramwyodd i *Frydain* Herefi *Morgan*, † nid ganddo ef ei hun, oblegid ei fod efe y pryd yma tua *Chaersalem*, ond gan rai o'i Ddisgylbion; a hi a bregethwyd yn ddirgel mewn *Teios*, ac a ddadymchwelodd ffydd aneirif o'r Werin anwaftad, y rhai ni sefydlwyd yn *Egwyddorion* Crefydd. Ergyd ei Athrawiaeth oedd, "Gan i *Jesu Grist* fodloni Cyfiawnder Duw dros "Bechod dyn, y gallai pob *Christian* foddhu Duw, "a bod yn gadwedig heb nerth ei Râs ef." Ac yma, mae'n debygol nad oedd *Brutaniaid* yr oes honno ddim hyddyfcach yn yr *Ysgrythurau*, nag oeddent i drii Arfeu Rhyfel. Canys, fel ac y danfonafant o'r blaen i'r *Ital* am Borth yn erbyn eu Gelynion, y *Britbwyr*: Felly hefyd ynawr yr anfonafant at eu Cymmydogion yn *Efrainge* ‡ i ddeisyf Cymmorth eu Gwyr dyscedig i wrth brofi *Herefi Morgan*. Ac ar hynny y daeth trofodd ddau Esgob rhagorol, sef *Garmon* a *Lupus*; y rhai,

prey

morality

principle

well raised

\* *Bed. Hist. Eccles. Lib. 1 Cap. 20.* † *Gwel Rhan 2. Pen. 2.* ‡ *Ond odid o Lydaw, lle yr oedd eu Cyd-wladwyr.*

divinity

reproach

rhai, drwy Awdurdod yr Ysgrhythur, Tyftiolaeth y brif Eglwys, a chadarn Resymmau Difynyddiaeth, a amddiffynafant mor wrol y Ffydd *Gatholic*, fel y cydnabu pawb fod Duw gyda hwy; er cywilydd a gwarth i'r Gwrthwynebwy, a Chyffur tra mawr i'r Jawn-ffyddiog.

soft

to move

OND y Gelynion, y *Brithwyr*, y *Gwyddelod*, a'r *Saesfon* oedd o hyd yn y wlad yn difa ac yn difrodi mewn rhyw Gwrr neu gilydd yn wastadol. Yr oedd Cād ar faes gan y *Brutaniaid hwytheu*, etto yn ofnus a meddal galon; yr hyn pan gydabu y ddau Esgob, *Garmon* a *Lupus*, hwy a ddywadafant, *Na feddalhaed eich calon, na synnwch, ac na ddychrynwch* rhac eich Gelynion; *nyni* a fyddwn yn *Flaenoriaid* i chwi, a'n *Porth* fydd yn y *Duw byw Arglwydd* y *Lluoedd*. Ac yno, wedi cael Yspsyrwydd am *Gyrch-yndaith* y Gelynion, yr Esgobion a roisfant *Orchymmyn* i'r *Fyddin* am orwedd mewn *Dyffryn* coediawg, ac na sylfent oddiyno, hyd oni ddelai y Gelynion heibio; a pheth bynnag a welent hwy hwynt hwy yn ei wneuthur, gwnelent hwythau yr un modd. Ac ym mhen Ennyd fechan, wele y *Brithwyr* &c. yn troedio drwy'r *Dyffryn*; a chododd y ddau Esgob ar eu traed, ac a waeddafant, *Aleluja, Aleluja, Aleluja*: Ac ar hynny, dyma'r *Sawdwyr* eu gyd, un ac arall, yn neidio'n chwippyn ar eu traed, gan lesain o nerth pen, *Aleluja* &c. gyda'r fath floedd, nes oedd y *Dyffryn* yn dadfeinio oll: A dododd hynny y fath *Arlwyd* a *Braw* yn y *Brithwyr*, megis ac yr aethant oll ar *Ffô*; a boddodd llawer jawn o honynt wrth eu gwaith yn bryffio drwy *Alan*, *Afon* ag y fydd yn ffrydio drwy'r *Dyffryn*. (z)  
Digwyddodd

(z) *vid ufs. Primord. p. 179. ubi hæc fustus.*

Digwyddodd y Frwydr hon ryw ychydig ar ôl Gwyl y Pasc o gylch y flwyddyn 427, yn agos i Wydd-grug yn Rhandir Fflint; a'r lle hwnnw a elwir Mae-Garmon hyd heddyw.

AR ôl hyn, y peidiodd Hyfder y Brithwyr a'r Gwibiaid Ysgeler eraill dros ennyd. Canys, cyhyd ac y bu y Brutaniaid yn ofni Duw ac yn cilio oddiwrth Ddrygioni, cyhyd ac hynny yr arhofodd y Gelynyon gartref: Ond pan ddechreuafant anghofio Duw a'i Addoliad, yno y Gelynyon hwytheu a barotoifant i ymweled a hwy drachefn. Er fod y Brutaniaid gan mwyaf yn Gristnogion, etto gan mwyaf Chris'nogion drwg-fucheddol oeddent. Tra fu Garmon a Lupus gyda hwy, yr oeddent yn Ddynion Crefyddol, neu o'r hyn lleiaf yn ymddangos felly; ond ar ôl ymadawiad y ddau Wr duwiol, yno y llaefodd eu Zêl at Grefydd, ac a ddechreuafant gellwair a chrechwenu, ac o fesur cam a cham i ymroddi i bob Ofer-gamp a mafwedd, nes llwyr anghofio eu Gorthrymdeiraü gynt. Ac ym mhen talm o amfer, syrthiafant Frodor a Pheriglor, Bonheddig a Gwrêng i bob math o Ysgelerder a drygioni, Cyfeddach a Meddwdod, Godineb ac Aniweirdeb, Cybydd-dod ac Occreth, Cynfigen a Chäs, gyda phob Diystyr ac Amharch ar Orchymmynion Duw, ag a ydyw naturlygredig Dyn yn dueddol iddynt. Peth aruthur ac erchyll a wnaed yn y tir. Jer. 5. Felly nid yw ryfedd i Farnedigaethau'r Goruchaf, sef Rhyfel Haint a Newyn ymweled a hwy. Oni ymwelaf am y peth hyn, medd yr Arglwydd, oni ddial fy enaid ar gyfryw genhedl a hon. Jer. 5. 29. --- Wele y Brithwyr ynghyd a'r Gwyddelod (yn Llu cethin arfog) yn tirio etto, yn lladd ac yn llosgi mor ddirugaredd, a chynnifer Cethern o waelod uffern; A chan ystyried gyhyd o amfer y buont yn

language

priest plebeian

language

adultery incontinence

usurionousness envy

corrupted

disease

friends

friends

friends

friends

to prevail  
comprehend  
divine

yn *gormeilio* o'r naill gwrr i'r llall dros wyneb y Deyrnas, prin y gall Synwyr Dyn amgyffred, na thafod *Dewin fynegi* pa Gyflafan ac Anrhaith a Dinistr a wnaethant; Canys hwy a fuont Yspaid io mlynedd yn gwânu y Trigolion meddal, heb arbed na Phlentyn sugno na Gwraig nac Henaf-gwr; ond y Rhan fwyaf a ymadawfant a'i Dinafoedd a'i Tai annedd, a myned ar Encil i'r Diffaithwch, a hynny yn gyftal i geisio nawdd a Diogelwch y Creigydd, ac i gael ryw Ymborth (er ei faled) i dorri Cythlwg, a chw-ant Bwyd. Ac yn yr Anialwch) nid oedd dim i'w gael ond ambell Fwyffil ac Aderyn, Gwraidd Coed a Grawn Surion yn eu hamfer: Ond nid oedd ar hyn o Bryd ddim gwell Amheuthun gan y rhan fwyaf o'r *Brutaniaid*. (a) *Dyma* a ddaw o ymddigryfwch mewn Pechod, ac ymwrthod a Duw a'i Sanctaidd Gyfreithiau

dwelling

fasting

aced  
daintly

ire

mischief fever

heap fallow  
refuge

*Pechod yw gwaelod galar echrydus*

*Ac Ochain a charchar;*

*Cafod o Boen, Gofid, Bâr,*

*Dial Duw, Diluw daiar.*

*Hir adwyth a mwyth a maithder o ddig*

*Ddaw o Ysgelerder;*

*Gwna Gaerau 'n garneddau gwer,*

*A Bro naid oll yn Brinder.*

OND o'r diwedd, wedi goddef hir gyftudd, gorthrymder, newyn ac Oerfel, Eu Cyng-hor oedd i anfon un Gennadwri etto at eu hen Feiftraid y *Rhufeiniaid* i edrych os ar antur

(a) *tam crebris direptionibus vacuaretur omnis regio totius Cibi baculo, excepto venatorie artis Solatio.*  
Gild. p. 16. 6.

antur a drugarhaid wrthynt. Ac ar hynny o gylch y flwyddyn 446 y Sgrifennwyd Llythyr gydag *Ednyfed* ap *Gwalchmai* at *Efius* y Rhaglaw dan yr Ymherawdr yn *Ffrainge* yn y Geiriau galarus hyn; *Griddfan* y *Brutaniaid* at *Efius* y *tair-gwaith uchel-faer*. Y *Barbariaid* a'n *gwthiant i'r Môr*; a'r môr yn ein gyrru'n ol at y *Barbariaid*; a rhwng y naill a'r llall nid oes dim cyfrwng ond naill a chael *insuall* ein lladd neu foddï. Nid yw hyn ond Darn o'r Llythyr, (b) ond hyn yw'r cwbl fydd gennym ni wedi ei gadw: Ac oddiwrth yr ychydig yma, y mae'n hawdd i farnu ym mha Gyflwr tofturus a gresynol yr oedd y *Brutaniaid* ynddo ar hyn o bryd: ond er hynny, ni allodd y *Rhufeiniaid* ond dymuno yn dda iddynt; a phrin oedd hi bosibl iddynt eu cynnorthwyo chwaneg, am fod yr *Ymherodraeth* yn llawn Terfysc a Gwrthryfel ym mhob man; megis *hên Balas mawr* wedi *adfeilio*, bob *cymmal* yn *Siglo*, a'r *Trawstiau* oll yn *yfbongcio* ar ucha' awel o wynt *Rhyferthwy*.

Yn y cyfamfer yr oedd y *Newyn* yn doft ym *Mrydain*: Canys heblaw fod y *Brithwyr*, fel *Llwynogod Sampson* yn llosgi'r *Ydau*, a phob rhyw *Luniaeth* oddieithr yr hyn oedd gyfreidiol iddynt eu hunain: Heblaw iddynt yrru y *Brutaniaid* ar encil i'r *Diffaithwch*, lle nid allai fod nac *âr* na *medi*: Heblaw hyn, meddaf, yr oedd y *Blynyddoedd* yn oer a *gwllybyrog*, yn gymmaint ac nad oddfedodd yr ychydig a hauwyd: Ond er y *Gorthrymderau* hyn oll, y *Cleddyf* a'r *newyn*, *Dynion* pechadurus gwar-galedion oeddent; *Rhai* aethant yn *Gaeth-*

joint rather  
hempest

ploughed land  
to become knobbed

(b) *Et post pauca querentes-repellunt Barbari &c.*  
*Gild. p. 16. 6.*



Gaeth-weision i'r *Brithwyr* er cael tammaid o fara yn eu cythlwg: Eraill a ddewisafant drengi yn yr Ogofau a Chrom-lechydd y Creigiau cyn yr ymoftyngenti'r Gelynon: Ond ychydig jawn a alwasant ar yr Arglwydd eu gwared o'i Cyfyngdra a'i cystudd; a phe hynny a wnaethent o galon ddifrifol, ni fuasai raid wrthynt arfwydo Rhuthr un Gelyn; ac byth ni welfent *Estron-genhedl* yn trawsfeddiannu eu Gwlad; oblegid *Twr cadarn yw Enw'r Arglwydd*, atto y rhêd y cyfiawn, ac y mae'n ddiogel.

OND yno ym mhen Talm, (ar ôl derbyn y wobr dyledus idd eu Pechodau yn y byd hwn) y gwelodd yr Arglwydd yn dda i gyffwrdd a'i Calonnau; a daethant fel y *Mab afradlon* i Bwyll ac ystyriaeth, gan ddychwelyd yn edifeiriol at yr Arglwydd eu Duw. Ac er nad oeddent y pryd hwnnw ond ychydig o *Drueniaind methedig*, wedi curio gan yr Oerfel a newyn, etto cawsant eu nerthu gan Dduw, fel nad allodd Cād y *Brithwyr* er lluofoedd oedd, eu gwrthsefyll. Sathrwyd eu Byddinoedd, megis pan fo dyn yn *Ysgythr*u mân-goed a *Bikwg*, ac er iddynt gael aml Borth o wyr ac arfau allan o'r *Iwerddon*, etto ni thycciodd iddynt *ennill un maes*, canys y *Brutaniaid* oedd a'i hyder yn yr Arglwydd Dduw, ac ar hynny, *Gilawri* mae *Dermot O-Hanlon*, ac *Huw* mae *Brian*, ac *Efer* mae *Mahon* (Pen-captieniaid y *Brithwyr* a'r *Gwyddelod*) a ffoesant, hwynt-hwy a'i Gwyr yn archolledig, y tu draw i *Walfefer* i Fynydd-dir *Ifcoed Celyddon*, ac eraill dros y Môr i'r *Iwerddon*. Gwêl *Deut.* 28. 7. Hwyr y tygafai neb y buasai y cyfryw Ddynion yn gollwng Duw mor ebrwydd yn anghof! Fe debygai dyn y buafent yn ofni Duw gyda *gwylder a pharchedig ofn*, gan ystyried

to touch  
prodigal

failing

to carve  
sillhook

bashfulness

yfftyried eu bod yn gweled (pe gofodafent hynny at eu Calonnau (y fath *Arwyddion mawr ac hynod*. Canys, hwy a welfont y *Dialeddau* trymion, y *Difryw*, y *Newyn*, y *Difrod* ag oedd o hyd yn eu cyd-ganlyn tra'r oeddent yn *Ddihareb* ym mysc eu Cymmydogion am eu *Dirafrwydd* a'i *Meddalwch*: *Gwelfont* hefyd y *Bendithion* *haelionus*, y *Diddanwch*, y *Brefwylfod* ddiogel a *gawfant* tra'r oeddent yn *Grifnogion* da, ac yn *gwn-eud* *Cydwylfod* o'i *Dyledfwydd* at *Dduw* a dyn: Ond er hyn ei gyd, *Dynion* drwg anufudd a *gwr-gwrthryfelgar* oeddent: wedi iddynt yrru ymaith y *Gelynon*, a byw yn *llonydd* yn eu *Gwlad*, hwy a ymosodasant i *lafurio* 'r *ddae*ar, a *chawfant* y fath *Gnwd* o yd, a'r fath *amldr* o *Ffrwythau* y *flwyddyn* hon, fel na *welwyd* erioed y *cyffelyb* (c) Ond ym mhen *dwy flynedd* neu *dair* (amser byrr!) ar ôl iddynt gael *Prefwylfa* ddiogel yn eu *Cae*-ydd a'i *Cestyll*, ac hefyd eu llenwi o bob *Danteithion*, *ammheuthun* *fwydydd*, ac *ail-Seigiau*, hwy a *aethant yn hyfach* (pe *buasai* *boffibl*) i bechu yn erbyn *Duw* nag y *buont* erioed. *Jesurun* a *aeth yn frâs* ac a *wingodd*. Deut. 32. 15. *Eneinwyd* *Brenhinoedd*, nid y *cyfryw* a *wnaent* *Gydwylfod* i *rodio* *gyda* *Duw*, ond y *fawl* oeddent *greulonach* a *melldigediccach* nag *eraill*; a *chyn* *pen* *y* *chydig*, hwy a *leddid* *gan* y *fawl* a'i *henciniodd* (nid o *achos* y *Gwirionedd*) a *dewifid* *rhai* *creulonach* etto yn eu *lle* (d) O *byddai* *rhyw* *neb* un yn *chwennych* byw yn *brydferth* a *llonydd*, ac yn *Symmud* ei *droed* *oddiwrth* *ddrygioni*, *hwnnw* a *gafaid* *gan* *bawb*, a *phrin* y *gellid* *amharchu*

H

digon

vengeance

unsparing  
gracelessness  
liberal

choice meal

(t) *Tantis abundantium Copiis Insula affluebat &c.*  
*Gild.* 9. 19. p. 17. (d) *ibid.* p. 18.

laymen  
 digon arno : Ond pe fwyaf yfgeler, diriaid a diras a fyddai neb, mwya' gyd a fyddai parch ac Anrhydedd hwnnw. Ac nid y Gwyr llyg yn unig oeddent fel hyn yn ymhyfrydu mewn camwedd ac yn casau y wybodaeth o Dduw ; eithr y Gwyr llên hefyd (neu'r Offeiriaid) a ymadawfant a llwybrau uniondeb i rodio mewn ffyrdd tywyllwch. Dih. 2. 13. Canys, yn lle gofalu dros eu Diadellau, eu Teml hwy a fyddai Cegin Tafarnau ac ymdorr-dynnu a chanu Maswedd. (e) Am ba ham y canodd un o'i Prydyddion gan edliw iddynt.

wantonness

Y' Ffeiriaid o'e'nt euraid cyn oeri Crefydd ;  
 Cryf oeddent mewn Gweddî :  
 Ynawr Meddwodd fy'n codi,  
 'Nifeiliaid yw'n Bugeiliaid ni.

le boathe, refuse  
 corrupted  
 carousal unchaste  
 le stretch  
 not sudden  
 thing bush  
 AR fyrr eiriau ni lyfodd un gradd, na Bonheddig na Gwrêng, na Gwyr llên na Gwyr llyg, a dim yfgelerder a Direidi ac Annuwioldeb ag ydyw natur lygredig dyn yn dueddol iddo. I'r bobl hyn yr oedd calon wrthnyffig anufuddgar, hwynt-hwy o giliafant ac a aethant ymaith. Jer. 5. 23. Yng-hanol y Gloddest a'r Anniweirdeb yma, dyma newydd difymmwth yn ymdannu dros y wlad, fod y Brithwyr a'r Gwyddelod wedi tirio: Fe weithiodd hynny yn wir ryw gymmaint o fraw ynddynt, ac a wnaeth i'w calonnau Ysbongcio ychydig, megis y gwelwch chwi ddyn yn cilio yn drachwyllt wrth ganfod neidr yn ddisfwtta yn gwanu ei chonyn, ac yn llamsach mewn Perth; ond hynny o fraw a â yn ebrwydd heibio: Felly yr un modd y Brutaniaid hwytheu, wedi cael yspyfrwydd

(e) vino madidi torpebant resoluti. Gild. p. 18. 6.

wydd nad oedd y cwbl ond *Larwm* a chwedl gwlad, a aethont yn ebrwydd ar ôl eu hen Arferion, yn bendifaddeu i ymlenwi ac ymbleidio. Ac ar hynny, gan na chymmerent Addysc, yr Arglwydd a anfonodd *Blâ* angheuol yn eu mysc a elwid *Brad-cyfarfod*, yr hwn a ysgubodd ymaith y fath Liaws anfeidrol o bob Gradd ac oedran, fel prin y gallodd y Byw gladdu 'r meirw *Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon --- yna y gwna'r Arglwydd dy Blauau di yn rhyfedd, sef plaau mawrion a pharhaus, a chlefydau drwg a pharhaus.* Deut. 28. 58. A chyn pen nemmawr o amfer ar ol hyn, sef ar ol i'r *Plâ laesu* ychydig, wele y *Brithwyr* wedi dyfod yn ddiau ddigon: A rhwng y *Difrod* a wnaeth y *Plâ*; a'r Gelynion yn llosgi eu Trefydd ac yn *rhuthro* arnynt a hwy yn *weinion* ac yn *gleifion*, y mae'n hawdd i neb farnu pa mor resynol oedd eu *Cyflyrau*. A hynny a wnaeth iddynt alw am y *Saesfon*, y rhai a fuont yn waeth etto nag un *Pla* na *Brithwr*.

*special*

*plague*

*condition*

PEN. IV.

*Y Rhyfel a fu rhwng y Brutaniaid a'r Saesfon. Brad y Cyllill hirion. Hanes Uthr Ben-dragon ac Arthur &c. Tywysogion Cymru. Ychydig o Gyfraith Howell dda.*

**W**EDI dangos eufys i ba Amgylchiadau tofturus y dycpwyd yr hên *Frutaniaid* idd- yngan gan eu Llaithder a'i Meddalwch, ond yn anad dim gan eu Bywyd diras a'i Diyftrywch ar Dduw, mi a âf rhagof i ddangos eu *Hynfydrwydd* a'i Gwallgof y tu hwnt i ddim yn deifyf *Cymmorth* y

*folly*

*amanement*  
*plague demon*

*Saesfon*: (f) Canys yr un peth a fuafei iddynt ofod y *Blaid* yn Geidwad ar yr *Wyn* i'w hachub rhac y *Cedni*, a gwahawdd y *Saesfon* hwytheu trofodd i ymladd droftynt yn erbyn y *Brithwyr*. Ac etto, nid oedd hynny ond y peth y mac *Duw* yn fygwth yn erbyn Anufudd-dod; *Oni wrandewi ar lais yr Arglwydd dy Dduw, yr Arglwydd a'th dery di ag ynfydrwydd, ac a dallineb, ac a syndod calon.* Deut. 28. 15, 28. Ofnent y *Saesfon* o'r blaen megis *Plant y Fall*, ac *Ellyllon* o waelod *Anwn*; etto y fath *Hurtrwydd* a'i perchennogai ar hyn o Dro, fel y danfonafant Gennadon attynt, i'w gwahawdd hwy trofodd i *Frydain* i fod o'i plaid i ymlid ymaith y *Brithwyr*, y rhai nid oeddent mewn un modd yn wrolach pobl na hwynt-hwy eu hunain, pe ni's gadawfent i *Fusgrellni* a *llaithder* eu gorthrechu, megis y dywad y *Rhufeiniaid* lawer gwaith wrthynt.

*Ll?*  
*disc-pegn*

Ni wyddis ddim yn *dda-ddigon* am ba ham y danfonwyd am y *Saesfon* yma gyntaf, y rhai oedd Bobl o *Germani* gerllaw i *Hannover*. Dywed rhai fod Amgychiadau'r hên *Frutaniaid* y pryd hwnnw fel y canlyn: Fe ddefcynnodd Coron y Deyrnas o jawn Dreftadaeth i wr graflawn a elwid *Constans*, yr hwn a gafas ei Ddygiad mewn Monachlog, ar fedr ei ddwyn ef i fynu yn *Grefyddwr*, ac o'r achos hwnnw oedd anghydnabyddus ag *Arferion* y *Llys*, ac a Chyfreithiau'r Deyrnas. Ac o'r achos hwnnw efe a ofododd *Ddistain* neu *Benrheolwr* tano i farnu matterion y *Llys* a'r Deyrnas. Y *Distain* hwnnw a elwid *Gwrtheyrn*, a Dyn rhyfygus

---

(f) *O altissimam Sensûs caliginem! o desperabilem crudamque mentis hebetudmem.* Gild. 23. p. 20.

rhifygus yftrywgar a ffals oedd efe : Canys ar ol cael yr Awdurdod frenhinol yn ei Law, ei amcan nesaaf oedd cael *Meddiant* ei hun, a lladd ei Feiffr. Felly efe a roddes wobr anwiredd i o gylch Cant o *feibion* y *Fall* ar iddynt ruthro am ben ystafell y Brenin a'i ladd ef. Ac ar hynny (gwedi gwneuthur Senn a Gogan-gerdd er Anfri i *Constans*, a Chaniad o Fawl i *Gwrtheyrn*) disgwyl Odfa a wnaethont i ruthro iddo ; a'i ladd a orugant, a dwyn ei Ben ger bron y *Bradwr* ; ac yntef a gymerth arno wylaw, er na bu erioed law-enach yn ei galon ; Ond i fwrw *Niwlen* o flaen *Llygaid* y Bobl, mal y tybid nad oedd ganddo ef ddim llaw yn y Mwrdd-dra, efe a barodd dorri pennau y *Can wr* hynny a ofodes efe ei hun ar waith. (g) Ac felly Barn rhai yw, i *wrtheyrn* wahawdd y *Saeson* i fod yn Ofgordd ac yn Amddiffyn iddo, rhac y difreimid ef am ei Fradwriaeth a'i Ysgelerdra.—Ond boed hynny fel y mynno, hyn fydd ddilys ddigon, fod pob peth allan o Drein, *fyg fag*, *bendraphen* ym mysc y *Brutaniaid* ar ol ymadawiad y *Rhufeiniaid* oddiyma. Prin (ie prin jawn) yr ystyrir pa wir *Hawl* neu *Ditl*, nac ychwaith pa *Gynneddfau* da a fyddai gan neb un a ofodai Gais i fod yn *Ben-rheolwr* Gwlad ; ond yr *hwyaf* ei *Gleddyf* a'r *Dirieittiaf* a ymchyrddai i Awdurdod, ac a gadwai y Rheolaeth hyd oni ddeuai un trech nag ef, a'i wthio ymaith. — A hyn y mae *Gildas*, yr hwn a Sgrifennodd o gylch y Flwyddyn o *Oedran Christ* 546 yn ei dytthio-laethu yn eglur. Ac felly *Gwrtheyrn*, rhac y difreimid ef, megis y gwnaed i laweroedd eraill o'i flaen, a alwodd am *Gymmorth* y *Saeson*, i ddiogelu

H 3

*presumption crafty**stigma satire**confused**quality*

ei hun ar yr Orfeddfaingc. (h) A hyn, yn wir, a allai fod yn un Rheswm ym myfyc eraill, ond i ymladd a'r *Brithwyr* y cyflogwyd y *Saesfon* yn benna' dim.

FELLY *Gwrtheyrn*, ar ôl ymgynghori a'i Benn-aethiaid, a anfonodd bedwar o wyr anrhydeddus ei Lys i wneuthur Ammod a'r *Saesfon*, a'i gwahawdd hwy trosodd i *Frydain*, sef oedd Enwau y Pendefigion hynny, *Cadwaladr* ap *Tudur Ruddyfaog*, *Rhydderch* ap *Cadwgan freich-frâs*, *Meuric* ap *Trahaern*, a *Gwrgwnt* ap *Maelgwn Ynad*, heblaw eraill o îs-radd yn Ofgordd iddynt. -- Ac yno, wedi myned i ben eu Siwrnai, os gwir a ddywed Cronicl y *Saesfon* (canyis *Sais* cynhenid fydd yn adrodd hyn o fatter, (i) nid oes air yn un *Cronicl Cymraeg* am dano) y *Cennadon* a wnaethant Ar-aith † ger bron Eisteddfod o *Saesfon* yn y geiriau hyn, "Nyni y *Brutaniaid* truain wedi'n harcholli "a'n blin-gyftuddio gan aml Ruthrau 'n Gely-  
*afflicting*  
*full*  
 "ion, ym yn deisyf eich Porth a'ch nawdd yn  
 "y Cyfyngdra trallofus i'n dycpwyd ynddo ar  
 "hyn o bryd. Ein Gwlad fydd ehang ddigon,  
 "ffwch a diamdlawd o bob peth buddiol i Gyn-  
 "haliath Dyn; cewch Feddiant ynddi; digon  
 "yw hi i ni a chwithau. Hyd yn hyn y bu y  
 "*Rhufeiniaid* yn Ymgeleddwyr tirion i ni; nessler  
 "at ba rai ni adwaenom neb a roddes Brawf mor  
 helaeth

---

(b) *Nenn. Cap. 28. vid. Orig. Brit. C. 5. p. 318, 319. (i) Witichindus cit. a Camd. p. cxxiii. † Feddigwyddodd Camfynniad hagr yn yr Ar-graphiad cyntaf; lle y dywedir ddanfon Llythyr at y Saesfon. Ni fedrent hwy air ar lyfr, na darllen na Sgrifennu yn yr amser hwnnw.*

"helaeth o'i Grymmufdra a chwy-chwi. Bydded  
 "eich Arfau Seinio allan eich Gwroldeb yn  
 "Ynys Brydain, ac ni fydd flin gennym wneu-  
 "thur o'n Rhan ninnau, un fath o wafanaeth a  
 "a esyd eich *Ardderchawgrwydd* arnom." Ac  
 yno yr atebodd y *Saeson* wrth fodd eu calonnau  
 gan ddywedyd, "Chwi ellwch hyderu arno, *Fru-*  
 "*taniaid anrhydeddus*, y bydd y *Saeson* yn Ger-  
 "aint cywir i chwi, ac yn barodol i'ch cynnorth-  
 "wyo yn yr Ing a'r Trallod mwyaf" [ Y  
 Gwirionedd yw, nid yw yr Araith hon, ond  
*Chwedl-gwneuthur y Sais*; nid dim ond ei *Ddych-*  
*ymmyg* ei hun: Canys nid oedd Awdurdod y Cēn-  
 nadon a ddanfonwyd at y *Saeson*, ddim amgen  
 ond *ammodi* a hwy er cymmaint a chymmaint o  
*Gyftog*, megis y gallent hwy gyttuno arno: (*k*)  
 Nid oedd air o fōn am gael Meddiant mewn un  
 cwrw o'r Deyrnas.

*strength*

YR oedd ambell un (y rhai oedd a'i *Synhwy-*  
*rau* yn *neffro*) yn *darogan* y gwir chwedl, ac yn  
 ofidus eu Calon wrth rag-weled y Disfryw ger-  
 win oedd ar ddyfod. "Pan gaffo y *Caccwn*, ebe  
 "un, Letty yng Hwch y *Gwenyn*, è orfydd ar  
 "wir Drigolion y Cwch roddi lle i'r *Pryf gorme-*  
 "*sol*. Gwae fi, na bo gwahawdd y *Saeson* ddim  
 "yn gwirio Dihareb, *Gollwng Drygwr i 'Sgybor*  
 "gwr da: a llawer gwaith y gwelwyd, mai  
 "Gelyn i ddyn yw ei dda. — Mi a glywais hen  
 "Chwedl, eb un arall, i'r *Colommenod* gynt am-  
 "modi a'r *Barcuttanod* ar eu cadw rhac Rhuthr  
 "y *Brain*: y *Bodaod* yn ddilys ddigon a erlidiaf-  
 ant

*predict*

*mountain keta*

H 4

(*k*) *vid. Annot. in Camd. p. cxxiii. Orig. Brit.*  
*p. 318.*



"ant y *Brain* ymaith, ond beth er hynny? Nid  
 "hwyrach ac y byddai chwant *Saig felus* ar y  
 "*Bodaod*, nid dim arall a wafanaethai eu tro ond  
 "*Colommen* at Giniaw a Phrydnawnfwyd. Mi  
 "gâf gan Dduw mai nid hynny a fydd *Cordh* y  
 "*Gainge* ar waith ein Brenin da ninnau yn anfon  
 "am y *Saeson*." Ond nid oedd ond ambell  
*burden of the tongue* *Offeiriad* tlawd yn dal hyn o Sulw ar bethau.  
*provisions* Canys, ar ôl dychwelyd y Cennadon adref, y  
 bu Llawenydd o'r mwyaf yn y Llys; a byth ni  
 welai y Brenin ynfyd *ddigon o Arhwy* ar eu medr,  
 na digon o Ddanteithion a Moethau'r Ynys i'w  
 groesawu. Ac ym mhen ychydig, ryw bryd ym  
*Mis Awst* yn y flwyddyn o Ocdran *Christ* 449  
 y tiriadfont mewn tair Llong, a dau Frawd, *Hengist*  
 a *Hors* yn Flaenoriaid atnynt. -- Ar ôl gwle-  
 dda a bod yn llawen dros rai dyddiau, a llwyr  
 gyttuno ar y Gyflog ag oedd y *Saeson* ei dderbyn  
 am eu Gwafanaeth fel na byddai dim Ymrafael  
 am hynny rhagllaw, y *Saeson* yno yn wir a roi-  
 fant Brofiad helaeth o'i Gwroldeb a'i medr i drin  
 Arfau Rhyfel. Canys, er nad allent fod dim yn  
 Nifer fawr jawn pan y gallasai *tair Lloug* eu dwyn,  
 etto a hwy ynawr yn Borth i'r Llu egwan oedd  
 yn y Deyrnas eufys, y *Brithwyr* a wafgarwyd,  
 eu Byddinoedd a ddrylliwyd, a *Niawl mor mae*  
*flan* a dorrodd ei wddfarei waith yn ffoi yn frawych-  
 us ac yn fyrbwyll.

*honesty*

OND fe ddarfu am *Onestrwydd* y *Saeson* wrth  
 weled mor ddifraw a musgrell oedd y Trigolion  
 ( a diammeu mai Dynion oeddent wedi ymroddi  
 i Feddalwch a Mafwedd ) ond yn anad dim wrth  
 feddwl pa wlad dda frâs odidog oedd ganddynt,  
 gymmaint yn rhagori ar y *Cornel llwmm* new-  
 ynog oedd ganddynt hwy gartref. Ac yno hwy a  
 ddanfon-

*excellent  
corner*

ddanfonaſant yn ddirgel at eu Cydwladwyr (i) i wahawdd y rhai mwya' gwaedlyd a'r cieiddiaf o honynt drosodd i *Frydain*, tuag at ddwyn eu Hyftryw drwg i ben; canys er eu bod yn barod ddigon o honynt eu hunain, ond nid oedd eu Nifer etto yn ddigon: "Y wlad, *ebe hwy*, fydd "odidog a chnydfawr! Gwlad doreithiog a hyf-  
 "ryd! ond y Trigolion ydynt leſc a llaith a "diofal: Os ydych gall na arhofwch gartref i "newynu, ond cymmerwch Galon Gwyr, a "deuwch drosodd gyda ni. *Ni roddir Gwlad i "Fuſgrell*. A'n Cydfwriad ni yw, i ruthro ar "y Trigolion *Swrth*, megis y byddo'r wlad yn "eiddo ein hunain; felly gwybyddwch fod eich "Arfau yn awchus ac yn gywrain i ladd.

drowey

NID oedd dim llawer jawn achos *canlyn arnynt* i'w perſuadio: Digon o Annogaeth oedd cael anrheithio'r wlad ar ôl lladd a mwrddro y Trigolion. Felly yn ebrwydd y cynhullodd Llû mawr o honynt (y pedwar cymmaint na'r waith gyntaf) ac ym mhlith eraill dau Fab i *Hengiſt*, a Merch iddo a elwid *Rhonwen*. Y fawl o'r *Brutaniaid* ag oedd a'i Llygaid yn agored a edrychafant yn *chwithig* ar y fath Lû gormesol o *Farbariaid arfog* yn tirió heb gennad; ond y Brenin ynfyd, *Gwrtheyrn* dan ei enw, a'i hymgoleddodd; a thuag at *ddiſt-ewi Mân-Son* y Bobl, efe a ddywad, "Mai yn "Gynhorthwy yn erbyn y Gelynion y daethant, "rhac bod y fyddin gyntaf yn annigonol. "Yr oedd *Hengiſt* erbyn hyn wedi adnabod Tymmer y Brenin, ac er maint o Anrhegion (heblaw eu  
 Cyflog)

awkward

to indulge

(i) *Beda ipse hoc asserit. Hist. Eccles. Lib. 1. Cap. 15.*

Cyflog) ag oedd efe a'i wyr wedi eu derbyn, etto efe a fynnai gael *Dinas Gaerag* dan ei Lywodraeth, *fal y byddwyf*, eb efe, *yn anrhydeddus ym mhllith y Tywyfogion*, megis y *bu fy hen Deidau yn eu Gwlad eu hun*. Ond atebawdd *Gwrtheyrn*, "Ha wr da, "nid yw hynny weddus; canys *Ēftron a Phagan* "ydwyt ti: A phe i'th anrhydeddwn di megis "Bonheddig cynhwynol o'm Gwlad fy hun, y "Tywyfogion a safent yn erbyn hynny." Ond *O Arglwydd Frenin*, ebe *Hengist*, *caniattâ i'th wâs gymmaint o Dir i adeiladu Castell ag yr amgylchyna Carrai*. "Di a geffi gymmaint a hynny yn rhwydd, ebe *Gwrtheyrn*. Ac ar hynny y cymmerth *Hengist Groen Tarw*, ac a'i holltodd yn un *Garrai*, ac yn y lle cadarnaf, efe a amgylchynodd gymmaint a *Chae gweddol* o *Dir*, ac a adailadodd yno *Gaer freiniol*, yr hon a elwid gynt gan y *Brutaniaid Caer y Garrai*, eithr ynawr gan y *Saesfon, Dancaestre*, h. y. *Thong-Chester*. (k)

Ac yno *Hengist* a wahoddodd y *Brenin*, i weled y *Gaer newydd*, a'r *Marchogion* a ddaethant o *Germani*: A gwnaethpwyd yno wledd fawr o bob *Moethau* da ac amheuthyn fwydydd daintaith. Ond yn niwedd y *Cwtt*, (a *Hengist* yn gwybod eufys mai *Dyn mursennaidd* oedd *Gwrtheyrn*) efe a barodd i'w ferch *Ronwen* wisgo 'n wych odidog am dani, ac i ddyfod i'r *Bwrdd* i lenwi *Gwin* i'r *Brenin*: A daeth ystryw *Hengist* i ben wrth fodd ei *Galon*; canys y *Brenin* anllad a hoffodd yr *Eneth*, ac a ddymunodd gael *cyfcu* gyda hi y nofon honno; a hitheu *Yr Eneth frau anniwair Ni ddyd wich*

(k) *Galf. Lib. vi. C. xii. Camd. in Lincolnshire p. 471.*

*wch ni ddywad air (l) ond cydsynnio yn ebrwydd ag ef: A phan geryddwyd ef am ei Bechod a'i Loddest gan Fodri Esgob Llundain, (megis y gweddai i wr o'i Broffes wneuthur) y Brenin yn ei wyn gynddeiriog a ergydiodd wayw-ffon at ei Galon; ac a gymmerth Ronwen yn Gariad-ferch iddo. Geiriau'r Cronicl ynt, A gwedi meddwi Gwrtheyrn, neidiau a orug Diawl yntho, a pheri iddaw gytsynnaiaw a'r Baganes ysgymmun heb fedydd arni.*

*Tanbaid ei naid yn ei ôl  
Tanbeidiach na'r tân bydol.*

*Tudur Aled a'i cant,*

WEDI i hyn ddyfod cystal i ben wrth fodd y Saeson, yno difgwyl a wnaethant am amser cyfaddas i ruthro ar eu Meistrad: Yn gyntaf achwyn a wnaethant nad oedd eu Cyflog agos gymmaint ag oedd eu Gwroldeb yn eu haeddu: Er nad oedd hyn ddim oll ond Cweryl-gwneuthur, etto i gau eu Safnau, cawfant ychwaneg yr hyn a'i distawodd dros ychydigyn: (m) Ond megis y dywed y Ddihareb, *Hawdd gan Fonheddig fngammu*, felly hefyd *Hawdd yw digio dig*, Canys yr un Dôn hagr oedd fyth yn bytheirio yn eu Safnau, "Nad oedd dim Cystadled rhwng eu Cyflog a'r Gwa-fanaeth oeddent hwy yn ei wneuthur." *A raid i ni, ebe hwy, fentro ein Hoedlau am fflorege ac ambell Geiniog grotta i'ch cadw chwi yn ddiogel a difraw i ymlenwi mewn Tafarnau, Ddynionach musg-*  
rell

*squeak  
to rebuke*

*rage*

*concert*

*jump, refuge*

*to make a grimace*

*to eructate*

*nonsense*

*frail men*

(l) Owen ap Llywelyn moel a'i cant. (m) *Impetrant sibi annonas dari, quæ multo tempore impertitæ, clausurunt (ut dicitur) canis saucem. Gild. p. 21.*

rell segur ac ydych? Na wnawn ddim: Ni fedrwn  
rannu arnom ein hunain.

Ac felly yn wir y gwnaethant y ffordd neffaf. Canys ar ôl dyfod rai miloedd o honynt drachefn o *Germani*, (a hwy ynawr yn gwel'd eu hunain yn gryfion eu gwala o nifer, a chwedi heddychu a'r *Brithwyr*) rhuthro a wnaethant ar y Trigolion, megis cynnifer o Gigyddion anrhugarog yn ymbefci ar waed, heb arbed na Dyn na Dynes, na Bonheddig na Gwreng, nac Hên nac Jefangc. Nid oedd o gylch Glan *Tafwyfc*, *Kent* a *Llundain* a'r wlad oddiamgylch hyd at *Rydychen* (ac ni chyrhaeddodd Crafangau *Plant y Felledith* \* ddim llawer pellach) ddim ond yr *Wbw* gwyllt, ac *Oernad*, ac ymdrabaeddu mewn Gwaed, a Drychau tofturus y Meirw. Ac ar lan *Hafren* o *Gaerloyw* i'r *Mwythig* ac oddiyno tua *Chaerlleon Gawr*, yr oedd y *Brithwyr* hwytheu, [ *Rhai* a *Chleddyfau*, *Rhai* a *Gwayw-ffyn*, *Rhai* a *Chigweiniau*, a *Rhai* a *Bwyll deufiniog* ] yn dieneidio ac yn difrodi mor ysgeler, a phan y bo *Llifeiriant* *difymwth gan Gafod Twrwf* yn ysgubo gyda'r ffrwd, ac yn gyrru bendramwnwgl *Dai* a *Daeor*, *Deri* a *Da*, a *pha beth bynnag a fo ar ei ffordd*. -- Felly nid oedd ond Drychau *Marwolaeth* a *Diftryw* o'r *Dwyrain* hyd y *Gorllewin*. Y *Trefydd* a'r *Dinafoedd* oeddent yn fflammio hyd *Entrych* awyr, yr *Eglwysydd* a'r *Monachlogydd* a lofcwyd hefyd a *Thân*, ac a fwriwyd i lawr yn *gandryll*: Ac o herwydd mai yno gan mwyaf y cilliodd y *Gwyr Llên*, yr *Esgobion*, yr *Offeiriaid* a *Gweinidogion* *Crefydd* megis

to feed

dismal howl

turnell  
oak glove

all to pieces

\* *Ferocissimi Saxones Deo hominibusque inirsi. Gild.*  
p. 20.

megis i gynnyfir *Dinas Noddfa*; [ond ni wnai Barbariaid ysgeler ddim Rhagor rhwng Lle cyflegredig a Beudy] yr *Esgobion* yr *Offeiriad* &c. a ferthyrwyd megis eraill; lle y byddai eu Haelodau yn gymmyc blith draphlith a Thalpau chwilfrw yr Adeilad! A'r rhai a laddwyd ar wyneb y Maes, a adawyd yno yn Grugiau draw ac yma naill a'i i bryfedu a drewi, neu fod yn Borthiant i'r Cwn a'r Bleiddiau ac Adar Ysglyfaeth! Ar air, *Preswylwyr* y *Frô* a ferthyrwyd agos drwy bob *Cantref* yn *Lloegr*, ond y Sawl a allodd ddiange, ynghyd ag ychydig Luniaeth i'r Ogofau a'r Anialwch: Ond Gwyr *Blaeneu gwlad* a'r *Mynydd-dir* a ymgadwasant heb nemmawr o Daro, ond a gawfant o *Gyffro*.

difference

Lomb  
mass

to breed worms to stink

WEDI i'r Ffeilfton digred, Plant y Fall, o'r diwedd flino lladd a llosgi, y rhan fwyaf o honynt [anficcr am ba achos] a ddychwelasant adref i *Germani*. [n] Tybia rhai, mai'r achos o'i myned mor ddifymmwth i dir eu Gwlad, oedd, rhac y buasai *Sawyr* y *Celaneddau* meirw y rhai a adawfant yn Bentyrrau ar wyneb y Maes heb fedd-rod, beri Afiechyd, a bod yn Blâ iddynt. Ond Barn eraill yw, iddynt *lwytho eu Cylla cigfreinig yn rhy dynn*, ac iddynt ddewis, er mwyn cael eu cynnefinol Jechyd, fyned adref dros ennyd i Dir eu Gwlâd, er cael Budd a Llesâd y *Fôrwybr*. Y naill neu'r llall oedd yn ddilys ddigon yr achos, neu ond odid bob un o'r ddau, sef *Drygfawr* y *celaneddau*, ac ymlenwi nes bod yn *Darrdynn*. Ond myned adref yn ddiammeu a wnaethant; a chyn

cunning

smell

stomach

advantage

light-bellied

[n] *Cum recessissent domum crudelissimi Prædones.*  
*Gild Ep. p. 22. Edit. Jofs. 1568.*

chyn belled a ellir gasglu oddiwrth *Hên Haneson*, hwy a arhofasant gartref bum Mlynedd neu chwech, cyn eu dyfod drachefn i *Ynys Brydain*. Canys yn y flwyddyn o Oedran *Christ* 449 y gwahoddyd hwy gyntaf trofodd: O gylch deng mlynedd y buont yn weision cyflog yngwafanaeth y *Brutaniaid* i ymladd droftynt, cyn iddynt yn felldigedig dorri eu Hammod a rhuthro arnynt: Ac nid oes dim sôn am danynt mwyach nes y flwyddyn 465. Ond boed hynny fel y mynno, Wedi i Weddillion y *Brutaniaid* ymgynnull o'r Tyllau ar ôl y Lladdfa echrydus uchod, a galw yn egniol ar Dduw am ei Gymmorth; difreinio *Gwrtheyrn* a wnaethant; [ac nid oedd efe ond *Traws-feddianwr* ar y cyntaf] a gosod y Goron ar Ben Câr iddo a wnaethant a elwid *Gwrtheyfyr*; yr hwn am ei fod yn wr arafaidd a duwiol [ac etto yn llawn calondid] a gyfenwir *Gwrtheyfyr fendigaid*.

AR eu gwaeth yn bwrw heibio *Gwrtheyrn* o fod yn Frenin, mab iddo a elwid *Pascen* o'i Lid a'i chwerwder yn gweled Gwr arall yn gwisgo Coron y Deyrnas, a ymadawodd a'r wlad, ac a aeth [*Suddas* bradychus ag oedd] yn union at y *Saeson* a chymmodi a wnaeth efe a hwy a myned yn ungar unesgar. A'r Bradwr hwnnw [a *Bradwr* o hyd a fu Distryw *Brydain*] a fu, ond odid, yr Achos pennaf o'i Dyfodiad y waith hon i *Frydain*, i ddial y Sarhâd o ddifreinio ei Dâd. Ond gwell a fuafai iddo ef a hwytheu fod yn llonydd; Canys am y Brenin duwiol *Gwrtheyfyr*, cymmaint oedd yr Enw am dano wedi ymdannu ar lêd, fel y bu hoff gan Galonnau holl Jeungctid y Deyrnas ddwyn Arfau dano: Ac yntef a ofodes ar y Llu [yn neffaf atto ei hun mewn Awdurdod a Gallu] wr graflawn a elwid *Emrys Ben-aur* [Tâd yr

yr hwn ynghyd a'r Rhan fwyaf o'i Gyfnesyfiad a laddwyd yn y Mwrdrâ creulon y soniwyd am dano uchod ] A Gwr rhagorol oedd hwn hefyd; canys heblaw ei fod y Rhyfelwr enwog, efe a rodiodd o flaen Duw mewn gwirionedd ac mewn cyfiawnder ac mewn uniondeb calon, ac etto fel Llew i ymladd dros fraint ei wlad a'r Eglwys gatholic. Ac a hwy a'i Hymddiried yn yr Arglwydd Dduw, ac yn glynu wrtho a'i holl Galon a'i holl Enaid, ar waith y ddwy Gâd yn bloeddio i'r Frwydr, *Emrys* a weddiodd ar yr Arglwydd a'i holl Egni: Ac yno y ddau Lû a ergydiasant yn ffyrnig y naill at y llall, y buan y cuddiwyd y Maes a chelaneddau y Clwyfus a'r meirw. *Emrys* o honaw ef, oedd ar Farch rhygyngog yn gyrru megis mellen o *Restr* i *Restr* i ofod calon yn ei wyr, rhac hŏd neb o honynt yn llafu, ac yn troi ei Gefn ar y Gelynion. A thrwy borth Duw y *Brutaniaid* a ennillasant y Maes [o] a'i Gelynion a wasgarwyd; Rhai yn ffoi gyda'r *Brithwyr* i *Is-coed Celyddon* neu *Scotland*; ac eraill i Dir eu Gwlad y tu draw i'r Mor. --- O gylch y Flwyddyn o Oedran *Christ* 465 y bu hynny.

ER ennill y maes ar y Gwyr arfog, a'i hymlid ymaith, etto chwith fu gan y *Brutaniaid* ruthro ar y Gwragedd a'r Plant a adawodd y *Saefon* ar eu hol, ond eu gadael a wnaethant i fyw yn llonydd yn y wlad: Ond gwneler *Cymmwynas* i ddydd drwg, ac efe a dâl y mawr-ddrwg amdano. ymgoledded dyn Sârph yn ei Fonwes, ac efe a fydd debyg o gael ei frathu. Ac medd hen Ddihareb, *Cos Din Taeog*,  
ac

1-B  
kennedus  
to chenn  
kithch hail  
villain

[o] *Queis* [ *Sc. Britannis* ] *victoria*, *Domino annuente*, *cessit*. *Gild.* p. 23.



ac efe a g-ch yn dy ddwrn. Ac felly yma Rhonwen hitheu y Saefones, Merch Hengist, a Gordderchwraig Gwrtheyrn, yn lle bod yn ddiolchgar am y Tiriondeb a'r Ffafr a ddangofwyd iddi hi a'i heiddo, a ofododd ei Synwyr ar waith i wenwyno y Brenin da, Gwrtheyfyr fendigaid: A thuag at ddwyn ei Hyftryw uffernol i ben, hi a roddes yr Hanner o'r holl Dryfor ar a feddai hi yn y byd, i Lange o yspryd eofn ac ysgeler a elwid Ebiffa: Ac yntef a ymrithiodd megis Garddwr, ac ar foregwaith tra'r oedd y Brenin yn rhodio yn ei Ardd, y Bradwr du a'i hanrhegodd a Thuffw o Flodau Briallu, a mwg Gwenwyn marwol wedi anadlu arnynt. [p] Ac yno pan gydnabu Gwrtheyfyr ddarfod ei wenwyno [ ond y Bradwr a ddiangodd ymaith yn ddistaw at Rhonwen ] "Efe a barodd alw ei holl "Dywyfogion atto, a chynghori a orug bawb o "honynt i amddiffyn eu Gwlad, a'i gwir Ddléd "rhag Efron-genedl. A rhannu ei Gyfoeth a "wnaeth efe i bawb o'r Tywyfogion; a gorchym- "myn llosgi ei Gorph, a rhoddi y Llundw mewn "Debw o Efydd ar lun Gwr yn y Porthladd lle "bai Efron-genedl yn ceisio dyfod i dir, gan ddy- "wedyd, Mai diau oedd na ddeuent fyth tra y gwe- "lent ei Lân ef yno. Ond wedi marw Gwrthe- fyr, ni wnaeth y Tywyfogion megis yr arch- asai efe iddynt, ond ei gladdu ef yng Nghaer-Ludd a wnaethant Y fath oedd Dewrder ac arial calon y Brenin godidag hwn, fel megis y bu efe yn Ffrewyll yn ystlyfau 'r Saefon tra y bu efe byw; Felly efe a chwennychai fod yn Ddychryn iddynt hyd yn oed ar ol ei Farw. --- Ond eb'r Bardd.

Er

whisp

image copper

side

*Er Heddwch nac er Rhyfel,  
Gwenynen faraw ni chafgl fêl.*

A glybuwyd Sôn erioed am bobl mor wall-gôf-  
us ac ynfyd ag a fu y *Brutaniaid* ar hyn o Bryd !  
Canys, *Gwrtheyrn*, yr hwn a ddifreiniafant rai Bly-  
nyddoedd o'r blaen am ei *Ddiddarbodaeth* yn  
bradychu ei wlad i *Ddwylo Efroniaid*, a gâs y  
Llywodraeth yn ei Law etto. Ac nid oedd *Rhon-*  
*wen* yn ewyllysio ond dyfod hynny i ben ; canys  
wedi ei sicrhau ef yn y *Frenhinaeth*, hi a an-  
fonodd yn chwippyn Gennadon hyd yn *Germa-*  
*ni*, i ysbyfu iw thâd, iddi hi yn yftrywgar ddigon  
wneud pen ar *Wrtheyfyr* ; a bod *Gwrtheyrn*, (Gwr  
ag oedd hoff ganddo Genedl y *Saesôn*) wedi ei  
dderchafu i eistedd ar yr *Orfedd-faingc* yn ei le.  
*Ha, ha*, ebe Hengist *yno wrth ei wyr, y mae i ni*  
*Obaith etto : Oes.* A hwy a'i hattebafant ef a  
*Gwên ddiflas*, "Gobaith ansicr jawn ydyw hyn-  
"ny ; canys ny ni a ddirmygafom ormod ar y  
"Brutaniaid eufys ; a Phobl lewion ydynt hwy-  
"theu wedi llidio. " *Ffi, ffi*, ebe Hengist, *na*  
*kwfrhaed eich Calon ; yr ym ni yn gyfrwysach na*  
*hwy : Pan ballo nerth, ni fedrwn gynllwyn.* Ac  
yno efe a gynhullodd ynghylch pymtheg mil o  
wyr arfog (heblaw *Gwragedd* a *Phlant*) ac a  
hwyliodd trosodd i *Frydain* mor ebrwydd fyth ag  
oedd bosibl, canys efe a wyddai *mai hawdd cym-*  
*mod lle bai Cariad*, y fath oedd ei *Hyder* ar y  
*Brenin* hanner-call hwnnw *Gwrtheyrn*. Ond  
pan welodd y *Brutaniaid* y fath *Lynges fawr*  
(o gylch deugain o *Ysgraffau*) yn hwylio parth  
ag attynt, Sicrhau y *Porthladd* a wnaethant fel  
nad allent dirio. Ac ar hynny y gosododd *Heng-*  
*gist* Arwydd *Tangneddyf* i *Siommi* y *Brutaniaid*,  
ac a ddanfonodd Gennadon i fynegi i'r *Brenin*,

I

"mai

*improvident**waylaying**to disappoint*

"mai nid er moleft yn y byd yr hwyliodd efe i  
 "Frydain y waith honno, a'r fath Lû ganddo,  
 "ond i gynnorthwyo'r Brenin i ynnill ei Gor-  
 "on, yr hon a gippiwyd yn anghyfiawn oddi-  
 "wrtho : Canys ni wyddem ni ddim amgen, ebe  
 "hwy, onid oedd *Gwrthefyr* etto yn fyw, ac yn  
 "traws-feddiannu y Goron". *Teg jawn*, ebe  
*Gwrtheyrn*, ac a ddiolchodd iddynt am eu *Cariad*.  
 "Bod-gwiw gan eich Mawrhydi gan hynny, ebe  
 "hwy, i appwyntio rhyw ddiwrnod, fel y caffo  
 "*Hengist* ein Harglwydd, gael Siarad wyneb yn  
 "wyneb yn wyneb a'ch Brenhinol uchelder "O  
*ewylllys fy nghalon*, ebe *Gwrtheyrn*. "Ond O  
 "Arglwydd Frenin, ebe hwy etto, fel yr ymddan-  
 "goso yn eglur i'r byd ein bod ni yn heddychol  
 "ac ar Feddwl da, deued pawb yn ddiarfog i'r  
 "Lle gosodedig a welo eich Mawrhydi chwi yn  
 "dda i'w bennu arno". *Da y dywedwch*, ebe  
*Gwrtheyrn*, ac *nyni a gyfarfyddwn* Ddydd Calan-  
*mai nessaf yngwastadedd* Caer Caradoc.

WEDI *Hengist* fel hyn ymgynnhefu a'r Bren-  
 in di-doreth (a *hawdd cynneu tân yn hên Aelwyd*)  
 yno ei ferch *Rhonwen* a ddaeth i ymweled ag ef,  
 ac adrodd wrtho mor ddichellgar y bu hi i wen-  
 wyno *Gwrthefyr*. "Da 'Merch i, ebe *Hengist*,  
 "Wele, merch dy Dâd yn llwyr wyt ti, mi a  
 "ddywedaf hynny am danat".

*Hengist* ar hynny a barodd alw ynghyd ei  
 Farchogion, ac ar ol adrodd mor yftrywgar y  
 darfu *Rhonwen* wenwyno *Gwrthefyr fendigaidd*,  
 yna efe a ddywad wrthynt "Dydd Calan-mai  
 "*nessaf* yr ym i gyfarfod a *Phendefigion* y Brut-  
 "*aniaid* dan *Rith* i wneud Ammod o heddwch  
 "a hwy, ond yn wir ddiâu ar fedr eu lladd bob  
 mab

*appearance*

" mab Gwraig, Coftowcwn ag ydynt. Canys  
 " wedi i ni ladd y Goreuon, e ddyd hynny  
 " gymmaint o fraw yn y Gwerinos taeog, fel na  
 " bo Galon yn neb i'n gwrthsefyll. Ond i  
 " ddwyn i ben hyn o orchwyl yn gyfrwys, dy-  
 " ged pawb o honoch Gyllell awchlem ddau-  
 " finiog, (megis Cyllell Cigydd) yn ei Lawes ;  
 " a phan ddywedwyf i wrthych, *Nemet eour*  
 " *Saxes* [ h. y. Ymafed pawb yn ei Gyllell ]  
 " lladded pawb y nessaf atto. Wele Gorchym-  
 " myn a gawfoch ; ymddygwch fel Gwyr, ac  
 " nac arbeded eich Llygad. " -- Ar y dydd  
 'pwyntiedig cyfarfod a wnaethant ; ac er chwaneg  
 o *Argoelion Cariad*, *Hengist* a'i persuadiodd yn  
 hawdd i eistedd *Fritton* a *Sais* bob yn ail, blith  
 draphlith o amgylch y Byrddau : Ond wedi cini-  
 awa a dechreu myned yn llawen, y cododd Hen-  
 gift ar ei draed, ac a waeddodd *Nemet eour Saxes*.  
 Ac yn ddiattreg ymafyd a wnaeth pob un *gyd-*  
*a'r gair* yn ei Gyllell, a thrywanu y nessaf atto ;  
 a hynny gyda chyn leied o *Dosturi* a phan y bo  
*Cigydd* yn gollwng *Gwaed Mochyn*. Ychwaneg  
 na thri Chant o *Bendefigion a Goreuon* y Deyr-  
 nas a ferthyrwyd yn dra fileinig yn y wledd waed-  
 lyd honno ar *Ddydd Calan-mai* : Ond *Eidiol*  
*Iarll Caer-loyw* a ddiangodd yn ddiaro o nerth  
*Trosol* a gafas efe dan ei Draed ; ac a'r *Trosol*  
 hwnnw, efe a laddodd ddeng wr a thriugain \* o  
 Blant y Fall, y *Saeson* ; canys Gwr glew oedd  
 hwnnw. Er nad oedd ganddo ond *Trosol*, etto  
 ni a welwn wirio hen Ddihareb, *Ni ddiffyg arf*  
*ar wâs gwych*. Ac medd Dihareb arall, *Glew a*  
fydd

\* *Gwel yr Hanes am Gedyrn Dafydd. 2. Sam. xxiii.*

fydd Llew hyd yn llwyd. [Y flwyddyn o Oedran Christ 472 y bu hynny.]

*inch*  
*refinement*  
*hip*

FE ddamweiniodd i mi weled un o'r *Cyllill* hirion hynny, ac un hagr hell oedd hi; y *Llafn flade* oedd ynghylch 7 modfedd o hyd, ac yn chwangeg na hanner modfedd o Lêd, ac yn ddau-finiog 5 modfedd o'r Saith. Ei charn oedd *Elephant*, a manyl-waith cywrain arno; a llun Benyw noeth, a bwl crwnn yn y llaw affwy, a'r llaw ddeheu ar ben ei chlun. Ac yr oedd llun Gwas ieuangu wrth y tŷ deheu o honi, a'r Haul o amgylch ei Ben. Ei Gwain oedd *Elephant* hefyd, wedi ei gweithio yn gywrain jawn. Ac, meddant hwy, yr oedd y Gyllell hon yn un o'r Rhai fu gan y *Saesfon* yn lladd Pennaethiaid y *Cymru*.

Gwae Ddydd anedwydd anwir!

Gwae rhac yr hell Gyllell hir!

Cyllell hir cuell a llem

Callestr-fin holl-drin hylldrem } *Folo goch*

Dagr garnwen, gethren gythrawl, } *a'i cant.*

Neddai ddu a naddai Ddiawl.

Yn ei Efail i' th luniwyd

Dart y Diawl a'i Hawl ef wyd.

*flint sharp*  
*spike*  
*adze to hew*  
*smithy*  
*claim*

*joint*  
*to make flexible*

WEDI ymdannu y newydd galarus o'r Mwr-dra hwn ar léd, y Werin bobl a fu agos i amhwylllo gan Ofn, megis *Ysgolhaig ievange* (newydd fyned i'r ysgol) yn cyffro bob *Cymmal* ar weled *Meistr gerwin yn ystwytho Llang diwaith na fydd edrych ar ei Lyfr*. Nid oedd y pryd hwnnw gan y *Brutaniaid* ddim ychwaneg na Saith mil o wyr arfog (y fath ag oeddent.) Ac ni allwn ddal Sulw mai Pobl anghall o hyd oeddent yn hyn o beth; sef yn gadael y *Mikwyr* fyned ar wasgar,

ar

ar ôl iddynt hwy unwaith gael y trecha' ar eu Gelynion! Beth oedd *Saith mil* o wyr mewn Teyrnas a chymmaint o Ergyd Barbariaid arni? Ac yma ar waith y Llü egwan hwnnw, heb yn-awr un *Uchel-Gadpen* o wr profiadol calonnog yn flaenor arnynt, (canys *Emrys Ben-aur* a ddifwyddwyd ar ôl dyfod *Gwrtheyrn* i reoli eilwaith) ar eu gwaith, meddaf yn llaes-wynebu eu Gelynion, hwy a Sathrwyd gan y Saeson, megis March rhyngog yn torri *Crin-gae*; neu megis y difa fflamm o Dan Berth o Eithin crîn. A'r Saeson yno a orescynnant y cwbl o gylch *Llundain* a'r wlad o amgylch, heb feiddio o neb symmud ei Dafod yn eu herbyn.

*breasting to face  
fragile fence  
furze*

*Gwrtheyrn* yno, Dyn pen-dreigl ag oedd, a aeth ar encil tua *Gwynedd*, ac megis *Saul* yn ei Gyfyngdra yn ymgynghori a'r *Ddewines* o *Endor*; 1. Sam. 28. Felly yntef a ymgynghorodd a'i *Ddoethion* (Gwyr ond odid ddim callach nag yntef) ynghylch pa beth oedd oreu wneuthur yn y fath Adfyd a Chaledi: A'i Barn hwy oedd yn *un a chyttûn*, i adeiladu Castell o fewn *Eryri* fel y caffent ryw *Breswylfa* ddiogel mewn Lle anial allan o *Olwg* y *Byd*. Ond cymmaint a adeiladid y dydd, (os gwir yw'r chwedl) a fyrrthiai yn y *Nôs*, ac ni ellid mewn modd yn y byd beri i'r gwaith sefyll. A'r Brenin a ymofynnodd a'r *Dewiniaid*, a'i *ddauddeg Brif-Fardd*, ond ni fedrent beth i ateb. Ond ebe un o henynt (ac ychydig fwy o Synwyr Pen ynddo nag yn y lleill) *Dywedwn rhyw beth amhossibl i fod, rhac na bo Anair i'r Dewiniaid*. Felly ym mhen ychydig (megis pe buafent wedi *hyildremio* ar y *Planedau*) adrodd a wnaethant, *Pe caid Gwaed mab heb Dâd iddo, a phe cymmyscid hwnnw a'r*

*to look wildly*

*Dwfr ac a'r Calch, fe saif y Gwaith.* Garw yw eich Chwedl ebe *Gwrtheyrn*; ac yn gall ei wala (yn hyn, megis ym mhob peth arall) efe a anfonodd Swyddogion i bob man o *Gymru* (canys yng *Hymru* yr oedd ganddo awdurdod etto) i ymofyn, *pa le y ganefid un mab heb Dad iddo.* A gwedi tramwyo gan mwyaf yr holl Ardaloedd er cryn Ddifyrwrch i'r Bobl, y daeth Dau o honnynt i Drêf a alwid *Caerfyrddin*; ac ym Mhorth y Ddinas y clywent ddau Langc ievaingc yn ymdaeru, Enw'r naill oedd *Myrddin*, a *Dynawt* y llall. Ebe *Dunawt* wrth *Myrddin*, *Pa achos yr ymrysoni di a myfi?* Canys dyn *tynghetfenawol* wyt ti heb *Dâd*, a minneu sydd o *Lin Brenhinol* o ran *Tâd* a mam. Boed wir dy chwedl, ebe 'r *Cennadon* yno wrth eu gilydd; ac a aethont at *faer* y *Dref* i ddangos eu *Hawdurdod* i ddwyn *Myrddin* a'i *Fam* at y *Brenin* i *Wynedd*. Gwedi eu dyfod ger bron, *Gwrtheyrn* a ofynnodd *Mab* i *bwy* oedd y *Llangc*? A'i fam a attebodd, *mai Hy* hi oedd ei *Fam*; ond na's gwyddai hi *pwyl* oedd ei *Dâd*. Pa fodd y gall hynny fod, eb 'r *Brenin*. Un ferch oeddwn, ebe hi, i *Frenin Dyfet*; fy nhâd a'm rhoddes i yn *fynaches* yng *Haerfyrddin*; Ac fel yr oeddwn yn *cyscu* ryw *noswaith* rhwng fy *Nghyfeillesau*, mi a dybiwn yn fy *Hân* fod rhyw was ievange teccaf yn y byd yn *ymgydio* a mi; eithr pan ddihunais i, nid oedd yno namyn fi a'm *Cyfeillesau*; a'r amfer hwnnw y beichiogais i, ac y ganwyd y mab rhacw. Ac i'm cyffes i *Dduw*, ni bu i mi achos *Gwr* ond hynny. A rhyfeddu a wnaeth y *Brenin* yn fawr i glywed hynny, ac a archodd ddwyn *Meugain Ddewin* atto, ac a ofynnodd iddo, a allai hynny fod? Gall o *Frenin*, eb efe, ac a draethodd ei *Resymmau* (y fath ag oeddent) i brofi

*predestinated*

*to join*

brofi hynny : (¶\*) Y Brenin ar hynny a ddywad wrth *Myrddin*, Y mae'n rhaid i mi gael dy waed. *Pa Lês a wnâ fy nywaed i mwy na Gwaed Dyn arall*, ebe Fyrddin. *Am ddywedyd o'm dauddeg prif-fardd y pair dy waed di i'r Gwaith sefyll yn dragywydd*, eb 'r Brenin. A *Myrddin* yno a ofynnodd i'r Dewiniaid, am yr achos ag oedd yn llestair ac yn rhwystro 'r Gwaith; a phryd na's gallasant roddi ateb iddo, efe a'i galwood yn *Dwyllwyr* a *Bradwyr celwyddog*: Yr achos na saif y Gwaith, *eb efe*, yw, am fod *Llyngc-lyn* dan wadn yr Adeilad. A phau, wrth ei Arch ef, y cloddiwyd y Ddaer odditanodd, fe gafwyd *Llynllwngc* yno yn ddilys ddigon, megis yr oedd efe yn barnu ym mlaen-llaw. A'r Brenin ar hynny a anrhydeddodd *Fyrddin*, ond a barodd ladd y dauddeg *Prif-fardd* am eu bod yn *Dwyllwyr*, ac yn cymmeryd arnynt y peth ni wyddent: Y mae eu Beddau i'w gweled yno hyd heddyw, yn adnabyddus wrth Enw, *Beddau'r Dewiniaid*.

*Gwrtheyrn* a symmudodd oddiyno i Ddeheubarth i *Lan-Teifi*, ac mewn Lle anial ynghanol Creigydd a mynydd-dir yr adeiladodd fath o Gastell, yr hwn yn ddiau oedd y pryd hwnnw mewn Lle anghyfannedd ddigon, ym mhell allan o Glybod a Golwg y Byd: Ond nid er diben crefyddol y dewisodd efe fyned fel hyn ar Encil; oblegid efe, Dyn diras ag oedd, megis *Ahab* yntef y

I 4

gwaethaf

(¶\*) *Merlinus ipse natus est in Cambria, non ex Incubo Demone, sed ex furtivâ Venere cuiusdam Romani Consulis cum virgine vestali. Poweli Annot. in Girald. Itiner. Cambriæ. C. 8. p. 207.*



*to sell oneself* gwaethaf o Frenhinoedd Israel, a ymwerthodd i wneuthur yr hyn oedd ddrwg yngolwg yr Arglwydd.

*to pollute*

1. Bren. XXI. 20. Heblaw ei holl Ffieidd-dra arall, efe a halogodd ei ferch ei hun (q) o'r hon y ganwyd iddo Fáb. Ond ni adawodd Duw mo'r fath Ddireidi ysgeler yn hir, nes ymweled ag ef mewn Barn: Canys, fel y glawiodd yr Arglwydd Dàn a Brwmstan ar *Sodom a Gomorra* am eu Llofgach a'i Haflendid. Gen. XIX. Felly yma y cafododd Eirias-dàn wybrennol, yr hwn a yffodd yr Adeilad, a phawb o'i fewn i ulw. A'r man a elwir hyd heddyw *Craig wrtheyrn*, o gylch hanner y ffordd rhwng *Llan-petr pont Stephan*, a *Chastell newydd yn Emlyn*, ar lan *Teifi*, o fewn Rhandir *Caerfyrddin*. Yn y flwyddyn o Oedran *Christ* 480 y bu hynny.

*Sky*  
*to consume*

*hard*

YN y cyfamfer yr oedd y *Saesfon* hwy yn ddygn ormesol yn creuloni yng *Hent* a'r wlad o amgylch: Y Pendefigion, y Cyfoethogion, yr uchelwyr a ddihenyddwyd bob mab Gwraig yn y parthau hyn; ond y Cyffredin a arbedwydd, i fod yn Gaeth-weision, megis cynnifer Affyn lwythog, i ddwyn Beichiau. Yr oedd hyn yn ddilys ddi-gon yn fyd caled, ac yn fywyd chwerw; Eu Palafau, eu Gerddi, eu Perllannoedd, eu Gweirgloddiau ym meddiant *Barbariaid* anrhugarog a *Mwrddwyr*! Y Perchennogion yn gorwedd yn *Gelaneddau ar wyneb y maes* yn Borthiant i *Eryrod a Chigfrein*! Y Cyffredin yn Gaeth-weision i *Baganiaid* ysgeler, Plant y felldith, yn addoli Delwau. Ond etto y mae'n weddus i ni addef, mai

(q) *Vid. Spelm. Concil. Britan. p. 49. et. Ufs. Pri-mord. p. 386.*

mai Pobl ddrwg-fucheddol oedd y *Brutaniaid* hwythau, Pobl yn wir, wedi ymroddi i *Affendid*, Anwiredd a thywallt Gwaed gwirion; am hynny yr Arglwydd a'i purodd hwy mewn *pair Cystudd*, *pollution* ac a'i gwerthodd hwy i law eu Gelynion. Os *rhodio a wneuch yn y gwrthwyneb* i mi, ebe Duw wrth yr *Israeliaid* gynt, *yna y rhodiaf inneu yn y gwrthwyneb i chwithau--a dygaf arnoch Gleddyf yr hwn a ddial fynghyfammed*; a phan ymgafgloch ich *dinasoedd*, *yna yr anfonaf haint i'ch mysé, a chwi a roddir yn llaw y gelyn* Levit. 26. 23, 24. Pechod yr *Israeliaid* hefyd oedd *Godineb* ac ymlenwi yn nyddiau Hawddfyd. *Oeddent fel meirch porthiannus y bore, gweryrent bob un ar wraig ei gymmydog.* Jer. V. 8. Ond pan laddei efe hwy [h. y. pan ymwelai'r Arglwydd mewn Barn a hwynt] *hwy a'i ceisient ef, ac a ddychwelent cofient hefyd mai Duw oedd eu craig, ac mai y Gorchaf Dduw oedd eu Gwaredydd.* Pf. 78. 34. *adultery to neigh*

YR un fath Bobl oedd y *Brutaniaid* hwythau; Rhai yn ymgeisio a Duw mewn Cyfyngdra, ac yn ei wrthod mewn *Helacthrwydd*. Ac felly ar hyn o bryd (tra'r oedd y *Saesón* drwy frad a *Chreulonder* wedi traws-feddiannu Rhan fawr o *Loegr*) Gweddillion y *Brutaniaid* a ddychwelasant at yr Arglwydd eu Duw a'i holl Galon ac a'i holl egni. (r) *Emrys Ben-aur* \* oedd ynawr eu Brenin, yr hwn a fu Ben-captin y Llu yn amser *Gwrthefyr fendigaid*, megis y soniwyd o'r blaen. A chymmaint oedd ei Glod wedi chengudros

(r) *Innumeris onerantes æthera votis.* Gild. p. 22. b. \* *Y rhan fwyaf a'i galwant ef, Emrys wledig.*

dros yr holl Deyrnas, fel prin oedd wr o ugain i hanner cant, oni chwennychai ddwyn Arfau tano. A Gwyr Gwynedd a Deheudir hefyd ar hyn o bryd a ddaethant yn Gymmorth cyfamferol idd eu Brodyr yn *Lloegr*; ac yn wir, achos da pa ham: Canys fe rydd pob un fenthyg ei Law i *ddiffodd Ty ar dân*: a phob un a ymgyfyd a'i Arf yn ei law i daro *Ci cynddeiriog* yn ei Dalcen. --- Felly, a hwy ynawr yn Llu cadarn (a'i Hymddiried yn yr Arglwydd) myned a wnaethant yn union-gyrch, a danfon Gwys at y Gelynion, i ymadael o *Frydain*; neu, od oedd calon ynddynt i ymladd, deuent i'r *Maes*, ac ymladdent yn dëg, ac nid fel *Bradwyr* yn cynllwyn am waed dan *rith Cyfeillion*. -- *Hengist* ar hynny a wrychiodd (canys yr oedd yr hen Gadnaw yn fyw byth, ac ynawr o gylchfaith a thriugain oed) ac ar ôl ymgyngori a'i frawd *Hors* ac eraill o'i Gapteniaid, efe a atebodd i'r *Pen-rhinyll* a anfonasai *Emrys* atto, "*fod ganddo ef gyftal*" "*Hawl yn y Tir a orescynnasai efe drwy nerth*" "*Arfau, a'r goreu o'r Brutaniaid. Seren-bren am*" "*eu Bygwyl*."

A'r hynny, ryw bryd ym Mis *Mai* yn y flwyddyn o Oedran *Christ* 484 y bu ymladdfa greulon rhwng y ddwy Genedl; y naill yn ymwroli er gyrru Efron genedl, *Bradwyr* a *Mworddwyr*; allan o'i Gwlad; a'r llall yn ffyrnigo fel Ellyllon er cadw craff yn eu Traws-feddiant anghyfiawn. Ar ôl cwympo cannoedd o bob parth, yn enwedig o blaid y *Saeson*, dynessau a wnaethont yn dra lliidiog i ymladd law law, a cheithin oedd yr olwg i weled Rhai wedi eu hollti yn eu canol, Rhai a'i ymyfcaroedd allan, Rhai yn fyrr o fraich, ac Eraill yn fyrr o *Goes*. *Hors* a wanwyd

Lo brestle

Serjeant

fig

ugly

entrails

leg

wanwyd yn ei wddf, a *Hengist* a ddaliwyd yn Garcharor, a'r lleill a'r hynny a ffoesant, ond y rhan fwyaf yn archolledig a Dart yn ei dû ol.— Y Sawdwyr yno a lufcafont *Hengist* gerfydd ei Farf tua Phabell y Brenin, a phan oedd Dadl yn eu mysc ynghylch pa beth a wneid o hono, *Dyfrig*, Archefgob *Caer-lleon ar wysc* a gododd ar ei draed ac a ddywad, "Pettai bob un o " honoch chwi am ei ryddhau ef, myfi, ie myfi " ag wyf yn Esgob a'r drylliwn ef yn chwilfriw; " canys mi a ganlynwn SiAMPL y Prophwyd " *Samuel*, yr hwn pan oedd *Agag* Brenin *Abimelec* yn ei law a ddywedodd, *Fal y diblantodd " dy gleddyf di wragedd, felly y diblentir dy fam " ditheu ym mysc gwagedd. A Samuel a ddarniodd Agag ger bron yr Arghwydd yn Gilgal. 1. Sam. 15.* " Gwnewch chwitheu Anwyl-wyr (eb efe) " yr un ffunud i *Hengist* yr hwn fydd megis ail " *Agag*." Ac ar hynny, *Eidiol* Iarll *Caerloyw* a ruthrodd arno, ac a'i lladdodd. Gyda bod y Cleddyf yn ei Botten, yno chwi a welech yr holl Lû yn gwasgaru, rhai yma, rhai accw, i geisio bob un ei *garreg* i daflu arno; a chyn *nofi*, yr oedd yno gryn *Garn* ar ei ben, megis yr oeddid yn arferol o wneuthur a Drwg-weithredwyr, y rhai oddiyma a gyfenwir yn *Garn-Ladron.* (s)

*Emrys Ben-aur* oedd ynawr yn eistedd yn ddiogel ar ei Orfeddfaingc; a chyn gwneuthur un peth arall (nas adgyweirio Ty na Dinas) efe a barodd dalu Diolch cyffredinol i Dduw ym mhob Eglwys-

(s) *Hæc narratio decerpta est partim ea Hist. Brit Galfridi Lib. 8. C. 5, 6, 7. partim ex variis MSS. N.*

*to drag*

*faunch*

*to become night*

Eglwys-Blwyf a Chadeiriol o fewn y Deyrnas, am deilyngu o hono adael ei *Fendith* i gyd-gerdded a'i *Arfau* er darostwng y Gelynyon. Ac yn ebrwydd, y Gweddillion o'r *Saesfon* a adawyd yn fyw, a ymostyngasant ger ei fron, a Llundw ar eu Pennau, *Chebystrâu* am eu *Gyddfau* yn taer ymbil ar fod yn wiw gan y Brenin i ganiattau ond eu *Hoedl* yn unig iddynt. -- Y Brenin yno a ymgyngorodd a'i *Bennaethiaid*, a Barn *Dyfrig* yr Arch-efgob oedd hyn. " Y *Gibeoniaid*, eb efe, a " geifiafant ammodau Heddwch gan yr *Israeli-aid* (er nad oedd hynny ond mewn Twyll) " ac a'i cawfant. Ac a fyddwn ni Grifnogion " yn greulonach nag *Juddewon* i gau allan y " *Saesfon* oddiwrth Drugaredd : Y mae'r Deyrnas " yn ehang ddigon, y mae llawer o Dir etto yn " anghyfannedd, gadewch iddynt drigo yn y " Mynydd-dir a'r Diffaithwch fel y bont yn weifion yn dragywydd i ni. " A'r Brenin ar hynny a ganiattaodd eu *Hoedl* iddynt, ar eu gwaith yn cymmeryd Llw o Ufudd-dod i Goron *Loegr*, ac na ddygent ddim *Arfau* fyth rhagllaw yn erbyn y *Brutaniaid*.

CHWI a glywfoch eufys fod i *Wrtheyrn* fab a elwid *Pasgen*; yr hwn pan goronwyd *Emrys Ben-aur* yn Frenin, a aeth eilwaith yn lliodiog i *Sermania* Gwlad y *Saesfon* i'w cymmell trosodd i *Frydain* i ennill y Deyrnas oddiar *Emrys*. Ac ar ôl iddo drwy weniath ac addewidion mawr, gynnull atto Lû mawr o wyr arfog, efe a hwyliodd gyda hwy mewn pymtheg Llong, ac a diriiodd yn ddiangol yn *Iscoed Celyddon*, a elwir heddyw, *Scotlând*; lle y gadawodd efe y *Saesfon* gyda'i *Cydwladwyr*, y rhai a arbedodd *Emrys Ben-aur* ac a ganiattaodd eu *Hoedl* iddynt ar Ddeifyfiad *Dyfrig*

Halter  
caper  
to crane

escaping

*Dyfrig* Arch-efgob *Caer-Lleon ar wyfc.* Am dano ei hun, gydag ynghylch hanner cant o wyr ei wlad, efe a hwyliodd i'r *Iwerddon*, o'r lle yr oedd efe yn disgwyl ychwaneg *Gymmorth*, oddiwrth *Gilamwri* un o Frenhinoedd yr Ynys honno. *Cilamwri* a'i derbyniodd ef yn anrhydeddus, ac a adawodd iddo gael *Saith mil* o wyr dewisol i fordwyo gydag ef i *Frydain*. *Pascen* a'i Lû a diriodd yn *Aber-dau-gleddu* ym *Mhenfro*, ac oddi-yno y cerddodd yn y blaen yn llidiog, ( megis Arthes yn ymgynddeiriogi wedi cholli ei Chenawon ) gan ddifa a dinistrio y cwbl tua *Chaerfyrddin*, *Glan Tywi*, ac oddiyno i *Aber-Honddu*, a *G'lann Wyfc*, hyd at *Fôr Hafren*.

*Emrys Brenin* y *Brutaniaid* yn y cyfamfer oedd yn glâf yng *Haer-went* ? ac hyfryd jawn oedd y newydd ynghlufstiau *Pascen*, ac a ddymunasei o eigion calon ei fod efe mewn rhyw Le arall nag yn *Nhir y rhai byw*. Ac yno neidio a wnaeth y *Diawl* i galon *Pascen*, a dyfalu ffordd i ladd y *Brenin* ; ac fe wyddai eulys fod ganddo *Sais* yn ei *Gymdeithas* (*Eppa* oedd ei Enw ) o gyftal un at y fath orchwyl ag a fu erioed yn *Ysgol-dy Belzebub*. Yr oedd efe yn deall y *Iaith Gymraeg*, yn ryw ychydig o *Feddyg*, ac yn ddyn dewr yftrywgar hefyd. Ac fel y bai efe fod yn *Fradwr* hollol, efe a ymrithiodd megis *Offeiriad*, ac etto yn deall *Meddiginiaeth*. "Wele ynawr, ebe *Pascen* " wrtho, dos a llwydda ; a gwybydd fyned yn " ebrwydd at y *Saeson* i *Iscoed-Celyddon* ar ôl gwn- " euthur o honot dy orchwyl ; a danfon air " attaf finneu ". --- Y *Sais* mewn Rhith Gwr crefyddol, ac yn un yn deall *Meddyginiaeth* a gas fynediad yn hawdd i *Lys* y *Brenin*, ac a roddes iddo *Ddiad* o *Lysiau* a gafglodd efe o'r

Ardd

middle

to guess

Ardd yngwydd pawb; ond efe yn ddirgel a gymmyfcodd wenwyn a hi, ac o fefur cam a cham a ddfiannodd o'r golwg, a phrin y gorphwysfodd efe yn jawn nes myned a'r newydd at ei Gydwladwyr i *Isfoed-celyddon*, a'i hannog i wisgo eu harfau. — Dydd dû yn ei *wyneb*, a phob *Bradwr cās* megis yntef.

Immense  
orphan

FE ddywedir i Seren (a Phaladr iddi) anfeidrol ei maint, ac yn echrydus yr olwg, ymddangos i *Uthur-bendragon* ar y Munyd y bu farw *Emrys* ei frawd. A phan oedd *Uthur* a phawb o'r rhai oedd gydag ef yn ofni wrth edrych ar y fath weledigaeth, yno *Myrddin* a ddywedodd, “O Genedl y *Brutaniaid* ynawr yr ydych chiwi “yn weddw o *Emrys*, y colled ni ellir ei ennill; “ac er hynny nid ydych yn ymddifad o Frenin; “canys ti a fyddi Frenin *Uthr*; bryffia di, ym- “ladd a'th Elynion, canys ti a orfyddi arnynt, “ac a fyddi feddiannus ar yr Ynys hon. A “thydi a arwyddocâ y Seren a welaiſt ti.” (t)

splendour  
cupful

*Uthur Ben-dragon* yno a goronwyd ar ffrwſt; ac ar y fath amfer terfysfus a hwn, nid oedd dim Cyffe nac adeg i lawer o Seremoni a Rhialltwch; Canys yr oedd *Eppa* mab *Hengist* wedi perfwadio ei Gydwladwyr y *Saesfon* eu bod hwy ynawr yn rhydd oddiwrth y Llw a gymmerasant i *Emrys Ben-aur*: “Beth, eb efe, a'i gwneuthur Cydwy- “bod yr ydych o *ffôl Eiriau fflore*g? *Emrys* “nid yw mwy; Mi a roddais Gwppaneid iddo “i'ch rhyddhau o'r Llw a wnaethoch iddo ef. “Gan hynny, gwisgwch am danoch eich Arfau; “Yr

“ Yr ym ni yma o honom ein hunain yn Llú  
 “ cadarn ; a *Phasgen* yntef fydd a Llú o wyr dewi-  
 “ fol tua *Chaerlleon* ar *wyfi* : Y mae'r *Brutani-*  
 “ *aid* wedi digalonni ; wele, holl Gyfoeth ynys  
 “ *Brydain* yn wobr o'n Gwroldeb.“ (u) Nid oedd  
 dim achos wrth lawer o Araith ; yr oedd yr Gwyr  
 a'i Cydwybod yn yftwyth ddigon i *lyngcu* Llŵ a'i  
*chwydu* allan, pan fyddai hynny at eu *Trô*. Felly <sup>flexible</sup>  
 a hwy ynawr yn Llú mawr erchyll wedi ymgaledu  
 mewn Drygioni, ac mor chwannog i dywallt  
 gwaed a difrodi, ac yw Haid o Gigfrain gwangcus  
 yn gwibio am Ysglyfaeth ; cymmeryd eu Cyrch  
 a wnaethant (gan ladd a diniftrio) i gyffwrdd a  
*Phasgen*, yr hwn erbyn hynny oedd wedi treiddio  
*Môr Hafren* tua *Chaer-Bristo*.---*Uthr Ben-dragon*  
 o hono yntef a wnaeth ei Ran cyftal ag oedd  
 boffibl yn y fath Amgylchiadau cyfyng : Canys efe  
 a ddanfonodd *bedwar Rhingyll*, un i *Gerniw*, un  
 i'r *Gogledd*, un tua *Rhydychen* a *Llundain*, ac un  
 i *Gymru*, ynghyd a Llythyrau at y Gwyr mawr  
 i godi Gwyr, bob un yn ei Frô a'i Ardal, i achub  
 y Deyrnas rhac bod yn Ysglyfaeth i'r fath Elynon  
 a Bradwyr anrhugarog. Pa Gynnorthwy a ddaeth  
 o *Loegr*, ni wyddys ; ond o *Gymru* y daeth ryw  
 Arglwydd mawr a elwid *Nathan Llwyd*, \* a  
 phum mil o wyr dewifol gydag ef. Ac ymgy-  
 farfod oll a wnaethant ar Dwyn gerllaw *Caer*  
*Baddon* neu'r *Bath* yngwlad yr *Haf* ; sef *Pascen*  
 Fradwr a'i wyr, y *Sacson* hwythau dan *Eppa* a  
*Cherdic* dau Ben-captan y Llú ac o'r tu arall  
*uthur Ben-dragon* a'i Luoedd, a *Nathan Llwyd* a'i  
 wyr

(u) MS. vet. \* In *Chronice. Sax nominatu Nathan-*  
*leod* ; De quo doctus *Camd. plane delirat. Brit. p.*  
 114. Ed. *Novifs.*



wyr o Gymru. --- Yno wedi byddino eu Gwyr o bob ochr, y dechreuodd yr ymladdfa greulonaſ a fu, ond odid erioed rhwng y *Brutaniaid* a'r *Saeſon*. Yno y gwelid y Saethau yn chwifio o'r naill Lû at y llall, *megis Cafod o Geffer yn ymdyrru, pan y bo Gwynt gwrthwyneb yn eu gwithio draw ac yma*. Och pa fath olwg dofturus a fyddai gwelid yn ymddyryfu ym mherfedd a choluddion eraill: *Bowels*  
 Ambell *Ddart* yn nhwll y Llygad, a'r dyn etto yn fyw ac yn cynddeiriogi gan ei Boen: Ambell *Ddart* yn y Safn, y naill hanner y tu hyn, a'r hanner arall y tu draw i'r gwddf allan: Ambell *ddart* yn y Talcen dros yr *Adfach*, a'r Ymmennydd yn glafoerio allan: Ambell *Ddart* yn descyn ar y Lluric neu'r *Aftalch* près, ac yn seinio yn rhonge *megis Cloch*: Ac ambell *Ddart* yn union at y Galon, ac yn diboeni mewn munyd. Ac am ben hyn yn lle Meddygon i drin eu Clwyfau, y Meirch-Rhyfel yn ystrangcio draw ac yma dros y Clwyfus truain; yn briwo *Esgyrn* rhai, yn *llethu* Eraill, yn *cernodio* allan Ymmennydd rhai, a *Chalonau* ac *Ymysgaroedd* eraill.

Dros chwech Awr nid oedd dim ond y Distryw gwyllt o bob ochr, ond yn enwedig o dû y *Saeſon*, *megis y mae Gildas* ein Cydwladwr, yr hwn a aned yn y flwyddyn honno, yn ficrhau. Eu lluoedd y waith hon (er eu hamled) a Sathrwyd fel nad arhosodd gymmaint a Rheifr gyfan yn ddiglywf; a'r Maes a guddiwyd cyn dewed a Chelaneddau 'r meirw, fel mai nid gwaith ysgafn dros rai Diwrnodau oedd eu claddu. --- Y frwydr hon a ymladdwyd yn y Flwyddyn 495. --- *Arthur* mab y Brenin a ymddygodd yma yn llawn Calonid a Medr i drin Artau. Am ba ham yllmae Beirdd

hairsstones

to entangle entrails

beard of the dart  
 to clapper  
 shield  
 brass  
 sonorous

to flacken

Beirdd yr Oes honno yn canu ei fawl mewn amryw Bennillion ac Odlau; ac ym mysc eraill, hen *Daliefn* Ben-beirdd fy'n canu.

*Gwae hwynt-hwy yr Ynfydion\** \*y Saeson  
*Pan fu † waith Faddon;* † Brwydr y Bath  
 Arthur *Ben-haelion*  
 (*Y Llafneu bu gochion*)  
*Gwnaeth ar ei Alon\** \*ëi Elynion  
*Gwaith Gwyr gewynion.\** \*nerthol.

Ni bu dim Rhyfel ar ol hyn dros amryw flynyddoedd; canys y *Saeson a dorrwyd* i'r llawr y waith hon; ac hyd y gall dyn farnu, ni fuafent fyth yn abl i godi eu pennau drachefn ym *Mrydain* oni buafai Anghydfod ac Anras y *Brutaniaid* yn eu mysc eu hunain (*u*) Canys ar ôl iddynt gael Preswylfa ddiogel, a Llonyddwch oddiwrth eu Gelynyon o amgylch, ymroddi a wnaethant i bob Aflendid ac Anwiredd, Gormodedd a Meddwdod, Anudon a dywedyd Celwydd, megis pe buafent yn beiddio Duw, adywedyd, *Ni fynnw'n ni ddim o'th Gyfraith.* Ond yn anad un drwg arall, y Gwyr mawr yn enwedig a ymroisant yn ddigydwylbod i bob Aflendid a Godineb yr hyn a barodd eu bod yn cynllwyn am waed, yn mw'rddro eu gilydd, ac yn difrodi dros gydol y Deyrnas, yn waeth etto er y Llës cyffredin nag un Gelyn amlwg, neu Est-ron pellenig. Ac ym mysc amryw Ddrygau eraill, beth a wnaeth Rhai mewn Gwyn fyrrbwyll a Chynddaredd o Lid, ond gollwng Pennaethiaid y *Saeson* o'r Carchar; y rhai cyn gynted ac y cawfant

K eu

*perjury*

*profet*

(*u*) *Cessantibus licet externis bellis, sed non civilibus.*  
*Gild. p. 23. uid. ilid. fustus usque ad. p. 30.*

eu Traed yn rhyddion, bryffio a wnaethant i Dir eu Gwlad, fef i *Sermania*, ac adrodd wrth eu Cydwladwyr, "Er iddynt, digon gwir, gael y "gwaethaf wrth ymladd a'r *Brutaniaid* lawer "trô, megis y mae Hynt Rhyfel yn anficcr, etto "nid oedd hynny ond eisiau ychwaneg o Ddwy- "lo, ac nid eistieu na Chalondid na Chyfrwyf- "dra; wrth fel y gwelwn ni bethau yn digwydd "etto, ebe hwy; nid allwn lai na chredu oni "bydd *Ynys Brydain* ryw bryd neu gilydd ym "meddiant y *Saeson*, ac ond odid cyn y bo hir. "Canys ynawr, ebe hwy, nid oes dim ond yr "*Anrhefn* wyllt dros wyneb yr holl wlad. Gade- "wch iddynt i ladd eu gilydd oni flinont; *Ysgafna*" "gyd fydd ein gwaith ni y trô *nessaf*."

NID neb ond Goreuon y *Saeson*, eu Capteniaid a Swyddogion eu Lluoedd a ddiangasant y pryd hwnnw o Garchar, a myned i Dir eu gwlad i *Sermania*. Tuag at am yr *Ysgraglach bach* y werin Sawdwyr, ni charcharwyd mo honynt hwy, eithr (a hwy heb un *Pen* arnynt) a wnaethpwyd yn Gaethweision i'r *Brutaniaid*. Ond er hynny yr oedd y Natur ddrwg yn brydio yn y *Rhai hyn*, megis ac yn eu *Gwyr mawr*. Chwennych yr oedd-ent i godi mewn Arfau, lladd eu Meistrad, a bwytta Brasder y wlad, ond eu bod yn ofni fod y *Brutaniaid* yn rhy galed iddynt: *Megis y gwelwch chwi bedwar neu bump o Gorgwn yn dilyn y Sawr at Furgyn; os digwydd fod yno waed-gi neu ddau yn ciniawwa eusys, yna y Corgwn, er cymmaint a fo eu chwant, a safant o hirbell, gan edrych o yma draw; heb feiddio peri Afonyddwch idd eu Goreuon*— Ond er bod eu Gallu yn wan, etto yr oedd eu Hewyllys yn gref; canys y drwg a oedd o fewn eu cyrrhaedd, hynny a wnaeth y *Dynion-ach*

mob

smell  
carrion

ach hyn, sef bwrw Gwenwyn yn ddirgel i'r ffynnon lle erys rhai dyddiau yr arferai *Uthr Ben-dragon* yfed o honi ; canys yr oedd efe ryw ychydig allan o hwyl, a chyngor ei feddygon oedd, *yfed Duwfr-ffynnon bob boreu.* Ond efe, wr glew a chalonnog ag oedd, a gollodd ei fywyd, gan Frâd y *Saeson* ; yn lle ei Dynerwch iddynt yn arbed eu Bywyd, hwynt-hwy Blantannwna wnaethant iddo ef Anrheg o wenwyn marwol.

Y fath a hyn oedd y Gydabyddiaeth a ddangosodd y *Gwyr bach* ; Ac am y *Blaenoriaid* y rhai a ddiangafant o Garchar i Dir eu Gwlad, mynegi draw ac yma a wnaethant pa fath wlad odidog a rhagorol oedd Teyrnas *Loegr* ; nad oedd eu Gwlad eu hunain ddim mwy ei chyftadlu a hi nag yw *Ysgall i Ros-cochion* : mynegi hefyd a wnaethant pa Anrhefn ac Anghydfod oedd ym myfyr y *Trigolion* ; ac nid oedd dim ammeu ganddynt, oni byddent Berchennogion ar y wlad, os caffent hwy rydd-did i godi digon o wyr ac Arfau tuag at hynny.--Ac, megis pan fo *Carw* wedi ei glwyfo, y bydd *Corgwn* a *Bytheiad-gwn* a *Brain*, a *Phiod* a *Barcuttanod*, bawb o un-chwant yn llygad-tynnu tuag atto, eu gyd yn *blyfio* am *Okwyth* o *Gig Carw* : Felly yma yr ymgynhullodd amryw Bobl o Dylwythau eraill heblaw y *Saeson* (*w*) nes eu bod yn Llu mawr jawn o gylch ugain mil o wyr ; eu gyd ai *Hergyd* i gael Rhan o 'Sglyfaeth Ynys *Brydain*, yr hon yn rhy fynych ar ei Llès, oedd yn glwyfus gan Anghydfod a rhy aml ymbleidid o'i mewn.

OND erbyn eu dyfod hwy i dir *Brydain*, yr oedd yma wr, y Brenin *Arthur* dan ei Enw, yr hwn ni roddes iddynt ond ychydig Hamdden i wledda ac ymdordynnu. Ar y cyntaf yn wir pan nad oedd neb yn eu gwrthsefyll, y gwnaethant Hafog echrydus o gylch y Lle y tiriafant, ac oddi-yno tua *Llundain*: Do, y fath ddiffryw, a phan y bo Eirias-dân yn difa Perth o Eithin crîn. Y fath oedd eu Cynddeiriogrwydd a'i creulonder! --Yn y cyfamfer y Brenin *Arthur* a gynhullodd ei wyr; ac a ddanfonodd wys (megis yr oedd efe yn *Ber-rheolwr* y *Deyrnas*) at *Caron* Brenin *Isfoed-celyddon*; at *Gafwallon law-hir* Brenin *Gwynedd*; at *Meuric* Brenin *Deheu-barth*; ac at *Cattwr* Iarll *Cerniw*, yn gorchymmyn pob un o honynt i arfogi eu Gwyr, gan fod y Gelynion a Llû cadarn wedi dyfod i'r wlad, ac yn diftriwio y ffordd y cerddent.-- Pa gymmaint o wyr arfog a ddaeth ynghyd ar wys y Brenin *Arthur* ni wyddis yn siccr; Ond y mae'n ddilys ddiammeu, nad oedd yma agos ddigon i wynebu y Gelynion yn y maes: Ambell *Ysgar-mes* frwd yn wir a fu, ac ambell *Ymgipprys* a *Chynllwyn*: Ond y *Saeson* oedd drechâ, ac yn ymgreuloni yn dra ffyrnig. -- Y Brenin *Arthur* yno (ar ôl ymgynghori a'i Arglwyddi) a ddanfonodd *Lythyr* gydag *Owen ap Urien Reged* at *Howel* Brenin *Llydaw* \* ei nai fab chwaer i ddeisyf Porth ganddo yn erbyn y Gelynion. Dyma i chwi Eiriau'r *Lythyr*. (x)

“Arthur Brenin Brydain at Howel Brenin  
“Llydaw

\* *Rhan o Deyrnas Ffrainge lle mae y Brutaniaid yn aros hyd heddyw y mae eu Gwlad o gylch cymmaint a Chymru.* (x) MS. vet.

hot  
Shouting  
kramble

“ Llydaw yn anfon annerch. *Y Barbariaid an-*  
 “ *yflywallt y Saeson sy fyth yn gormesu yn dra ysg-* *unmanageable*  
 “ *eler yn ein Teyrnas. Hwyl a gyflogwyd ar y cyn-*  
 “ *taf, fel y mae'r ysbys ddigon i'ch mawredd, i ym-* *evident*  
 “ *ladd drofom : Eithr hwynt hwy yn lle bod yn wa-*  
 “ *sanaeth-ddynion a fynnant fod yn Feistraid yn erbyn*  
 “ *pob Gwirionedd a Chyfiawnder. Ein Cais ni gan*  
 “ *hynny, Gâr anwyl yw, ac deilyngu o honoch ddan-*  
 “ *fon yn Borth i ni wyth mil o wyr dewisol ; Ac y*  
 “ *mae fy Hyder ar Dduw, y bydd yn fy Ngallu in-*  
 “ *neu ym mhen ychydig wneud Attaledigaeth i chwi.--*  
 “ *Eich Câr diffuant.*

## ARTHUR BRENIN BRYDAIN.

Y Nai, fel gwir Ghrifftion teimladwy, a wnaeth  
 fwy etto nag oedd ei Ewythr yn geisio ganddo.  
 Canys efe a anfonas yn garedig *ddeng mil o wyr* ;  
 a Gwyr glewion yn wir a dewr oeddent. -- Y fath  
 Gymmorth a hwn a adfywiodd Galon *Arthur* a'i  
*Frutaniaid* ; ac yn ebrwydd y bu Yfgarmes greulon  
 ac ymladdfa waedlyd, yr hon a barhaodd agos yn  
 ddiorphwys dros dri Diwrnod a thair Nos. Ac er  
 bod *Arthur* yn Rhyfelwr enwog o'i Febyd, ac  
 hefyd ei wyr yn llawn Calondid ac Egni i ymladd  
 dros eu Gwlâd ; etto, y mae'n rhaid addef y gwir,  
 hi a fu galed ddigon arnynt y waith hon. Mor  
 ffyrnig oedd y *Saeson* i gadw craff yn eu traws-fedd-  
 iant anghyfiawn, megisac y dryllwyd Blaen-fyddin  
 y *Brutaniaid* y dydd cyntaf, a'r *Saeson* yn eu her-  
 lid yn archolledig nes lladd cannoedd o honynt :  
 ond *Cattwr Iarll Cerniw* a'i hymchwelodd drache-  
 fn, a mil o wyr-meirch a thair mil o wyr-traed  
 gydag ef. -- Y Rhyfel a drymhaodd yr ail dydd, ac  
*Arthur* (o'i ferch at ei Genedl) a ddibrifiodd ei

Einioes gymmaint, megis ac yr aeth efe i ganol y Frwydr ym mysc ei Elynion, a'i Gleddyf noeth yn ei Law a elwid *Caledfwlch*; ac a'i Law ei hun (heblaw y Lladdfa a wnaeth ei Farchogion) efe a wânodd dros dri chant o *Saesón*: Ar hynny y lleill a ffoefant, ond nid cyn tywallt llawer jawn o waed o bob ochr. [O gylch y *Flwyddyn* 520 y bu hyn.]

ERBYN hyn o amfer yr oedd *Goreuon Sermania* (Gwlad y *Saesón*) wedi cael prawf o Ddaioni a Brafder *Lloegr*. A chymmaint oedd eu Trachwant anghyfiawn i feddiannu y wlad odidog hen fel y gwnaethant lawn fwriad yn un a *chyttún*, na ddeffygient hwy fyth i ddyfod a Gwyr y tu draw i'r môr i oresgyn *Lloegr* wrth Rym y Cleddyf, ie pe gorfyddai arnynt gwbl arloesi eu Gwlad eu hun o bob *Coppa lanog* o'i mewn. O hyn y mae, na chafas y Brenin *Arthur* ond ychydig Lonyddwch nac Esmwythder yn holl amfer ei Deyrnasiad: canys o'r dechreu i'r diwedd efe a ymladdodd *ddau-ddeg* Brwydr a'r *Saesón*; ac er hyn i gyd, er maint o Ddihirwyr a Chigyddion gwaedlyd oedd yn ymwithio yma o du draw y môr, etto oni buasai *Bradwyr* gartref, ni roifai y Brenin *Arthur* binn draen er eu holl ymgyrch. Ond *Teyrnas* wedi ymrannu yn ei herbyn ei hun a anghyfanneddir. Felly yma (gan fod rhai yn haeru, mai nid mab o Briodoedd *Arthur*) y gwyrodd rhan fawr o'r Deyrnas, ac enneinio Câr iddo yn Frenin a wnaethant, a elwid *Medrod*; yr hwn a fu chwerwach i *Arthur* na holl Ruthrau ei Elynion: Canys heblaw ei fradwriaeth yn erbyn y Goron, a'i waith yn ymgoleddu y *Saesón*, efe a gymmerth drwy Drais *Gwenhwyfar* y Frenhines, ac a'i cadwodd yn wraig iddo 'i hun. *Dynion* drwg *astan* a chynhennus oedd yr hen *Frutaniaid* o hyd gan mwyaf.

to fail  
to empty  
low-bearing head

to deviate

*mwyaf.* A hwn yw un o'r tri *Bradwyr Brydain.* Y ddau arall ynt *Afarwy* fab *Lludd* yr hwn a fradychodd y Deyrnas i *Ful Caisar*; a *Gwrtheyrn* yr hwn gyntaf a wahoddodd y *Saesfon* drofodd.

Y mae llawer o storïau am *Arthur*, y rhai ynt yn ddilys ddigon ddim amgen na *hên chwedleu gwneuthur.* Dywedir fod ymrafael ym myfç y *Brutaniaid* ynghylch dewis Brenin ar ol marw *Uthr Bendragon* Tad *Arthur*; ac i *Fyrddin* alw ynghyd *Oreuon* y Deyrnas i *Lundain*, a gorchymyn yr *Offeiriaid* weddio Duw ar deilyngu o hono yfpyfu drwy ryw Arwydd pwy oedd Frenin teilwng Ynys *Brydain*: Ac erbyn y boreu drannoeth, mewn carreg fawr bedair ochrog, y cafwyd yn ei chanol gyffelyb i *Eingion Gôf*, ac yn yr *Eingion* yr oedd *Cleddyf* yn sefyll erbyn ei flaen, a *Llythyr*ennau euraid yn Sgrifennedig arno, nid amgen, *Pwy bynnag a dynn y cleddyf hwn allan o'r Eingion, hwnnw sydd Frenin cyfiawn i Ynys Brydain.* A phan wybu y *Pendefigion* a'r *Offeiriaid* hynny, hwy a roisfant y *Gogoniant* i *Dduw*. A rhai o honynt a brofasant i dynnu y *Cleddyf* allan, ond ni's gallent: a dywedodd yr *Offeiriaid* wrthynt, nad oedd yno neb yn deilwng i wisgo *Coron* y Deyrnas. Ond *Arthur* a ymaflodd yn y *Cleddyf*, ac a'i tynnodd allan yn ddirwyftr.

Y fath chwedlau a'r rhai'n ac amryw o'i cyffelyb ynt gymmaint yn anfodloni rhai *Dynion*, megys y beiddiant daeru yn *fafnrhwth* eu gwala, na fu erioed y fath Frenin ac *Arthur*. Ond ni ddylid gwaðu *Gwirionedd* amlwg, er ei fod wedi ei drwlio a hen chwedlau ofer. Dyn allan o berfedd ei gôf a fyddai hwnnw a daerai na chododd yr *Haul* crioed, o herwydd ei bod yn *Fachlud-Haul* pan yr

amir

open-jawed

centre



to be made

to hint

ynfydai efe hynny. Ac y mae mor ddily s ddi-  
ammeu fod y fath Frenin ac *Arthur*, a bod *Alec-*  
*sander*, er fod Hanes-bywyd y naill a'r llall wedi  
eu cymmylu a hen chwedlau. Canys (1) Y mae  
Beirdd yr Oes honno yn crybwyll am dano yn eu  
Pennillion. Mi a adroddais o'r blaen Owdl o  
waith *Taliesyn*, clywch un arall o waith *Llywarch*  
*hen*.

to commune  
(Lienoot)

Yn Llongborth llâs i Arthur  
Gwyr dewr, cymment a dur,  
Amherawdr, Llywiawdr llafur.

BARN rhai yw mai *Llanborth* o fewn Plwyf  
*Penbryn* Yng Heredigion, yw'r Lle a cilw'r Bardd  
*Llongborth*; yr hyn nid yw anhebyg i fod yn wir.  
Mae lle yn gyfagos yno a elwir yn gyffredin *Maes*  
*glas*, ond yr hen Enw cyffredin yw *Maes y llâs*,  
neu *Maes galanas*, ac yno drwy bob tebygoliaeth  
lladdwyd Rhai o wyr *Arthur* drwy fradwriaeth  
*Medrod*. Y mae mann arall yn y Gymmydogaeth  
o fewn Plwyf *Penbryn* a elwir *Perth Gereint*, lle  
wrth bob Tebygoliaeth y claddwyd *Gereint*, yr  
hwn oedd Uchel Gadpen Llongau *Arthur*, ac a  
laddwyd yn *Llongborth*, megis y cân yr un hên  
Fardd godidog, *Llywarch hen*.

Yn Llongborth y llâs Gereint  
Gwr dewr o Goed-tir Dyfneint;  
Hwynt-hwy yn lladd, gyd as lleddeint.

to nail

Heblaw hyn, fe gafwyd Beddrod *Arthur* yn ni-  
wedd Teyrnasiad y Brenin *Harri* yr ail o gylch y  
flwyddyn un mil un cant pedwar ugain o naw; a'r  
Geiriau hyn oeddent argraphedig ar Groes blwm,  
yr hon oedd wedi hoelio wrth yr Yfgrin, *Yma y*  
*gorwedd*

gorwedd Arthur Brenin enwog y Brutaniaid yn ynys Afallon (y) wrth Rai o Bennillion yr hen Feirdd y daeth y Goleuni cyntaf ynghylch y man a'r lle y claddwyd ef. Defnydd ei yfgrin ef oedd *Derwen gau*, ac yn gorwedd mewn naw troedfedd o Ddyfnder daiar.

YR oedd gau *Arthur* amryw lyfoedd heblaw ei Benpalas yn *Llundain*. Ambellwaith yng *Haer y Gamlas*, Dinas hyfryd gynt yng *wlad yr Haf*: Ambellwaith mewn lle a elwid y *Gelli-wyg yng Her-niw*: Ac yn fynych yng *Haer-Leon ar wysc*, yr hon oedd gynt y drydedd Ddinas o ran Tegwch a maint drwy'r holl Deyrnas, ac yn Eisteddfa Arch-Esgobaeth.

Ac efe yn wr call, i rac-achub cynnen ym mysc ei Farchogion ynghylch y Lle uchaf ar y Bwrdd, dywedir mai efe oedd y cyntaf a ddyfeisiodd y *Ford gron*, fel y gallai pawb eistedd blith dra-phlith yn ddi-wahan heb ddim Ymrysson am Orucha-fiaeth. A'r rhai hyn yw y cynneddfau a ofynnid gan bob un o farchogion *Arthur*, y rhai y caniat-aid iddynt eistedd ar ei fwrdd ei hun. (x)

I. Y dylai pob Marchog gadw Arfau da, ac yn barod at bob rhyw wafanaeth a ofodid arno, a'i ar Fôr, a'i ar Dir.

II. Y dylai'n waftad wneud ei oreu er daroftwng bawb a fyddai'n gorthrymmu ac yn treisio 'r Bobl o'i jawm.

III. Y

---

(y) *Hic jacet Sepultus Inclitus Rex Arturius in In-sula Arallonia vid Camd. p. 65. Ed. Noviss. (x) vid. Camb. Triumph. Tom. 2. fol. 195.*

Inare

III. Y dylai amddiffyn ac ymgoleddu Gwragedd gweddwon rhac magl a niweid Maleifwyr; edfryd<sup>bores tve</sup> Plant a dreifid o'i heiddo at eu gwir feddiant; a maentumio'r Grefydd Gris'nogol yn wrol.

IV. Y dylai hyd eitha' i allu gadw Llonyddwch yn y Deyrnas, a gyrru ymaith y Gelynion.

V. Y dylai chwanegu at bob Gweithred glodfawr; dorri lawr bob campau drwg, gynnorthwyo y Gorthrymmedig, dyrchafa Braint yr Eglwys Catholic, ac ymgoleddu Pererinion.

VI. Y dylai gladdu y Sawdwyr a fyddent yn gorwedd ar wyneb y maes heb feddrod, gwarded y Carcharorion a'r rhai a gaethiuid ar gam, a jachau y rhai a glwyfid yn ymladd dros eu Gwlad.

VII. Y dylai fod yn galonnog i fentro ei Hoedl mewn pob rhyw wafanaeth anrhydeddus, etto fod yn deg a chyfiawn.

VIII. Y dylai, wedi gwneuthur unrhyw weithred odidog, Sgrifennu Hanes am dani mewn Cof-Lyfr, er trag'wyddol Ogoniant i'w Enw, a'i Gyd-farchogion.

IX. Os dyccer dim Achwyniaid i'r Llys am dyngu Anudon, neu Orthrwm, yno y dylai'r Marchog hwnnw a appwyntiai'r Brenin, amddiffyn y Gwirion, a dwyn y Drwg-weithredwr i Farn Cyfraith.

X. Os digwyddai ddyfod un Marchog o wlad ddieithr i'r Llys, ac yn chwennych dangos ei wroldeb, yna y dylai'r Marchog a appwyntiai'r Brenin ymladd ag ef.

XI. Os

XI. Os rhyw Bendefiges, Gwraig weddw neu arall a wnai ei Chwyn yn y Llys ddarfod ei threifio hi, y dylai un (neu chwaneg o Farchogion, os byddai raid) amddiffyn ei cham, a dial y Sarhad.

XII. Y dylai pob Marchog ddyfgu Arglwyddi, a Phendefigion jefaingc i drin Arfau yn gywrain, nid yn unig i ochelyd Seguryd, ond hefyd i chwanegu at Anrhydedd eu Swydd a'i Gwroldeb.

NI chas y Saeson *ddim meddiant*, na'r Deyrnas *chwaith ddim Llonyddwch parhaus* tra fu Arthur yn teyrnau, ar ei fod efe yn ddilys ddigon cyn enwocced Brenin a chyn enwocced Rhyfelwr ar a fu erioed yn y Byd Chrifnogol. Ond ar ôl ei farwolaeth ef (yr hyn a ddigwyddodd yn y Flwyddyn 543) tra'r oedd y fath Liaws gwaftadol o draw yn heidio arnom, Gormes y Saeson a ehangodd fwy-fwy, "megis Cornant gwyllt, ar waith Cafod yn pifty-  
" llio i lawr, fy'n rhuthro dros y Dibyn, ac yn  
" gorchguddio y Dyffryn ifod a Llaïd a graian a  
" cherrig." --- Ac etto ni chawfant ddim cwbl  
Feddiant yn holl *Loegr* hyd yn amfer *Cadwaladr*  
o gylch y Flwyddyn 664; ym mha amfer y bu  
Marwolaeth fawr jawn yn Lloegr, a elwir *Plâ* y  
*Fâll felen*. Ac o achos y Plâ yr ymadawodd *Cadwaladr*  
a'r rhan fwyaf o'r *Brutaniaid* tan ei Lywod-  
raeth ef, ac a aethant at eu Cydwladwyr i *Lydaw*  
yn nheyrnas *Ffraingc*.

DYMA'R pryd y darfu i'r Saeson gael cwbl feddiant yn *Loegr*; ond nid yn wobr o'i Gwroldeb, ond o achos cynnen ac *Ymranniad* yr hên *Frutaniaid*; ac am y mynnei Duw eu cospi am eu holl ffeidd-dra, a'i Dyfstyrwch ar ei Sanctaidd Gyfreithiau. Y Brutaniaid yng *Hymru* a arhofasant yn  
eu

neither

precipice  
mise

eu Gwlad: Hwylt-hwyl o *Loegr* (lawer jawn o honynt) a aethant gyda *Chadwaladr* eu Brenin i *Lydaw*; ond ym mhen amser, fef ar ôl attal y Bla ym *Mhrydain*, dychwelyd adref a wnaethant (z) a phrefwyllo yn y wlad y tu hwnt i *Fristo* a elwir *Cerniw*, † lle yr arhofasant fyth wedi'n, ond bod y Jaith wedi darfod ynawr yn llwyr, oddieithr ryw ychydig mewn naw neu ddeg o Blwyfau. Ac er gwahanu yr hen *Frutaniaid* oddiwrth eu gilydd, fef i *Lydaw* a *Cherniw* a *Gymru*, etto llawer gwaith y gwnaethant ymgais i hyrddu ymaith y Gelynion, a bod yn Ben drachefn; ond gormod o ymorcheff oedd hynny, ac uwch-ben eu gallu: "Megis pan fo *Neidr* wedi ei thorri yn dair Darn, e fydd pob "Darn glwyfus dros encyd yn gwingo, ond etto "heb allu byth ymgydio drachefn.

**Y** SAWL a chwennycho Hanes gyflawn am Helynt Tywylogion Cymru, darlleded Ghronicl *Caradoc o Lancarfan*. Ar y cyntaf un Tywyfog a reolai *Gymru* oll: Ond *Rodri mawr*, yr hwn a ddechreuodd ei Deyrnasiad yn y flwyddyn 843, a rannodd *Gymru* yn dair Rhan rhwng ei dri maib. Gofododd un yng *Ngwynedd*, yr ail ym *Mhowis*, a'r trydydd yn *Neheubarth*; Brenhin-llys Tywyfog *Gwynedd* oedd *Aberffraw* ym *Môn*. Palas Tywyfog Powys oedd ym *Mathrafael*; a Phencyfeifedd Tywyfog *Deheubarth* ydoedd *Castell Dinefwr* ar lan Tywi. Am hyn o beth

---

(z) *Powel's Cron. p. 8.* † *Y mae'r wlad hon iu gweled oddiar amryw Dwynau ym Morgannwg; ac a elwir Cerniw, oblegid ei bod o'r un ddelw a Chern, ar môr o amgylch.*

beth y cân *Dafydd nonmor* yr hwn a Sgrifennodd o  
gylch y Flwyddyn 1450.

*Tri maib i Rodri, mewn tremyn eu cad*  
Cadell, 'Narawd, Merfyn ;  
Rhannu wnaeth yr hyn eedd un  
Rhoddiad, holl Gymru rhy' ddyn.

*glance*

*Wyth cant llawn a'i wrantu,* pen rhinwedd,  
*Pan rannwyd holl Gymru,*  
*A Saith deg llawn waneg llu,*  
*Eisioes oedd oed Jesu.*

*surge*

*Rhannodd a gadodd er gwell,* dawn ufudd,  
*Dinefwr i Gadell,*  
*Y mab hunaf o'i stafell,*  
*Pennaf o wyr, pwy un well.*

*Anarawd gwaftawd dan go'*  
*A gafas Aberffro,*  
*A Daioni Duw yno,*  
*Fe biau breiniau a bro.*

*yn gyfan of good memory*

*Gwir, gwir a ddywedir i ddyn,* Paun iefange,  
*Powys gafas Merfyn ;*  
*Llyna'r modd yr adroddyn'*  
*Treiir rhwng y tri wyr hyn.*

*peacock*

AMCAN *Rodri mawr* yn hyn o beth oedd er  
Diogelwch a chadernid *Cymru* ; fel a hwy yn  
Gydtylwyth yng *Ngwynedd* a *Deheubarth*, y gall-  
ent gydfod fel *Brodyr* ; ac o byddai raid, gyd-ym-  
gynnull eu Lluodd yn erbyn y *Saesn* : Ond hi a  
ddigwyddodd yn llwyr wrthwyneb, canys ben-ben  
yr aethant o hynny allan, fel prin y gwladychodd  
un *Tywyfog* heb ymgecreth a llawer o dywallt  
gwaed. YR

YR enwoccaf o holl Dywyfogion Cymru oedd *Howel dda*, yr hwn a ddechreuodd ei Deyrnasiad yn y Flwyddyn 940. Efe a drefnodd Gyfreithiau da i'w cadw drwy holl Gymru, y rhai a arferid gan mwyaf hyd yn amser *Harri y Seithfed*, Brenin *Lloegr*, ac wyr i *Owen Tudor* o ynys *Fôn*: Pan welodd *Howel*, ebe'r Cronicl, gam-arfer *Defodau* ei wlad, efe a anfonas am Arch-efgob *Ty-Ddewi* a'r holl Esgobion eraill a oeddent yng *Hymru*, a'r holl brif Eglwyswyr a oedd tanynt, y rhai oeddent eu gyd yn Saith ugain; ac hefyd holl Arglwyddi, Baryniaid a Phendefigion y wlad. Ac yna y parodd i chwech o'r rhai doethaf o honynt ym mhob cwmwd ddyfod ger ei fron ef yn ei *Lys* yn y *Ty gwyn ar Dâf*: lle y daeth efe ei hunan, ac a arhofodd yno gyda'i Bendefigion, Esgobion, Eglwyswyr, a'i Ddeiliaid drwy y Grawys mewn *Ympryd* a *Gweddiau* am gymmorth yr *Yspryd glân*, modd y gallai adferu ac adgyweiriaw *Cyfreithiau* a *defodau gwlad Cymru*, er Anrhydedd i *Dduw*, ac er llywodraethu y *Bobloedd* mewn *Heddwch* a *Chyfiawnder*. Ac ym mhen diwedd y *Grawys*, efe a ddetholodd ddauddeg o'r rhai doethaf o'r cwbl, gyda'r *Doctôr* enwog o'r *Gyfraith Blegwryd*, gwr doeth dyscedig jawn, ac a orchymynnodd iddynt chwilio yn fanwl holl gyfreithiau a *defodau Cymru*, a chynnull allan y rhai oeddent fuddiol, ac esponi y rhai oeddent dywyll ac amheus, a diddymmu y rhai oeddent arddigonaid. Ac felly yr ordeiniodd efe dair rhyw a'r *Gyfraith*, sef yn gyntaf, *Cyfraith ynghylch Llywodraeth y Llys*, a theulu'r *Tywyfog*: Yr ail ynghylch y *Cyfoeth cyffredinol*: a'r drydedd ynghylch y *prif ddefodau*, a *Breiniau neillduol*. Ac yna, gwedi eu darllen a'i cyhoeddi, y peris efe ysgrifennu tri *Llyfr* o'r *Gyfraith*; sef un i'w arfer yn waftadol

fasting  
lectore

careful

to amend

waftadol yn ei Lys a'r ail i'w gadw yn ei Lys yn *Aberffraw*, a'r trydydd yn Llys *Dinefwr*, modd y gallai y tair Talaith eu harfer a'i mynychu pan fyddai achosion. Ac i gymhell ufudd-dod iddynt efe a beris i'r Arch-efgob gyhoeddi Yfgymmundad yn erbyn y Sawl oll a'i gwrthladdei hi.--Yma y canlyn ryw ychydigyn o honi.

*to frequent*

“ BARNWR a ddylai wrando yn llwyr, dyscu yn graff, datcanu yn wâr, a barnu yn drugarog. “ A Llyma yr Oed y dylir gwneuthur Dyn yn Farnwr, pan fo pum mlwydd ar hugeint oed ; “ sef yr achos yw hynny, wrth na bydd cyflawn “ o Synwyr a Dysc hyd pan fo Barf arno ; ac ni “ bydd Gwr neb, hyd pan ddel Barf arno: Ac “ nid teg gweled mab yn barnu ar hen wr.

*to repeat gently*

“ RHEIDUS a gerddo dair tref, a naw Ty ym “ mhob tref, heb gael na chardod na gweiffa, er “ ei ddal a'i ladrad ymborth gantho, ni chrogir.

“ A oes dau Frodyr, y rhai ni ddilyant gael “ mwy na Rhan un brawd un-dad un-fam ? Oes. “ O gennir dau fab yn un Dorllwyth y wraig, ni “ ddylai y ddau hynny, eithr Rhan un Etifedd.

*Letter*

“ O derfydd fod Ymryffon, pwy a ddylai war- “ chadw Etifedd cyn y dêl i Oedran gwr, a'i cen- “ edl ei fam a'i cenedl ei Dâd ? Cyfraith a ddy- “ wed, mai Gwr o genedl ei fam a ddylai, rhac i “ neb o genedl ei Dad wneuthur brâd am y tir, “ neu ei wenwyno.

“ Os ymrwym gwraig wrth wr heb gyngor ei “ chenedl, y Plant a ynniller o hono, ni chant “ Ran o Dir gan Genedl eu mam o gyfraith.

“ TRI



“ TRI dyn fy enaid-faddeu [*h. y. euog o far-wolaeth*] ac ni ellir eu prynu; Bradwr Arglwydd,  
 “ a dyn a laddo arall yn ffyrnig, a Lleidr cyfadd-  
 “ ef am werth mwy na phedair ceiniog.

*bridal portion  
 Lie noel*

“ Os gwr a gwraig a yfgarant cyn pen y Saith  
 “ mhlynedd taler iddi ei Hegweddi \* a'i Hargyffreu  
 “ † a'i chowyll, † os yn Forwyn y daeth hi : Ond  
 “ os cyn pen y Saith mlynedd yr ymedy hi a'i  
 “ gwr, hi a gyll y cwbl ond ei chowyll.

*branch*

*a fine*

“ O derfydd bod deu ddyn yn cerdded drwy  
 “ Goed, ac esgynnaiw gwryfgen ar lygad yr olaf  
 “ gan y blaenaf; oni's rhybuddia taled iddo am ei  
 “ lygad o's cyll; ac os rhybuddia, ni thâl ddim  
 “ O derfydd bod dau yn cerdded ffordd, a cha-  
 “ ffael o'r naill Denot: Os y blaenaf a'i caiff, *100*  
 “ rhanned a'r olaf; os yr olaf a'i caiff, ni's rhann  
 “ a'r blaenaf.

“ NI pherthyn dau Boen am yr un weithred.

“ Y neb a ddywetto air garw neu air hagr wrth  
 “ y Brenin taled Gamlwrw † i'r Brenin.

“ Pwy bynnag a gwyno rhac arall, ac a fo  
 “ gwell ganddo tewi na chanlyn, cennad yw iddo  
 “ tewi, a thaled Gamlwrw i'r Brenin; ac yn oes  
 “ y Brenin hwnnw ni wrandewer.

“ Os dyn cynddeiriog a frath ddyn arall a'i  
 “ ddannedd, a'i farw o'r brath, ni's diwg cenedl  
 “ yr

\* Gwaddol. † Dodrefn ty. † Dillad priodas. † Dirwy,  
 fforffed, neu ffein,

“ yr Ynfyd, canys o anian yr Haint y colles efe  
 “ ei Enaid.

“ O derfydd i ddyn brynu anifail gan arall, a  
 “ gwedi ei brynu bod dannedd iddo yn eifiau, a  
 “ mynnu eu difwyn : Cyfreith a ddywed, na  
 “ ddiwygir i canys *Anaf eithr y Croen yw* : a pha  
 “ le bynnag, ni thorro na chig na chroen, *Anaf*  
 “ *eithr y Croen yw.*

*to spoil  
 to amend defist*

“ SEF yw *Mefobr*, \* o caiff Gwr foch yn ei  
 “ Goed o'r pummed dydd cyn Gwyl *Fihangel*  
 “ hyd y 15 dydd wedi *calan-gauaf*, lladded y deg-  
 “ fed o honynt.

*pannage*

CYMMAINT a hyn yn fyrr oblegid Cyfraith  
*Howel Dda.*—Yn y Flwyddyn un cant ar ddeg ac  
 wyth y foddde rhan fawr o Ifel-dir *fflanders*: Y  
 Trigolion gan mwyaf a ddiangasant, ac (a hwy  
 heb un Gartref) a ddaethant i Loegr, gan ddei-  
 fyd ar y Brenin *Harri y cyntaf*, ar iddynt gael ryw  
 Gwrr o'r Ynys i fyw ynddo. *Harri* oedd hael  
 ddigon o'r hyn nid oedd ei Eiddo ei hun, a  
 roddes gennad iddynt fyned i *Ben-fro* a *Hwlph-*  
*ordd* a'r wlad o amgylch. Yn y cyfamfer yr  
 oedd y *Cymru* hwy *ben-ben* a'i gilydd (megis dyna  
 oedd eu hanffawd a'i hanrhâs o hyd) a Gwyr *Ffland-*  
*ers* a gawsant yno *Breswylfa* ddiogel heb nem-  
 mawr o Daro, lle y maent yn aros hyd heddyw.---  
 O gylch cant mlynedd ar ol hynny (a hwy yn  
 afreolus) y daeth *Llywelyn ap Iorwerth* Tywyfog  
 Cymru a Llu arnynt. Ond tra yr oedd efe yn  
 gorphwys a'i Lu ar Gefn *Cynwarchan*, yr anfonodd

L

Saesfon

\* *Mês-gwobr.*

Saesfon Sir Benfro i geisio ammodau Heddwch. Llywelyn a wrthododd eu Cais, ac a fwriadodd unwaith i'w llwyr ddinistrio oddiar wyneb gwlad Penfro; ond ar Ddeifyfiad Forwerth Esgob Dewi efe a ganiattaodd iddynt eu Hoedl, ar eu gwaith (1) yn talu iddo Swmm fawr o aur ac arian. (2) Yn tyngu Ufudd-dod iddo ef a'i Etifeddion ar ei ol. (3) Yn danfon atto ugain o'i Pen-bonedd i fod yn wyflon ar iddynt gyflawni eu Gair. (a)

YN y Flwyddyn 1293 y dycpwyd Cymru gyn-  
 taf dan Lywodraeth Brenin Lloegr; drwy Frad a  
 ffalsder digon gwir, ac er hynny yn well, ie fil  
 o weithiau yn well er Lês cyffredin y wlad, nac  
 yn amfer y Tywyfogion, y rhai oeddent, fel Bleidd-  
 iau rheipus, mor chwannog i fwrddro eu gilydd.  
 Canys pan fu farw Llywelyn ap Gruffydd, y Ty-  
 wyfog diweddaf yng Nghymru o waed diledryw  
 y Brutaniaid, y danfonodd y Brenin Edward y  
 cyntaf, at Bennaethiaid y Cymru, i erchi ddynt  
 ufuddhau i'w Lywodraeth ef, a bod yn Ddeiliaid  
 i Goron Loegr. Ond yna yr attebasant, nad ymo-  
 ftyngent hwy fyth i neb ond i un o'i cenedl ei  
 hun; ac y byddai raid i hwnnw fod o Ymar-  
 weddiad da, ac heb air o Saesneg ganddo. Ac yno  
 y Brenin, pan ddeallodd na thyciai mo'i bygylu,  
 a ddychymygodd ffalsder i'w Siommi. Canys yn  
 y cyfamfer yr oedd Gwraig y Brenin yn feich-  
 iog, ac efe a'i danfones hi i Dref Caernarfon i  
 esgor: A phan anwyd iddi Fachgen, y danfonodd  
 Edward yn gyfrwys ei wala at Bennaethiaid y  
 Cymru, gan ofyn iddynt, A oeddent o'r un Bwr-  
 iad ac o'r blaen? A hwy a ddywedafant eu bod.  
 O'r

(a) Powel's Chron. p. 277, 278.

O'r goreu, ebe *Edward*. *Mi a enwafi chwi Dywysog o'r cynneddsau pa rai yr ydych chwi yn ewyllysio : Ganwyd i mi Fab yng Nghaernarfon, a hwnnw a gaiff fod yn Dywysog i chwi. Un ydyw, ni wyr air o Saes'neg, ac nid all fod dim Bai ar ei Fwyd a'i Fuchedd.* Prin y buont fodlon i dderbyn y *Baban*, etto yn lled ddiflas, megis rhai yn yfed Diod *Wermud*, cyttunô a wnaethant. Ac o hynny allan y cyfenwyd Mab hunaf Brenin *Lloegr*. Tywyfog *Cymru*. *Llywelyn ap Gruffydd* a ryfelodd ar unwaith a holl *Gadernid Lloegr* ac *Fwerddon*, ar Fôr ac ar dŵr. Efe a soddes *Longau'r Gwyddelod*, ac a yrrodd Brenin *Lloegr* a'i Fab a'i holl *Lù* ar ffô (b) Ond yr hwn nid allodd holl *Gadernid Lloegr* ac *Fwerddon* ei orthrechu, a gwmpodd drwy *Frâd* yn ei wlad ei hun. "Felly "Derwen fawr, Brenin-bren y Tyddyn a Saif "yn ddigyffro yn erbyn ystorm, ond Diffaithwr "gerllaw a'i bwr hi i lawr a'i Fwyall "Efe a fradychwyd ym *Muellt* ar ddydd Gwener yr unfed dydd ar ddeg o *Ragfyr* yn y flwyddyn 1282. Ei *Ben* a ofodwyd ar ben *Pawl* haiarn ar *Dwr Llundain*; a'i *Gorph* a gladdwyd mewn *Lle* a enwid o hynny allan *Cefn y Bedd*; ond pa fan enwedigol y mae ei *Feddod*, ni wyr neb o'r *Trigolion* presennol.

disgusted

*Pob cantref, pob tref yn treiddiaw,*  
*Pob tylwyth pob llwyth y sy'n llithraw,*  
*Pob mab yn ei grud y sy'n udaw;*  
*Bychan llês oedd i'm am fy nhwyllaw,*  
*Gadael Pen arnaf, heb Ben arnaw:*

*Monstrake  
 to glide  
 cover*

L 2

Pen

---

(b) *Powel's Chron.* p. 322.

*Pen pan lās oedd lesach peidiaw :*  
*Pen Milwr, pen moliant rhagllaw ;*  
*Pen dragon, pen draig oedd arnaw.*  
*Pen Lywelyn deg, dygn a braw,*  
*I'r byd fod pawl haiarn trwyddaw.*

Gruffydd ap yr Ynad coch a'i cant.

NID yw anghymmwys i ddywedyd gair neu ddau yn fyrr ynghylch yr *Amser a'r Modd* y dycpwyd yr *Iwerddon* dan Goron *Loegr*. *Dermot* mac *Murroc* un o 5 Brenin *Iwerddon*, (wedi ei wthio allan o'i Frenhiniaeth gan *Rydderch* mac *Connar*, yr hwn oedd yn chwennych bod yn Ben ar yr holl Ynys) a wnaeth ei Gwyn wrth *Harri* yr ail Brenin *Lloegr*. *Dermot* a dderbynniwyd yn roesawgar dros ben; canys y gwirionedd yw, yr oedd *Harri* yn bwriadu er yftalm gael meddiant yn yr *Iwerddon*, ac ynawr yr oedd efe yn barnu fod y *Drws* yn agored iddo: Felly efe a anfonas gyda *Dermot* Lû o wyr dewifol, y rhai a diriafant yn *Iwerddon* dydd *Calan-mai* yn y *Flwyddyn un mil un cant deg a thriugain*. *Drwy* *Gymmorth* y *Saesfon*, *Dermot* yn wir a ennillodd drachefn ei *Randiroedd*; ond yna cyn pen dwy *Flynedd* y Brenin *Harri* ei hun a hwyliodd trofoedd, ac a orescynnodd yr holl *Deyrnas* dan ei *Lywodraeth*.

## PEN. V.

*Eilynnod amryw Genhedloedd. Eilun-addoliaeth yr hen Frutaniaid cyn amser Christ. Eu Hoffeiriad a elwid y Derwyddon. Eu Moefau. Yngghylch y Faith Gymraeg.*

CYN rhoddi Hanes neillduol am Goel-grefydd yr hen *Frutaniaid* cyn amser *Christ*, nid yw anghymmws i chwilio allan yr amser y dycpwyd Eilun-addoliaeth gyntaf i'r Byd. Pa mor gynnar y gwrthgilioodd natur lygredig Dyn oddiwrth wafanaeth y Gwir Dduw, nid oes dim Mynegiaeth siccr. Ond Gwrthddrychon cyntaf eu Haddoliad oedd Gwaith y Creadigaeth. *Hwy a dybiafant mai y tân, neu'r gwynt, neu yr awyr buan, neu gylch y Sêr, neu dduwr chwyrn, neu oleuadau'r nefoedd oeddynt dduwiau yn llywodraethu'r byd.* Doeth. XIII. 2. Ond yr Haul yn anad un peth oeddid yn gyfrif yn Dduw, ar ôl myned y wybodaeth o'r gwir Dduw ar goll. Am Ddelwau ac Eilynnod, dywedir mai *Nimrod* mab *Cus* oedd y cyntaf a'i lluniodd gogyfer a'i haddoli. Cymmaint oedd ei Barch at ei Dâd, fel y parodd wneuthur Delw ar ei Lun ef; ac megis yr oedd efe yn Frenin a'r Awdurdod oruchel yn ei Law, efe a barodd i'w holl Ddeiliaid gymmaint i berchi y Ddelw ag oeddent yn berchi ei Dâd tra'r oedd efe byw. Y mae hyn yn gyttun a'r Hanes a rydd Solomon, *Y rhai ni allai dynion eu hanrhydeddu yn eu gwŷydd, hwy a gymmerasant lun eu gwedd hwynt, ac a wnaethant hynod ddelw Brenin yr hwn a anrhydeddent.* Doeth. XIV. 17. *Nimrod* a fu Frenin o gylch cant a hanner o Flynyddoedd ar ôl y Diluw.

*object**in order to**presence*

ANEIRIF oedd y Dychymmygion o hynny allan i ddewis eu Duwiau; *Pob cenhedl oedd yn gwneuthur eu duwiau eu hun.* 2. Bren. 17. 29. Duw'r *Amoriaid* a elwid *Moloch*, am ba un y mac'r Sgrythur yn Son yn fynych. Delw fawr o Brès oedd hi, a'i Phen ar lun Tarw, a Breichiau a'r led megis Breichiau dyn. (c) Y Ddelw oedd gau oddifewn, ac ynddi Saith o Stafelloedd i dderbyn yr Aberthau: Yr ystafell gyntaf a appwyntiwyd i dderbyn Blawd-gwenith; yr ail at Golomennod; y drydedd at Ddafad; y bedwaredd at Hwrdd; y bummed at Lô; y chweched at Ych; ac os neb a offrymmai *Fab* neu *Ferch*, y Saithfed stafell a agorid. Tybir mai'r un yw'r *Moloch* yma ag *Adramelech* Duw y *Sepharfaid* yn 2. Bren. 17. 31. Ac a *Baal* yn *Jerem.* 19. 5.

Y mac yn yr *India* Deyrnas a elwir *Guinea*, (gwlad y *Morus* duon) lle y maent hyd y dydd heddyw yn addoli y *Sarph* (d) math o nadroedd melynion yw y Rhai y maent yn eu haddoli, a Llain frech bob yn ail Refstr, ac heb un *Colyn* <sup>sting</sup> brath. Fe ddigwyddodd o gylch 30 mlynedd a aeth heibio i Fochyn afreolus drachwantu yng ngig un o'r nadroedd hyn, a'i lladd a'i bwytta: Yr hyn pan wybu y Brenin a'r Arch-offeiriad, nid all Geiriau fynegi y Syndod yr oeddent ynddo. Ni waf'naethai ddim ddial eu Llid a gofod Barn cyfraith ar y Twrch a wnaethai y Gyflafan, eithr rhaid oedd dinistrio yr holl Genhedlaeth; Ac oni buafai fod y Brenin yn caru Cig moch, ni adawfid Lldwn hwch yn fyw drwy'r holl Deyrnas ---  
Gwledydd

long slip  
to covet

Sow

(c) *Goodwin's Jewish Antiq. Lib.* 4. p. 137. (d) *Bosman Hist. of Guin* 7. p. 185.

Gwledydd eraill o'r *India* a addolent *Dant* yr *Ab.* Pan gymmerth y *Cris'nogion* y *Dant* oddi-arnynt yn y flwyddyn 1554, hwy a gynnygasant. Lwyth menn o *Aur* ac *Anrhegion* gwerthfawr, er cael y *Dant* yn ôl: Ond y *Chris'nogion* drwy *Gyngor* eu *Hefgob* a wrthodasant y trysor, ac a loscasant y *Dant* yn ulw. Mewn amryw wledydd o *Affrica* y maent yn addoli, *Cathod* a *Llyffaint*, ac mewn rhai mannau, *Pen-garlleg.* -- Y mae rhan fawr o *Drigolion China* ( gwlad fawr a hyfryd tua chodiad *Haul* ) hyd y dydd heddyw yn ddygn anwybodol yn nhrefn eu *Haddoliad*; canys pan y bont wedi blino yn addoli eu *Delw*, yna y dechreuant ddifenwi a melldithio; " Tydi *Gorgi* " cās, ebe hwy, ai dyma fel y cawn ni ein trin " gennych? Nad ystyriech, y *Llumman*, ym " mha fath *Deml* wych y dodasom chwi, mor " hardd y gwiscasom chwi ag aur a *Meini* gwerth- " fawr, a maint o *Aberthau* a laddasom i chwi? " A pha *Gydnabod* fydd gennych chwi, yr *Yf-* " *gerbwd* brwnt, am hyn oll. " Yna hwy a rwy- mant y *Ddelw* a *Rhaffau*, ac a'i dragiant hi hyd yr *Heolydd* gogyfer a'i chospi am ei bod yn peidio gwrando arnynt. Ond os o ddamwain y daw iddynt yr hyn y maent yn ofyn, yna hwy a ddygant yr *Eilun* drachefn idd ei hen-le wedi ei olchi yn lân. Yno hwy a ymgrymmant yn oftyngedig jawn o'i flaen, gan ddywedyd, *Gwir* jawn yr oeddem yn digon byrbwyll pan y gwnelem y fath *Amharch* i chwi, ond oeddech chwithau ar *Fai* i fod mor bengaled? Oni fuasai yn well i chwi fod yn fwyn ar y cyntaf na dioddef y fath *Anfri*? (e)

fiog  
garlic

forvile  
naked one

carcase  
dirty

L 4

MEWN



Mewn Talaith arall o *China*, o flaen myned ynghylch unrhyw weithred bwysfawr, yr Offeiriad a orwedd ar ei wyneb o flaen y Ddelw ar y Llawr gwaftad, gan ymestyn ei Draed a'i ddwylo; ac un arall uwch ei ben a fydd yn darllen mewn Llyfr, tra fo y rhai o amgylch yn canu Clych ac yn ffwrio: Yn y cyfamier y mae Yspryd yn perchennogi yr hwn fydd yn gorwedd; ac allan o law efe a gyfyd ag Edrychiad Salw a chethin ac a rydd ateb, megis Dewin, i bōb peth a ofynnir iddo.--Er ynfytted yw y Rhai hyn (ebe Gwr dyfcedig a duwiol) fe ellir gweled *Rhai* dan enw Cris'nogion mor nawfswyllt a direfwm a hwythau, y *Crynwyr*; canys y maent hwythau yn dechreu yn hir-llaes ac yn oerlyd, ac a Syrthiant ond odid mewn Lewyg: Ond wedi dadebru hwy a floeddiant fel dynion allan o'i Cōf, gan ddadwrdd yn erchyll yn erbyn pob Trefn a Phrydferthwch, a Rheol a Rhefwm. (*f*)

SONIWN bellach ynghylch Delw-addoliaeth yr hen *Frutaniaid* cyn amser *Christ*, y rhai nid oeddent well eu Hamcan na Chenhedloedd eraill; canys Gwrthddrych eu Haddoliad ym myfc pethau daearol, oeddent *Fryniau uchel* ac *Afonydd* (*g*) heblaw *Delwau* gwaith eu Dwylo eu hun. Am ba ham yr addolent Fynyddoedd ac Afonydd, ni's gwn i, oddieithr (*1*) eu bod yn credu fod ryw yspryd bywiol yn treiddio dwy y Byd gweledig, gan mai drwy Yd a ffrwythau'r Ddaear a Dwfr yr Afonydd, y mae ein Bywyd yn cael ei gynnal megis y mae Duw wedi eu hordeinio at hynny. (*2*) Barn

---

(*f*) *Dr More's Divin. Dial. N. 3. p. 217. (g)*  
*Gild. p. 7.*

(2) Barn eraill yw fod yr hen *Gymru* (a hwy etto yn *Asia* ar eu hymdaith o *Dwr Babel*) yn canfod *Mynydd Sinai* yn crynu ac yn fflammio hyd *Entrych awyr* ar waith *Duw* yn rhoddi y deg *Gorchymyn* i'r *Juddewon*; ac o achos hynny anrhydeddent bob *Bryn uchel* fyth wedi'n: A'i bod yn cyfrif *Afonydd* yn *Sanctiaid* yn ôl trawsamcan amryw *Genhedloedd* eraill y rhai oeddent yn barnu fod ryw anian o'r *Duwdod* yn gymysc a dwfr. (h.) --- Tuag at am eu gwaith yn addoli *Delwau*, pan yr ystyrio neb mor wybodus *Dynion* oedd eu *Hoffeiriaid* (fel y dangosaf yn y mann) y mae'n beth rhyfedd yn wir fod cymaint o ddygn *Anwybodaeth* ym mysc y *Bobl gyffredin*. Ond fe ellir tybied, mai nid ar y *Ddelw ei hun* y gweddient, ond y *Gau-dduwiau* y rhai oedd cynnifer *Delw* yn eu harwyddocau (i) Canys y mae *Jul-Caisar* (yr hwn a Sgrifennodd cyn geni *Christ*) yn adrodd, *eu bod yn cydnabod ac yn addoli yr un Duwiau, eu bod o'r un Farn am eu hamryw Awdurdod a'i Swyddau a Phobl Rufain a chanddynt amryw Ddelwau er Anrhydedd iddynt, megis hwythau a Dir Groeg a'r Ital.*

YNAWR y *Gau-dduwiau* y rhai yr oedd yr hen *Frutaniaid*, yn gyftal a *Rhan fwyaf* o *Genhedloedd Europ*, a *Rhan* o *Asia*, yn eu haddoli, a elwid *Sadorn, Jupiter, Mars, Apollo*, yn enwedig *Merchar*

---

(h) *Camd. p. 555. Ed. Noviss. (i) Deum maxime Mercurium colunt; hujus sunt plurima simulacra -- Post hunc Apollinem & Martem & Jovem & Minervam. De his eandem fore quam reliquæ gentes, habent opinionem. Cæs. L. 6. p. 107.*

*Merchar* a bagad eraill: Ac enwau rhai o'i Duwiefau oedd *Rhea*, a *Juno*, a *Fenus*. -- Nid oedd y Duwiau hyn ddim amgen na Dynion marwol, o'r un Anwydau a dynion eraill; ond am eu bod yn wyr enwog yn eu Cenhedlaeth, eu Hwyrion a'i Trâs ar ôl eu dyddiau a berfuadient y Bobl gyffredin mai *Duwiau* oeddent: Ac yn gymmaint a bod y fath Grêd er mantais i'r Gwyr mawr (eu Cyd-tylwyth) tuag at gadw eu Hawdurdod, sef fod y Cyffredin yn coelio mai Duwiau oedd eu Hen-deidau, oblegid hynny, meddaf, y gosodwyd Cyfraith i amddiffyn y fath Opiniwn gwyrgam, rhac y bai neb feiddio ddywedyd yn erbyn hynny. -- Y fath yw *Llygredigaeth natur dyn rhyfygus*. -- Ac yno fel y greddfai yr Opiniwn cyfeiliornus hwn yn ddyfnach etto ym Meddylliau y werin bobl, galwyd y Saith *Planed* ac hefyd ddyddiau'r wythnos ar Enwau y rhai enwoccaf o honynt; megis *Dydd Sul*, \* *Dydd Llun*, † *D. Mawrth*, *D. Merchur*, *D. Fau*, *D. Gwener*, *D. Sadwrn*.

Ac yma, pe dywedwn mai *Cymru* oedd y Duwiau hyn y rhai oedd *Europ* ac *Asia* yn eu haddoli yn amfer yr Anwybodaeth gynt, mi wn eufys y bydd rhai yn barod i chwerthin yn eu Dwrn, a dywedyd, *nid yw hyn ddim ond ffiloreg*. Ond, gan fod gennyf Awdurdod y Gwirionedd i sefyll o'm blaen, mi a ddywedaf yn hy, mai *Cymru* oeddent: *Cymro* oedd *Sadwrn*; *Cymro* oedd *Jupiter*; *Cymro* oedd *Mercurius*; *Cymru* oedd y lleill. -- Nid wyf fi ddim yn dywedyd mai *Cymru* oeddent

---

\* *Apollo, qui et Sol appellatur.* † *Diana quæ etiam Luna nuncupatur.*

*Temper*

*Kindred*

*obliquely Crooked*

*erroneous*

oeddent o'r wlad hon; nac wyf, mi wn well pe-  
 thau: Ond Gwyr oeddent o Hiliogaeth *Gomer*,  
 o'r un Ach a'n Cymru ninnau, ac yn fiarad yr  
 un Jaith. Ac yn wir y mae eu Henwau (pe de-  
 lid craff ar hynny) yn yspysu yn eglur o ba Gen-  
 edl y maent; canys nid ynt na *Lladin* na *Groeg*,  
 ond Cymraeg lân loyw. *Sadwrn* yw Gwr nerth-  
 ol o Fraich i ryfela; ei wir Enw yw *Sawd-dwrn*:  
 Ei wraig a elwid *Rhea*, ac yn Gymraeg ddi-led-  
 jaith *Rhiain*: -- Eu mab a elwid *Jupiter*, ond yn  
 Gymraeg *Fou*, neu *Jefan*, oblegid efe oedd y  
*ieuangaf* o feibion ei Dâd; Enw ei wraig yw  
*Juno* hynny yw *Joan*, neu *Suan*. -- *Mars*, neu  
*Mavors* oedd y gau-Dduw a gyfrifid yn Ymgoled-  
 wr y Gwyr arfog yn rhyfela, a'i Enw cymraeg  
 yw *Mawr-rwysc*. -- *Mercurius* oedd Dduw eu  
 Teithau, a'i wir Enw yw *March-wr*. -- *Apol-lo*  
 oedd Dduw yn cyfrannu Doethineb i ddynion;  
 a'i gywir Enw yw *Ap y Pwyll*, neu fel y dywedai  
 'r hen Bobl, y *Poell*. -- *Diana* oedd dduwies  
 Diweirdeb ac Onestfrydd, a'i gwir enw yw *Dian-  
 af*. -- *Fenus* oedd dduwies y Cariad, a'i henw ar  
 y cyntaf oedd *Gwen*. (k) Y neb a dybio mai  
 chwedlau gwneuthur yw y rhai hyn, darllened,  
 attolwg, waith y Doctor dyscedig *Pezron*, (l)  
 (Gwr o *Lydaw* o Deyrnas *Ffraingc*) ac os gall  
 efe ateb ei Refymmau a'i Awdurdod ef, (yr hyn  
 ni's gallodd neb etto) o'r goreu: os amgen na far-  
 ner arnafi.

CYMMAINT a hyn am eu *Duwiau*; eu Hoff-  
 eiriaid a elwid gynt yn yr hen jaith, y *Druidion*,  
 neu

---

(k) *Roll. Mon. Antiq.* p. 43. (l) *Hist. Nat. C.*  
 14, 15.

*Journey  
 reason*

neu y *Derwyddon*, am eu bod, megis Cenedloedd eraill o gylch *Jerusalem* yn aberthu i'r Eulynnod mewn Llwyni o Goed, yn enwedig dan Gyfod *Deri caeadfrig*. *Ezec.* 6. 13. *Hos.* 4. 13. Gwyr dyfcedig a gwybodol oedd y rhai hyn, ac yn *Farnwyr* mewn achosion Dadl ac Ymryffon, yn gyftal ag yn Offeiriaid mewn perthynasau Crefydd. Felly a hwy yn *Farnwyr* ac yn *Offeiriaid*, y mae'n hawdd barnu mai hwy oedd Pen-ddyscedigion y Deyrnas; a'i Barn a gyfrifid mor ddi-dueddol a chywir, fel nad oedd rydd i'r Pendefig mwyaf o fewn y Deyrnas lai na sefyll wrthi: Ac os rhyw un cyndyn a beidiai ymostwng, efe a escymmuniid allan o law, a'i Gymdeithas a ochelid fel petta'r Plâ arno.-- Hwyt-hwy oedd yn Sgrifennu Hanefion a Bywyd eu Brenhinoedd a pha beth bynnag hynod a ddigwyddai ar Fôr, ar dir, ac ar y wybr. Ond am y Gelfyddyd y dygent eu Disgybllion ynddi, ni chynnygient ofod hynny ar Bapir, rhac i'r Athrawiaeth fyned yn Gyffredin a diystyr. Eu Gwyr iefainc a ddyfsgent mewn Astronomi a chwrs y Planedau, ynghylch maintioli'r Byd, ynghylch mor gywrain oedd pob Aelod a chymmal wedi ei ofod mewn dyn ac Anifail, ynghylch natur a Rhywogaeth Llyfiau, ac yn fyrr ynghylch pob peth a elwir *Philosophi*.-- Yr oeddent yn maentumio Anfarwoldeb yr Enaid, ond hyn oedd eu Camfynniad, Eu barn hwy oedd fod yr Enaid ar ôl ei ymadawiad a'r Corph, yn myned i ysprydoli rhyw un arall, (m) a'r Athrawiaeth hon a bregethafant yn ddwys i annog eu Gwrandawyr i wroldeb a Syberwyd moesau, drwy beri iddynt gredu y  
byddei

To avoid

size  
member

---

(m) non interire animas, sed ab aliis post mortem transire ad alios Cæs. L. 6. p. 107.

byddei eu Heneidiau yn y Tô neflaf mewn Arglwyddi a Phendefigion. -- Pa un a'i bod yn Ddewiniaid ni's gwn i ond y mae'n ddilys fod y Cyffredin yn coelio hyn am danynt, megis y tyftia hen Ddihareb, *Ni's gwyr namyn Duw a Dewinion byd, a diwyd Dderwyddon.* -- Mae'n ddiammeu bod yn cymmeryd poen afrifed yn dyscu y Gelfyddyd i'w Disgyblion, canys ni chyfrifid neb yn *Athrawon* nes eu bod 15, ie a rhai 20 mlynedd yn astudio. Heblaw pethau eraill, hwy a ddysgent ar Dafod-leferydd, filoedd a miloedd o Bennillion ac Odlau. Tybia Mr. *Edward Llwyd* (ac ni wn i, pwy a wyddai well) mai y mesur a elwir *Englyn Milwr* oedd Mesur eu Pennillion. Mi a chwanegaf yma rai o honynt, (hên yn ddiammeu, os nid gwir Odlau y *Derwyddon* eu hun.) Ond gwybydder nad yw y ddwy Fraich gyntaf, ond megis *geiriau-llanw*; yr olaf fy'n cynnwys ynddi Yftyr y chwedl.

*industrious*

*Marchwiaail Bedw briglas*  
*A dyn fy nhroed o wanas,*  
 Nac addef dy Rin i was.

*Saplings  
clasp*

*Marchwiaail Derw mwyn llwyn,*  
*A dyn fy nhroed o gadwyn*  
 Nac addef dy Rin i Forwyn.

*Marchwiaail derw deiliar*  
*A dyn fy nhroed o Garchar,*  
 Nac addef dy Rin i Lafar.

*leafbearing  
gossip*

*Eiry mynydd Pysc yn Rhyd,*  
*Cyrchei Carw Cilgrwm Cwmelyd*  
 Hiraeth am farw ni weryd.

*Eira*

mischievous

Eira mynydd gwynt ai tawl  
Llydan lloergan glas Tafawd  
Odid dyn diriaid di hawl.

= leaf  
dried plants?

misfortune

below  
apron  
bullark

DYWED Rhai mai Eiddo y *Derwyddon* yw'r modrwyau gwydr a elwir *Glain* y *Nadroedd*, a bod eu Disgyblion yn eu gwerthu i'r Bobl gyffredin i'w gwisgo megis Swyn-gyfaredd rhac *Af-wydd*. -- Nid ychydig *Orfoledd* a fyddai gan y *Derwyddon* i gael *Derwen* lle y byddai y *Llyfieuyn* a elwir *Uchel-wydd* \* yn tyfu, am eu bod yn barnu mai ffafr y Duwiau oedd cael y fath. Eu Seremoni ar ar hynny a fyddai, i. ddyfod at y *Pren dan ganu* ym mhen chwe *Diwrnod* ar ol newid y *Lleuad*. 2. Yr *Offeiriad* a ddringai ac a dorrai y *Llyfieuyn* a *Bilwg* aur, tra fyddai eraill obry ar y llawr yn ei dderbyn mewn *Arffedog* wenn. 3. Yno fe ddygid dau *Fustach*, gwynn i gyd oll difai dianaf, ac a'i haberthid ar ucha' *Cromlech*. A'r cyfryw *Aberth* a dybid yn *Swyn-gyfaredd* odidog rhag *Gwenwyn*, a *Haint*, ac *Anffrwythlondeb*. (n)

triumph

wooden chest

OND yr *Aberth* goreu a dybiafont a ryngai fodd y *Duwiau* oedd *Drwg-weithredwyr* y rhai oedd *Cyfraith* y *Tir* wedi eu gadael i farw, megis *Murddwyr* a *Lladron*: Hwya gedwid yn *Garcharorion* mewn *Cist-feini* (y rhai fydd i'w gweled mewn amryw fannau etto *Yng Hymru*) nes cael odfa i alw ynghyd yr holl wlad i weled eu haberthu; ynawr *Cist-faen* yw *Gwâl* neu *Loches* a wneir o chwech *Carreg* megis *Prenfol*, neu *Gist*; sef

\**Viscus quercinus*. *Mistletoe*. (n) *Samme's Britann. Antiq.* vol. 1. C. 7. p. 104. *Plin. L.* 16. *Cap.* 44.

ſef un Garreg-waelod o gylch 7 neu wyth troedfedd o hyd, *duy* bob ochr, un wrth bob pen, ac un *fawr* arall yn *Glawr*. Y fath *Gist-faen* a hon yw *Ty-lltud* ar ben *Twyn* yn *Llan Hammwlch* gerllaw *Aber-Honddu*, *Carn-Lechart* o fewn *Plwyf Llangyfelach* ym *Morganwg*; *Gwâl y Filast* o fewn *Plwyf Llanboydy* iſlaw *Caerfyrddin*; y *Gromlech* ym mhlwyf *Nyfern* yn *Rhandir Penfro*; *Llech-yr-aſt* ym mhlwyf *Llangoedmor* gerllaw *Aber-teifi*; *Cerrig-y-Gwyddel* ym mhlwyf *Llan-Gristiolis* yn *Ynys Fôn*; *Carchar Cynric rhwth* ym mhlwyf *Cerrig-y-Druidion* yn *Sir Dinbech*, ac amryw fan-nau eraill na's gwn i oddiwrthynt.--Ynawr, pan y byddai llawer o *Ddrwg-weithredwyr* wedi eu condemno, y *Derwyddon* a roddent *Orchymyn* i wneuthur *Aberth-eilun* i aberthu i'r *Duwiau*; yr *Aberth-eilun* yma a wnaid ar lun *Dyn*, eithr aruthrol o *Faint*; o *Gangau* coed, a'i *Freichiau* a'i *Draed* ar led, ac a ſicrheid megis *Bwbach* mawr yn y ddaear gerllaw i ryw *Garnedd*: Ac yno y *Carcharorion* a ddygid allan o'i *Cist-feini*, ac a ſicrheuid wrth *Raffau* yma ac accw wrth y *Clo-fennau*, ac yn ddiattreg y cynneuid *Tân odditan* y *Bwbach* i roftio y *Drwg-weithredwyr* yn fyw: A hon oedd yr *Aberth* oreu (yn ole eu *Barn hwy*) a ryngai fodd y *Duwiau*. (o) *Ambellwaith* yn wir, pan na byddai ond un neu ddau, y *Drwg-weithredwr* a aberthid ar *Allor* gerllaw y *Gistfaen*; ac odid un *Gistfaen*, onid oes yno *Garnedd* a *Chromlech* neu *Allor* gerllaw.

AR nos *Galan-mai* y cynneuid *Tân* ar ben pob *Carnedd* drwy'r *Ynys*, lle y byddai un o'r *Derwyddon*,

---

(o) *Cas. de Bell. Gall. L. 6. p. 107.*

*goblin*  
*ramification in trees*



*penance*  
*firebrand*

*Derwyddon*, Ynghyd a'r Bobl o'r Gymmydogaeth honno yn aberthu i'r Tadolion Dduwiau er cael Rhâd a Bendith ar Gnwd y Ddaear : Ac ar nos *Galan-gauaf* y gwnaed yr un peth er talu Diolch, wedi cael Cnwd y ddaear ynghyd. Ar y ddaear amfer hyn, yr oedd pawb o ba radd bynnag yn rhwymedig i ddiffodd y Tàn yn eu Haelwydydd, a than *benyd* Efcymmundod, i ail-ennyn ef a *Thewyn* oddiwrth y Carneddau.

*druid*  
*Support*

YN Ynys Fôn (yn anad un lle arall o fewn yr holl Deyrnas) yr oedd Eisteddfod bennaf yr hen *Dderwyddon*, megis y mae rhai o Weddillion eu Crefydd i'w gweled hyd heddyw, er yn rhwygedig ac yn gandryll; megis amryw *Garneddau*, *Cistfeini*, ac *Allorau*. Ac hefyd amryw o Enwau Llcoedd hyd y dydd hwn sy'n cadw *Coffadwriaeth* eu hen Feistrad, megis *Tre'r Dryw* ynghwmmwd *Mene*, ac o'i amgylch megis tair troed *Trybedd Bod y Druidion*, *Bod-owyr*, a *Thre'r Beirdd*. Yn nhref *Dryw* yr oedd *Pendog* y *Druidion* yn trigo, canys yr oedd *un yn Ben* ar y lleill, megis yn *Bâb*, neu Arch-offeiriad. Yn y lle a elwir *Bod y Druidion* yr oedd Dinas y *Derwyddon*, y neclaf mewn Awdurdod atto: Ym *Mod-Owyr* yr oedd yr *Offyddion*, y rhai yn benna dim a astudient *Phyfygwriaeth*; ac yn *Nhref Beirdd* yr oedd y *Prydyddion* yn canu yn gelfyddgar Hanefion eu Gwyr enwog.

*meat*  
*daring, costly*  
*skids*

CYMMMAINT a hyn am y *Derwyddon*. Tacclufwydd eu Cerbydau rhyfel, eu Medr mewn arfau a soniwyd am dano eufys; Mi a chwanegaf *air* ynghylch nodau March-rhyfel, sef yw hynny, "Cadfarch cadarndew, cerdded-ddrud, llydan-gefn, bron-chang; *gaf-gyfyng*, *carn-gragen*, "ymdeith-

*Hell-hoofed*

“ ymdeith waftad, hywedd-falch, drythyll, llam-  
 “ fachus, ffroenfoll, a’i Lygad yn frithlas dra-  
 “ theryll. “ Dyna nodau’r march Rhyfel o dde-  
 wis yr hen *Frutaniaid*. -- Hwy a fedrent ddarllen  
 a Sgrifennu er ys (o leiaf) fil o flynnyddoedd cyn  
 geni *Chrift*. Mae’n debygol fod ganddynt ychwa-  
 neg o Gelfyddydau nag a gred Bagad ynawr; ie  
 ac ambell beth na wyr holl Gynhildeb yr Oes  
 bresennol ddim oddiwrtho; canys yr oedd gan yr  
 hen *Frutaniaid* fath o Felinau yn troi heb na  
 Gwynt na Dwfr. Mewn Lle a elwir Bryn y  
Castell yn *Edeirnion*, yn yr Oes ddiweddaf, y caf-  
 wyd yn y ddaear Baladr melin o haiarn wyth  
 ochrog cyn braffed a morddwyd gwr, a phen clwm  
 ar y naill ben iddo megis y lle y buasai yr olwyn,  
 a’r pen arall wedi ei yffu gan rwd: yno y cafwyd  
 maen-melin o gylch lllathen o eithaf bwy-gilydd;  
 ac meddant hwy, yr oedd y bedwaredd ran o  
 olwyn y felin honno o haiarn, a’r relyw o gaed.  
 Ac yr oedd maen-tynnu (*Adamant* yw hwnnw,  
 neu *Glicied wisgi*, neu bob un o’r ddau, y rhai a  
 barai iddi droi o honi ei hun, pan y gofodid (*p*)  
 Eu *Bâth* gyffredin oedd Bres a modrwyau haiarn,  
 ond mae’n ddilys fod ganddynt hefyd *Fâth arian*,  
 a *Math aur*. Cafwyd ym mhlwyf *Penbryn* Fath  
 aur o eiddo’r hen *Frutaniaid*, heb ddim Llythyren-  
nau ond *Lluniau* dieithr ni wyddys beth yw eu  
 Hyfyr (*q*) Ac y mae *Bath Caswallen* a ymladd-  
 odd a *Julius Caesar* etto i’w gweled. -- Eu *Dillad*  
 yn y *Gauaf*, (ac nid yno chwaith ond mewn  
*Gauaf* chwerw o *Rew* ac *Eira*; Eu harfer hwy  
 oedd gau mwyaf fyned yn *Noethlumlyn*) Eu  
 M Dillad,

gentle voluptuous  
 diphenhed  
 keen

multitude  
 frugality

high knot  
 oxid

rest  
 spring-catch  
 coin

(*p*) *Dav. Lexic. Sub. Breuan.* (*q*) *Llwyd's Annot in Camd. p. 697.*

roebuck  
homespun  
fringe to hem in

Dillad, meddaf, mewn Gauaf garw, oedd Grwyn Iyrchod a Theirw gwylltion a Bwyffilod eraill; a'i Hardd-wisgoed oedd *Brethyn gwynn pentan*, neu fath o *Frethyn eddi* heb ei bannu, canys nid oes dim siccrwydd fod yma *Bannwyr* cyn amfer Crêd: Hyn oedd Trwfiad y cyffredin; ond y Bonedd a Goreuon y Deyrnas a wisgent *Dabarau* Symmud-liw yn tannu hyd y llawr, a *Thyrch aur* (o waith cynnil dros ben) o bobtu eu Gyddfau a'i Harddyrrau. Yn y modd hwn yr ymdrwyffiodd *Buddug*, \* y Frenhines ddewr honno yr hon a ymladdodd a'r *Rhufeiniaid* o gylch y Flwyddyn o Oedran *Christ* 62 ac a laddodd ddeg mil a thriugain o honynt: Yr oedd am dani Dabar Symmud-liw, Torch aur am eu Gwddf, a'i gwallt melyn yn tannu dros ei hyfgywyddau hyd ei Sodlau. Fe gafwyd un o'r *Tyrch aur* yma wrth gloddio mewn Gardd gerllaw *Harlech* ym *Meirionydd* yn y Flwyddyn 1692.

Smith

ERBYN hyn y mae'n amlwg y deallent waith *Gof*, pan y medrent wneuthur y fath gynnildwaith a *Thyrch aur*, megis y mae Tacclurwydd eu Cerbydau yn dangos y medrent waith *Saer-coed*. Eu Medrurwydd mewn Gwaith *Saer-maen*, eu hamryw Bentrefydd a'i Caerau, ac aml Balafau eu Pendefigion sy'n tyftio: Ac heblaw hynny yr oedd yma 28 o Ddinasoedd caerog yn yr hen amfer gynt, ac ym mhob un o honynt y byddai *Druid* yn Farnwr neu *Ynad*. Ni wyddys yn dda pa rai ydynt, ond bod *Llundain*, *Caerwrangon*, *Rhydychen*, *Caerloyw*, *Caerlleon ar wyf*, a *Chaerfyrddin* yn ddilys ddigon o fewn y nifer. Yr wyf yn

\* *Boadicea. vid. Dio. Cass. Hist. Rom. L. 62.*

yn gwybod o'r goreu fod rhai yn haeru nad oedd  
gan yr hen *Frutaniaid* ddim *Dinafoedd caerog* oll  
cyn dyfod y *Rhufeiniaid* i'r wlad hon.—Nid oedd  
Adeilad y cyffredin yn wir ddim ond Bythau,  
neu Bleth o wiail wedi ei *adail*, a *Lwfer* yn y  
canol, megis y mae digon o'r fath etto i'w gweled  
yng *Nghymru*; a thyna wir ystyr y gair *Adeilad*,  
fef *Adail* o wrysg neu o wiail: Ond nad oedd  
yma ddim amgen Adeilad yn yr hen amser, yw  
peth nad all neb ei brofi allan o hen Hanefion;  
Pe buasai ym *Mrydain* ddim ond *Bythau* a *Phared*  
*gwaiail*, byth ni ddywedasai *Jul-Caisar* [yr hwn  
a Sgrifennodd o gylch hanner cant o Flynyddoedd  
cyn geni Christ] *Hominum est infinita multitudo*,  
*creberrimaque ædificia, fere Gallicis confimilia*. L.  
5. p. 79.

HYNOD oedd eu *Medrusfrwydd* i baentio a bri-  
tho a lliwiau yn enwedig i baentio ar eu crwyn  
Luniau Ehediaid, Bwystfilod, Pyscod ac ymlufci-  
aid: Hyn oedd *Ran* o *Wychder* y *Gwyr mawr*,  
fef eu bod o *Goryn* y *Pen* hyd *wadn* y *Traed* yn  
llawn o Luniau Creaduriaid byw: Math o *Liw*  
*glas* ydoedd, ac ni wisgid mo'no byth allan am ei  
fod wedi ei ollwng i mewn a phigad nodwy i'r  
Croen. Pa un a bod *Rhinwedd* ynddo i gadw'r  
corph mewn *Jechyd*, hynny ni's gwn i; ond y  
mae'n ddilys fod yr hen *Frutaniaid* yn byw yn  
aml i *Saith* *ugain*. [r] *Dyna'r* achos [yn ôl *Barn*  
*Mr. Camden* y *Sais*] o alw yr ynys hon gyntaf  
*Brittania*, hynny yw, eb efe, *Gwlad* y *Dynion*  
*brithion*. Yr oedd *Mr. Camden* yn ddiau yn wr  
dyscedig jawn, ond fe allasai gyda gwell *Gwedd-*

M 2

eidd-dra

plait open chimney

wall

needle

moderation

eidd-dra adael y Ddychymmyg hon fyned gyda'i Freuddwydion. Y gwirionedd yw hyn, efe a fynnei hyrddu ryw beth newydd i olwg y byd; ac o ganlyn llwybr ei drwyn, efe a eifcorodd a'r diwedd ar y Ddychymmyg eiddil hon, yn erbyn pob Awdurdod a Rhefwm.

rose  
feebly

MEWN Phyfygwriaeth, mae'n debygol eu bod yn gallach na Gwyr diweddar sy'n boftio yn ychwaneg o Ddyfc a gwybodaeth; canys nid arferent hwy ddim ond *Llysfau*; ie ac yn gwneuthur ychwaneg o Lesad i'r Cleifion a hwynt yn *unig*, nag y maent ynawr a'i holl Gymmyfc. Ym myfc Doctoriaid yr oesoedd canol, *Meddygon Myddfai* yw y rhai mwya' hynod; a hwynt-hwy oedd *Riwallon* a'i Feibion, *Cadwgon* a *Gruffudd* ac *Einion*; ac yn amfer *Rhys Grug* yr oeddent, yng-hylch y Flwyddyn 1230. Mae Llyfr bychan o Sgrifen-law o'i gwaith, ac yn diweddu fel hyn, *Pwy bynnag ni chymmero fwyd pan fo ei chwant arno, ei Gylla a leinw o Afiachwst, yr hyn a bery y Gwayw yn y Pen.*

stomach

CRWTH a Thelyn oedd y Gerddoriaeth bennaf ym myfc yr hen Bobl. *Symlen ben* bys oedd Gaingc gyffredin jawn *Lledr* oedd dros wyneb y cafn; ac o achos hynny a gyfenwyd y *Delyn Lledr*; y Disgyblion a ddechreuent ganu a Thannau Rhawn; ac a dalent *bedair ceiniag ar hugain* \* ar eu gwaith yn myned yn *Ben-cerddwyr*; canys felly y dywed y *Gyfraith*, "Y neb a tynno yma-dael a Thelyn rawn a bod yn Gerddor cywei-  
"thas,

rough  
house hair

\* Yr oedd hynny yn Swmm fawr o arian yn yr hen amfer, yn enwedig i Grwthwr.

“thas, 24 a ddyly.” Er hoffed oedd y Gerdd-  
oriaeth gan yr hen *Frutaniaid*, nid oedd ei llais  
ynghluffiau *Dafydd* ap *Gwilym* ond megis afgloden  
gwern ym mhen y *Gath*: canys efe a ddywed.

*chip (spander)  
aldericus*

*Ni cherais jowngais angerdd,  
Na'i chafn botymog na'i cherdd;  
Na'i cholydd Sain damwain dig,  
Na'i rhiſant liw na'i rhyſig.  
Drwg yw dan bwyth yr wythfys,  
Llun ei chroth Lliain ei chrys:  
Ni luniwyd ei Pharwyden  
Na'i chreglais ond i Sais hên  
Sain Gwydd gloff anhoff yn yd;  
Sofawr wyddeles ynfyd.*

*poem  
broken  
hollow  
Saffron presumption  
bow  
womb line shirt  
frames  
goose*

Yr hên *Frutaniaid* a eillient eu *Cyrph* yn llwyr  
gwbl, ond y pen a'r wefus uchaf; Eu *Hymborth*  
oedd *Laeth* a *Chig*, ond ni fwytaent hwy ddim  
Cug *Yſgyfarnog*, *Feir* na *Gwyddau*, er bod gandd-  
ynt amledd o honynt. Yr oedd *Bagad* yn dilyn  
*Hwsmonnaeth*, ac yn achlefu eu *Tir* a *Marl* a *thy-*  
*wod* y *Môr*, ac yn cael *Gwenith* a *Haidd* eu  
gwala; yn gwneuthur *Bara* o'r naill, a *Churw*  
o'r llail; ac y mae *Yſpyrwydd* goleu y medrent  
ddarllaw *Curw* a *Bragod* gantoedd o *Flynnydoedd*  
cyn i *Jul-Caiſar* droedio ym *Mrydain*. Eu De-  
fodd oedd i loſci *cyrph* y *Meirw*, a *chafglu* y  
*Lludw* a *thalpau* o'r *Eſgyrn* mewn math o *Yſtên*  
*bridd*, a'i ofod ynghadw yn rhestrau yn y *Crugiau*,  
neu'r *Tommenydd* y rhai fy i'w gweled etto mewn  
amryw fannau. Y mae un hynod, ym *Mhlwyf*  
*Trelech* yn *Rhandir Caerfyrddin* a elwir *Crug* y  
*Deyrn*. Y mae eu *Hallorau* hefyd i'w gweled hyd  
y dydd heddyw, ar y rhai yr aberthid ambell  
waith *Ddynion*; ſef naill a'i *Drwg-weithredwyr*,

*to shave  
hare  
to manure clay  
sand  
a liquor  
jug  
mound*

neu ynteu y Gelynyon a ddelid yn Garcharorion wrth ryfela. Y mae un nodedig i'w gweled etto ym Mhlwyf *Nyfern* yn Rhandir *Penfro* a elwir *Llech y Drybedd*; y Garreg uchaf neu'r Allor fydd 12 llathaid o gylch, ac o du'r Gogledd *Fortais* ynddi, i ddwyn ymaith waed yr Aberth. Pa le bynnag y gwelir tair o gerrig mawrion wedi eu Siccrhau ar eu pennau yn y ddaear, ar dull *Trybedd*, ê fu yno Allor gynt.

Y mae llawer o Sôn am *Afange y Llynn*, a'r *ychen bannog*, ac ni wn i yn dda beth i ddywedyd am danynt. Am yr *Afange*, y Dyb gyffredin yw, mai math o *Ddwfr-gi* go fawr lloftlydan oedd efe, a elwir y *Beser*, yr hwn fydd Greadur ffel dros ben, ac yn trigo yn y *Llynnoedd* a'r Afonydd: Yr oedd efe yn *Nheifi* yn ddiammeu yn amser *Giraldus* Arch-diacon *Brecheiniog*, yr hwn a Sgrifennodd Hanes Cymru o gylch y Flwyddyn 1189. *Hynny yw*, o gylch pum cant a hanner o Flynnyddoedd a aethont heibio. Ond y mae'n beth rhyfedd fod y fath chwedlau ym myc y cyffredin Bobl am dano ynawr, megis pe buafai efe ryw *Anghenfil o faint*; ac er ei faglu a thid haiarn, nid dim ond yr *Ychen bannog* a allei ei lusco allan o'r Llynn. Ac am hynny mi a dybiwn mai *Afange y Llynn* yw'r *Aligator*, neu fath o *Grocodil*, yr hwn fydd fwytffil enbyd ac aruthrol ei Faintioli, a'r hwn a lyngc Ddyn ar *untammaid*, megis y digwyddodd hi amryw brydiau; Ac nid oes dim Blwyddyn etto er pan lyngcodd un o'r *Diawliaid* hyn dri Dyn mewn llai na chwarter awr. Yr *Anghenfil* hagr hwn fydd gyffredin jawn yn Afonydd a Llynnoedd *Affrica* ac *America*: a phwy a wyr amgen onid oedd rhai o honynt gynt yn Llynnoedd *Cymru*? Yr oedd yma gynt *Fleiddiaid*; nid oes  
ynawr

*mar tise*

*tail*

*monter  
to entangle*

*chain*

ynawr un o fewn yr Ynys; ac etto nid oes gan Gyffredin Cymru ddim garwach opiniwn am *Flaidd* na phobl eraill: Ac os y *Crocodil* yw'r *Afangc*, yno y mae'n debygol, mai wrth ddfa ryw *Ang-henfil mawr dros ben*, o gylch 8 neu 10 llathaid o Hyd, y dodwyd *Ychen bannog*, hynny yw, ychen hynod eu grym i'w lusco ef allan, er Gorfledd i'r holl wlad.-- Mi a wn fod hyn yn sawrio mwy o wirionedd nag y sydd mewn rhyw hen Bappiryn, "Y ddau *Ychen bannog* oedd "*Nynnias* a *Pheibaf* y rhai a rithwys Duw am "eu pechodau yn *Ychen bannog*". V. *Archeol. Brit. p.* 237.

AM yr hen *Jaith Gymraeg*, nid oes gennyf i ond ychydig i ddywedyd, ond iddi barhau hyd yn ddiweddar agos yn ddilwyr heb nemmawr o gymmysc; yr hyn ni's gellir dywedyd ond prin am un arall, oddieithr *Jaith yr Fuddewon*, ac *Jaith Arabia*. --- Prin y gall neb, ddeall y *Jaith Gymraeg* yn llawn-fedrus, ond a ddeallo hefyd (o leiaf ryw gymmaint o) *Hebraeg*, *Lladin*, *Groeg* a *Gwyddelaeg*: canys y mae cryn Gyfathrach rhwng y pedair hyn a'r *Gymraeg*. (1) Am yr *Hebraeg*, y mae amryw *Eiriau* wedi tramwy yn *gyfan attom ni*, er maint oedd o *Gymmysc* yn *Nhwr Babel*; megis yn y *Geiriau* hyn a ganlyn, *Acheu*, *Anudon*, *Bwoth*, *Cád*, *Caer*, *Ceg*, *Cefn*, *Coppa*, *Cyllell*, *Golwyth*, *Magwyr*, *Neuadd*, *Odyn*, *Potten*, *Tal*, *Tommen*, gydag amryw ac amryw eraill, nad oes ond ychydig neu ddim *Cyfnewid* rhwng yr *Hebraeg* a'r *Gymraeg*. (2) Am y *Lladin*, y mae y fath *Liaws* o *Eiriau* yn ein *Hiaith* ni, a *Jaith* hen *Bobl* yr *Ital* o'r un *Swn* ac *yftyr*, megis y gall dyn dybied mai o'r un *Dorllwyth* y daeth y ddwy *Genedl* allan: I'n *Hynafiaid* ni *Fenthyccio* amryw o'i *geiriau*,

19 (unpublished)

perjury  
wall



tra fuont hwy yn arglwyddiaethu yma, nid all neb yn ei jawn Bwyll a'i Synwyr ei wadu: ond er hynny y mae'n debygol, iddynt hwythau *fen-thyccio* gan ein Hynafiaid ni o'r blaen, pan nad oedd y *Lladinwyr* etto ond *Gwyr bychain* yn y Byd, a'r *hen Gymru* y tu hwnt i'r môr yn meistroli arnynt: Ac y mae hyn mor ddilys wirionedd, megis a bod eu Hanesion eu hunain yn tyftio'r peth.

(3) Am y *Groegiaid*, nid oes dim rhyfedd fod cymmaint o Gylfondeb rhyngom ni a hwy, canys *Groegwyr* neu *wrdyfod* oedd *Brutus*; a'r un *Lythrennau* oedd gan ein Hynafiaid ni a hwythau ar y cyntaf, megis y tyftia *Julius Caesar* yr hwn a Sgrifennodd ei Hanes o gylch hanner cant o flynyddoedd cyn geni *Christ* (4) Am y *Gwyddelod*, mi a brofais eufys, mai Pobl o'r un *Dorllwyth* oeddem ni a hwytheu o'r dechreuad. Ac y mae'n amhossibl i wybod jawn ystyr Enwau *Afonydd* a *Brynniau* a *Gellydd* a *Chwmmydd* &c. heb ddeall *Gwyddelaeg*.

Y mae yn wir yn y *Faith Gymraeg* amryw eiriau o'r un ystyr a'r *Saesonaeg*; ac yn ddiweddar y mae chwaneg beunydd yn llifeirio iddi oddiwrth y *Saesonaeg*. Ond camfynnied er hynny yw tybied mai oddiwrth y *Saeson* y cawfom ni yr holl Eiriau fy o'r un Sain ac ystyr yn ein Hiaith ni a hwythau: Canys é fu'r *Saeson* amryw *Flynnydd* oedd yngwafanaeth yr hen *Frutaniaid* cyn iddynt yn felldigedig droi yn *Fradwyr* yn eu herbyn: Ac yn yr yspaid hwnnw y mae'n naturiol i gredu eu bod yn bentyccio gan eu *Meistraid*: A'r geiriau hyn a ganlyn yw ychydig allan o lawer, megis, *Anghwrtus*, *Byclau*, *Bargen*, *Cap Cadpen*, *Clap*, *Coft*, *Creffti*, *Crowpper*, *Cwccwallt*, *Ceisfwl*, *Cwpl*, *Cwppan*, *Cweryl*, *Dart*, *Egr*, *Ffael*, *Ffals*, *Ffair*, *Ffol*,

fairiff

*Ffol, Grân, Gronyn, Happus, Hap, Het, Hittia, Ingc, Lifrai, Lleopard, Malais, Maer, Pert, Plàs, Plwm, Sad, Sadler, Siwrnai, Siop, Tasc, Tafarn, Twr, Twrn, Tiler, Ystryd.*

Y mae'r Geiriau hyn oll i'w gweled (gydag amryw eraill) Yng Hywyddau *Dafydd ap Gwilym*, yr hwn ym Marn *Madoc Benfras* oedd *Benial Cerdd ddyfal dafawd*: Ac ebe *Jolo gôch* am dano yn ei *Farwnad*, *Aed lle mae'r ehang Dangnef*, *Ac aed y Gerdd gydag ef*. Nid oedd dim hoffder yn ei amser ef (set o gylch y Flwyddyn 1380.) mewn Bonheddig na Gwreng i Siarad *Saeфонаeg*, er eu bod yn deall eu gwala o *Ladin, Groeg*, ac *Hebraeg*; Ac y mae e'n Gwestiwn, pa un a'i bod *Dafydd ap Gwilym*, neu un Offeiriad arall, neu Bendefig, neu un Gwr dyfcedig pa un bynnag yn yr Oes honno yn *deall Saeфонаeg*, megis y gellir barnu yn dra naturiol wrth y Stori nodedig hon a ganlyn. "Yr oedd Bendefig urddafol o *Ynys Fôn* " a elwid *Owen Tudor* wedi priodi y Frenhines " *Catherin* yr hon a fuafai yn Briod gynt a *Harri* " (y pummed o'r enw) *Brenin Lloegr*. Ni " wyddai'r Frenhines *Catherin* (gan ei bod yn " wraig o *Ffraingc*) ddim gwahaniaeth rhwng y " *Cymru* a'r *Saeфон*, cyn iddi briodi *Owen Tudor*; " yr hyn a wnaeth iddi chwennyech yn fawr weled " rhyw nifer o Gydwladwyr ei Phriod, i gael " gwybod pa un a'i bod cyn Saled dynion ag oedd " y *Saeфон* yn eu portreiadu: Ond yn y cyfamser " y daliwyd *Owen Tudor* a'i Frenhines yn Garchar- " orion yn *ghaer-lleon*: *Owen Tudor* ar hyn a " anfonodd am ei Dras a'i Geraint; ond yn fwy " neillduol am ddau Gâr anwylaf ganddo, a dau " Bendefig urddafol, *Forwerth* ap *Meredyth* ac " *Howel Lewelyn*. Fe ymwelodd ag ef eu gyd " ynghylch

chief  
indivisions

model

“ ynghylch cant o *Ben-bonedd Cymru*, y rhai er  
 “ eu bod yn wyr dyfcedig ac anrhydeddus, etto  
 “ ni fedrent air o *Saesonaeg*; canys pan lefarodd  
 “ y Frenhines wrthynt yn *Ffrangeg* ac yn *Saeson-*  
 “ *aeg*, ni fedrent roddi gair o ateb iddi; yr hyn a  
 barodd iddi ddywedyd, *mai'r creaduriaid mudion*  
*hoywyaf oeddent ar a welsai hi erioed.*“ Y mae'n  
 hawdd cafglu oddiyma na fedrai na Phendefigion  
 na Dyfcedigion Cymru ddim Saesonaeg yn yr oes  
 honno, o gylch *tri chant a deg* o flynyddoedd a  
 aethent heibio. Ac am hynny y mae'n ddilys  
 mai *Cymraeg* yw'r ychydig Eiriau uchod a chwili-  
 ais i allan o Gywyddau *Dafydd ap Gwilym*; ac  
 yn wir y mae'r Pen-cymro y dyfcedig Dr. *Dafies*  
 yn eu cydnabod oll, gydag amryw chwaneg.

*levely*

NID yw hyn ddim wrth y Lliaws a fenthycci-  
 odd y *Saeson* o amfer bwy-gilydd oddiwrth Genhed-  
 loedd eraill i gyfoethogi eu Hiaith, megis y mae hi  
 yn wir ynawr yn Jaith lawn a helaeth. *Ffrang-*  
*aeg* yw llawer jawn o honi, ynghyd ag ambell air  
 bychan o'i hen jaith eu hun. “ Canys, *eb'r Cron-*  
 “ *icl*, yn amfer *Gwilym Gwncwerwr* nid oedd  
 “ Swyddog o *Sais* yn *Lloegr*; a gwradwydd mawr  
 “ oedd alw un yn *Sais*, neu ymgyfathrachu ag un  
 “ o'r Genedl honno, canys hwy a gasheid yn ddir-  
 “ fawr. Ac wrth hynny y mae'n amlwg nad oes  
 “ un Pendefig yn *Lloegr* eithr o Hiliogaeth naill  
 “ a'i o'r *Normaniaid*, a'i o'r *Ffrangod*, a'i ynteu  
 “ o'r *Brutaniaid*: Ac yno yr ydoedd yn Ddihareb,  
*Jack would be a Gentleman, but he can Speak no*  
*French.*

*reproach*

*proper*

Y Geiriau priodol i'r *Gyfraith* sy'n wir ddigon  
 wedi eu colli gan mwyaf yn llwyr, er pan ddo-  
 wyd *Cyfraith Howel dda* heibio; a hi a barhaodd  
 mewr

mewn Grym gan mwyaf hyd yn amter y Brenin Harri yr Wythfed, yr hwn oedd or-wyr i Owen Tudor o Fon. Ond am bethau cyffredin, y mae'r Jaith agos mor ddilwgr etto, ac mor gydnabyddus a deallgar ag oedd hi er ys dauddeg cant o flynydd-oedd a aethant heibio, megis y tyftia y Pennillion fy'n canlyn.

*great-grandson*

*Dychymmyg di pwy Greawdr cread cyn Diluw,  
Creadur cadarn, heb gig heb asgwrn;  
Heb wythen, heb waed, heb pen, heb traed;  
Ac ef ni aned, ac ef ni weled;  
Ef ar fôr, ef ar dir, ni wyl, ni welir;  
Ac ef yn anghywir, ni ddaw pan ofynnir.*

*creation  
vein  
= his self*

Taliefin Ben-beirdd a'i cant i'r  
Gwynt o gylch y flwyddyn 540

*Mis Mawrth mawr rhyfyg adar,  
Chwerw oer-wynt ar ben Talar,  
Hwy fydd hindda na Heiniar,  
Hwy pery lliid na galar;  
Pob edn a edwyn ei gymmar;  
Pob peth a ddaw drwy'r ddaear  
Ond y marw mawr ei garchar.*

*insolence  
field  
crop  
bird*

Aneuryn Gwawdrydd a'i cant  
yn Llys Maelgwyn Gwynedd, 510

*Afallen bren beraf ei haeron  
A dyf yn argel yn argoed Celyddon.*

*fruit*

Myrddin wyllt a'i cant, 570

*Compsa* Y gelain fainwen a oleuir heno  
Ym mhlith Pridd a thywarch;  
Gwae fy llaw lladd mab Cynfarch.

Llywarch hen a'i cant, 590.

## Diwedd y Rhan Gyntaf.



## NOTES.

—

m.p. = misprint in the 1740 edition.

m.p.r. = misprint in the present reprint.

—

*Page. Line.*

- Title. 1. Drych : a view, review. It frequently enters into the titles of books and papers as Drych Christianogawl, Drych yr Amseroedd, Drych Ysgrythyrol, Drych Barddonol, Drych y Dyn Maleisus.
3. Prif: First, early, primitive; Lat. primus 'first.' cf. 'Y Brif Eglwys' and 'Prif Gristnogion' below ll. 12, 13.
5. *Cymru* : 'The Welsh people.' The present distinction whereby 'Cymru' denotes 'Wales' and 'Cymry' 'The Welsh people' was not then drawn. cf. "Arwydd i Annerch y Cymru," the alternative title to "Llyfr y Tri Aderyn," by Morgan Llwyd, 1653.
20. *Mwythig* : 'Shrewsbury.' Many Welsh books were printed in that town during the 18th century.
- Awdur : plu. awduron. 'Awdur' is now generally written 'awdwr,' and through a mistaken notion of the origin of -wr, its plural is sometimes given as 'awdwyr.' From Lat. auctor.
21. ar ac : m.p. for 'ac ar.'
- 3a. 4. *iefangc* : a variant of 'ieuangc;' cf. 'defnydd' and 'deunydd.'
7. *Brydain* : cf. Lat. form Britannia. The form 'Prydain' also appears in the text, together with its mutated forms Brydain, Mhrydain (p. 31, l. 18, &c.). The mutated forms Frydain (p. 27, l. 25, &c.) and Mrydain (p. 37, l. 19, &c.) on the other hand come from the radical 'Brydain.'
12. *Llyfnhau* : m.p. for Llyfnhau.
15. *I ddarllen* : The 'i' is incorrectly introduced here, due to the use of 'to' with the infinitive in English.
17. *yno* : there, thereupon, then. The author generally distinguishes between yna 'there' (a place within sight), and yno 'there' (referred to but not seen) or 'then.'

- Page. Line.*
- 3a. 17. 'i': the author always uses 'i as the postvocalic form of ei 'his,' 'her,' and of eu 'their.' So always in Morgan Llwyd's *Llyfr y Tri Aderyn*, 1653, with and without the apostrophe. Elis Wynne, on the other hand, in *Bardd Cwsc* almost invariably writes 'i in the singular, and 'u in the plural.
18. *Hanesion*: m.p.r. for *Hanesion*.
21. *bob achofion*: 'bob' is usually followed by a noun in the singular.
22. *Rufain*: m.p.r. for *Rufain*.
34. *ei roddi*: an error for 'i'w roddi.'
- 4a. 9. *Ac*: m.p.r.; not in the original.
14. Leland 1506-1552, antiquary to Henry VIII. His *Itinerary*, written in Latin, is an account of English towns, castles, manor-houses, &c., compiled by the king's command.
15. Usher 1581-1656, Bishop of Meath in 1621 and Archbishop of Armagh in 1625. An erudite scholar of great industry, he wrote, amongst other works, '*Britannicarum Ecclesiarum Antiquitates*,' being an account of the British Church down to the seventh century.
- Spelman 1561-1641, an antiquary, knighted by James I. He founded a lectureship in Cambridge for the study of Anglo-Saxon.
- Stillingfleet 1635-1699, Bishop of Worcester, 1689-1699. In 1685, he published his '*Origines Britannicae* or *Antiquities of the British Churches*.'
18. *yn ddilys dtigon*: undoubtedly, unquestionably.
19. *amfer* Crêd: the Christian era.  
*amfer*: m.p.r. for *emfer*.
20. *Gaer droea*: Troy, in Asia Minor.
23. *iw cael*: an error for 'ei cael.'
27. *Rhyfeiniaid*: an unusual form of *Rhufeiniaid*.
34. *hwyt ynt*: Welsh syntax requires 'yw' and not 'ynt.' This violation of the Welsh idiom is all too common in Welsh writings, and is due to the analogy of English.
36. *yn gyfathrachu*: forming an alliance, entering into a compact.
- 5a. 1. *Flynnyddo edda*: m.p. for *Flynnyddoedd a*.  
5. *Gwr Eglwysig*: a clergyman.  
6. *Str Fynwv*: Monmouthshire.
10. *Spïwr*: a hybrid, from English 'spy' and Welsh '-wr.'
13. *drwm-orcheneidio*: m.p. for *drwm-ocheneidio*.
- 14-15. *gymmaint a chymmaint o Beryglon*: so many dangers.

- Page. Line.*
24. *beunydd*: from a hypothetical bobn, the old accus. case of 'bob, dydd,' 'every day.' cf. beunoeth from bobn, noeth from the Latin acc. noctem 'night.'
- 25-6. *y iaith*: we should expect 'yr' before consonantal 'i.' *v.* Elements of Welsh Grammar.
34. *ddichyn*: m.p. for ddichon.  
*min-gammu*: sneering.
- 6a. 4. *oll*: a mistake of the author or a m.p. for holl.  
9. *oni*: we should expect 'na.'  
pheniluno: m.p.r. for phenilunio.  
32. *a*: m.p. for o.
- 7a. 4. *hystyried*: here 'understanding.'  
5. *ar a*: also written 'a'r a' from Med. Welsh 'o'r a' 'ex eis qui,' the 'r' having a pronom. force. For change of 'o' to 'a' cf. 'achos' and 'achub' from Latin 'occasio' and 'occupo.'  
9. *o ddau*: we should expect 'yn ddau.'  
*nag*: the correct form of the conjunction after a comp. of equality (cymmaint) is 'ag' but the comparative proper implied in 'ddau cymmaint' accounts for the 'nag.'  
*feidr*: for 'fedr' by false analogy with 'geilw,' 'deil,' &c.
- 8a. 5. p. 24: m.p.r. for p. 34.
3. 13. *anniolchar*: m.p. for anniolchgar.
21. *Wedi ein*: should be 'wedi i'n.' Pechodau is accus. case governed by 'i,' and 'wedi' governs 'addfedu' in the acc. case. *v.* Grammar chap. on Parsing.
29. *Iwddewon*: William Salesbury was the first to introduce the 'u' into this word. Dr. Morgan, Morgan Llwyd, Ellis Wynne and other later writers, however, continued to write the word without the 'u.' Theophilus Evans was one of the first to re-introduce it.
4. 6. Note the idiomatic use of the conjunctive personal pronoun 'hwythau.'  
*fuont*: The 3rd plu. aorist of this verb regularly ends in -ont as here. Compounds of 'bod,' however, and all other verbs, as a rule end in -ant, though frequent instances of -ont are found in this text and elsewhere.
16. *Haith*: m.p. for *Hiaith*, due no doubt to the preceding 'i.'
12. *Feistraid*: cf. also l. 20. The dropping or non-insertion of 'i,' especially before terminations is more marked in the text than in Dr. Morgan, Morgan Llwyd, Ellis Wynne, and



## Page. Line.

- other writers in Gwynedd. Mr. Gwenogfryn Evans has formulated this rule (*v.* his Reprint of *Llyvyr Iob*, p. 100): "Before such terminations as *-ad, -aid, -ol, -on, &c.*, an *i* should *not* be inserted when following a diphthongal syllable: for example, *adeilad, anifeilaid, Rheidol, ysgolheigon, &c., not adeiliad, &c.*" The usage of the best Welsh writers scarcely bears out this rule, however; thus we have in *Llyvyr Iob*, *argyoeddiad* and *nosweithiau*, p. 16, *breuddwydion*, p. 17, &c.; Morgan Llwyd, 'feibion,' 'deilien,' 'weithiau,' p. 157, &c. Ellis Wynne 'peisieu gleision,' p. 6, &c. So in this text 'weifion,' 'Groegiaid, eigion,' &c. The rule seems to accord with the orthography of the *Mabinogion*.
17. *Burgyn*: corpse, carcase. From *buria* a carcase + dimin. suffix *-cyn*.
- 23-4. This prophecy was made not by Myrddin but by Jonas Mynyw, who flourished about the end of the 10th century.—John Williams, Archd. of Cardigan.
29. *Gwilym Bach*: William of Newburgh (1136-1208), Canon of Newburgh in Yorkshire, and author of a chronicle of English affairs from the Norman Conquest to 1197. He calls himself *Gulielmus Parvus* and is frequently referred to as William Petyt or Little. An edition of his chronicles was issued from Oxford in 1719.
31. *amfer*: m.p.r. for 'amfer.'
35. *dreiddo*: m.p.r. for *dreiddio*.
5. headline. *Peh*: m.p. for *Pen*.
7. *amcan*: conjecture, hypothesis, theory.
- „ *anniben*: bungling, stupid.
9. *Bwyd-llyffant*: agaric, mushroom.
14. *i fymmud*: 'symmud' is probably the direct object of 'amcanaf,' and the use of 'i' is due to false analogy with English 'to' before the infinitive.
18. *tua'i Eppil*: in respect of his descendants.
- 19-20. *ac y bu*: anacoluthon. The sentence is coordinate with 'amlhaodd . . . gymmaint,' and should read 'a bu....'
24. *gafas*: The aor. 3rd sing. in 's' is not uncommon in the text.
6. 12. *Gardd Baradwys*: For the mutation of 'P' into 'B,' see Grammar §218 (e).
15. *chwennychasont i*: For aor. in -ont see Note to p. 4, l. 6; on the improper use of 'i' see

Page. Line.

- Note to p. 5, l. 14. The 's' is an m.p.r. for 'f.'
